

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Dechreuadau a gweithgarwch cynnar John Jones (Myrddin Fardd)

Efans, Nesta

Award date:
2007

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 22. Nov. 2024

**DECHREUADAU A
GWEITHGARWCH CYNNAR
JOHN JONES
(MYRDDIN FARDD)**

Nesta Caren Efans





Un o'r ffotograffau prin o John Jones (Myrddin Fardd).
Tynnwyd hwn tua 1885 gan John Thomas, Lerpwl.



Myrddin Fardd

Lenor diflino, crwydrai y bröydd
Am eiriau'r meini o'r môr i'r mynydd:
Chwiliai lôn plasau a llannau llonydd
A nwyd anniwall am bennod newydd.
Tan noswyl brwd hanesydd – fu'r gwladwr,
A llawn gofiannwr Lleyn ac Eifionydd.

Y Parchedig James Jones, Abermaw
1925



CRYNODEB

Yn y traethawd hwn, ymdrinnir â dechreuadau a gweithgarwch cynnar John Jones (Myrddin Fardd), un o'r hynafiaethwyr mwyaf brwd a gweithgar a welodd Cymru erioed. Ni chafodd ei lafur caled y sylw dyledus yn ystod ei oes faith a phrin, mewn gwirionedd, yw'r deunydd cyhoeddedig sydd ar gael amdano. Ymgais yw'r gwaith hwn, felly, i wneud iawn am hyn.

Prif nod y traethawd yw rhoi sylw i weithgarwch hynafiaethol, barddol a llenyddol Myrddin yn ystod ei flynyddoedd cynnar hyd at 1871. Ar gychwyn y bennod gyntaf, canolbwyntir ar fagwraeth ac addysg Myrddin a'i frawd iau, Owen Jones (Mannoethwy), ym Mynytho, Llŷn, gan gyfeirio hefyd at achau a chrefydd y teulu. Eir ymlaen wedyn i fanylu ar yr hyfforddiant pur wahanol a gafodd y ddau frawd wedi i'w dyddiau yn Ysgol Y Foel Gron, Mynytho, ddod i ben, a'r llwybrau galwedigaethol a droediwyd ganddynt.

Yn yr ail bennod, dechreuir trwy roi sylw i'r amrywiol ddoniau a etifeddwyd gan Myrddin ac Owen ac ymdrinnir â'u campau ym meysydd cynganeddu, arlunio a cherddoriaeth. Sonnir wedyn am y digwyddiad a newidiodd gwrs bywyd y ddau, sef dyfodiad Daniel Silvan Evans i blwyf Llangian, a neilltuir llawer o'r bennod i drin a thrafod y berthynas hynafiaethol arbennig a fu rhwng y tri, a'r modd y dylanwadwyd ar y ddau frawd gan Silvan. Cyfeirir hefyd at ddylanwad cymdeithas y chwarel ar Myrddin a rhoddir cryn sylw i'r dylanwad digamsyniol a gafodd Owen yntau arno a'r gefnogaeth amhrisiadwy a roddodd iddo yn ystod blynyddoedd eu hieuenctid.

Canolbwyntir yn gyfan gwbl yn y drydedd bennod ar farddoniaeth Myrddin a hynt a helynt ei gyfnod o weithgarwch barddol. Ceisir dangos ar gychwyn y bennod pa ddylanwad a gafodd cynnyrch barddol Silvan ar gerddi Myrddin a chymherir gwaith y ddau o ran cynnwys, arddull a safon. Yna eir ati i bwysu a mesur gwir werth barddoniaeth Myrddin a rhoddir sylw i'w ymdriniaeth ynddi o grefydd, natur, serch, marwolaeth, cariad at fro ac yn y blaen. Cyfeirir hefyd at berthynas gythryblus Myrddin â rhai o feirniaid eisteddfodol yr oes a'r prif siomedigaethau a ddaeth i'w ran fel cystadleuydd.

Yn y bennod olaf, trafodir Myrddin yr hynafiaethydd a cheisir dangos ei gyfraniad clodwiw i hynafiaethau Cymru rhwng 1858 ac 1871. Manylir ar ei brif gysylltiadau hynafiaethol, dynion hynod megis Edward Breese a Richard Lloyd, a thynnir sylw at eu dulliau rhwydweithio a'u cefnogaeth gadarn i'w gilydd. Sonnir wedyn am gyfraniad allweddol Myrddin ac Owen i gylchgronau a phapurau newydd y cyfnod, megis Y Brython a Golud yr Oes, gan geisio tafoli gwerth ac arwyddocâd y cynnyrch yng ngwasg gyfnodol Gymraeg y dydd. Terfynir trwy dynnu sylw at bwysigrwydd cyfraniad Myrddin i'r maes hynafiaethol yng Nghymru a'r diffyg cydnabyddiaeth a roddwyd i'r cymwynaswr mawr hwn yn ei oes ei hun.

CYNNWYS

Cydnabyddiaeth	i
Datganiad	ii
Pennod I Gwreiddiau	1-11
Pennod II Doniau a Dylanwadau Cynnar	12-46
Pennod III Dechrau Llenydda: Barddoni	47-105
Pennod IV Hynafiaethau Cynnar a Chyfraniad Hynafiaethol i Gylchgronau (1858-1871)	106-173
Atodiad I Ffotograffau ac Arlunwaith	174-181
Atodiad II Casgliad o Farddoniaeth Myrddin Fardd a Ymddangosodd mewn Cylchgronau a Phapurau Newydd	182-243
Atodiad III Rhestr o Erthyglau a Llythyrau Myrddin Fardd a Ymddangosodd mewn Cylchgronau a Phapurau Newydd	244-248
Atodiad IV Rhestr o Weithiau o Gronfa Myrddin Fardd a Ymddangosodd mewn Cylchgronau a Phapurau Newydd	249-257
Llyfryddiaeth	258-261

CYDNABYDDIAETH

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones ac i'r Athro Branwen Jarvis am eu harweiniad cadarn a'u cefnogaeth werthfawr yn ystod cyfnod yr ymchwil hwn. Elwais yn fawr o'u harbenigedd a'u cynghorion doeth. Diolchaf o galon hefyd i'm teulu am eu cynhaliaeth a'u diddordeb di-ffael ar hyd y blynyddoedd ac i'm diweddar gymar, y Dr Dafydd Arthur Jones, am ei anogaeth gyson a'i frwdfrydedd mawr tuag at y gwaith.

PENNOD I

GWREIDDIAU

Ynghanol bwrlwm llenyddol afieithus y bedwaredd ganrif ar bymtheg, magwyd mewn sawl ardal yng Nghymru nifer o wŷr tlawd eu hamgylchiadau a'u haddysg ffurfiol, a oedd i ddod, maes o law, yn rhai o gymwynaswyr mawr y genedl. Nid oedd Llŷn ac Eifionydd yn eithriad yn hyn o beth. O blith ei gwerin weithgar a gwydn hi y daeth gwŷr hynod megis Richard Lloyd, y crydd o Lanystumdwy a Robert Isaac Jones (Alltud Eifion), y fferyllydd o Dremadog. Felly hefyd eu cyfaill John Jones (Myrddin Fardd), y gof o Chwilog a gychwynnodd ei yrfa lenyddol yn bur sigledig fel bardd ac a ddaeth, ymhell cyn diwedd ei oes faith, yn un o'r hynafiaethwyr mwyaf diwyd a chynhyrchiol a welodd Cymru erioed. Yn wir, yn ôl un o'i edmygwyr, "..... y mae, ac y bydd, Cymru dan rwymedigaeth annhaladwy [i Myrddin Fardd] tra parhau ein iaith a'n cenedl"¹.

Er i Robert Evans (Cybi) nodi ar glawr ei lyfr John Jones (Myrddin Fardd)² mai yn 1837 y ganed Myrddin Fardd, dywed Myrddin ei hun mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr 31, 1902 at ei gyfaill R Jenkin Jones, Aberdâr³, "..... erbyn i mi edrych i'r mater Ganwyd fi Awst 5, 1835"⁴. Fe'i bedyddiwyd ar yr wythfed o'r mis dilynol gan Y Parchedig Henry H Richards, yn fab hynaf i John ac Ann Owen a oedd yn byw yn Nhan-y-ffordd, bwthyn bychan gwyngalchog ar gyrion pentref Mynytho, ym mhlwyf Llangŷn, yn Llŷn. 'Roedd gan y pâr ifanc un plentyn yn barod, sef Margaret, a oedd dair blynedd yn hŷn na Myrddin ac ar Fehefin 4, 1838, ganed Owen, y brawd a fu'n gymaint o ddylanwad arno ac yn symbyliaeth iddo yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Erbyn diwedd 1843, 'roedd dwy ferch arall yn y teulu,

sef Catherine, a aned yn 1841, ac Elin. Yn ôl safonau'r oes, felly, deuai Myrddin o deulu cymharol fychan.

Yng nghyfrifiad 1841, nodir bod John Owen, tad Myrddin, yn hanu o blwyf Llaniestyn, yn Llŷn, ac mai labrwr amaethyddol ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chanddo dair erw o dir. Deuai Ann, ei wraig, o blwyf Llangian, yn ferch i ŵr parchus o'r enw Morris Roberts. Ymfalchiai teulu Tan-y-ffordd eu bod yn ddisgynyddion i Morris Roberts ac wrth frolio'i ddoniau llenyddol ei hun, noda Owen mewn llythyr dyddiedig Medi 18, 1860 at ei frawd Myrddin "..... nid iw gydmaru ag eiddo y Talentog Mannoethwy wyr Morris Tygwyn"⁵. Credai Owen fod ei daid yn ŵr anrhydeddus, felly, ac yn wir, wrth gyfeirio at deulu Myrddin, noda Cybi fod John ac Ann Owen yn dod o "..... gyff urddasol, gan gael eu hunain yn bobl gyffredin, ond parchus"⁶. Yn yr un modd, wrth dalu teyrnged i Owen Jones, yn dilyn ei farwolaeth gynamserol, dywed Y Parchedig Owen Jones (Meudwy Môn) yn ei Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru a gyhoeddwyd yn Lerpwl yn 1870 fod Owen yn "..... hanu o 'gyndadau uchel' ond rhieni tlawd 'o gymeriad disglaer, ac yn barchus yn y byd"⁷.

Fodd bynnag, er gwaethaf ei ymwybyddiaeth o'i dras a'i ddiddordeb mawr mewn achyddiaeth o ddyddiau ei lencyndod, ni thalodd Myrddin fawr o sylw i achau ei deulu ei hun. Ei ddiffyg ymffrost, ei breifatrwydd a'i gasineb niwrotig bron at sioe o unrhyw fath a oedd i gyfrif am hyn, mae'n debyg, ac yntau'n "..... wr gwlad dirodres, syml, ac yn cashau ffasiwn, ffug ymhoiad, a rhodres a chas salon [sic]"⁸. Er hynny, ar farwolaeth ei frawd Owen yn 1866, fe'i hysgogwyd i daro ychydig nodiadau blêr ar ymyl tudalennau un o'i lyfrau lloffion

niferus. Hyd y gwyddys, y nodiadau hyn yw'r unig gyfeiriad ysgrifenedig sydd ar gael at achau teulu Tan-y-ffordd.

Yn ôl Myrddin, “Yr oedd Owen Jones o ochr ei fam yn deilliaw o hen deuluoedd Myllteyrn, Penyberth Yr oedd hefyd yn deilliaw o hen deulu Tan-yr-Allt, Abererch, y rhai oeddynt yno yn byw o ach i ach er’s cannoedd o flynyddoedd, a gellir gweled eu peisarfau yn gerfiedig ar geryg eu beddau, yn mynwent Abererch, yn dangos eu bod yn deilliaw o ddau Lwyth Pendefigol Gwynedd, nid amgen Nefydd Hardd a Chollwyn ab Tangno, Arglwydd Lleyllyn ac Eifionydd”⁹. Cred bersonol Myrddin, felly, oedd fod gwaed uchelwr yng ngwythiennau Owen a’r teulu ac er na fynnai floeddio hynny i’r byd a’r betws, diau iddo gadw’r ffaith mewn cof pan oedd yntau’n cyfeillachu â gwŷr amlwg y genedl, yn ysgolheigion ac yn fân uchelwyr, ymhellach ymlaen yn ei oes.

Efallai mai ôl y cysylltiad teuluol â phendefigaeth oedd y ffaith fod rhieni Myrddin yn llythrennog, er gwaethaf eu hamgylchiadau cyffredin. Ceir sawl cyfeiriad at hoffter John Owen o ddarllen yn yr ohebiaeth a fu rhwng Myrddin a’i frawd Owen wedi i’r olaf symud o Fynytho. Mewn llythyr dyddiedig Ebrill 22, 1863, er enghraifft, dywed Owen wrth Myrddin “..... yr wyf yn anfon 39 o rifynnau o esboniad James Hughes yn fenthyg i fy nhad”¹⁰ a phedair blynedd ynghynt, holai Owen a fyddai’i dad “..... yn ewyllysio i mi dalu am Frython iddo y flwyddyn nesaf”¹¹. ‘Roedd hadau’r athrylith a’r deallusrwydd a nodweddi Myrddin ac Owen, felly, wedi eu hau yn ystod eu dyddiau cynnar ar aelwyd Tan-y-ffordd ac nid yw’n syndod i’r Parchedig Owen Jones (Meudwy Môn) nodi fod Owen yn gallu darllen Cymraeg “yn hylithr”¹² pan oedd

yn bedair oed, ymhell cyn iddo fynychu unrhyw ysgol. Felly Myrddin hefyd, mae'n debyg.

Er mai Methodistiaid oedd John ac Ann Owen, 'roeddynt yn awyddus i'w plant dderbyn addysg ffurfiol ac felly fe'u hanfonasant i'r ysgol leol, sef Ysgol Genedlaethol Y Foel Gron ym mhentref Mynytho ei hun. Ysgol eglwysig oedd hon, wrth gwrs, ac yn y cyfnod yr oedd Myrddin ac Owen yn ei mynychu, addysgid ynddi oddeutu deugain o ddisgyblion gan un athro. Yn ôl yr 'Adroddiadau ar Addysg yng Nghymru' 1847, dysgid "the Bible and Church Catechism, reading, writing, arithmetic, grammar, and, to adult pupils, surveying and navigation"¹³ yn yr ysgol am ffi o geiniog yr wythnos. Â'r adroddiad am Ysgol Y Foel Gron ymlaen i feirniadu safon yr addysg a dderbyniai'r plant oherwydd diffyg cymwysterau ac anwybodaeth yr athro, gan honni "..... His knowledge of the English language was insufficient and that of the children amounted to little or nothing"¹⁴. Terfyna'r adroddiad trwy nodi bod adeilad yr ysgol angen ei atgyweirio'n ddybryd.

I'r ysgol hon yr aeth Myrddin ac Owen pan oeddynt yn chwech oed a gwahanol iawn fu eu hynt a'u helynt ynddi. Ni fu rhyw lawer o lewyrch ar Myrddin yn ystod ei ddyddiau ysgol ac adlewyrchir hynny yn y prinder gwybodaeth sydd ar gael am ei addysg ffurfiol a'i lencyndod dilynol. Disgleiriai Owen mewn sawl pwnc, fodd bynnag, yn arbennig felly mewn mathemateg, sef y pwnc yr arbenigai ei athro ynddo. Oherwydd iddo ddangos cymaint o addewid, bu Owen yn ddisgybl yn Ysgol Y Foel Gron am bron i ddeng mlynedd nes ei fod yn bymtheg oed ac yn ddigon hen i symud ymlaen i addysg uwch. Daeth dyddiau ysgol Myrddin i ben pan oedd yn ddeuddeg oed ond daliai i gofio am

Hugh Ellis, ei gyn-athro, ac yn ystod ei gyfnod o weithgarwch barddol, cyfansoddodd Myrddin gerdd yn deyrnged iddo a chana'i glodydd drwyddi draw:

Ba fodd, nis gwn i ba faint – i'w adrodd
Am wrhydri cywraint
Y brwd Elis, - mae'n llawn braint,
A gwir hyfryd ragorfraint

Mae'n dad i dalent llawer plentyn – gwael,
Ond gwych iawn ei goryn;
Pyla! yntau y plentyn
Bychan, llad, mae'n dad y dyn!

Mawr ethawl Omeriaethydd, - ydyw ef,
Ac od naturiaethydd,
Rhesymwr a rhifwr rhydd,
A thra enwog athronydd

Bloeddier, rho'ed llawer llu, - wys bereiddfawr
Nes bo'r Wyddfa'n crynu,
I wr call – henafgwr cu,
Ac amrant llygad Cymru.¹⁵

Yn ychwanegol at eu haddysg ddyddiol, derbynai Myrddin ac Owen addysg dra gwahanol yn ôl tystiolaeth W T Jones, Llanbedrog, mewn llythyr dyddiedig Ionawr 9, 1909 at Myrddin. Ynddo, cyfeiria at “..... Capel Peniel MC Llanbedrog. Capel eich rhieni ac mi gredaf eich cyrchfan chwithau pan yn fachgen”¹⁶ a chofia Myrddin ei hun “..... yn hen ysgol capel mawr Big-street [Llanbedrog] pan oedd dyddiau mabandod ar fy mhen”¹⁷. 'Roedd deuliaeth grefyddol ym mywydau cynnar y ddau frawd, felly; addysg eglwysig yr ysgol ddyddiol ac addysg ymneilltuol yr Ysgol Sul. Byddai'n rhaid i'r naill gred neu'r llall orchfygu yn y pen draw. Oherwydd ei amgylchiadau addysgol, digwyddodd hynny'n gynnar yn hanes Owen a bu'n aelod ffyddlon o'r eglwys am y rhan helaethaf o'i oes fer. Nid felly Myrddin. Ciliodd ef bron yn llwyr oddi wrth grefydd

enwadol pan oedd yn ifanc a noda E D Rowlands, prifathro Ysgol Chwilog 1908-27 a chyfaill agos i Myrddin ar ddiwedd ei oes, mai “..... Syniad rhai am Myrddin oedd ei fod yn ddyn digrefydd. Camgymeriad dybryd Undodwr oedd ei ddaliadau crefyddol”¹⁸. Parhaodd Myrddin i arddel ymneilltuaeth ei rieni trwy gydol ei fywyd, felly, er na wnaeth “..... broffes gyhoeddus o grefydd erioed”¹⁹, fel y dywed Y Parchedig J Davies (Isfryn).

Fodd bynnag, trodd Owen ei gefn yn llwyr ar anghydfurfiaeth ei rieni, mae'n debyg, ar ddiwedd ei gyfnod yn Ysgol Y Foel Gron. Ac yntau'n fachgen deallus, diau ei fod yn ddisgybl-athro yn ystod ei flynyddoedd olaf yn yr ysgol a chan ei bod yn rheol mewn sawl Ysgol Genedlaethol yn yr ardal y dylai pob disgybl-athro fynychu'r eglwys, ymddengys mai dyma pryd y dechreuodd tröedigaeth grefyddol Owen Jones. Fe'i cwblhawyd, yn ddi-os, yng Ngholeg Hyfforddiadol Gogledd Cymru, Caernarfon.

Coleg eglwysig oedd hwn o 1849 ymlaen ac fe'i sefydlwyd yn unswydd i hyfforddi bechgyn ifainc addawol i fod yn athrawon mewn Ysgolion Cenedlaethol. Yn ôl Robert Roberts, myfyriwr yn y coleg yn 1851/52, “..... There was a sort of education mania in Wales at that time. The Report of the Parliamentary Commissioners had exposed the inefficiency of the old systems used by untrained masters, and the ‘new broom’ trained masters had started to work in fine style The clergy of the Church of England entered heartily into the movement”²⁰. Yn 1853, ynghanol yr awyrgylch gynhyrfus hon ym myd addysg, yr aeth Owen Jones, yn fachgen pymtheg oed, i'r coleg yng

Nghaernarfon a'i fryd ar fod yn un o athrawon ysgubol y drefn newydd.

Fel Robert Roberts o'i flaen, bu'n rhaid i Owen sefyll arholiad cyn cael ei dderbyn yn fyfyrwr yn y coleg. Ceir disgrifiad byw o'r digwyddiad yn hunangofiant Robert Roberts, "..... the vicar and curates were all there, primed as we thought with posers, and the committee formed a sort of chorus behind, grim and severe looking We had first a viva voce examination chiefly in Scripture and the Catechism, one of the Committee men now and then putting in a question; and we had then a few questions set in writing to answer"²¹.

Wedi llwyddo yn yr arholiad cyntaf, 'roedd yn rhaid i fyfyrwyr y coleg ganolbwyntio ar bynciau megis mathemateg, daearyddiaeth, hanes, ac, wrth gwrs, ysgrythur, a hynny o dan oruchwyliaeth Y Parchedig B J Binns, pennaeth ac unig athro llawn-amser y coleg. Pan ofynnodd y darpar-fyfyrwr Robert Roberts chwilfrydig i fyfyrwr o'r enw Bob Evans a oedd yn mwynhau bod yn y coleg, atebodd hwnnw'n swta "Well, it is not exactly Paradise. We have rather too much Church and night meetings, and preachings and prayings"²². Nid yw'n syndod, felly, i fyfyrwyr y coleg, ac Owen Jones yn eu mysg, gael eu trwytho yn nysgeidiaeth yr eglwys, er i Robert Roberts dystio "I do not think that there was one of us who had been brought up in the Church of England from infancy. We were all a sort of converts, mostly from Methodism"²³.

Er i Owen ddangos cryn addewid yn y coleg ac ennill "amryw wobrwyon am ei lafur dyfal"²⁴ yn ystod y tair blynedd a dreuliodd yno, ymddengys nad oedd bywyd yn fêl i gyd iddo ef

na'i gyd-fyfyrywyr. Fel yr eglura Robert Roberts "..... One week out of six was spent at the "Model School" for the purpose of obtaining a practical knowledge of the art of teaching the Caernarvon boys were so thoroughly savage in their manners, and behaved so rudely to the 'Trainers' that our attempts at teaching them were on the whole a greivous failure and the week at school was a weariness of spirit. If we attempted to chastize any of these promising pupils, we were sure to have a crowd about us on our way home, enraged women volleying Billingsgate and their precious offspring volleying stones after us. Appeal to the Head Master was useless, for he would say that this unpopularity only indicated our want of efficiency as teachers"²⁵. Nid oedd profiad o'r fath yn ddymunol i unrhyw fyfyrwr ifanc, yn arbennig felly i fachgen addfwyn a chydwybodol fel Owen. Pwy a wŷr nad oedd achlysuron cyffelyb yn gynsail i'w benderfyniad i newid cwrs ei fywyd a hynny ym mlodau ei ddyddiau fel athro. "Gwn", meddai'n benderfynol mewn llythyr dyddiedig Hydref 22, 1861, at Myrddin "na byddaf mwyach yn ysgolfeistr."²⁶

Tra oedd Owen yn ddisgybl-athro yn Ysgol Y Foel Gron ac yn fyfyrwr yng Ngholeg Hyfforddiadol Gogledd Cymru, 'roedd Myrddin yn prysur feistrol i'r grefft o fod yn of. Pan adawodd yr ysgol yn 1847, aeth yn brentis i Efail Plas Hen yn Llanystumdwy ac yno y bu am rai blynyddoedd cyn symud o'i gynefin, am y tro cyntaf, i weithio yn rhai o chwareli Arfon a Meirion ac yng Ngweithfa De Winton, Caernarfon. Ac yntau, fel Owen ei frawd, yn berffeithydd wrth natur, datblygodd Myrddin i fod yn grefftwr cywrain. 'Roedd yn "..... un o ofaint medrusaf Sir Gaernarfon"²⁷ yn ôl Bob Owen a haera Cybi na "..... ollyngai ddim o'i law, heb gamp arno"²⁸. Ceir sawl

enghraifft o'i waith ym mhentref Chwilog heddiw, dros bedwar
ugain mlynedd wedi'i farwolaeth. Gwelir ynddynt ei
ddyfeisgarwch a'i gywreinrwydd fel gof a hefyd ei arfer o
gynnwys siâp rhyw anifail neu'i gilydd mewn amryw o'i
greadigaethau (gweler tudalennau 176 a 177, Atodiad I).

Er gwaethaf ei fedrusrwydd yn ei grefft, fodd bynnag, nid hi a
aethai â'i fryd ac meddai un o gyfoedion Myrddin wrth
E D Rowlands “..... cyboli gyda rhyw lyfrau y byddai
[Myrddin] o hyd” pan oedd yn llanc”²⁹. Er i'w ddyddiau ysgol
ddod i ben yn 1847, wedi cwta chwe blynedd o hyfforddiant
ffurfiol, felly, dim ond megis dechrau oedd addysg y gof ifanc o
Fynytho.

-
- ¹ CPGC, Bangor. Casgliad Cyffredinol 5048. (Mae lle i gredu mai'r Parchedig John Daniel (Rhabanian), ysgolhaig, hynafiaethydd ac awdur Odlau Barddas (1888) ac Archaeologia Lleyensis (1892) a wnaeth y sylw).
- ² Lluniwyd y cofiant hwn yn wreiddiol ar gyfer y gystadleuaeth "Bywgraffiad byr, poblogaidd, o unrhyw Gymro neu Gymraes o fri cenedlaethol, nid cyfoes, heb fod dros 20,000 o eiriau" yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1943, ac fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Gomer, Llandysul, ddwy flynedd yn ddiweddarach.
- ³ R Jenkin Jones (1835-1924). Gweinidog, athro, hanesydd ac emynydd. Bu'n olygydd Yr Ymofynydd ddwywaith a chyfrannai'n gyson at gylchgronau megis Y Geninen, Cyfaill yr Aelwyd a Cymru ar faterion hanesyddol. Ysgrifennai'n helaeth hefyd ar bynciau addysgol a diwinyddol a chyfrolau o'i eiddo ef yw Emynau Mawl a Gweddi (1878) ac Emynau ac Odlau (1895).
- ⁴ Casgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru 14157B.
- ⁵ Casgliad Cwrt-mawr 1195A, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. [Un o ffugenwau llenyddol Owen Jones oedd 'Mannoethwy'. Rhai eraill o'i eiddo oedd 'Lleynwysen', 'Cian', 'Pedrog', 'Maldwyn', 'Mihangel', 'Myfyr', 'O' ac 'O Wen'.]
- ⁶ op.cit., t 21.
- ⁷ t 623.
- ⁸ 'Marw Myrddin Fardd' gan Hen Gyfaill yn Y Genedl Gymreig. Awst 2, 1921, t 3 (camgymeriad yn y rhifo – t 5 i fod).
- ⁹ Cwrt-mawr 573B.
- ¹⁰ Cwrt-mawr 1195A.
- ¹¹ *ibid.*
- ¹² loc. cit., t 623.
- ¹³ Adroddiad ar Llangian Church School gan John James.
- ¹⁴ *ibid.*
- ¹⁵ Yr Herald Cymraeg, Mai 5, 1860, t 4.
- ¹⁶ Cwrt-mawr 1179C.
- ¹⁷ Yr Herald Cymraeg, Awst 25, 1860, t 1.
- ¹⁸ Ysgrif anghyhoeddedig ar 'Myrddin Fardd'.
- ¹⁹ Y Geninen, Hydref 1922, t 197.

²⁰ The Life and Opinions of Robert Roberts, 1923, Caerdydd, t 255.

²¹ op. cit., t 251.

²² op. cit., t 253.

²³ op. cit., t 257.

²⁴ Y Bywgraffiadur Cymreig, 1953, t 471.

²⁵ op. cit., tt 256-57.

²⁶ Cwrt-mawr 1195A.

²⁷ Y Cymro. Ionawr 22, 1959, t 6.

²⁸ op. cit., t 22.

²⁹ op. cit.

PENNOD II

DONIAU A DYLANWADAU CYNNAR

Oherwydd ei dras led fonheddig, 'roedd deallusrwydd a hoffter o ddiwylliant yn rhan annatod o gyfansoddiad Myrddin. Gwir nad amlygodd y rhain eu hunain yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol i'r un graddau ag a wnaethant yn achos Owen ei frawd ond buan iawn y dangosodd Myrddin yntau yr un awch am wybodaeth ac, i raddau, yr un addewid â'i frawd iau. Yn ôl

Y Parchedig John Daniel (Rhabanian), "[Myrddin] has read a great deal, and has made use of every means within his power to obtain knowledge"¹ a disgrifia Myrddin ei hun "yng nghymdogaeth dawel Afon Dwyfor lle treuliais oriau difyr a diofal ieuencid yn eistedd yn y cudd wrth ochr cnwd o feillion yn darllen rhyw hen lyfryn llarpiog"². Hawdd iawn y gellir dychmygu'r llanc sensitif, myfyrgar yn pori drwy lyfrau di-rif ynghanol unigeddau prydferth natur ei fro enedigol. Yn wir, bu'r hoffter cynnar hwn o encilio yn elfen amlwg o'i gymeriad trwy gydol ei oes – arferiad a roddodd hwb sylweddol i'w waith fel hynafiaethydd ond a fu'n gryn rwystr iddo yn ei berthynas â phobl. "Encil yr ymchwiliwr oedd ei fyd ef"³ meddai Robert Evans (Cybi) a llyfrau oedd ei gyfeillion pennaf am y rhan helaethaf o'i oes.

Tystia J O Williams (Pedrog) i hynodrwydd pellach teulu Myrddin trwy nodi bod "rhyw eneniad awenyddol ar bob un"⁴ ohonynt. 'Roedd o leiaf tri aelod o'r teulu'n ymhél â barddoniaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef Myrddin, Owen ei frawd a Richard Roberts (Bardd Treflys), cyfynder iddynt ar ochr eu mam o Garthmorthin, plwyf Treflys. Ym maes barddoniaeth yn unig y cafodd Myrddin fwy o lwyddiant nag Owen yn ystod y blynyddoedd cynnar ac er mai

dim ond am oddeutu deng mlynedd y bu'n barddoni'n gyson, buan iawn y daeth i'r amlwg fel bardd – nid, rhaid prysuro i ddweud, oherwydd bod ganddo ddawn arbennig yn y grefft ond yn fynych oherwydd na allai ffrwyno'i natur ddadleuol pan nad oedd y beirniaid yn ffafrio'i waith ef. Mewn llythyr at ei frawd ym mis Awst 1865, fodd bynnag, cydnebydd Owen fod Myrddin yn “fardd ymarferol a hyddysg yn ei waith”⁵ ond yn sicr, nid yw'n haeddu clod di-sail Y Fonesig M J Jones-Parry, Aberdunant, Tremadog, pan gyfeiria ato fel “one of the few great Bards left in our dear country!”⁶ yn 1885. Er ei fod yn greadur swil a mewnblyg o ran natur, diau fod Myrddin, un o ddisgynyddion teuluoedd amlycaf Llŷn ac Eifionydd, yn ymhyfrydu yn yr urddas a'r arwahanrwydd a ddaeth i'w ran yn sgil yr anrhydedd o fod yn fardd. Yn wir, bron na ellir ei ddychmygu'n cilwenu'n hunan-foddhaus wrth ddarllen y sylwadau a ganlyn yn llythyr Richard Williams, Chwarel Lechi Ffestiniog: “yr oedd y merchaid braidd wedi dychryn pan wybasant mai MF oeddych rhag ofn i chwi ‘wneud canu iddynt’ canys y mae arnynt ofn Bardd yn eu calon”⁷

Nid oedd Owen, ar y llaw arall, yn awyddus i'r byd a'r betws wybod ei fod yn gynganeddwr medrus ac ni fynnai gael ei ystyried yn fardd ar unrhyw gyfrif. Fel y tystia'r Parchedig Owen Jones (Meudwy Môn), “nid oedd [Owen] braidd un amser yn amcanu at farddoni”⁸ er ei fod, yn ôl gohebydd Yr Herald Cymraeg, “yn fardd cywrain a hyddysg yn neddfau Cerdd Dafod, ac yn gymrawd hylithr yn arferiadau yr hen Dderwyddon”⁹. Nid barddoniaeth oedd ei hoff gyfrwng, fodd bynnag, ac eto, nid oedd ei awen yn gwbl segur. Ym Mehefin 1863, fe'i hanogir gan John Edwards, cyfaill iddo o'r Swan Inn,

Llanfair Caereinion, i ymarfer ei grefft oherwydd bod “Llundain yn ddigon eang o destyn Awdl i’ch awen chwithau”¹⁰ ac yn un o’i lyfrau lloffion niferus, dywed Myrddin fod Owen “yn barddoni hyd yn nod mewn iaith rydd”¹¹. Ymhellach, dywed Owen ei hun “am yr englynion, nid ydyw Meiriadog na minau wedi gwneyd yr un eto”¹². Ac eto, nid oes unrhyw un o’i gyfansoddiadau barddol ar gof a chadw, ffaith sy’n adlewyrchu o bosibl ei ddiffyg hyder ynddo’i hun fel bardd a’i anallu i gyrraedd y safonau uchel a osodai iddo’i hun bob amser. Weithiau, cuddiai ei anniddigrwydd y tu ôl i sylwadau gwawdlyd ac efallai therapiwtig am ambell i fardd gwlad. “Yr wyf yn lletya gydag un sydd yn ystyried ei hun yn ddarn o brydydd”, meddai wrth y bardd Meiriadog ym Mai 1863 “ond nid yw yn honi un gyfeillach a’r cleciadau cynganeddol adnabyddir ef wrth yr enw Ellis Jones gwneuthurwr gwlaneni yn Llanwyddelan a’r Drefnewydd a phan y trawssymudir ef i’r byd barddonol ei enw yw Masnachydd Caerludd”¹³.

Ni allai Owen oddef yr hyn a ystyriai ef yn amaturiaeth ac amherffeithrwydd o unrhyw fath ac mae’n amlwg nad oedd am gystadlu â’i frawd hŷn ym maes barddoniaeth er iddo gydsynio i roi Myrddin ar ben y ffordd ynglŷn ag un o awdlau’r hen feirdd ym mis Chwefror 1860. “Yn y cyffredin, y mae iaith arferedig y Beirdd uwchlaw fy nealldwriaeth egwan ac felly bydd y beiau a nodaf yn gyfyngedig braidd yn hollol i’r gynghanedd.

Ymddengys i mi fod mwyn a mad yn yr englyn cyntaf yn berthynasau rhy agos i wneuthur defnydd gwahanol o honynt ‘Twr adail eu trawiad’ cynganedd wallus. ‘Twr adail eu trawiadau’ fuasai yn gywir o ran cynghanedd”¹⁴. Dyma enghraifft ardderchog o sut yr âi’r ddau gynganeddwr ifanc ati i drin a thrafod barddoniaeth yr hen feirdd a pherffeithio eu crefft

eu hunain yn sgil hynny. Diddorol sylwi mai Owen, y lleiaf hyderus o'r ddau fel bardd, sy'n rhoi'r arweiniad yn yr achos hwn a phwy a wŷr, pe bai wedi sicrhau bod ei gyfansoddiadau yn gweld golau dydd yng nghyhoeddiadau ac yn eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol y cyfnod, efallai y byddai yntau cyn amlyced os nad yn amlycach na Myrddin fel bardd.

Etifeddodd Myrddin ac Owen dalentau celfyddydol hefyd. 'Roedd Myrddin, er enghraifft, yn arlunydd pur dda a defnyddiodd ei ddawn yn bennaf i gyfoethogi ei ddarganfyddiadau hynafiaethol. "Ysgrifennodd hanes Cromlechau, Meini Hirion, Amddiffynfeydd, Caerau a Chestyll Sir Gaernarfon, gan dynu darluniau celfydd o honynt â phin ysgrifenu."¹⁵ Gweler enghreifftiau¹⁶ ar dudalen 178 yn Atodiad I.

Mae'n debyg mai'r enghraifft orau o'i ddawn fel arlunydd, fodd bynnag, yw'r gwaith ardderchog a gynhwysodd yn y llyfr lloffion rhwymedig Arfau Bonedd a gynhyrchodd yn 1874 ac sy'n orlawn o ddarluniau coeth o arfau hen deuluoedd bonheddig Llŷn ac Eifionydd. Yn eu mysg, ceir arfau ei gyndadau yntau fel y gwelir ar dudalen 179 yn Atodiad I¹⁷. Arlunio'n achlysurol i'w ddibenion ei hun a wnâi Myrddin gan amlaf ac ni fynnai lawer o gyhoeddusrwydd i'w greadigaethau. Eto, tybed a gynhwyswyd rhai o'i ddarluniau pin ac inc yn ambell un o gylchgronau'r cyfnod, Cymru O M Edwards er enghraifft?

Tra ymhyfrydai Myrddin mewn arlunio, cerddoriaeth a âi â bryd Owen ac yn ôl 'Hen Gyfaill' yn Y Genedl Gymreig 'roedd yn "gerddor gwyh"¹⁸ ac yn "ganwr amryw offerynau"¹⁹. Ymddengys iddo ymgyfeillachu â rhai o gerddorion plwyf

Llanbedrog yn ystod blynyddoedd ei ieuenctid a hynny, mae'n debyg, a feithrinodd y ddawn gerddorol gynhenid a feddai. Flynyddoedd yn ddiweddarach, etifeddodd unig fab Myrddin, Owen Gough Jones, yr un hoffter at gerddoriaeth a datblygodd yntau i fod yn gerddor penigamp.

Er bod eu hamgylchiadau materol cynnar yn dlawd a llwm, felly, 'roedd ym Myrddin a'i frawd Owen gyfoeth o ddiwylliant a doniau eu cyndadau breintiedig a dim ond hanner y gwir a geir gan ohebydd y Liverpool Post and Mercury pan ddywed fod Myrddin yn "typical product of Welsh peasant stock"²⁰. 'Roedd hedyn dysgeidiaeth wedi'i blannu'n ddwfn yn y ddau frawd o'r cychwyn cyntaf a'u hangen mawr ym mlynyddoedd eu hieuenctid oedd rhywun neu rywbeth i'w feithrin.

Trwy gyd-ddigwyddiad ffodus ar adeg mor dyngedfennol yn eu hanes, cafodd Myrddin ac Owen feithrinwr heb ei ail a newidiwyd cwrs eu bywyd o'r herwydd. Ac yntau'n wŷr ifanc yn ei dridegau cynnar, daeth yr ysgolhaig a'r geiriadurwr Daniel Silvan Evans yn gurad i Blwyf Llangian yn 1852 pan oedd Myrddin yn ddwy ar bymtheg oed ac Owen ddwy flynedd yn iau. Mae'n debyg bod Silvan wedi dod ar draws Owen am y tro cyntaf pan oedd yn ddisgybl-athro yn Ysgol Y Foel Gron ac yn mynychu eglwys y plwyf yn rheolaidd. 'Roedd wedi gweld ei botensial bryd hynny, wrth gwrs, a bonws iddo oedd canfod bod bachgen arall o'r un anian, os nad yn hollol o'r un gallu, yn y cartref difreintiedig. Diau bod dyn mor ddeallus ac urddasol â Silvan wedi creu cryn argraff ar y glaslanciau a'u bod yn hanner addoli eu hathro newydd yn y cyfnod cynnar hwn. Ar wahân i gyflwyno'r bechgyn dawnus i fyd y llenor a'r hynafiaethydd, ef, yn anad neb, o bosibl, a alluogodd Owen i barhau â'i addysg yng

Ngholeg Hyfforddiadol Gogledd Cymru trwy roi iddo'r tystlythyr angenrheidiol i gael mynediad i'r coleg yn 1853. Yn anuniongyrchol, felly, y daeth Myrddin o dan ddylanwad ysbrydoledig Silvan a cheir tystiolaeth yn Cymru "mai yn yr amser y bu Silvan Evans yn Lleyn y dechreuodd yntau gasglu llawysgrifau Cymreig"²¹.

Oherwydd bod Myrddin ac Owen yn "debyg i'w gilydd o ran chwaeth a hoffder o lenoriaeth Gymreig"²², canfu Silvan o'r cychwyn fod ganddo ddau ddisgybl awyddus a brwdfrydig o dan ei adain a buan iawn y dechreusant hwythau, fel nifer o ddeallusion eraill y cyfnod, ymddiddori mewn hynafiaethau. Rhoddodd hwy ar waith yn gyson. "Dyma i chwi restr o gerddi Wiliam Lleyn", meddai wrth Myrddin yn 1863 "modd y gellir, os bydd modd, gael rhestr gyflawn o waith yr hen fardd penigamp. A fedrwch chwi gael hamdden o hyn i Galanmai i adysgrifenu y cyfryw o'i ganiadau sy genych chwi. Rhwng fy rhai i a'r rhai sy genych chwi hwyrach y gellir gwneuthur cofrestr led gywir o gyfansoddiadau'r bardd."²³ Ond odid bod Silvan yn sbarduno'r brodyr â sylwadau megis "Gresyn fod hen gyfansoddiadau gwir werthfawr yn cael eu gadael i bydru a myned i ddifancoll, a'r Wasg Gymreig ar yr un pryd yn tywallt cymmaint o sothach mewn rhyddiaith a rhigymiaith bob mis a phob wythnos ym mhlith y bobl"²⁴ ac o tua 1855 ymlaen, 'roedd Myrddin ac Owen ar dân yn ceisio achub popeth o werth cyn iddynt ddiflannu am byth. Efelychent Silvan trwy weithio ar yr egwyddor mai'r "gorphenol yw ysprydoliaeth y dyfodol"²⁵ a chan fod Myrddin ag "amynedd diball gyda phopeth"²⁶, 'roedd "fel twrch daear yn gwthio ei hun trwy lathen o lwch ar ol hen lyfr a chwarter milltir ar ol hen law-ysgrif"²⁷. O'r dechrau, prif bleser Owen yntau oedd "ysgubo ymaith lwch casgledig

oesau oddiar olion y cenedlaethau a aethant heibio”²⁸ ond yn ôl tystiolaeth Myrddin ei hun, “gofyn y gwaith hwn lawer o ddysgeidiaeth, llafur ac amynedd; a thra anfynych y dwg yn y diwedd lawer o fudd arianol i’r gweithydd”²⁹. Mae’n debyg bod y ddau frawd ifanc yn treulio’r cyfan o’u hamser sbâr yn copio’n llafurus lawysgrifau di-ben-draw ac yn gwario eu harian prin ar “hen lyfrau, croniclau, ac almanaciau gwreiddiol, a thoraeth o hen lawysgrifau a mân-lyfrau Cymreig”³⁰. Er iddynt wneud ceiniog neu ddwy ar y cyfraniadau hynafiaethol a yrasant i gylchgronau o tua 1858 ymlaen ac er i Myrddin werthu nifer o’i lyfrau ac ati fel yr âi’r blynyddoedd rhagddynt, nid oedd yn fwriad gan y naill na’r llall wneud unrhyw elw ar draul y maes hynafiaethol – llafur cariad oedd y cwbl ac ystyrient eu hunain yn gymwynaswyr i’r ‘oesau a ddêl’. Dyma bererindod eu bywyd ac o dan arweiniad cryf a phendant Silvan, aethant ati gydag arddeliad o’r cychwyn cyntaf. Hyd yn oed mor gynnar ag 1858, er enghraifft, cyhoedda’r Brython fod Myrddin “yn cynnull defnyddiau at Hanes a Hynafiaethau Lleyn gyda bwriad o’u cyhoeddi yn llyfr”³¹ ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, aeth Owen ati i ysgrifennu “Hanes byr o fil tri chant ac ugain o Foneddion ac Enwogion Cymru”³².

Ac yntau’n fardd eithaf addawol ym mlynyddoedd ei ieuenctid, diau bod Silvan wedi chwarae rhan yn addysg gynganeddol Myrddin ac Owen er nad oes unrhyw gofnod o hynny. Ffafiai Silvan y canu telynegol ond er iddo ganu “cerddi ystrydebol a chyffredin ddigon yn y mesur caeth”³³, ’roedd hefyd yn “gynganeddwr purion ar y cyfan”³⁴. Ef roddodd Myrddin ac Owen ar ben y ffordd gyda chynganeddu, mae’n debyg, trwy eu cymell, yn anad dim, i astudio rheolau barddoniaeth gaeth yng

ngramadegau'r beirdd a'u hannog i lunio eu cerddi arbrofol eu hunain.

Er nad oedd yr hen draddodiad barddol o athro'n hyfforddi disgybl wedi llwyr ddiplannu o'r tir hyd yn oed yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymddengys na fu Myrddin wrth droed unrhyw athro barddol erioed a chesglir felly iddo droi'n fynych at y llyfrau hyfforddi am arweiniad. Yn ddi-os, dysgodd lawer hefyd wrth gopïo cerddi'r hen feirdd o'r llawysgrifau bregus ac adlewyrchir yn natur amrywiol ei farddoniaeth arfer Silvan o farddoni yn y mesurau caeth ac yn y mesurau rhydd. Mae'n debyg mai hoffter Silvan o ganu telynegol ei naws a'i hysbrydolodd yntau i lunio ambell gerdd delynegol a oedd mor wahanol i'r mwyafrif o'i gyfansoddiadau barddol.

Er hyfryted yr hin rhwng Silvan a'r brodyr, fodd bynnag, bu ambell i storm yn eu perthynas fel yr âi Myrddin ac Owen yn hŷn. Mewn llythyr at Myrddin ym Mawrth 1860, er enghraifft, cyfeiria Owen at anfodlonrwydd Silvan gyda'r modd yr anfonai Myrddin ormodedd o waith i'r Brython a oedd yn aml yn "hynod o dywyll"³⁵. Digwyddai Owen gytuno â beirniadaeth Silvan o Myrddin "pa beth bynag yw ei ddyben ef wrth wneud hyny"³⁶ ond â ymlaen i holi "pa beth yw yr achos rhyngot ti ag ef"³⁷. Ymddengys nad oedd pethau'n dda rhwng Silvan ac Owen 'chwaith. "Ni anfonais i ddim i'r Brython eto", meddai Owen yn yr un llythyr "ond yr ydwyf yn bwriadu gwneud hyny yn lled fuan pe i ddim ond i edrych pa fodd yr ymddwyso Silvan tuag ataf. Y mae yn wir na thelais i ddim am y Brython am yr hanner blwyddyn ddiwethaf ac nid wyf yn bwriadu gwneyd ychwaith hyd nes y bydd i mi gael yr arian i law"³⁸. Nid camddealltwriaeth dros dro oedd hwn oherwydd gwelir elfen o

wrthdaro yn y llythyr a anfonodd Owen at Myrddin y mis Rhagfyr blaenorol hefyd. “Gwir mai fi a anfonodd yr ysgrif wedi ei nodi MLI i’r Brython ni ddymunwn i neb wybod yn bresenol pa beth a arwydda y llythrenau hyny Os gofyn Hirlas pa beth a arwydda y llythrenau nac yngan wrtho beth bynag.”³⁹

Er bod yma arwyddion o’r brodyr yn clochdar ar ben eu tomen newydd, fodd bynnag, ac yn cicio yn erbyn y tresi i raddau, bu eu perthynas â Silvan yn un glòs a llewyrchus ar y cyfan. Ac yntau wedi meithrin doniau’r ddau hynafiaethydd ifanc yn ddyfal ac yn ofalus, ad-dalasant hwythau’r gymwynas honno ar ei chanfed. Pan symudodd Owen i Lundain ym mis Ebrill, 1863, er enghraifft, arferai dreulio ei awr ginio yn yr Amgueddfa Brydeinig yn copïo o hen lyfrau a llawysgrifau Cymraeg a diolcha Silvan iddo am “eich parodrwydd i adysgrifenu hen bethau cywrain i mi o’r Gywreinfâ Brydeinig: y mae yno fwy na mwy o hen ysgrifau y carwn yn fawr gael adysgrifau o honynt”⁴⁰. Ymddengys mai Silvan a’i cyflwynodd i’r Amgueddfa yn y lle cyntaf a noda mai “Watts, y dyn a’r olwg ddigrif yna, yw y tebycaf o’ch cyfarwyddo at ryw lyfrau Cymraeg”⁴¹. Yn ychwanegol at hyn, arferai Owen brynu hen lyfrau i Silvan tra oedd yn Llundain, yn dilyn cais yr olaf am “unrhyw hen lyfr Cymraeg (neu ar destyn Cymraeg), os bydd yn waith dyddorol”⁴². Nid anghofiodd Myrddin yntau am garedigrwydd Silvan a bu’n hynod o gymwynasgar tuag ato trwy gydol ei oes. Mynych yr anfonai lyfrau ato gan wrthod yn lân â chymryd tâl amdanynt er gwaethaf protestiadau Silvan. “..... mwy boddhaol”, meddai’r rheithor yn 1883 “fusasai genyf gael talu am dano [y gyfrol Mêl Awen] ac am ei gludiad hefyd. Yr ydych yn gwneuthur cam dybryd â chwi eich hun”⁴³. Yn

ogystal â hyn, rhoddodd Myrddin fenthyg llawysgrifau di-rif i Silvan i'w gynorthwyo â'i waith hynafiaethol a gwerthfawrogai Silvan hynny'n fawr. "..... Yr ydwyf dan fwy na mwy o rwymau i chwi", meddai "ac nis gwn ar glawr byd pa bryd y mae dydd yr ad-dalu i wawrio"⁴⁴. Gohebodd Myrddin a Silvan yn gyson â'i gilydd hefyd am dros ddeng mlynedd ar hugain, gan drin a thrafod gweithiau beirdd a llenorion, tarddiad geiriau, achau, arysgrifiadau ac ati. Gwelir felly fod Myrddin ac Owen yn fythol ddiolchgar i Silvan am ei gymwynasgarwch mawr tuag atynt ym mlynnyddoedd eu hieuenctid.

Ac yntau'n aelod o gymdeithas unigryw'r chwareli llechi am flynyddoedd lawer, odid na ddylanwadwyd ar Myrddin hefyd gan rai o'r gwerinwyr diwylliedig yr ymgyfeillachai â hwy'n ddyddiol. Tra oedd yn of yn un o chwareli Dyffryn Nantlle, Arfon, er enghraifft, cyfarfu â gof arall o'r un enw a'r un diddordebau ag yntau. "Cymerai'r naill a'r llall ddyddordeb mewn barddoniaeth a hynafiaethau;" yn ôl gohebydd Y Genedl Gymreig "galwodd un ei hunan yn Ioan Eifion a galwodd y llall ei hunan yn Myrddin Fardd."⁴⁵ Teithiai'r ddau John Jones gyda'i gilydd pan aent adref i fwrw'r Sul, y naill i'r Garn a'r llall i Fynytho, a hawdd y gellir eu dychmygu'n sgwrsio'n afieithus am 'y pethe' yr holl ffordd. Diau bod sawl John Jones arall yn gweithio yn y chwareli llechi bryd hynny gyda'r barics yn nythfeydd i sawl bardd, llenor a hynafiaethydd hunan-ddiwylliedig. Hyd yn oed ymhell oddi cartref, felly, a phan oedd bywyd yn arbennig o llwm a chaled, parhâi Myrddin i ymhél â'i ddiddordebau newydd. Gwir yw dweud bod y fath orchwylion yn rhwydd a phleserus iddo oherwydd tra oedd yng nghwmni cymaint o ddynion eraill a wirionai ar yr un pethau ag yntau, ni theimlai'n wahanol i'r mwyafrif - profiad a ddaeth i'w

ran yn ddi-os ymhellach ymlaen yn ei fywyd pan oedd yn rhan o gymunedau pentrefol clòs. Ymddengys bod Myrddin wedi cadw mewn cysylltiad agos â rhai o'r ffrindiau bore oes diwylliedig a wnaeth yn y chwareli a cheir cyfeiriad at "Ioan Eifion, Dy Gyfaill"⁴⁶ mewn llythyr ato gan E Gurnos Jones yn 1883, ddeng mlynedd ar hugain wedi iddo adael chwareli Dyffryn Nantlle.

Lluniodd un arall o gyd-weithwyr dawnus Myrddin, sef J H Griffith, Chwarel Gorseddau, ger Tremadog, englynion coffa i'w frawd Owen ar ei farwolaeth yn 1866:

..... Un ydoedd yn llawn hynodion – ei fath
Ni fu o blaid Brython,
Hen oesoedd, ac hanesion
Gwyr o fri, garai ei fron

Ymhen oesau mynwesir – ei rinwedd
Lle yr huna berchir;
A'i enw a adwaenir,
Yn glod i'w athrylith glir⁴⁷

a sicrhaodd Myrddin gymorth Richard Williams yntau yn 1863. "Mewn perthynas i'r hen lyfr", meddai'r hynafiaethydd a chwarelwr yn Chwarel Lechi Ffestiniog wrth Myrddin "chwi a gewch resdr gryno o bob testyn ac enw pob bardd sydd ynddo cyn bo hir"⁴⁸, gan ychwanegu'n dalog ei fod ar fin cael "gwaith llaw Llywelyn ein Llyw Olaf"⁴⁹!

Mae'n debyg bod Myrddin wedi dod i adnabod nifer mawr o chwarelwyr cyffelyb iddo ef ei hun oherwydd bod gwaith yn brin a gorfu iddo symud cryn dipyn yn ystod blynyddoedd ei ieuenctid yn arbennig. Gweithiai yng Ngefail y Graigwen yn 1859 a'r flwyddyn ganlynol, dychwelodd i Efail Plas Hen, Llanystumdwy ble y'i prentisiwyd ond oherwydd gwaeledd yn 1861, cafodd lawdriniaeth gan y meddyg a barodd i Owen ei

frawd nodi mewn llythyr ar Awst 1 “efallai dy fod yn rhy wan i ateb i’r gwaith caled sy genyt”⁵⁰. Parhaodd i weithio, fodd bynnag, a bu ym Mhlas Hen am oddeutu tair blynedd, gan letya gyda William Jones y gof a’i deulu yn Ninas Eifion, Rhos-lan. Eto, noda Roger Jones (Alarch), Lerpwl, un arall o’i gyfeillion diwylliedig, mewn llythyr ato ym mis Tachwedd 1862, ei fod “wedi cael lle i chwi ac yr wyf yn dysgwyl y byddwch yma yn ddifffael i ddechreu Ddydd Llun am y cyflog cewch yn ol eich teilyngdod Y mae yn debyg y bydd y gwaith yn ddiethr i chwi sef gwaith llongau eithr na fydded i chwi ddigaloni⁵¹. Nid oes unrhyw gofnod fod Myrddin wedi cael ei hudo i Lerpwl ac ym mis Hydref 1864, oherwydd bod pethau’n o dynn arno, bendith iddo oedd derbyn llythyr gan Thomas Evans, Chwarel Gorseddau, ger Tremadog, yn cynnig gwaith iddo. Derbyniodd y cynnig ac yno y bu am rai blynyddoedd er iddo ofyn i Roger Jones chwilio am waith iddo yn Lerpwl yn Ionawr 1865. Aflwyddiannus fu ymdrechion ei gyfaill a chan ei fod yn ymbaratoi at briodi yn ddiweddarach y flwyddyn honno, rhoddodd heibio unrhyw fwriadau a oedd ganddo i symud o Gymru unwaith ac am byth.

Tra oedd Myrddin yn symud o’r naill chwarel i’r llall er mwyn ennill ei fara beunyddiol, cwblhaodd Owen ei frawd y tair blynedd angenrheidiol yng Ngholeg Hyfforddiadol Gogledd Cymru. Yn 1856, cychwynnodd ar ei swydd gyntaf fel athro yn Ysgol Genedlaethol Llanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn a chafodd gais yn ogystal i roi gwersi preifat i feibion ficer y plwyf am gyfnod. ’Roedd iddo statws ac urddas bellach, nid yn unig oddi mewn i’r teulu a oedd mor falch ohono ond hefyd yn y gymdeithas ac nid syndod felly i’w frawd hŷn llai hyderus a llai galluog droi ato am arweiniad ac ysbrydoliaeth.

'Roedd Myrddin wedi gorfod derbyn o'r cychwyn cyntaf mai Owen oedd yr ysgolhaig ac mae'n debyg ei fod yn genfigennus ohono ar sawl achlysur pan oeddynt yn blant. Yn wir, cred E D Rowlands ei fod "wedi suro tipyn"⁵² â'r gyfundrefn addysg am na chafodd yr un manteision â'i frawd ac ysgolheigion cyffelyb ac mae'n debyg iddo deimlo ei fod wedi cael cryn gam yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Oherwydd bod ganddynt feddwl mawr o'i gilydd, diau bod Owen yn teimlo dros ei annwyl "Sionyn"⁵³ a dyna, o bosibl, un o'r rhesymau pam y penderfynodd rannu ei arbenigedd a'i wybodaeth gyda'r brawd a ddangosai gymaint o addewid er gwaethaf ei ddiffyg addysg.

A hwythau wedi eu clymu ynghyd gan eu cariad mawr at hynafiaethau, buan iawn y datblygodd perthynas arbennig rhyngddynt gydag Owen y mentor athrylithgar yn rhoi Myrddin y disgybl cydwybodol ar ben y ffordd gyda materion llenyddol. Ochr-yn-ochr â Daniel Silvan Evans, felly, chwaraeodd Owen ran flaenllaw yn natblygiad Myrddin o tua 1856 ymlaen a chan iddo fod yn benderfynol o brofi ei fod llawn cystal â'i frawd iau, llewyrchodd Myrddin o dan adain Owen er gwaethaf y ffaith nad oeddynt yn gweld nemor ddim ar ei gilydd ar ôl i Owen symud i Lanfair Caereinion. Llythyrent fwy neu lai yn gyson â'i gilydd o 1856 hyd at farwolaeth Owen yn 1866 a diau bod hynny wedi lleddfu rhywfaint ar yr hiraeth a deimlai Myrddin am y brawd yr oedd mor hoff ohono ac a oedd wedi symud mor bell o'i gynefin:

Gwir golled ac argyllaeth – am Owen
Trwy mywyd sydd alaeth
At dir Lley, er troi lluniaeth
Yn hoff, O! rhed Owen ffraeth

Ioan y bardd synn ei ben – y mae'n brudd
Am un brawd îs heulwen
Hyd gwrr y wlâd, ag oer len,
Du yw bywyd heb Owen.

Robyn Ddu Eryri⁵⁴

Derbyniai Myrddin ei hyfforddiant drwy'r post, felly, gan fanteisio ar y ffaith bod Owen bellach nid yn unig yn "llenor dyfnddysg a threiddgar, yn ysgrifenydd llithrig a chadarn mewn rhyddiaith"⁵⁵ ond hefyd yn gynganeddwr da ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Diau bod Myrddin yn falch o glywed hefyd fod Owen "yn awr yn dysgu ychydig o Roeg a Latin oherwydd fod y Vicar mor garedig a fy nghynorthwyo"⁵⁶ gan y byddai yntau'n elwa'n anuniongyrchol o garedigrwydd Ficer Llanfair Caereinion. Gan fod Owen yn arbenigo mewn rhyddiaith, anfonai Myrddin draethodau ato'n aml er mwyn cael ei farn bendant arferol ar safon y gwaith cyn ei argraffu. Owen oedd golygydd answyddogol Myrddin yn y cyfnod hwn, felly, ac er na wnâi'r orchwyl am resymau cwbl anhunanol bob amser, arferai wneud sylwadau trylwyr ar ymdrechion ei frawd a chynnig gwelliannau gwerthfawr. "Yr ydwyf eisoes wedi rhyw frasgamu dros dy draithawd ar blwyf Llanystumdwy", meddai Owen mewn llythyr at Myrddin ym mis Awst 1865 "yr wyt yn ymddangos i mi yn hwn fel yn ail-adrodd chwedl a hyny yn yr un geiriau Nid mor helaeth dy sylwadau ar y plwyf, wedi'r cwbl Y mae'r chwedl am y Pren Dedwydd yn ddigon difyr, ond fel sylwedd yr hyn a ddywedir am goedydd y plwyf nis gellir ystyried a ddywedir ond ysgafn a salw Arwynebol iawn y sylwadau am lysiau y plwyf, ac angenrheidiol i'r awdur

fabwysiadu a dilyn y cyngor a ddyry i'w ddarllenydd ar fod iddo ddarllen gweithiau llysieuwyr Cymreig. Diffygiol hefyd ydynt y sylwadau ar Addysg a Hanes Crefyddol y plwyf Paham nad ymholid â Mr Richards y Peraglor? Gallai roddi llawer o gynnorthwy i ti”⁵⁷ Yna, wedi awgrymu y dylai Myrddin “ail drefnu dy draithawd”⁵⁸, cynhwysa Owen bum tudalen o ffeithiau manwl am y plwyf, gan ychwanegu mai “Amcan y crybwylliadau yma ydyw dy roddi ar y trywydd i ymchwilio ym mhellach”⁵⁹. Terfyna Owen trwy feirniadu arddull Myrddin. “Meddyliwyf i mi grybwyll o’r blaen mai cyffredin iawn ydyw ieithwedd dy draithodau hyn a da y gwnelid eu hail ysgrifenu, er addurno a chryfhau yr iaith.”⁶⁰ ‘Roedd arddull Owen ei hun yn hynod flodeuog ac yn orlawn o eiriau hirion yn ôl ffasiwn yr oes. Ymddengys ei fod yn anhapus iawn o’r herwydd gyda’r hyn a farnai ef yn or-symlder mynegiant Myrddin a chwyna fod traethawd arall o’i eiddo “yn cael ei anurddo â rhai brawddegau yn dynodi diffyg coethdra yn y chwaeth”⁶¹. Gwelir felly o’i sylwadau gonest a diflewyn-ar-dafod na chredai Owen mewn gweniaith o unrhyw fath ac nid Myrddin oedd yr unig un i ddioddef miniogrwydd ei dafod.

Ac yntau’n feirniad swyddogol yn Eisteddfod Llanfyllin yn 1862, noda Owen yn blwmp ac yn blaen fod “aml i graith”⁶² ar draethawd cystadleuydd gyda’r ffugenw ‘Howard’ a brawddegau “lled glogyrnog”⁶³. Diau iddo godi gwrychyn sawl un gyda sylwadau llym o’r fath er gwaethaf y ffaith iddo gael ei ystyried yn “feistr llariaidd a ffyddlawn”⁶⁴ tra bu yn Llanfair Caereinion ac yn “gyfaill dianwadal a diffuant yr hyn a enillodd iddo gylch mawr o gyfeillion”⁶⁵. Gan ei fod yntau’n hynod ddidwyll trwy gydol ei oes ac o’r herwydd yn rhyfygus o finiog ar brydiau, mae’n debyg bod Myrddin yn gwerthfawrogi gonestrwydd ac

annibyniaeth barn ei frawd yn y cyd-destun llenyddol oherwydd credai'n gydwybodol na "Waeth heb ragrithio a gwenieithio wrth ben gweithiau llenorion. Gormod o hyny sydd mewn arferiad
.....^{»66}.

Ymddengys bod gan Myrddin ac Owen olwg naif iawn ar fywyd yn gyffredinol, 'roedd popeth naill ai'n ddu neu'n wyn iddynt ac os nad oedd rhywun neu rywbeth wrth eu bodd, nid oeddynt yn fyr o fynegi eu hanfodlonrwydd yn syth. Oherwydd ei barodrwydd i ddatgan ei farn yn huawdl bob amser, mynych y camddeallwyd Myrddin fel yr âi'n hÿn a "byddai ar wreng a bonedd ofn ei ddiogio"⁶⁷ ond er iddo fod yn gwbl ddi-dact, nid oedd yn fwriad ganddo frifo na digio unrhyw un; y cwbl a wnâi oedd dweud y gwir doed a ddelo. Creadur eithaf diniwed ydoedd yn y bôn a bu ei siarad plaen yn faen tramgwydd iddo trwy gydol ei oes. Dyna fyddai tynged Owen hefyd, o bosibl, pe bai wedi goroesi blynyddoedd ei ieuenctid er nad oedd ef mor anystyriol o deimladau pobl eraill nac mor ymfflamychol â Myrddin.

Gan eu bod mor debyg i'w gilydd o ran natur a chan i'r ddau ohonynt etifeddu natur biwis John Owen eu tad⁶⁸, bu sawl cwmwl dros berthynas Myrddin ac Owen, yn bennaf am fod Owen yn fwy o berffeithydd na Myrddin hyd yn oed. Yn ôl E Namora Williams "nid oedd casglu llyfrau yn orchwyl digyffro nac un yn ennyn brawdgarwch"⁶⁹ ac 'roedd hynny'n amlwg rhwng y ddau frawd ar brydiau. "Gwnaethost ychydig o niwaid i rai o'r llyfrau drwy guro hoelion rhy hirion i'r box"⁷⁰ meddai Owen yn anfodlon ei fyd wrth Myrddin yn 1861 ac yn ddiweddarach, ymosoda arno'n ffyrnig – "y mae'r tipyn esgeulusdra ag yr ydwyf wedi ei ddangos drwy adael i'r ychydig a gymmeraist [o'r Haul] fyned ar ddisperod yn arwyddo nad oes

un sicrwydd y ceir neb rhyw lyfr yn ol Ffolineb yw haeru nad tydi a'u cymmerodd gan na bu neb arall yn agor y sypynau⁷¹. Ymddengys i sylwadau deifiol o'r fath greu cryn argraff ar Myrddin oherwydd buan iawn y daeth yntau i fod yr un mor ofalus o'i lyfrau a'r un mor bryderus ynglŷn â hwy nes peri ofn a dychryn i sawl un.

Gan efelychu triniaeth Owen ohono ef ei hun, o bosibl, arferai anfon llythyrau anghwrtais at yr anffodusion hynny nad oeddynt wedi dychwelyd llyfrau neu lawysgrifau ato'n brydlon, er enghraifft, a mynych y byddai'n anfoesgar wrthynt pe digwyddai eu cyfarfod. "Gwelais eich cyfaill Watcyn fardd", meddai Elizabeth Hughes, cariad Owen, wrtho ym mis Awst 1863 "cwyno yr oedd arnoch yn o lew. Anfonasoch llythyr [sic] cas iawn atto fo Disgwyl yr oedd am lyfr oddiwrth Miss Ellen Richards neu mi fuasa wedi anfon eich llyfrau i chwi⁷² ac o fewn deufis rhybuddia Owen ei hun ef i beidio â gwneud "dim yn angharedig at fy nghyfaill David Jones. Rhaid i mi roddi amnaid iddo fod yn fwy gofalus gyda'r llyfrau⁷³. Ni châi Myrddin ei ffordd ei hun gyda phawb, fodd bynnag, a gallai ambell un fod yr un mor annifyr gydag yntau. "Parodd eich llythyr a dderbyniais neithiwr beth syndod os nad braw i mi gan fy mod wedi anfon eich awdl"⁷⁴ meddai M J Humphreys, Conwy mewn llythyr ato ar Fedi 12, 1861 ac yna ar Fedi 17, nodi "Gan nad ydwyf wedi derbyn atebiad i'm llythyr dyddiedig 12fed, tybiwyf eich bod wedi derbyn eich ysgrif" gan ychwanegu'n goeglyd "neu ynte fod y llythyr rhagddywededig hefyd wedi myned ar goll."⁷⁵ Yn yr un modd, fflangellir Myrddin gan H Pritchard, Llangian. "Yr wyf yn dychwelyd eich llythyr i chwi rhag i chwi feddwl nad allaf arfer Gonesdrwydd un amser. Mae yn ddrwg genyf imi ddweud mai un Celwyddog

ydach ond byddai yn well genyf ddweyd hyna wrthych chwi eich hyn [sic] nac wrth neb arall.”⁷⁶

Yn ychwanegol at fod yn anfodlon â'r hyn a ystyriai ef yn ddiotalwch Myrddin gyda llyfrau, mynych y cyfeiria Owen at ddiffygion eraill a berthynai i'w frawd hyn yn ei dyb ef. “Bydd cystal a chroniclo a fo at dy bwrpas o'r manylion yn y llythyr hwn” meddai wrth Myrddin yn 1863 “cyn iddo fyned ar ddisberod gan na bydd i mi fyned dros yr un maes drachefn, yn achos yr esgeulusdra a'r difaterwch yr wyt mor agored iddynt.”⁷⁷ Fe'i cyhudda ar achlysuron eraill o fod yn anwadal, yn ddifater ac yn orfrysiog – yn wir, fe'i dwrdia hyd yn oed oherwydd nad “rhyw lawer iawn o drafferth fyddai i ti roi dyddiad wrth dy lythyrau”⁷⁸. Odid bod sylwadau a chyhuddiadau o'r fath o eiddo Owen wedi peri i Myrddin ymdrechu'n galetach a modelu ei hun fwyfwy ar y brawd “y byddai dda i ti ei efelychu”⁷⁹. Ymddengys bod ffrae go ddifrifol wedi bod rhwng y brodyr yn hydref 1863 a barodd i Owen anwybyddu Myrddin am gyfnod. “Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf glywed fod eich brawd Owain wedi esgeiluso [sic] anfon attoch gyhyd”, cydymdeimlai Elizabeth Hughes â Myrddin ar Hydref 27 “..... Yr ydwyf yn ddeall eu [sic] fod wedi digio wrthych am rhyw [sic] faterion bach, ag o herwydd hyny ddim yn anfon attoch.”⁸⁰ Canfu Elizabeth ei hun ynghanol helynt arall ym mis Gorffennaf 1864, wedi i Myrddin ymweld â Llanfair Caereinion tra oedd Owen yn Llundain. Yn ôl pob tebyg, 'roedd Owen yn gandryll oherwydd bod Elizabeth wedi rhoi rhwydd hynnt i Myrddin gael golwg ar ei gasgliad o lyfrau heb ei ganiatâd ef. “He kept a fine row about his books that I had left you to have a look at them”, meddai Elizabeth yn gynhyrfus mewn llythyr at Myrddin “..... he wanted me to promise that you should not come and see them again but

this I said that I would not do.”⁸¹ Mae awgrym ar ddechrau’r llythyr, fodd bynnag, nad cael golwg yn unig ar y llyfrau a wnaeth Myrddin – “I was grieved to learn that you had been so ill on your way home but it was too much for you to think of carrying such a lot of things”⁸² ac efallai bod gwylltineb Owen wedi’i gyfiawnhau.

Er gwaethaf yr ymgecru a fu rhwng Myrddin ac Owen o bryd i’w gilydd, ’roedd y ddau yn eithaf cytûn gan amlaf; fel gwerthfawrogiad o’r cymorth a gâi gan Owen, er enghraifft, ac yn unol â’r haelioni didwyll a’i nodwedddai o’i lencyndod, mynych y rhoddai Myrddin roddion i’w frawd. “Diolch i ti am lawysgrif Dafydd Ddu”, meddai Owen wrtho ym mis Mawrth 1861 “..... ychwaneg o roddion cyffelyb a fyddent hynod dderbyniol.”⁸³ Nid anghofiodd yntau Myrddin ’chwaith – “..... Bu Arwerthiant llyfrau yn Llangadfan a phrynais amrai o lyfrau ac yn eu mysg D ab Gwilym i ni ein dau”⁸⁴. Tystia gweithredoedd o’r fath i’r modd y parchent ei gilydd yn y bôn.

Gan fod Myrddin wedi datblygu’n gyflym fel hynafiaethydd, gwir yw dweud bod y naill frawd wedi bod yn symbyliad i’r llall, yn arbennig felly o tua 1861 ymlaen, a bod Owen, o fod yn gefn i Myrddin, wedi medi cynhaeaf toreithiog yn y pen draw. Casglai Myrddin lyfrau, llawysgrifau ac ati cyn gynhared ag 1859 a hynny’n bennaf, mae’n debyg, oherwydd iddo gael ei gymell i wneud hynny nid yn unig gan Daniel Silvan Evans ond gan Owen hefyd. Mynych y ceir cyfeiriadau at brynu a rhwymo llyfrau yn llythyrau Owen at Myrddin rhwng 1859 ac 1866 ac ar gychwyn y cyfnod hwn, cafodd Myrddin rwymo llyfrau a chylchgronau di-rif gan John Bebb, Llanfair Caereinion. Ambell waith, gofidiai Owen am y ffaith bod Myrddin yn talu gormod

am rai llyfrau a chylchgronau a cheisiai ei rybuddio rhag syrthio i'r un trap drachefn. "Yr ydwyf yn dymuno diolch i ti am anfon Y Traethodydd i mi", meddai wrtho yn 1861 "..... Yr oeddit yn ddigon gwirion os rhoddaist 5/6 am danynt ond nid oes a fynwyf fi a'u pris, Am dy Seren Gomer costiai fwy nai gwerth o lawer"⁸⁵

Diau bod Owen wedi ei blesio'n fawr, fodd bynnag, gyda'r modd yr ymatebodd Myrddin i'w gais am "hen lyfrau ail law i mi Cymraeg neu Saesneg mewn perthynas i Gymru"⁸⁶. Aeth Myrddin ati gydag arddeliad, gan fynd i arwerthiannau di-rif, er enghraifft, i chwilio am lyfrau, cylchgronau a llawysgrifau nid yn unig i Owen ond iddo ef ei hun hefyd. Bu Myrddin o gymorth amhrisiadwy i Owen fel prynwr yn ystod hanner cyntaf y 60au a chafodd gais arbennig gan ei frawd ym mis Hydref 1861. "Y mae ar nith Sion Wyn [o Eifion] eisiau arian, Os gwnei di brynu gwerth tua 30/- yn lled rad, anfonaf PO Order am danynt ond gad i mi wybod pa beth a fyddant ym mlaen llaw. Da a fyddai genyf gael rhai hen lawysgrifau. Pe byddent i gyd yn llawysgrifau, gorau oll"⁸⁷ Ymddengys bod Myrddin, o ganlyniad, wedi hysbysu Owen yn bryfoclyd nad oedd am ufuddhau i'r cais a pharodd hynny ymateb ffyrnig gan Owen. "Llawer mwy doeth a llawer mwy brawdol a fuasai i ti gymmeryd dy ail feddwl cyn ysgrifenu ataf, am brynu rhai o lyfrau y diweddar Sion Wynn, byddai yn dda i ti gofio nad dymunol iawn genyf fi fod yn destyn dy ddigrifwch."⁸⁸ Am iddo dynnu'n groes, edliwia i Myrddin ei fod yn ".....r[h]wymedig i mi am gymmwynasau da nad ychydig o drafferth ydyw eu rhifo"⁸⁹ ond mae ar ben ei ddigon yn ei lythyr dilynol at Myrddin oherwydd ymddengys i'r gwas bach gydsynio â chais y meistr wedi'r cyfan!

O tua 1861 ymlaen, bu Myrddin o gymorth i Owen gyda'i ymchwiliadau hynafiaethol hefyd a diau bod apeliadau Owen am help llaw wedi ei ysgogi i dreulio llawer o amser uwchben y llyfrau a'r llawysgrifau yr oedd wrthi mor ddiwyd yn eu hychwanegu at ei gasgliad. "Bydd pob ymchwiliad a phob mymryn o ffeithiau parth Morys Dwyfach yn hynod dderbyniol genyf"⁹⁰ meddai Owen wrtho ym mis Mai 1861, gan gydnabod bod ei frawd yn prysur ddod i oed fel hynafiaethydd teilwng a dibynadwy. Yn wir, 'roedd eisoes wedi tynnu sylw Myrddin at y ffaith ei fod yn cael ei ddsbarthu yn Y Cymro "gyda Hirlas, W Jones Nefyn, Owain Lleyrn, Llawdden (Vicar Pwllheli) ac ereill fel ym mysg prif ddysgedigion Lleyrn ac yn Hynafiaethydd Gwybodus"⁹¹ a chesglir o'r herwydd ei fod yn falch o'r hyn yr oedd ei frawd prin ei addysg yn ei gyflawni. Ond odid iddo deimlo hefyd fod cystadleuaeth rhwng y ddau ohonynt fel yr âi'r blynyddoedd rhagddynt er iddo wybod o'r gorau na fyddai Myrddin byth cystal ag ef. Er hynny, ac er nad oedd Owen byth yn ymffrostgar yng ngŵydd eraill, canai ei glodydd ei hun yn lled fynych yn ei lythyrau at Myrddin. Diau iddo deimlo, felly, fod angen iddo bwysleisio'i ragoriaeth o dro i dro.

Gydag anogaeth Owen, hefyd, y dechreuodd Myrddin gopïo o lawysgrifau a hynny ym mis Chwefror 1860. "Yr ydwyf yn gweled", meddai Owen wrtho bryd hynny "er fy mawr llawenydd [sic], fy mod wedi colli y swydd ysgrifenydd i ti ac ymddengys i mi dy fod wedi cyfnewid er gwell, canys ysgrifenydd yr awdl yn gampus. Rhwydd hynt i'r ysgrifenydd newydd."⁹² Wedi derbyn y fath ganmoliaeth gan un yr oedd ei safonau mor uchel, treuliodd Myrddin ran helaeth o'i oes yn

copïo'n ofalus ac yn fanwl o lawysgrifau di-ben-draw er mwyn achub hynny a allai o etifeddiaeth ei genedl. Ymhellach ymlaen yn ei fywyd, gwnâi hynny'n aml ar draul ei fywoliaeth fel gof ac yn ôl Bob Owen "pan ddeuai amaethwr i chwilio am aradr efallai y byddai Myrddin wedi hel ei draed at Wynne Peniarth am bythefnos i gopïo hen lawysgrifau"⁹³.

Yn ddi-os, Owen oedd yn gyfrifol hefyd am ddiddordeb mawr Myrddin yn y cyfarfodydd llenyddol yn ystod y 50au, y 60au a'r 70au ac ef a'i cymhellodd i'w mynychu. "Byddaf yn dysgwyl cael hanes cyflawn o gyfarfod Llenyddol y Rhydbach genyt"⁹⁴ meddai wrth Myrddin ym mis Rhagfyr 1859, a chymerai yntau ran flaenllaw yng nghyfarfodydd cyffelyb Llanfair Caereinion – "..... ni anfonais ddim i'r Brython y mis hwn gan fy mod yn llawn gwaith gyda'r Gymdeithas Lenyddol"⁹⁵. Mae'n debyg bod Myrddin ac Owen wedi cael eu hannog gan Daniel Silvan Evans yn ystod eu llencyndod i ymddiddori yn y cymdeithasau a'r cyfarfodydd llenyddol a oedd, yn ôl E G Millward, yn "fagwrfa gwerin ddeallus, ddiwylliedig, yn ogystal â magwrfa beirdd a llenorion"⁹⁶. Trwy gystadlu yn y cyfarfodydd hyn y magodd y brodyr yr hyder angenrheidiol i anelu at berffeithio eu crefft lenyddol ac mae ôl y testunau gosodedig yn drwm ar waith Myrddin fel bardd ac fel ysgrifennwr rhyddiaith. Yn wir, cafodd gryn flas ar y cystadlu ac mae lle i gredu iddo fod yn fuddugol sawl tro. Tystia Owen i un o'r llwyddiannau hynny yn 1865. "Dywedodd fy nhad dy fod gwedi enill yn Llanystumdwy ar 'Hanes y Plwyf'"⁹⁷. 'Roedd gan Myrddin ddyled fawr i'r cyfarfod llenyddol, felly, ac er ei fod yn feirniadol o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd o'r 50au ymlaen yn ei ysgrif 'Y Cymdeithasau Llenyddol Hen a Diweddar'⁹⁸, cydnabu yn ei lyfr Dewi Wyn o Eifion nad

“oes unrhyw foddion wedi eu darganfod eto mor effeithiol [â’r cyfarfodydd llenyddol a’r eisteddfod] er symbylu gwŷr ieuainc i ymdrechu am ragoriaeth”⁹⁹.

Yn ogystal â chwarae rhan flaenllaw yng Nghyfarfod Llenyddol Llanfair Caereinion, trodd Owen ei olygon at gymdeithas o fath arall, sef Cymdeithas Gymreigyddol Powys, a sefydlwyd yn Llanfyllin ar Fedi 24, 1861. Ac yntau’n berson o gryn statws yn y gymdogaeth ac yn hynafiaethydd parchus, ef, yn wir, oedd un o sylfaenwyr y gymdeithas a mawr fu ei frwdfrydedd drosti. Ysgrifennodd ddau lythyr agored at Y Cymro ym mis Hydref, 1861, ynglŷn â natur ac amcanion y gymdeithas newydd gan egluro pam y sefydlwyd hi yn y lle cyntaf. “Y mae gennym eisoes ddwy Gymdeithas o’r natur hynny [hynafiaethol], sef y Cambrian Archolaeological Association [sic] a’r Cambrian Institute. Dygant hwy eu gweithrediadau ym mlaen, a chyhoeddant gynhyrchion eu llafur, yn hollol yn yr iaith Saesoneg; a mwy na hyn, cyhuddir y naill gan y llall o gyfeirio ei holl ymdrechion at lwyr ddifodiant yr iaith Gymraeg. Y mae’r ffeithiau yma yn ddigonedd i ddangos yr angenrheidrwydd am ganghen Gymreig i gadw ac i gofnodi olion henafol a cheinion y cynoesoedd.”¹⁰⁰ Er mwyn ei phoblogeiddio, nid oedd yn fwriad gan sylfaenwyr y gymdeithas ei chyfyngu i’r maes hynafiaethol yn unig er i’w hamcanion gael eu rhestru fel a ganlyn:

- 1 Cadw côf a thrysori yr hyn sydd ar dafod y werin o draddodiadau lleol.
- 2 Casglu adgofion am awduron a’u gweithiau
- 3 ysgrifenu Hanes Hynafiaethol ein gwahanol blwyfydd.

- 4 Casglu hen alawon, diarhebion, ffraetheiriau
nad ydynt yn argraphedig.
- 5 Casglu hen gerddi, caneuon, chwedlau,
mabinogion, a phenillion
- 6 Casglu y cyfreithiau lleol neu gwstwm gwlad
mewn amaethyddiaeth
- 7 Cofnodi chwaraeon ac ofergoelion yr hen amser.
- 8 Olrhain achau teuluoedd Cymreig¹⁰¹.

Dymuniad y sylfaenwyr, hefyd, oedd i ddalgylch y gymdeithas fod “mor eang a Chymry [sic]”¹⁰² ond nid yw’n glir a ymunodd Myrddin â hi ai peidio. Heb os, byddai wedi bod ar ben ei ddigon pe bai wedi medru mynychu’r cyfarfodydd yn rheolaidd oherwydd ’roedd eisoes wedi mabwysiadu’r mwyafrif o amcanion y gymdeithas a mwy fel ei grwsâd personol ei hun yn y maes hynafiaethol. Mae’n sicr, fodd bynnag, iddo elwa’n anuniongyrchol o’r cyfoeth hynafiaethol a ddaeth i ran Owen fel aelod blaenllaw o gymdeithas lewyrchus.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Gymreigyddol Powys ym mis Rhagfyr 1861 ac yn ei lythyr dyddiedig Rhagfyr 2 at Owen, nododd Ab Ithel y bwriadai yntau fod yn bresennol yn y cinio a drefnwyd ar gyfer y noson agoriadol, gan ychwanegu “y mae gennyf fi obaith os gosodir eich Cymdeithas ar egwyddorion cywir a chadarn, y daw hi yn uchel a dylanwadol iawn yn y wlad”¹⁰³.

Ar wahân i Ab Ithel, ymaelododd nifer o wŷr amlwg y cylch â’r gymdeithas, dynion megis Glan Alun, Mynyddog, Meiriadog, Watcyn Fardd a Henri Myllin, a mawr oedd eu hedmygedd o

Owen oherwydd ei athrylith a'i ymroddiad. Yn ei adroddiad papur newydd am un o gyfarfodydd y gymdeithas, noda Watcyn Fardd, er enghraifft, fod yr athro ifanc wedi ymddwyn “ym mhob modd yn gyfryw ag nad anghofir ei lafur diflino a'i egnion cyrhaeddbell ar ran hyrwyddiant y Gymdeithas”¹⁰⁴ ac fe'i hanfarwolir yng ngherdd Meiriadog i'r gymdeithas newydd:

..... Yn ei swydd ceir O. Jones hardd
A'i hufen – ystwyth hoewfardd¹⁰⁵

Heb amheuaeth, bu ymadawiad Owen â Chymru yn 1863 yn ergyd drom i'r gymdeithas a cheisia godi calon Meiriadog mewn llythyr ato ym mis Mai. “Diammheu genyf fod y Gymdeithas yn Llanfair yn myned ym mlaen yn rhagorol, ac na bydd i neb rhyw aelod ar un cyfrif laesu dwylaw Atolwg pwy ydynt yr aelodau newyddion i wneud i fyny y rhif Ni ddylid ymfoddloni heb adgyfnerthion.”¹⁰⁶ Eto, er gwaethaf y pendantrwydd a'r optimistiaeth, cyfaddefa Owen y “buasai yn llawen genyf gael y cyfeillion yma i Lundain canys yr wyf yn hiraethu i raddau ar eu hol”¹⁰⁷. Erbyn mis Mehefin, 'roedd y gymdeithas mewn dyfroedd mwy dyfnion fyth fel y noda John Edwards, Swan Inn, Llanfair Caereinion mewn llythyr at Owen. “Y Gymdeithas. Y mae arnaf ofn y bydd i hon glafychu a threngu ar ol i Clarke eto fyned i ffordd. Clafychu, meddwn! Yr oedd yn glaf pan gollwyd Evan Thomas! Cafodd y dwymyn pan gollwyd Owen Jones!”¹⁰⁸ Yn ôl pob tebyg, câi'r gymdeithas drafferth i ddenu aelodau newydd yn lle'r rhai a ymadawodd yn 1863, sefyllfa na fyddai wedi codi, o bosibl, pe bai'r Owen brwdfrydig ac ymroddgar yn parhau i fod yn gysylltiedig â hi.

'Roedd rhyw ddeuoliaeth ryfedd yn perthyn i fywyd Owen yn ystod cyfnod sefydlu Cymdeithas Gymreigyddol Powys ac er

iddo ymddangos ar yr wyneb yn llawn afiaith ac egni, nid oedd yn fodlon ei fyd o bell ffordd. Ac yntau wedi cychwyn ar ei yrfa addawol fel athro yn 1856, hysbysa Myrddin ym mis Rhagfyr 1859 iddo gael ei “Certificate o Lundain yr ail adran yn yr ail ddsbarth ydyw, a chaf y swm o £21.10 oddiwrtho yn flynyddol”¹⁰⁹. Erbyn y flwyddyn ddilynol, fodd bynnag, ’roedd gobeithion yr athro ifanc wedi eu chwalu a’i ddyheadau wedi eu dryllio’n llwyr. Er mawr ofid i’w deulu, diflastod ac anniddigrwydd a deimlai bellach ac ’roedd ei swydd yn fwrn arno. Gwyddai erbyn mis Gorffennaf 1861 na allai oddef rhagor oherwydd “fy nghas greddfoll at y gwaith a bwriad y llywodraeth i ddiddymu arian”¹¹⁰. Gyda gollyngdod a chryn benderfyniad, felly, ac er gwaethaf protestiadau huawdl ei deulu, hysbysa Myrddin dri mis yn ddiweddarach y “bu Mr Bains yma yn holi yr ysgol a hynny am y tro diweddaf i mi. Nis gwn hyd yn hyn pa beth a gymmeraf mewn llaw”¹¹¹.

Er i rai o’i gyfeillion geisio ei ddarbwylllo i ymgymryd â dyletswyddau athro mewn ysgol arall ac er bod Person Llangernyw wedi ceisio cael swydd iddo yn un o swyddfeydd y Llywodraeth yn Llundain, ymddengys bod Owen, erbyn dechrau 1862, â’i fryd ar gymryd urddau eglwysig a’i ddymuniad pennaf oedd cael ei dderbyn i Goleg yr Iesu, Rhydychen. ’Roedd yn benderfynol, felly, o droi ei gefn unwaith ac am byth ar ddwndwr y byd addysg a throedio’n ddedwydd i borfeydd llai cythryblus y byd eglwysig.

Er na wyddys beth fu rhan Daniel Silvan Evans ym mhenderfyniad hollbwysig Owen, mae’n debyg bod y rheithor wedi annog y gŵr ifanc talentog ond dadrithiedig i wasanaethu’r eglwys ac wedi rhoi iddo’r cymorth a’r arweiniad yr oedd arno

eu gwir angen ar y pryd. Er gwaethaf ei daerineb a'i ddiffuantrwydd, fodd bynnag, ni wireddwyd breuddwyd Owen i gael ei ordeinio'n offeiriad a hynny, o bosibl, oherwydd iddo "wrandaw ar ymofynion twyllodrus calon arall"¹¹². Ymddengys, felly, fod Owen yn caru'n eithaf selog gyda merch o gylch Llanfair Caereinion yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn yn ei hanes ac er na fu hir oes i'r garwriaeth, llwyddodd hi i'w ddarbwylo na ddylai symud o'r ardal.

Yn hytrach na throi ei olygon at Rydychen, felly, arhosodd Owen yn yr un cylch ac yn yr un proffesiwn, gan dreulio'r flwyddyn ddilynol ym Mryn Tanad, Llanerfyl, yn athro preifat i uchelwr ifanc o Gymro o'r enw Hugh Williams Kyffin a oedd â chysylltiadau hefyd ag Eglwys-bach yn Sir Ddinbych. Oherwydd ei gysylltiad ag Owen, a'i edmygedd tebygol o'r gŵr ifanc, cyfansoddodd Myrddin awdl i Hugh Kyffin ar achlysur ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ym mis Mawrth 1862 a chyhoeddwyd englyn ohoni yn Y Cymro:

O! caffed y mab Kyffin – newydd wyl, -
Nawdd i'w oed a chofrin;
Boed gwyhach ei fantach fin,-
Safed ei dir cyssafai [sic].¹¹³

Tŷ'r chwiorydd Richards, merched Thomas Richards, Ficer Darowen, oedd Bryn Tanad a threuliodd Owen flwyddyn hynod ddedwydd yn eu cartref moethus yn hyfforddi'r bonheddwr ifanc diymhongar a fabwysiadwyd gan y chwiorydd. 'Roedd Hugh Kyffin yn "hyddysg ac yn ymhoffi yn ei famiaith"¹¹⁴ a dim ond atgof bellach oedd ysgoldy llwm Llanfair Caereinion a'r plant swnllyd, afreolus.

Parhâi Owen i ymddiddori mewn hynafiaethau trwy gydol ei gyfnod ym Mryn Tanad, wrth gwrs, a chafodd ganiatâd y chwiorydd i gopiïo casgliad helaeth o lawysgrifau a oedd yn eu meddiant fel teulu ac a etifeddwyd yn ddiweddarach gan Hugh Kyffin. Gellir dychmygu gorfoledd Owen pan ddaeth ar draws Lepor Museus Lewis Morris ynghanol y casgliad a bu ei gopi ef o'r llawysgrif bwysig yn rhan anhepgor o lyfrgell wych Myrddin am ddegawdau lawer.

Diau bod Owen ar ben ei ddigon fel athro ac fel hynafiaethydd yn awyrgylch falmaidd Bryn Tanad a hawdd credu mai yn Llanerfyl y treuliodd un o gyfnodau hapusaf ei oes fer. Er hynny, ymddengys bod cymylau argoelus afiechyd yn dechrau cronni bryd hynny hyd yn oed, oherwydd bu'n aros ar un o 'ffermydd iechyd' Llanfair-ym-muallt ym mis Gorffennaf 1862. Parhaodd i weithio, fodd bynnag, ac arhosodd ym Mryn Tanad tan fis Mawrth 1863.

Tua'r un adeg ac er mwyn ceisio anghofio'r ferch a wnaeth dro gwael ag ef, efallai, cychwynnodd garwriaeth gydag Elizabeth Hughes, gwraig weddw yn ei thridegau cynnar a mam i bedwar o blant mân. Mae'n debyg bod Owen yn gyfarwydd ag Elizabeth er iddo symud i'r ardal yn 1856 gan mai hi oedd yn cadw tafarn y Cross Foxes yn Llanfair Caereinion. Ni wyddys beth fu ymateb teulu Owen i'w berthynas ag Elizabeth – cawsant eu synnu a'u siomi ar y cychwyn, mae'n debyg, er gwaethaf y ffaith fod Myrddin wedi hysbysu'r byd a'r betws am y garwriaeth a hynny er mawr ofid a chywilydd i Owen. “Y mae Mrs Hughes o'r Foxes yn ymweled a Llundain [ble yr ymgartrefai Owen bellach]; yr hyn a rydd fantais i ti i fyrlymu dy hyawdledd eto mewn ffordd o lithiau ar yr hyn a elwi yn oraclau

carwriaethol.”¹¹⁵ Buan y derbyniodd teulu Tan-y-ffordd y sefyllfa annisgwyl, fodd bynnag, ac ymddengys eu bod ar delerau da ag Elizabeth trwy gydol ei charwriaeth ag Owen. Oherwydd perthynas glòs y brodyr, daeth Elizabeth yn gyfaill agos i Myrddin mewn byr o dro a mynych y bu’n llythyru ag ef rhwng 1863 ac 1866, gan anfon ei chofion cywiraf bob amser at ei rieni a’i chwiorydd.

Yn wir, gan ei bod mor addfwyn a diffuant, llwyddodd Elizabeth i ddod ag aelodau ymgecrus Tan-y-ffordd yn agosach at ei gilydd ar sawl achlysur. Parodd i Myrddin ac Owen gymodi droeon, wrth gwrs, ac ’roedd perthynas oeraidd Owen â’i rieni yn dân ar ei chroen ambell waith. “Y mae y clairindeb y mae Owain yn dangos tuag ei dad a’i fam wedi achosi gofid i mi [y mae] yn bwriadu dyfod i edrych am ei fam cyn hir Byddai yn da [sic] gennyf dod [sic] efo fo”¹¹⁶ Heb os, gwnaeth Elizabeth fyd o les i’r Owen myfiol a mympwyol yn ystod ei flynyddoedd olaf; gwerthfawrogai ei fod yn gymeriad cymhleth a gwnaeth gryn ymdrech i ddeall ei ffordd oherwydd fel y tystia hi ei hun “y mae yn anwyl genyf amdano”¹¹⁷. Gresyn na chafodd Myrddin gymar cyffelyb i gadw ei draed yntau ar y ddaear.

Er iddo fod yn briod am rai blynyddoedd, Owen oedd yr unig un y llwyddodd Myrddin i ffurfio perthynas lwyddiannus ag ef, ac Owen yn anad neb arall, a ddylanwadodd fwyaf arno yn ystod ei oes. Heb ei frawd, mae’n fwy na thebyg na fyddai John Jones, y prentis diaddysg a digapel, erioed wedi dod i gysylltiad ag ysgolhaig fel Daniel Silvan Evans. Yn ogystal â hynny, er mai Silvan a greodd ym Myrddin ddiddordeb angerddol yn y maes hynafiaethol, Owen biau llawer iawn o’r clod am gymell y cyw

hynafiaethydd pan oedd yn ansicr ei gerddediad ac angen cryn dipyn o fwyd llwy i'w feithrin a'i gynnal.

Yn ddi-os, bu Owen yn gefn eithriadol i Myrddin yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn y maes hynafiaethol. Yn wir, heb ysbrydoliaeth ac arweiniad ei frawd iau a Daniel Silvan Evans, gwir yw dweud na fyddai Myrddin wedi cystadlu mewn eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol na chyhoeddi ei waith ym mhapurau newydd a chylchgronau'r oes. Heb y sylw unigol hollbwysig a'r ysgogiad cyson a gafodd gan Owen yn arbennig ar gychwyn ei yrfa hynafiaethol, ni fyddai Myrddin wedi datblygu i fod yn un o hynafiaethwyr mwyaf brwd a diwyd ei gyfnod.

-
- ¹ 'Myrddin Vardd', Wales III, 1896, t 306.
 - ² Cwrt-mawr 1308B.
 - ³ 'John Jones, 1836-1921 (Myrddin Fardd)', Yr Haul, XXIV, 1922, t 83.
 - ⁴ Stori 'Mywyd, 1932, Lerpwl, t 144.
 - ⁵ Cwrt-mawr 892B.
 - ⁶ Cwrt-mawr 719B.
 - ⁷ Cwrt-mawr 892B.
 - ⁸ Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru, 1870, Lerpwl, t 624.
 - ⁹ Chwefror 17, 1866, t 5.
 - ¹⁰ Cwrt-mawr 892B.
 - ¹¹ Cwrt-mawr 1305B.
 - ¹² Cwrt-mawr 1176B.
 - ¹³ Cwrt-mawr 5960C.
 - ¹⁴ Cwrt-mawr 1176B.
 - ¹⁵ CPGC, Bangor. Casgliad Cyffredinol 5048 – yn llawysgrifen Myrddin Fardd ei hun yn ôl yr archifydd.
 - ¹⁶ O Gasgliad Cwrt-mawr 1137D.
 - ¹⁷ O Gasgliad Cwrt-mawr 938C.
 - ¹⁸ 'Marw Myrddin Fardd, Llenor a Hynafiaethydd', Y Genedl Gymreig, Awst 2 1921, t 5.
 - ¹⁹ *ibid.*
 - ²⁰ CPGC, Bangor. Casgliad Cyffredinol 15718 – toriad papur newydd 'Premier's Wedding Breakfast', Rhagfyr 31, 1920.
 - ²¹ Geiriau O M Edwards, mae'n debyg, yn Cymru III, 1892, t 82.
 - ²² Jones, J T (Y Parchedig), Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru, 1867, Aberdar, sylwadau'r Parchedig Owen Jones (Meudwy Môn).
 - ²³ Y Traethodydd LXVI, 1911, t 29 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Myrddin Fardd.
 - ²⁴ *ibid.*

-
- ²⁵ Cwrt-mawr 1308B.
- ²⁶ ‘Marw Myrddin Fardd, Llenor a Hynafiaethydd’, loc. cit., t 5.
- ²⁷ CPGC, Bangor. Casgliad Cyffredinol 5048.
- ²⁸ Cwrt-mawr 1305B.
- ²⁹ *ibid.*
- ³⁰ *ibid.*
- ³¹ (Rhif 4), t 143.
- ³² Cwrt-mawr 573B.
- ³³ Jones, Morgan D, ‘Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a’i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg’, MA Cymru (Aberystwyth), 1952, Rhif 26, t 25.
- ³⁴ *ibid.*
- ³⁵ Cwrt-mawr 1176B.
- ³⁶ *ibid.*
- ³⁷ *ibid.*
- ³⁸ *ibid.*
- ³⁹ Cwrt-mawr 1195A. Myfyr Lleyn (MLI) oedd un o lysenwau Owen Jones a mynych yr ysgrifennai Daniel Silvan Evans o dan yr enw Hirlas.
- ⁴⁰ Y Traethodydd LXIX, 1914, t 374 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Owen Jones (Rhagfyr 17, 1861).
- ⁴¹ loc. cit., t 378 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Owen Jones (Mehfin 8, 1865).
- ⁴² loc. cit., t 375 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Owen Jones (Mehfin 5, 1865).
- ⁴³ Y Traethodydd LXVI, 1911, t 109 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Myrddin Fardd (Awst 18, 1883).
- ⁴⁴ loc. cit., t 112 – llythyr oddi wrth Daniel Silvan Evans at Myrddin Fardd (Ebrill 14, 1875).
- ⁴⁵ ‘Marw Myrddin Fardd, Llenor a Hynafiaethydd’, loc.cit., t 5.
- [Yn ddiweddarach, trodd John Jones (Ioan Eifion) ei gefn ar fywyd caled y chwarel ac aeth yn weinidog gyda’r Bedyddwyr.]

-
- 46 Cwrt-mawr 1039B.
- 47 Cwrt-mawr 573B.
- 48 Cwrt-mawr 892B.
- 49 *ibid.*
- 50 Cwrt-mawr 1195A.
- 51 *ibid.*
- 52 Ysgrif anghyhoeddedig ar 'Myrddin Fardd'.
- 53 Cwrt-mawr 1195A.
- 54 Cwrt-mawr 573B.
- 55 Jones, Owen (Y Parchedig) (Meudwy Môn), *op. cit.*, t 624.
- 56 Cwrt-mawr 1176B.
- 57 Cwrt-mawr 892B.
- 58 *ibid.*
- [Bu Myrddin eisoes yn fuddugol ar y traethawd dan sylw mewn cyfarfod llenyddol/eisteddfod yn Llanystumdwy rai misoedd ynghynt].
- 59 *ibid.*
- 60 *ibid.*
- 61 Cwrt-mawr 1195A.
- 62 Yr Herald Cymraeg, Tachwedd 1, 1862, 'Beirniadaeth Cyfansoddiadau Eisteddfod Llanfyllin' gan Owen Jones (Traethodau), t 3.
- 63 *ibid.*
- 64 Jones, Owen (Y Parchedig) (Meudwy Môn), *op. cit.*, t 624.
- 65 *ibid.*
- 66 Cwrt-mawr 1322C.
- 67 Yr Herald Cymraeg, Awst 2 1921, 'Marw Myrddin Fardd', t 8.
- 68 Cwrt-mawr 1176B. Ceir awgrym gan Owen mai John Owen yw'r drwg yn y caws mewn ffrac rhwng Myrddin a Daniel Silvan Evans.

-
- 69 Williams, E Namora, Carneddog a'i Deulu, 1985, Dinbych, t 92.
- 70 Cwrt-mawr 1195A.
- 71 *ibid.*
- 72 *ibid.*
- 73 Cwrt-mawr 1176B.
- 74 Cwrt-mawr 1190C.
- 75 *ibid.*
- 76 Cwrt-mawr 1195A.
- 77 Cwrt-mawr 1176B.
- 78 *ibid.*
- 79 *ibid.*
- 80 *ibid.*
- 81 *ibid.*
- 82 *ibid.*
- 83 Cwrt-mawr 1195A.
- 84 *ibid.*
- 85 Cwrt-mawr 1176B.
- 86 Cwrt-mawr 1195A.
- 87 Cwrt-mawr 1176B.
- 88 *ibid.*
- 89 *ibid.*
- 90 *ibid.*
- 91 *ibid.*
- 92 *ibid.*
- 93 Y Cymro, Ionawr 22 1959, 'Bywyd Bob Owen' gan Dyfed Evans, t 6.
- 94 Cwrt-mawr 1195A.
- 95 Cwrt-mawr 1176B.

-
- ⁹⁶ Millward, E G, 'Bywyd a Gwaith Eben Fardd', MA Cymru (Caerdydd), 1954, Rhif 1017, t 191.
- ⁹⁷ Cwrt-mawr 1195A.
- ⁹⁸ Y Traethodydd XLI, 1886, tt 33-51.
- ⁹⁹ 1902, t 2.
- ¹⁰⁰ Y Cymro, Hydref 23 1861, t 4.
- ¹⁰¹ Llythyr Owen Jones yn Y Cymro, Hydref 9 1861, t 4.
- ¹⁰² *ibid.*
- ¹⁰³ Jones, John (Myrddin Fardd), Adgof Uwch Anghof, 1883, Pen-y-groes, tt 300-301.
- ¹⁰⁴ Cwrt-mawr 1210E.
- ¹⁰⁵ Cwrt-mawr 1242E.
- ¹⁰⁶ Cwrt-mawr 5960C.
- ¹⁰⁷ *ibid.*
- ¹⁰⁸ Cwrt-mawr 892B.
- ¹⁰⁹ Cwrt-mawr 1176B.
- ¹¹⁰ *loc. cit.*
- ¹¹¹ Cwrt-mawr 1195A.
- ¹¹² Jones, Owen (Y Parchedig) (Meudwy Môn), *op. cit.*, t 624.
- ¹¹³ Ebrill 2, 1862, t 2.
- ¹¹⁴ *ibid.*
- ¹¹⁵ Cwrt-mawr 1176B. Llythyr dyddiedig Hydref 23, 1863 oddi wrth Owen Jones at Myrddin Fardd.
- ¹¹⁶ *ibid.*
- ¹¹⁷ Cwrt-mawr 1195A.

PENNOD III

DECHRAU LLENYDDA: BARDDONI

Yn ôl tystiolaeth Myrddin ei hun, “dyn rhyfedd ydyw’r bardd Myn rodio’r ddaear fel dyn arall, a gellir agosau ato a siarad âg ef pan fyddo’i adenydd yn anweledig; ond pan yr eheda ymaith tua chaerau ariannod [sic] a gwydion, ac yr olrheinia gylchoedd y bodau wybrenawl nis gellir nesau ato, na meiddio edrych o’i ôl”¹. Gwta dair blynedd wedi dyfodiad Daniel Silvan Evans i Langian, ymddengys bod John Jones yn argyhoeddedig ei fod yntau’n prysur hedfan i uchelfannau urddasol a lledrithiol y beirdd ac ymfalchiai nad creadur cyffredin mohono bellach. “..... mae’n amlwg nad cyffreithlawn [sic] yw i’r werin yn gyffredinol ymyraeth âg ef [y bardd]. Nid rhywbeth bychan fel croesi ‘pant yr asynod’, ydyw dysgu y gelfyddyd farddonawl, fel y tybia miloedd, ond gorchest uchelryw. Nid oes a all ei hadwaen yn iawn ond ei phlant.”² Ac yntau’n ddi-os yn ei ystyried ei hun yn un o blant yr awen a chydag anogaeth a chefnogaeth Silvan o bosibl, gwelir bod Myrddin bellach yn chwennych cynulleidfa ehangach i’w gyfansoddiadau barddol, ac ym mis Rhagfyr 1855 ymddangosodd cywydd safonol ac eithaf crefftus i’r ‘Haul’ yn Yr Herald Cymraeg o dan yr enw John Jones, Llangian. Hon, mae’n debyg, oedd y gerdd gyntaf o’i eiddo a gyhoeddwyd mewn unrhyw bapur newydd neu gylchgrawn ac yn naturiol ddigon, o gofio iddo’i drwytho’i hun yng ngramadegau’r beirdd, ym mesurau caeth y beirdd traddodiadol y canai ar gychwyn ei yrfa. Er nad oes unrhyw un o’i gerddi cynnar eraill ar gof a chadw, diau iddo gyfansoddi llawer yn ystod y blynyddoedd 1852-56 a chystadlu mewn nifer o eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol lleol er mwyn bwrw’i brentisiaeth fel bardd a sicrhau ei gyfryw le yn rhengoedd gorlwythog beirdd y cyfnod.

O edrych yn wrthrychol ar ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd ei feirdd mor brin nac yn anffodus mor ddawnus ar y cyfan ag yr honnai Myrddin. Yn wir, yn ôl Syr Thomas Parry “..... y mae’n syn y nifer enfawr o bobl a fedrai gynganeddu – nid bod eu degwm yn feirdd – a phennaf difyrrwch y genedl yn ail i grefydda, oedd llunio cerddi o bob math”³. Wedi godidowgrwydd campweithiau Beirdd y Tywysogion, Beirdd yr Uchelwyr ac eraill, ’roedd y newid sylfaenol yng nghyfansoddiad cymdeithas wedi peri i farddoniaeth bellach ostwng i lefel trwch y boblogaeth a cherddi’n cael eu cyfansoddi gan ac ar gyfer y werin ei hun.

A siarad yn gyffredinol, felly, i genhedlaeth o feirdd eithaf cyffredin a di-fflach y perthynai Myrddin ac, o gymryd hynny i ystyriaeth, go brin y gellir rhannu ei frwdfrydedd yn y gosodiad a ganlyn o’i eiddo “..... pwy sydd i sefyll ar y caerau, ac i wyllo tros freiniau y ddinas Gymreig, a dyogelu yr etifeddiaeth deg i ni a’n plant a phlant ein plant, ond ein BEIRDD?”⁴. Â ymlaen i dynnu sylw at y cam dirfawr y credai ef y câi beirdd a llenorion yr oes oherwydd difaterwch y gymdeithas “..... pwy ydynt y llymrygiaid a’r crwydriaid tlotaf a mwyaf diymgeledd a fedd cymru [sic], ond ei Hawdwyr a’i Beirdd; canys y mae noddwyr y cyfrai gvedi bod ac nid ydynt mwy Er i’r Bardd greu gwroldeb a berwi’r gwaed, ac uno fel cynt fyddin o ryfelwyr Er iddo godi dyn o ddyfnderau y cymoedd i drumiau bryniau Gwynfa gadewir iddo ymdaro trosto ei hun, a bod a’i logellau a’i gylla mor weigion a theyrnas gwagder mawr ei hun”⁵. Teimlai Myrddin, felly, nad oedd swyddogaeth y bardd wedi newid yn ei hanfod ar hyd y canrifoedd a chredai’n ddiffuant y dylai bardd y bedwaredd ganrif ar bymtheg

fwynhau'r un statws a'r un urddas â'r Bardd Teulu gynt. Yn ei dyb ef, cymdeithas ddi-hid y cyfnod oedd yn gyfrifol am sefyllfa drychinebus person mor dalentog ac unigryw â'r bardd ac mae'n debyg ei fod yntau wedi profi chwerwder a chwithdod y difaterwch – ffaith, o bosibl, a'i hysgogodd i leisio barn mor huawdl yn y lle cyntaf.

Hyd y gwyddys, yn 1857 y mabwysiadodd John Jones yr enw barddol enigmataidd Myrddin Fardd. Yn unol â'i ddyhead i fod yn wahanol, ni ddilynodd arfer nifer helaeth o feirdd Cymru o gymryd eu henwau barddol o nodweddion daearyddol eu bröydd genedigol. Mae'r enw Myrddin Fardd yn awgrymu bod gan ei berchennog ddoniau arallfydol ac mae'n debyg mai dyna'r argraff yr oedd John Jones am ei chreu o'r cychwyn cyntaf. Yn wir, yn ôl Y Parchedig J Davies (Isfryn), "yr oedd llawer o gyfriniaeth a'r gweled pell yn ei gymeriad"⁶ ac oherwydd ei gymeriad unigryw a'i ffordd ryfedd o fyw, ystyrir ef yn 'wahanol' trwy gydol ei fywyd ac yn arbennig felly o'i ugeiniau cynnar ymlaen. Fel y tystia E D Rowlands, 'roedd Myrddin "weithiau yn ymorchestu mewn bod yn hynod er mwynhad iddo'i hun ac i eraill"⁷.

Rhan o addysg farddol unrhyw fardd ifanc, wrth gwrs, yw ymglyfarwyddo â chyfansoddiadau'r meistri. Ac yntau'n hynafiaethydd yn ogystal, diau i Myrddin dreulio oriau meithion yn pori drwy gampweithiau Beirdd y Tywysogion a Beirdd yr Uchelwyr ac eto, nid hwy oedd y goreuon yn ei dyb ef. Gwir iddo feddwi ar weithiau'r beirdd hynny a gynrychiolai oes aur barddoniaeth Gymraeg ond, fel llawer o feirdd ei gyfnod, gwirionai'n fwy ar gywyddau ysgolheigaidd a disgybledig Goronwy Owen ac 'roedd yn edmygydd mawr hefyd o ganu

caeth amrywiol ei safon cyfoedion megis Eben Fardd – ei “eryrog arwrwas”⁸, Gwallter Mechain, Nicander, Dyfed, Cynddelw a Lewis Edwards. Mae’n debyg nad oedd Myrddin ar ei ben ei hun yn ei edmygedd o’r cyfryw feirdd ac yn hynny o beth, dilyn ffasiwn a safonau’r oes a wnâi. Wedi’r cwbl, ar wahân i waith safonol Goronwy Owen ac ambell berl megis awdl ‘Dinistr Jerusalem’ o eiddo Eben Fardd, pur gyffredin ac eilradd oedd cyfraniad y ‘mawrion’ eraill i farddoniaeth Gymraeg.

Fel pob un, diau i Myrddin geisio ymgynraedd at safonau ei eilunod ond er iddo gyfansoddi rhai cerddi eithaf cymeradwy, dyfarnodd y gymdeithas eisteddfodol a oedd ohoni na lwyddodd. Yn y lle cyntaf, ’roedd ei ddiffyg addysg yn faen tramgwydd iddo a chyfyngwyd ar ddyfnder ac ehangder ei gerddi. Yn wahanol i Goronwy Owen, Eben Fardd a Lewis Edwards, nid oedd Myrddin yn gyfarwydd i bob pwrpas â’r clasuron Lladin na llenyddiaeth Saesneg ac ’roedd ei waith, yn naturiol, yn dlotach o’r herwydd. Ni feddai ’chwaith ar ddisgyblaeth ddigamsyniol Goronwy ar ei grefft na dawn ddisgrifiadol Eben ond anelai at eu hefelychu hwy a Lewis trwy gyfansoddi cerddi aruchel eu harddull a hynafol eu hieithwedd a hynny’n bennaf i greu argraff ar feirniaid eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol. Canai Nicander a Chynddelw, ar y llaw arall, awdlau symlach a mwy cyffredin eu hiaith, nodweddion nad edmygid mohonynt gan Myrddin ac eithrio yn y cerddi rhydd telynegol eu naws a luniai’n achlysurol.

Ymddengys, felly, fod Myrddin yn barddoni ar gyfer dwy gynulleidfa; ar y naill law, ceid ganddo gerddi mawreddog a chymhleth a oedd yn gyforiog o eiriau hynafol a dieithr ar gyfer y dysgedigion ac ar y llall, benillion syml eu mynegiant a’u

mydryddiaeth a llawer ehangach eu hapêl ar gyfer y werin.
Rhaid cofio nad oedd y dull olaf o ganu mewn bri yn y cyfnod
hwn ac mae'n debyg na fyddai Myrddin yntau wedi trafferthu
gydag ef oni bai am ddylanwad uniongyrchol y dyn a edmygai
fwyaf, efallai – Daniel Silvan Evans.

'Roedd y gyfeillach rhwng Silvan a Myrddin yn rhyfeddod
ynddi'i hun, wrth gwrs, a hynny oherwydd bod y gagendor
cymdeithasol rhyngddynt mor eang. Fel bardd y cychwynnodd
Silvan ar ei yrfa lenyddol a hynny pan oedd yn ŵr ifanc ugain
oed. Felly Myrddin hefyd. Oherwydd na ffafriai'r mesurau
caeth a'r gynghanedd, hoff gyfrwng Silvan oedd y canu telynegol
ac yn ei dydd, 'roedd ei farddoniaeth seml, deimladwy, fel chwa
o awyr iach ynghanol awdlau a phryddestau rhwysgfawr a
gwrthrychol y cyfnod. Yn wir, torrodd dir newydd i bob pwrpas
ym maes barddoniaeth Gymraeg ac er mai bardd eisteddfodol
oedd Myrddin yn ei hanfod, mae'n debyg mai oherwydd
dylanwad Silvan y trodd ei law o dro i dro at gerddi telynegol.
Fel eilunod eraill Myrddin, 'roedd Silvan yn hyddysg yn y
clasuron ac adlewyrchid ehangder ei ddysg yn ei gerddi, boed y
rheini'n gynyrrch gwreiddiol neu'n gyfieithiadau/efelychiadau.
Yn ychwanegol at hyn, yn ôl Morgan D Jones, 'roedd "peth o ôl
dylanwad canu clasurol y ddeunawfed ganrif ar ei waith"⁹. Ni
allai Myrddin gyfoethogi ei farddoniaeth ef yn yr un modd, wrth
gwrs, ac mae bron y cyfan o'i gerddi yn amddifad o'r cyfeiriadau
at lenyddiaethau Groeg, Rhufain ac yn y blaen sy'n britho gwaith
Silvan, megis yn y dyfyniad a ganlyn o'r gerdd 'Cenfigen':

Mwy digllawn ei golwg, mwy hagr yw ei llun,
Na'r erchyll Orgoniaid nadreddog eu hun;
Er gwledda'n beunyddiol [sic] ar nodwedd y da,
Mae'n gulach na'r Harpiaid; byth digon ni cha'

10

'Roedd gwahaniaeth mwy sylfaenol a chynhenid, fodd bynnag,
yng ngallu'r ddau fardd.

Er na chyfrifid Silvan yn un o feirdd mawr ei oes, lluniodd nifer
o gerddi rhydd eithaf safonol, fel y dengys y dyfyniad a ganlyn
o'r gerdd serch 'Marwolaeth Elen':

Mae'r deildy'n wyw, a'r ddol yn brudd,
Lle rhodiai gynt mor syw;
Tan fantell tristwch gwrn yn gudd
Dywedant 'Mwy nid yw'!
Ni'm llonir mwy a'i gwenau cu
Ni phrofaf fel ei min,
Ni chlywaf chwaith y llais a fu
Bereiddiach im' na'r gwin

11

Er nad yw'n ddilychwin, ceir yma gerdd eithaf urddasol ar fesur
syml sy'n cyfleu dwyster a hiraeth y bardd i'r dim ac sy'n
gynnyrch gŵr teimladwy, disgybledig. Cymharer y gerdd hon â
chyfres o benillion a gyfansoddodd Myrddin a'i gyfaill
Gwilym Droed-ddu¹² ar farwolaeth Laura Jones o Langian:

Diangaist ymaith, Laura,
Gadewaist fyd o boen;
Ni roddaist fawr o rybudd
Diangaist at yr Oen;
Os cefaist drwm gystuddiau
A thipyn bach o fraw
Cei fythol bwys gogoniant
Am hyny'r ochr draw

13

Affraid dweud nad hon yw un o gerddi rhydd gorau Myrddin – ni pherthyn iddi nac urddas na theimladrwydd ac mae tyndra mawr rhwng sioncrwydd y mydr a phrudd-der y testun. Yn ychwanegol at hyn, ni ellir cydymdeimlo na chydalaru â'r beirdd oherwydd bod y gerdd yn llawer rhy gyffredinol ac oeraidd ei naws. Er gwaethaf yr englyn eithaf da ar ei chychwyn,

Laura mewn harddwch bob llwchyn, - ddeffry
O ddiffirwyth oer ddyffryn,
Dring i'r ne', drwy'r gwagle gwyn,
O'r dulawr at aur delyn

ffars o gerdd ydyw mewn gwirionedd ac o'i chymharu â cherdd gyffelyb Silvan, gwelir y gwahaniaeth amlwg yng nghrebwyll y beirdd.

Gwir dweud, fodd bynnag, na ddisgynnodd Myrddin i'r fath ddyfnderoedd yn y cyfan o'i ganu telynegol. Yn wir, i'r gwrthwyneb, llwyddodd i greu ambell ddelwedd hyfryd a rhamantus dros ben o dro i dro, megis yn y gerdd 'Penillion i'r Nos' lle y disgrifia'r nos a'i holl dristwch yn gormesu ar sirioldeb y dydd:

Wele'r huan yn machludo
Rhwng yr awyr a'r môr mawr;
Gwrida fel pe'n cael ei wasgu
Rhwng y ddau wrth fyn'd i lawr

Mawr gydymhladd â'r teyrn gwyllaidd
Gan ei saethu o'r ddau tu,
Wnaeth y ddaear, wnaeth y wybren,
A'r nos aeth yn fwyfwy du

14

Yn yr un modd, try'n artist drachefn wrth ddotio at greadigaeth
Duw yn y gerdd 'Ymson y Bardd' sy'n llawn o gipluniau
dymunol:

Mae'r haul, mae'r lloer, yn fyw a'i ddawn,
A hwy'r planedau o bob rhyw;
A'r ser – os ynt i'r haul yn blant,
Y maent yn ddoeth, yn deg eu gwawr,
Yn dawnsio clodydd fel myrdd cant,
Gan lesmair at y Duwdod mawr

15

Arddull faledol sydd i'r gerdd delynegol 'Y Bardd ar y Mor' a
llwydda Myrddin i gynnal awyrgylch cynhyrfus mordaith
beryglus y bardd drwyddi draw:

Yr oedd yr hin ym min yr hwyr
Fel pe mewn llwyr lonyddiad;
Ond cododd tymmestl gref ar fyr,
Annifyr fu'i chynnyddiad

Y tonau wnaent o'n hamgylch ni
Gyfodi ac ymhyrddu
A'r pysg ddiengent hwnt ar led,
Wrth glywed y tabyrddu

Ymguddient hwy, llusernau'r nen
Uwch llen o dew gymylau;
Ymfolltai'r mellt mewn dirfawr rym
Yn gyflym in hymylau

16

Er bod y pennill olaf yn wan ac yn hynod ddi-ffrwt ac er i ambell
linell amheus ei mydr a'i hystyr godi'i phen ynghanol y gerdd,
ceir cipolwg yma ar ddawn ddisgrifiadol Myrddin a'i allu i ddal
sylw ei gynulleidfa a chwarae ar ei theimladau. Cryfheir y gerdd
gan ei hodlau mewdol ac mae'n debyg ei bod yn eang ei hapêl
oherwydd symlder ei harddull a'i mynegiant. Fel Silvan, felly,

ond i raddau llawer llai, llwyddodd Myrddin o bryd i'w gilydd i dorri ar undonedd diflas a thrymaidd cynnyrch eisteddfodol y cyfnod.

Er mwyn dod ag urddas i'w farddoniaeth aruchel, atgyfododd Goronwy Owen nifer o eiriau Beirdd y Tywysogion a Beirdd yr Uchelwyr a'u trawsblannu yn ei waith ei hun. Am yr un rheswm, ac oherwydd eu hedmygedd o waith Goronwy, cododd beirdd hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg y geiriau hynafol hyn o waith y Bardd Du o Fôn a'u sodro yma ac acw yn eu cerddi. Yn ychwanegol at hyn, dibynnai beirdd y cyfnod yn ormodol ar Eiriadur a Llyfrau Gramadeg William Owen Pughe a oedd yn gyforiog o eiriau gwneud a chystrawennau dieithr ac anghymreig. Fel sawl ysgolhaig arall ac er ei fod yn hyddysg yn yr iaith Gymraeg, hudwyd Silvan gan ddamcaniaethau afresymol Pughe a heuodd gymaint o eiriau ffug yn ei waith nes difetha llawer ar symlder a meloddedd y cynhaeaf. Dilynodd Myrddin yntau yn nhraddodiad Goronwy a Silvan, gan gredu, fel hwythau, fod hynafiaeth yn rhoi urddas i farddoniaeth. Go brin, felly, y byddai unrhyw un oddi allan i gylch y beirdd wedi medru llwyr ddilyn llinellau megis y rhai a ganlyn o'i eiddo sydd ac ynddynt gryn dipyn o eiriau marw:

Canant heddyw fawl Cu-Ner,
Chwarddant, ymbynciant yn ber,
Mal dwsmel yn drybelid,
Heb arwydd briw na lliw llid
Da fawl ront mewn dull di fai
Mawl iesin fal mel osai;
Eryrog wiw arwyrain
Beunydd i gyd rhydd y rhai'n;
Melus iawn gwnant yma eiliaw,
A llyfr bob un yn eu llaw

17

Mae'r enghraifft hon yn nodweddiadol o eirfa Myrddin yn ei gerddi caeth a'i gerddi eisteddfodol ac ambell waith, mae yntau'n euog o gynnwys geiriau annilys yn ei waith, megis 'hyllig'¹⁸, 'dyraraf'¹⁹ a 'deddestl'²⁰. Yn ogystal â rhoi urddas i ddarn o farddoniaeth, 'roedd diben arall, wrth gwrs, i'r geiriau hynafol a'r geiriau ffug. Fel y profodd Myrddin fwy nag unwaith, gallai'r gynghanedd fod yn genawes bur anhydrin a bendith iddo oedd yr eirfa helaeth a etifeddodd o'r gorffennol. Heb y fath eiriau, ni allai gadw trefn ar y gynghanedd ac yn wir, fe'i trechodd beth bynnag o bryd i'w gilydd, megis yn y llinellau gwan neu wallus a ganlyn:

Mil harddach / (nag aur) melyn
m l h rdd m l 21

Mae'n brofiadol yn wastadol 22

Y brwd Elis, / - (mae'n llawn) braint
br l br 23

Banawg a welir / o ben bwygilydd
b n g l b n b g l 24

Carnedd y Filiast, gast llawn o gastiau 25

A thrwy'th fod yn hynod, heb 26

Droeon eraill, gorfododd eiriau anaddas a llinellau disynnwyr ar ei farddoniaeth er ufuddhau i'r gynghanedd yn unig. Er enghraifft:

Cysur yw Caisar Owain 27

A chwyno i esgor chwanen 28

Na dim rhigwm larwm lol,
O siarad anghysuro! 29

Oherwydd gofynion y gynghanedd y cafwyd ganddo, hefyd,
doreth o eiriau llanw ac ambell wall iaith:

Awr ac awr yn gawr i gyd 30

Oll, oll, O! deuwch allan 31

..... mor loew,
Mor lawen yw'r ffrydi 32

A'u ffiniau'n barthau berthog 33

Yn wir, gellir dweud mai ymarferion cynganeddol yn unig yw'r
mwyafrif o gerddi caeth Myrddin. Ffitio geiriau'n dechnegol i
greu patrwm a wna yn hytrach na barddoni a gwiriona ar rodres y
gynghanedd megis yn y dyfyniad a ganlyn o'i 'Awdl Arwyrain y
Ceiliog':

Wâs anwyl, brwd y seinia
O'n clyw, nid encilio wna
I'w noddfeydd a'r cludfeydd clau
Ar adeg hel yr ydau;
Ond myn wledd, - mae'n rhyfedd ryw,
A llywiawdwr llu ydyw;
O'i gaban i'r ysgubawr
Mae'n frenin y fyddin fawr;
Ac eurdda bwnc, a'r gerdd o'i ben
Yn gywir serchog awen 34

Gwaith gŵr ifanc a geir yma, wrth reswm, ond teg yw dweud na
ddatblygodd Myrddin ryw lawer yn ystod ei gyfnod o
weithgarwch barddol a chyffredin ddigon yw ei gerddi mwy
diweddar hwythau, fel y dengys yr enghraifft a ganlyn o'i
'Awdl Annerchiadol i Mr W Prisiart, Bodlondeb, Llangŷan,
Lleyn':

Llenor yw hwn yn tynu
Gwreiddiau enaid canaid cu;
Byw bywyd teg o bob tu – yw ei reddf,
A'i gynneddf at ganu.

Trwyadl fab tra hyawdl fo,
Ei feddwl yn fawr fyddo;
Ior â'i law a'i arlywio, - Gymro mwyn,
Naf addwyn a foddio

35

Weithiau, fodd bynnag, caniatâ'r gynghanedd i Myrddin esgyn i
gynghrair uwch, megis yn yr enghraifft a ganlyn o'i
'Awdl ar Anian':

Purliw sêr mal perlau sydd,
Ar y llyn oer a llonydd.
Llariaidd wrid y lloer ddi wres
Biau'r nen fel brenines
O'r dwyrain, oror derydd,
Mae'r gwas tân yn datgan dydd

36

Er gwaethaf gofynion y gynghanedd, ceir adlais prin yma o
ddawn gynhenid Myrddin i greu darlun syml ond effeithiol tu
hwnt. Yn eironig ddigon, fodd bynnag, mewn cyfnod a addolai
rwyg barddol, diau na chymeradwyid arddull mor ddiaddurn yn
rhengoedd beirdd y canu caeth.

Yn ychwanegol at hyn, oherwydd ei fesur cryno a diffwdan mae'n debyg, cynigiai'r englyn ei hun yn gyfrwng addas i Myrddin. Aeth i ddyfroedd dyfnion fwy nag unwaith gyda mesurau mwy cymhleth yr hir-a-thoddaid a'r cywydd ond lluniodd englynion purion ac eithaf cofiadwy ar y cyfan, fel y dengys yr enghreifftiau a ganlyn:

O'r ceiliog lliwgar celfydd, - praff ydyw,
Proffwydwr boreuddydd;
Oes blaenor mwy ysblenydd
Ei lîn, na dewin y dydd?

37

Y BERDONEG, os egwan – ddena bawb
At ddawn ei byw gyngan;
A thyn o wythi Anian
Nodau gwir enaid y gân

38

Llyffethair fu'r gynghanedd i Myrddin ar y cyfan, fodd bynnag, a thrueni bod ffasiwn yr oes wedi ei gyflyru i roi cymaint o sylw iddi. Pe bai wedi dyfalbarhau â'i ganu rhydd a'i ddatblygu, diau y byddai ei gynnyrch barddol wedi bod o safon uwch yn y pen draw ac wedi ei werthfawrogi'n fwy, o bosibl, gan feirniaid llenyddol yr ugeinfed ganrif. Pwy a wŷr, efallai y byddai ei gerddi rhydd ef wedi goleuo tipyn ar ddŵch ffurfafen barddoniaeth eisteddfodol y cyfnod.

Yn ogystal â dylanwadu ar gyfrwng ac arddull farddonol Myrddin, effeithiodd Silvan Evans hefyd ar ei syniadaeth ac yn arbennig felly ar ei syniadaeth grefyddol. Rhyfedda Silvan at hollalluowgrwydd y Duwdod:

Yn awr caf dremu ar weithredoedd Iôr, -
Ei allu gwelaf yn y tir a'r môr;
Doethineb llawn, a chariad gwir di-feth,
Yn amlwg iawn canfyddir ar bob peth
Mynegant ini am y Duwdod doeth,
Mewn grymus iaith, ban lef, a geiriau coeth

39

a mynych y cyfeiria Myrddin at fawredd Duw a rhyfeddod y
greadigaeth yn ei gerddi yntau. Yn wir, lluniodd sawl cerdd rydd
ar y testun, megis 'Golygfa o Deml Anian' (1859),
'Galwad ar y Greadigaeth i Foliannu Duw' (1860) ac
'Ymson y Bardd' (1861), ac fel y dengys y dyfyniad a ganlyn,
adlewyrchir ynddynt feddylfryd, os nad coethder, Silvan:

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Yr haul tanbeidiol, a'r ser cain,
Sy'n datgan mawredd Duw heb sain;
O! drefniant doeth, - mor deg yw gwawr
Llusernau y ffurfafen fawr, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

40

Ni all Myrddin beidio â chlodfori Duw yn ei gerddi eisteddfodol
hwythau a cheir y teimlad yn aml ei fod fel plentyn byrlymus
wedi gwirioni'n lân ar berthynas hoff:

Pwy haera nad oes Duw?
Efe, yn wir, gyhoedda
Ogoniant pur ein Glyw;
Yr Hwn a ro'es y gogledd
Yn ngrôg ar wagle mawr,
A hefyd ar ddiddymdra
Y gadarn ddaiar lawr
A thrwy ei dêg wasanaeth
Arddengys duw o hyd
Anrhaithol drugareddau
I bethau gwerthfawr byd

41

60

Yn ôl Y Parchedig J Davies (Isfryn), “pan gyfeiriai [Myrddin] at y ‘Bod Mawr’ gwnâi hynny gyda “pharchedig ofn”⁴² ac nid syndod hynny o ddirnad anferthedd a grymuster ei Dduw:

Cyn creu na dechreu un dim,
Deddestl ar seiliau dyddim:
Y Duwdod mewn hynod hedd,
Wnai astud gadarn eistedd

Ein Duw a roddodd gyflawnder o’i eiddaw,
Ar leni uwch addurn, a’r hwyl yn chwyddaw;
Hithau Natur bur heb wyraw – safai’n deg
Ar y fawr adeg gywreindeg, i wrandaw

43

Er gwaethaf y gorfoledd arswydus a deimlai Myrddin, fodd bynnag, gresynai, fel Silvan, at ddifaterwch a diffyg gweledigaeth ei gyd-ddyn. Cwyna Silvan fod:

..... pob peth yn canmawl y Duwdod
Yn uchel, ond calon oer dyn

44

a gofynna Myrddin yn anghrediniol:

..... p’le mae dyn, greadur hardd,
Heb floeddio mawl i’r Duw sy dda?

gan ei annog i wella’i ffyrdd:

O! deffro ddyn! – dy delyn chwardd! –
Prysura fod eneidol, gwna!

45

Credai Myrddin mai “mewn cyfnod di-rin ac oes ddi-ras”⁴⁶ yr oedd yn byw a chan ei fod yn onest ac yn ddidwyll yn ei grefydd fel ym mhopeth arall, brifai hynny ef i’r byw. Yn ôl Robert Evans (Cybi), “nid oedd le i ffug yn ei grefydd ddynol, ymarferol ef”⁴⁷ a mesurai bawb arall gyda’r un ffon fesur. Oherwydd ei diffyg undod ac felly ei diffyg parch at Dduw yn ei

61

dyb ef, casâi grefydd enwadol yn ei chyfanrwydd bron â'i holl galon ac aeth mor bell â chyhoeddi fod “dau fath ar grefydd sef ‘Crefydd yr Enwada’, a ‘Chrefydd Iesu Grist’”⁴⁸. Gydag ambell eithriad, ’roedd â'i gyllell yng nghefn y gweinidogion ymneilltuol yn dragwyddol a chyhuddodd hwy droeon o elwa'n ariannol ar air Duw. ’Roedd yn eithaf gwawdlyd ohonynt hefyd a dychanai hwy yn aml. Dywedodd wrth J Glyn Davies unwaith, er enghraifft, ei fod wedi clywed “rhywun yn gweiddi yn i bulpud fel tae i Dduw o yn Llanaelhaearn”⁴⁹. Ymhellach, honnai nad oedd y Sêr Fawr yn ddim ond “‘tresal’ y gŵr drwg”⁵⁰ a chredai fod y rhai a fynychai’r oedfa yn “comandio’r Bod Mawr fel pe byddai gi defaid”⁵¹. Er iddo fynychu’r eglwys unwaith neu ddwy, pur anaml yr âi allan o’r tŷ ar y Sul ac fel y dywed D C Owen “ei le o addoliad yn ddiâu oedd ei aelwyd”⁵². Cadwai’n ddeddfol at ei arferion piwritanaidd, felly, ac ar wahân i Bob Owen Croesor, ni châi neb groeso ar ei aelwyd ar y Sabath. Un prynhawn Sul, ymwelodd llenor adnabyddus ag ef a’r cwbl a ddywedodd Myrddin wrtho ar y rhiniog oedd “does arna i ddim isio help i dorri’r Saboth, a fydda’i byth yn croesawu neb fydd yn crymowta’r [sic] Sul”⁵³ ac yn ei ddull dihafal ei hun, caeodd y drws yn glep yn ei wyneb!

Yn rhannol oherwydd ei gysylltiad â Silvan Evans, mae’n debyg, ac yn rhannol oherwydd iddynt roi cymaint o gymorth iddo gyda chofrestrau plwyf, arysgrifiadau ar gerrig beddau ac yn y blaen, ’roedd gan Myrddin barch mawr tuag at offeiriaid Eglwys Loegr ac er iddo resynu droeon at rwysg yr eglwys, ’roedd ganddo le cynnes iddi yn ei galon ar y cyfan. “Mae rhywbeth yn anwyl mewn cysylltiad â’n hen Eglwysi gwladaidd lle yr oedd ein teidiau a’n cyndeidiau yn arfer addoli; cyn i ymraniadau ac holltiadau crefyddol andwyo ein gwlad”⁵⁴ Etifeddiaeth o’r

gorffennol oedd yr eglwys i Myrddin yn ei hanfod, felly, a chan fod yr hynafiaethydd ynddo'n clodfori popeth a berthynai i'r oesoedd a fu, nid syndod iddo ymwrthod â newydd-deb cymharol ymneilltuaeth. Eto, nid oedd yr etifeddiaeth odidog heb ei rhwystredigaethau a blinid Myrddin a Silvan fel ei gilydd gan Seisnigrwydd traddodiadol a gormesol yr eglwys. Cafodd Silvan brofiad uniongyrchol o agwedd ddilornus yr eglwys tuag at yr iaith Gymraeg, wrth gwrs, ac nid hawdd iddo oedd bod yn offeiriad eglwysig ar y naill law ac yn ysgolhaig cenedlgarol ar y llall, fel y tystia ei lythyr dyddiedig Awst 9, 1869 at Myrddin.

“Myfi sydd yn amcanu golygu y gwaith

[Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym] ond cedwch fy enw i yn gyfrinach; canys os aiff y sôn allan fy mod yn golygu fe'm lleddir yn gelain gegoer gan yr Esgob Eingl, y rhai mae Dialedd wedi eu gyru i'n plith. Buaswn wedi gwneuthur llawer mwy dros lenoriaeth fy ngwlad cyn heddyw, oni buasai y gweilch hyn. Gwyddoch, ond odid, mai Esgob Bangor a barodd (a'm gorfododd) i roi golygiaeth y Brython i fyny.”⁵⁵ Gan ei fod yntau yn “Gymro cenedlgarol a'i galon yn berwi gan wladgarwch”⁵⁶, diau fod Myrddin yn llwyr gydymdeimlo â Silvan yn ei drallod ac yn rhannu ei chwerwder a'i siom.

Er na thywyllai fan o addoliad wedi dyddiau ei blentyndod, 'roedd Myrddin yn grefyddol ac yn ddefosiynol yn ei ffordd ei hun. I Silvan 'roedd y diolch am hynny, mae'n debyg; ef, yn anad neb arall, a'i cyflwynodd i fawredd Duw a hynny a'i harweiniodd yn y pen draw at goleddu athrawiaeth yr Undodiaid. Credai'r mwyafrif o grefyddwyr ei ardal mai “hen bagan ysgymun”⁵⁷ oedd Myrddin yn y bôn ond 'roeddynt ymhell iawn oddi wrth y gwirionedd.

Oherwydd ei ddaliadau crefyddol, 'roedd Duw a natur yn anwahanadwy yng ngolwg Silvan ac adlewyrchir hynny'n gyson yn ei gyfrol Blodau Ieuaine. Pur anaml y ceir ganddo gerdd natur heb unrhyw gyfeiriad o gwbl ynnddi at wyrth y greadigaeth ac allorau i foliannu Duw, yn wir, yw cerddi megis 'Y Lleuad', 'Yr Haf' a 'Cywydd yr Hedydd'. Felly rai o gerddi Myrddin hefyd, megis 'Golygfa o Deml Anian' (1859), 'Galwad ar y Greadigaeth i Foliannu Duw' (1860), 'Ymson y Bardd' a'i gadwyn o englynion hynod dlws ac effeithiol i'r 'Haf' (1858):

Mor dda yw'r haf, mor ddiên, mor siriol,
Mor seirian yw'r heulwen,
Mor ewybr mae yr wybren,
Mor derydd beunydd uwch ben

Mor llawnion y mae'r llwyni – mor loew,
Mor lawen yw'r ffrydi,
Mor hylan yw'r môr heli;
Mor dyner yw Ner i ni

58

Ac yntau'n hen gyfarwydd â gweithiau Beirdd y Tywysogion a Beirdd yr Uchelwyr, ceir yma ddynewarediad eithaf llwyddiannus – os nad perffaith o ran y cynganeddu a'r odli – o ddull yr hen feirdd o gyfoethogi eu gwaith â chymeriad a gwna Myrddin ddefnydd pwrpasol ac adeiladol o'r gair cryfhaol 'mor' i ymgyrraedd yn y pen draw at ddisgrifio mawredd Duw. Gweddi yw'r gerdd mewn gwirionedd i ddiolch i Dduw am Ei gymwynasau ac mae ei harddull seml a'i geiriau swynol yn gweddu i'r dim.

Yn wahanol i Silvan, fodd bynnag, nid oedd Myrddin am i'r cyfan o'i gerddi natur fod yn gyfryngau uniongyrchol i foli Duw. Wedi'r cwbl, ac yntau wedi ei eni a'i fagu mewn ardal wledig

64

hyfryd, bu natur yn rhan annatod o'i fodolaeth o'r cychwyn cyntaf. Yna, yn ystod ei ddyddiau ysgol, diau iddo gael ei gymell a'i ysbrydoli gan Hugh Ellis, yr athro a oedd yn "od naturiaethydd"⁵⁹ ac a'i cyflwynodd i ryfeddodau'r cread:

E dremia draw yn llawen, - ar harddwch
Ar urddiant pob elfen,
Ar dir, ar wellt, ar fellten
Ar niwl a gwychder y nen

60

'Roedd parch a chariad cynhenid Myrddin yntau at natur yn ddiymwad. "Ceir mwy mewn coedydd nag mewn llyfrau, a choed a cheryg a ddysgant i ni yr hyn na allan ddysgu oddiwrth ddyn."⁶¹ Nid syndod, felly, fod ei farddoniaeth gaeth a rhydd yn gyforiog o gyfeiriadau at amrywiol wrthrychau natur, rhai ohonynt yn gynnil a phwrpasol, eraill yn oreiriog ac yn ddianghenraid ar adegau.

Cymharer, er enghraifft, addaster a pherseinedd y dyfyniad a ganlyn o'i 'Rhiangerdd' (1861):

Y lleuad, mae'n hynod ysmala,
Wrth syllu i lawr ar y môr;
Tra yntau fel pe mewn ymdrechfa
Am iddi gil-agor ei dôr;
Gael iddo ddod ati i garu,
Oherwydd ei bod hi mor dlos
Ymunant – aiff hithau i gysgu,
Ar fânblu obenydd y nos

62

â darn disgrifiadol hirwyntog a thrymaidd, ond cwbl nodweddiadol o'r cyfnod, o'i 'Awdl Mynyddoedd Eryri' o'r un flwyddyn:

65

A thros lethrau'r creigiau crôg,
 Y creigiau ceirn caregog;
 Llifddwr cadr sy'n rheiadru,
 Yn hydrwyllt, taerwyllt, bob tu!
 A'i uchel lais croch, uwch law
 Yn agwrdd wyllt ffyrnigaw,
 Ni erys – rhed yn hyrwydd
 Heibio, seinio yw ei swydd,
 O'i serth nen gan syrthio'n ol
 I'w rydau anwaredol. –
 Mor ddwys yr ymarllwysa!
 Is ael nant ryw sisial wna;
 Ar seiliau o risialwaith,
 Drwy wiw dud – myn'd ar ei daith,
 A'i ffrydion yn llon eu lliw,
 O'r un eiliad arianliw

63

Cyn iddo symud i blwyf Llangŷan, bu Silvan Evans yn gurad ym
 Mhlwyf Llandegwning a Phenllech am bedair blynedd ac yn
 ystod y cyfnod hwn, daeth yn gyfeillgar ag Owen Owen
 (Owain Lleyrn) a oedd yn byw ym Modnithoedd, Botwnnog.
 Oherwydd y cyfeillgarwch arbennig hwn, daeth Myrddin yntau'n
 bur gyfarwydd ag Owain Lleyrn yn ystod ei flynyddoedd olaf ac
 ymwelai â'r hen ŵr o bryd i'w gilydd fel y tystia ef ei hun
 "Dydd Llun y 3ydd o'r mis hwn [Ionawr, 1859], aethum i
 ymweled a'r athrylithgar Owen Owens, ysw, Bodnithoedd"⁶⁴.
 Ac yntau'n fardd gwlad o'r iawn ryw, canai Owain ar amrywiol
 bynciau ond 'roedd yn arbennig o hoff o weithio englynion i
 wahanol wrthrychau natur, megis 'Y Golomen', 'Y Dyfrgi',
 'Yr Enfys' ac ati gan wneud hynny "nid yn ei lyfrgell
 ond wrth araf rodio"⁶⁵. Diau i fardd mor barchus a
 phrofiadol greu cryn argraff ar Myrddin; yn wir, ymddengys i'r
 bardd ifanc gael ei hudo gan ramant y sefyllfa oherwydd wrth
 iddo adael Bodnithoedd un diwrnod "canfyddais, ger Nanhoron,
 Baun, a chysodais iddo"⁶⁶. Fel Owain, felly, lluniodd

66

englynion eithaf cymeradwy i un o wrthrychau natur a hynny yn null ac arddull yr hen feirdd:

Mor gêd, pwy sydd weledig? – a phinagl aur,
A phen glas nodedig;
Y Paun yw'r gwalch balch ei big
Un addas pur foneddig.

Y mae ryw olwg amryliw, - geinffel
Trwy'i gynffon delediw;
Gymwys un – gemau sy' wiw
Yw cynllun ei blyf canlliw

67

Cafodd yr haul a'r ceiliog hwythau'r fraint o fod yn destunau cerddi Myrddin, y naill mewn cywydd pur gyffredin a di-fflach a'r llall mewn awdl rodresgar a goreiriog. Ymarferion cynganeddol gŵr ifanc yw'r ddwy gerdd yn anad dim arall a phrin yw eu rhagoriaethau, fel y dengys y dyfyniad a ganlyn o'r 'Cywydd i'r Haul':

Grymus wyt, hoenus huan,
Bywyd dydd a bod o dân;
Hyf addurn byd a'i gyfoeth,
Ei wisg deg a'i wasgod goeth

68

Mae'n debyg mai ymorchestion oedd y cerddi uchod i Myrddin, fodd bynnag, ac yn ddi-os, natur oedd ei hoff bwnc – yn wir, 'roedd wedi ei swyno'n llwyr ganddi a mynnai wneud sioe fawr ohoni pan gâi'r esgus lleiaf. Ystyriai ei hun yn arbenigwr arni, ac nid syndod iddo fod yn bur llwyddiannus ar y cyfan wrth ymdrin â hi. Nid syndod 'chwaith fod un a oedd yn gymaint edmygydd o fyd natur yn meddu ar gariad mor ddwfn at ei fro. Hon oedd "llanerch hoff"⁶⁹ ei blentyndod, wrth gwrs, ac edmygai bawb a rannai'r un delfrydau a'r un dyheadau ag ef. Clodfora John Roberts, yr arlunydd o Lanystumdwy, er enghraifft,

67

oherwydd y “carai yn fawr ei fro enedigol fel nas gallai
feddwl am symud ei babell i un parth arall o’r hen ddaear”⁷⁰. Ni
chrwydrodd Myrddin yntau ymhell o Llyn ac yn union fel ’roedd
Silvan wedi canu clodydd Llannarth yn ei gerdd
‘Fy Ngenedigol Fro’⁷¹, aeth ati yn 1861 i lunio cerdd rydd ar y
testun ‘Gwlad Fy Ngenedigaeth’ sy’n cyhoeddi’n groch mai:

Hyfrydaf fan ar lawr y byd,
Yw gwlad fy nghartref i;
Mi roddais arni’ m serch a’ m bryd,
Pa wlad sydd uwch ei bri?

72

Yn wahanol i gerdd delynegol Silvan, fodd bynnag, cerdd
ffeithiol a geir gan Myrddin ar y cyfan ac o’r herwydd, mae’n
amddifad o wir deimlad. Esgus ydyw mewn gwirionedd iddo
gyfeirio’n ôl at orffennol Llyn:

Gwlad Wiliam gynt, gwlad Lewys lân,
Gwlad Huw a Thrygarn – gwlad y gan;
Gwlad Gruff ab Crach – fy enyn wna,
I fwyn syganu – O! mae’n dda!

73

Darfu oes aur barddoniaeth, fodd bynnag, a bu’n dlawd iawn ar
Llyn am gyfnod maith yn nhyb Myrddin:

..... ei llenyddiaeth wedi hyn,
Fu’n warth am lawer oes

74

ond daeth tro ar fyd yn llenyddol ac yn ysbrydol a chred Myrddin
yn ddiffuant fod oes aur arall wedi cychwyn:

Yn awr mae'r tywyllwch o'r bron wedi cilio,
Neu braidd wedi marw – fe'i teflir i dranc;
Mae gwawr yr hen oesau, a gwawr y bresennol,
Yn cyd-ymgyfarfod mal gwryf a llanc.
Mor siriol y dawnsiant – mae'r nain yn ymuno
A'i hwyres fonedig, dawelgain ei gwedd;
Ei merch sydd ar astell – daeth diwrnod ei hangladd
A gwarchod pawb rhagddi, mae'n awr yn ei bedd!

75

Diolcha, fodd bynnag, fod Llŷn yn gadwrfa i ragoriaethau'r
gorffennol:

Mae ynot rinweddol ffynnonau,
Sef Dwrdda a hen Ffynnon Saint;
Cefnllaethfan ac Eiliw heirdd fanau,
A Heudod a Garmon fawr faint;
Yn aros er bri i'n llenyddiaeth,
Yng ngwyneb dryghinoedd pob oes;
Rhag anghof a choll ein henafiaeth,
A'n dynion aruchel eu moes

76

Ymryson rhwng y bardd a'r hynafiaethydd yw'r gerdd drwyddi
draw a chan fod ei chyfeiriadau hynafiaethol yn rhagorach na'i
thrawiadau barddol, gorfu'r hynafiaethydd heb os.

Dychwelyd i'w fro enedigol a wna Myrddin yn ei
'Cywydd Ymweliad a Llanbedrog, Lley'n' hefyd ac awgryma'r
dyfyniad ar ei gychwyn mai ei fwriad yw myfyrio'n hiraethus ar
ddyddiau ei febyd:

This fond attachment to the well-known place,
Whence first we started our life's long race

77

Er iddo fwrw ati'n syth i glodfori

Yr anwyl fro dirionwych

78

69

a channol ychydig ar ei phrydferthwch, buan iawn yr â'n angof
ganddo a chanolbwyntia'n gyfan gwbl bron ar orffennol a
phresennol ei heglwys. Cywydd ymweliad ag
Eglwys Llanbedrog yw'r gerdd yn ei hanfod, felly, ac mae'n bur
debyg iddi ddeillio'n uniongyrchol o gysylltiad Myrddin â
Silvan Evans. Parcha urddas hynafol yr adeilad wrth iddo
gerdded ar hyd yr ystlys ond gresyna ar yr un pryd fod
anrheithiau amser wedi pylu'r gwychder a fu:

O! i cholofnau golau gynt;
Odiaeth o greithiog ydynt

A gwel gwych mai gwael yw gwedd
Cu estyll meinciau eistedd;
A'r hen lofft a fu'n hoffder
Uwch y dda fedyddfa der

79

Cydaddola â'r gynulleidfa orfoleddus:

O! f'enaid dyma fwyniant
Clywed meibion gwynion gant,
O un lef yn dolefain
Wrth naturiol siriol sain

80

ac yna, try ei olygon at yr offeiriad:

..... llyw y Llan
Wr hyglood a rhywioglan –
Yn fugail mwyn heb gwyn gaeth,
A thrwyadl ei athrawiaeth

81

cyn ymlwybro tua'r fynwent i alaru am rai o fawrion y
gorffennol a'u moli yn null Beirdd yr Uchelwyr:

70

Hir dalm fu Gruffydd Salmon
Mal ar waith yn moli'r Ion;
Ond O! yn awr, dyna ef,
Mae'n addaer, trwm in' addef
Diodid mai da ydoedd
Paul yr ail, ein piler oedd

82

Fodd bynnag, mae Myrddin yn ymwybodol iawn o ddiffyg
urddas y bedd:

Mewn beddau gynt, siomiant sydd
O'u gweled draws eu gilydd

83

ac anoga'r meirw i atgyfodi a dychwelyd i'w bro i rannu
cyfrinach bywyd â'r rhai sydd ar ôl.

Wrth gloi, atgoffa ddyn am ei freuder a'i fychander:

..... cofia, briddyn brau
Y dwthwn byddi dithau
Yn y bedd o swyn y byd

84

ac fe'i rhybuddia i fyw bywyd moesol oherwydd cred fod pawb
yn cael ei haeddiant ar Ddydd y Farn:

Ein Ion a wyr yn unig
Eich trefn dlawd a dull eich trig;
Y mae'n ddilys hysbys hyn
E brofodd Duw wael bryfyn

85

Nid hel atgofion melys am flynyddoedd dibryder plentyndod a
wna Myrddin yn y cywydd hwn, felly, ond ymdrin â phynciau
mwyaf dyrys dynoliaeth, sef marwolaeth, y bedd a'r byd a ddaw.
Rhaid ei gymeradwyo am ei ddyfnder meddwl, ei weledigaeth a
hefyd ei nerth disgrifiadol ac er gwaethaf rhai cynganeddion

71

gwan, hen drawiadau o'i eiddo'i hun a delweddau anaddas, mae i'r cywydd rai rhinweddau amlwg. Yn wir, mae'n debyg ei fod yn un o'i gyfansoddiadau mwyaf safonol.

Canai Myrddin yn y cywair llon yn ogystal ag yn y lleddf ac mae ei synnwyr digrifwch yn amlwg iawn yn ei 'Cywydd y Chwain' (1858) a'i 'Cofiant at Gwilym Droed-ddu' (1860). Hiwmor difalais plentyn a feddai Myrddin, mae'n debyg, a phan oedd mewn hwyliau da, 'roedd yn dynnwr coes heb ei ail. Yn ôl E D Rowlands, "byddai Myrddin yn llawn o ryw driciau diniwed er mwyn hwyl yn fwy na dim arall"⁸⁶ a diau ei fod ar ben ei ddigon y diwrnod y cyfarfu â rhyw wŷr bonheddig ar y ffordd nid nepell o'i dŷ. Gofynnodd hwnnw iddo ble'r oedd Myrddin Fardd yn byw a dangosodd yntau'r tŷ iddo cyn cerdded yn ei flaen. Wedi curo ar y drws sawl gwaith, aeth y gŵr i ofyn i gymdoges Myrddin a wyddai ble'r oedd a dywedodd hithau ei fod newydd fynd am dro i lawr y ffordd, gan nodi mai ef oedd yn cerdded yn y pellter. Wedi iddo'i gyrraedd, gofynnodd y gŵr i Myrddin pam na fuasai wedi dweud wrtho pwy ydoedd. "Ddaru chi ddim gofyn", oedd ateb ffraeth Myrddin "dim ond gofyn ble'r oedd yn byw."⁸⁷

Caiff hwyl fawr yn ei 'Cywydd y Chwain' hefyd ond chwerthin am ei ben ei hun a wna Myrddin y tro hwn mewn gwirionedd. Seiliwyd y gerdd ar ddigwyddiad anffodus ond hynod ddoniol yn ei hanfod ac fe'n hatgoffir, o'r herwydd, o ganu ysgafn Dafydd ap Gwilym ond nid ysywaeth o'i grefft:

O'r anwyl, er mor weiniaid,
Egar a blin gyr y blaid
Bawb yn wyllt – myn'd bob yn ail,
I 'nghosi dan fy nghesail
Och! wŕ y tŷ; chware teg
Rhag chwain a'u rhwyg ychwaneg
Mi a'u gwnaf o fy 'stafell
Yn hysbys â bys i bell

88

Gwaetha'r modd, andwyir y bardd a'i awen gan y

..... genfaint dan y gynfas

89

ac wedi dioddef llinellau annelwig a chynganeddion gwan, gellir
uniaethu â'i gri ar ddiwedd ei gerdd:

Ewch i dd----, gadewch i ddyn
Ar unwaith, gysgu ronyn

90

Ysgafnder hwyliog a geir yn ei 'Cofiant at Gwilym Droed-ddu'⁹¹
hefyd. Ymddengys bod Gwilym, a oedd yn gyfaill mynwesol i
Myrddin ac Owen ei frawd⁹², yn ceisio tyfu barf ac ni allai
Myrddin adael i'r achlysur fynd heibio heb dynnu ei goes yn
eithaf llwyddiannus ynglŷn â'r mater:

Ceinfeirdd o hyd sy'n cwynfan – nad yw'th farf
'Neud i'th fost, ond bechan;
Y gwas ni chei byth gusan,
Neu drin merch hefo drain mân

93

Amrywiau gwrthrychau Myrddin yn ôl y galw; weithiau, canai i
gyfeillion a chydabod megis Hugh Ellis, Laura Jones,
Gwilym Droed-ddu a William Pritchard. Dro arall, canai i bileri
cymdeithas, pobl fel Eben Fardd, Y Parchedig John Jones,
Tal-y-sarn a David Williams AS, Castell Deudraeth. Dibynnai'r

73

dull o ganu ar fypwy Myrddin gan amlaf ac ambell dro, fe'i rheolwyd gan ofynion cystadleuaeth. Er iddynt anghytuno â'i gilydd yn Yr Herald Cymraeg flwyddyn ynghynt, awdl rwysgfawr a luniodd Myrddin i William Pritchard, ac wedi iddo ganu clodydd Llŷn a hiraethu am ei gwŷr mawr gynt yn hanner cyntaf y gerdd, try at William a'i frolio yntau i'r cymylau

Gwr o waed awengar wyt,
Erioed awengar ydwyf
Gwr enwog o wir anian
Neu fedr coeth i fydru can

Gawr geirwych, goreu gwron

94

Yna, nid am y tro cyntaf yn ei gerddi, newidia o'r ail i'r trydydd person:

Llenor yw hwn yn tynu
Gwreiddiau enaid canaid cu;
Byw bywyd teg o bob tu – yw ei reddf,
A'i gynneddf at ganu

95

Cynghora William i arddel barddoniaeth safonol ac i anwybyddu:

..... r[h]igymwyr, a gwyr gau
Cryg wyr sy'n hacru geiriau
Dwp dep dap wrth grap gropian
Hyd grimogau coesau cân

96

Fe'i cymhella hefyd i roi'r hen arferion gynt ar gof a chadw ac ar ddiwedd y gerdd, anoga William i ragori ar bawb a dymuna iddo bob llwyddiant. Ar yr wyneb, awdl bur annelwig yw hon o ran cynnwys ond diau bod yn rhaid adnabod William Pritchard a'i ddaliadau i'w llawn ddeall. O ran crefft, fel y dywed Myrddin ei hun wrth gyfeirio at yr hen feirdd:

Rhy frwd yw fy natur frau
I gyrhaeddyd i'w graddau

97

Am resymau a nodwyd eisoes, anaml iawn y clodforai Myrddin weinidogion ymneilltuol yn ei gerddi ond 'roedd un, wrth gwrs, ben ac ysgwydd yn uwch na'r gweddill - Y Parchedig John Jones, Tal-y-sarn. Lluniodd englynion coffa iddo yn dilyn ei farwolaeth gynamserol yn 1857 ac er gwaethaf eu hagoriad a'u diwedd glo pur wan, maent ar y cyfan yn deyrnged eithaf clodwiw i'r pregethwr mawr. Yn wir, ceir yn y gerdd ambell englyn pur grefftus a choeth:

Oedd oludawg dda wyliedydd, - nwyfus
A nefol Dduwinydd;
Gwrês a ffawd y gras o ffydd
A fu'n gryf yn ei grefydd.

Ynad call o enaid cu, - prif was oedd
Prawf saint y Duw Iesu;
Canwyll lân, - cynnullai lu
Goroediog i'w gwaredu

98

Trueni na fyddai'r gynghanedd wedi caniatáu i Myrddin fod yr un mor urddasol a safonol trwy gydol y gerdd.

Trwy gyfrwng Yr Herald Cymraeg, cafodd Myrddin fwy nag un cyfle i gyfarch ar gân un arall o'i eilunod, sef Eben Fardd. Ymddengys ei fod wedi mopio ar y bardd o Glynnog-fawr ac ym mis Mai 1860, lluniodd gywydd moliant iddo sy'n weniaith pur o'i ddechrau i'w ddiwedd. Heb os, dyma ohebiaeth sebonllyd cefnogwr brwd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg! Ni ellir cyhuddo Myrddin o grwydro oddi wrth y testun yn y cywydd hwn oherwydd mola Eben ym mhob llinell a chyfeiria at ei ddawn fel athro, hynafiaethydd a bardd:

75

Urddedig brif-fardd ydwyt
Ac anadl iaith cenedl wyt;
Bardd o wybodau nid bas,
Harddwr y beirdd a'u hurddas;
Brig a bôn ac eigion cerdd,
Od bynciwr – tad y bencerdd.
Bardd uwch beirddion cryfion cred,
Am wau emynau mwyned

99

Diau bod Eben wedi mwynhau'r broliant ond tybed beth a feddyliai o grefft eithaf sigledig y bardd ifanc o Lŷn?

Unwaith, cyfansoddodd Myrddin benillion i grŵp o bobl, sef cryddion Dinbych, “oblegid eu hymdrech am ychwaneg o gyflog, a'u llwyddiant yn hyny”¹⁰⁰. Cân rydd seml ydyw oherwydd fe'i lluniwyd nid yn unig i longyfarch y cryddion ond hefyd i gymell y werin orthrymedig i wrthryfela yn erbyn y drefn annheg a oedd ohoni. Gwêl Myrddin ei hun fel anogwr y dyn tlawd a cheir cipolwg yn y gerdd ar ei ofidiau am anghyfiawnderau cymdeithasol:

Pa reswm i ddyn weithio
Am ryw oferedd bach,
Os bydd e'n grefftwr medrus,
Yn hoenus ac yn iach?
Mae'n resyn na f'ai cyfraith
I atal yr hyll nod,
Gan ranu'n well yr arian
Sydd yn y byd yn bod

101

Casâi Myrddin gyfalafiaeth y

..... meistriaid creulawn
Sy'n ymladd am y byd

102

ac nid ofnai leisio’i farn yn gyhoeddus am annhegwch y sefyllfa – byddai wedi bod yn undebwr brwd mewn oes ddiweddarach mae’n siŵr.

Daeth y cywydd coffa a luniodd Myrddin i David Williams (Dewi Heli), Castell Deudraeth â bri iddo yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri a gynhaliwyd yng nghyffiniau Porthmadog ddiwedd Awst 1872. Ef a enillodd y wobr gyntaf o bum gini a medal am gywydd heb fod yn hwy na dau gant o linellau i’r cyfreithiwr a’r Aelod Seneddol dros Feirionnydd a hanai o Saethon, Llŷn. Yn ôl Yr Herald Cymraeg, “dim ond dau gyfansoddiad [a ddaeth i law] ar destyn mor haeddiannol – Mae cywydd “Myrddin Emrys” yn amddifad o farddoniaeth Mae cywydd “Ymofidiwr” yn llawer gwell. Mae’n fanylach, yn helaethach, a grymusach, er fod ynddo yntau gryn nifer o wendidau”¹⁰³. Er bod camp a rhemp yn y cywydd, felly, diau bod Myrddin ar ben ei ddigon; hon oedd y wobr eisteddfodol bwysig gyntaf – ac fel mae’n digwydd, yr unig un – iddo’i hennill ac ’roedd wedi aros dwy flynedd ar bymtheg amdani.

Bu bron yr un mor hir yn cael hyd i wraig ac nid syndod hynny, wrth gwrs, o ystyried ei natur feudwyaidd, gysetlyd a’i huodledd diflewyn-ar-dafod. Ymddengys iddo fod yn boenus iawn ynglŷn â’i sefyllfa ddibriad am beth amser ac nid oedd yn fyr o ofyn cyngor gwŷr llawer mwy profiadol nag ef mewn materion o’r fath. “Y ffordd oreu at gael gwraig”, meddai Hugh Davies (Hywel Ddu o Fôn) wrtho’n hollwybodus mewn llythyr dyddiedig Hydref 29, 1861 “ydyw dywedyd nad oes arnoch eisiau yr un yr rwan ac ar yr un pryd ymwasgu at y “rhyw deg” a bod yn hynod o ofalus am gadw eich addewid”¹⁰⁴. Yn wir, ’roedd picil Myrddin ar feddyliau’r ddau fardd flwyddyn ynghynt hyd yn oed pryd yr aeth

Hywel ati i geisio gweithio englyn i'w gyfaill anffodus a gorawyddus:

Ioan am ddynaw fwyn ddel – yn gysur
Rhag iasiau iw fogel;
A phawl rhydd naid yn dra fel
Nerth ei garnau wrth gornel

105

Yn naturiol ddigon, felly, ac yntau'n dioddef y fath wewyr, cododd serch ei ben ym marddoniaeth Myrddin o dro i dro yn ystod y cyfnod hwn. Yn 1861, er enghraifft, lluniodd 'Rhiangerdd – Cyflwynedig i Rianod Glan Cymru' yn y mesurau rhyddion a hynny o bosibl at ddibenion cystadleuaeth un o gyfarfodydd llenyddol y cylch. Dyma'r unig gerdd o'i eiddo sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at serch ac at rinweddau merched yn gyffredinol a'i gariad ef yn benodol. Mae hi'n harddach nag elfennau natur hyd yn oed:

Glwys i gyd yw'r gwanwyn glâs
Mewn dillad llawn llawenydd;
Glwys yw'r afon glaeare iâs,
A glwys yw gwisg y mynydd.
Glwys dros ben yw'r llawrwydd taen,
A glwys y lawnt agored;
Hynod lwys yw'r wlithog waen,
Ond glwysach fy hardd luned

106

a haedda bethau gorau bywyd:

Rho'wn iddi sidanau a phob addurniadau,
Er mwyn ei difyru a'i gwneuthur yn llon;
Dymunwn roi iddi iach win breninesau,
Mewn llestryn telediw o wydryn teg waith

107

Yn wir, ni all fyw hebddi funud yn rhagor:

Yn enw'r tad rwy'n glaf o serch,
Y gynnill ferch ganolfain;
Mae'n eulun hoff, yn hynod dlos,
O'i hachos rwy'n trwm ochain

Yn awr, O! dywed Rian glau,
A gawn ein dau briodi;
Mae'th fardd bron marw, ydyw'n wir,
O eisiau dy hir gwmni

108

Er gwaethaf ei gwendid achlysurol a'i hen drawiadau, ymddengys bod melyster a natur swynol y gerdd wedi taro deuddeg oherwydd erbyn Llun y Pasg y flwyddyn ddilynol, 'roedd ei benillion hynod ramantus i'r 'Nos'¹⁰⁹ yn dwyn yr enw 'Morwynig Eifion, sef Miss Gwen Williams, Beudy'r Lôn, Llanystumdwy'¹¹⁰. O'r diwedd, 'roedd Myrddin wedi hudo'i dduwies i'w gôl.

Merch John Williams, gwehydd a chlerc plwyf, a'i wraig Dorothy oedd Gwen ac fe'i ganed ar Fehefin 15, 1837 ym mhlwyf Llanarmon. Fe'i bedyddiwyd yn Gwen Gough Williams ar Fehefin 29, 1845 ac 'roedd ganddi un brawd, William, a oedd bedair blynedd yn hŷn na hi. Wedi iddynt gwblhau eu haddysg, aeth William yn was a chanolbwyntiodd Gwen ar ei dawn arbennig fel gwniadwraig. Mae'n debyg mai yn ystod ei gyfnod yn Chwarel Plas Hen, Llanystumdwy, y cyfarfu Myrddin â Gwen a diau iddynt gael eu pryfocio ynglŷn â'r garwriaeth:

Myrddin Fardd sydd yn fy meio
Am fy mod i'n methu sbelio:
Medraf sbelio Lôn a Beudy
Lle bu Gwen ac yntau'n caru

111

Er i Myrddin ddyheu cymaint am gymar, fodd bynnag, nid oedd y berthynas heb ei thrafferthion hyd yn oed yn 1863, fel y tystia

Owen Jones (Mannoethwy). “Ymddengys fod y garwriaeth yn parhau er y curo a’r ymladd ac er y melldithion ydynt yn cael eu tywallt. Y chwi eich dau raid fyw”¹¹² Mae’n amlwg, felly, nad oedd Myrddin a Gwen yn gytûn o’r cychwyn a hynny’n bennaf, mae’n debyg, oherwydd eu bod mor wahanol i’w gilydd. ’Roedd Gwen, fel ei brawd William, yn hynod gerddorol a meddai ar lais swynol dros ben. O’r herwydd, mae’n debyg iddi gymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau tebyg yn ôl Elis Gwyn Jones¹¹³ ac nid oedd dim yn well ganddi ’chwaith na mynd i ddawnsfeydd lleol. ’Roedd hyn oll yn groes i’r graen i wŷr ifanc mor hunanymwybodol a cheidwadol â Myrddin, wrth gwrs, ac mae’n fwy na thebyg na chymeradwyai afiaith ac allblygrwydd ei ddarpar wraig. Eto, penderfynasant roi’r cyfan o’u hanawsterau o’r neilltu ac fe’u priodwyd yng Nghapel Helyg, Llangybi ar Fehefin 5, 1865 pan oedd Myrddin yn naw ar hugain oed a Gwen ddwy flynedd yn iau. Er gwaethaf ei amheuon ynglŷn â’r uniad, anfonodd Owen Jones at Myrddin yn syth i “ddymuno bendith yr Arglwydd ar eich priodas”¹¹⁴ ac i atgoffa Myrddin mai “nod penaf dy oes a’th lafur fydd dwyn dedwyddwch yn ddibrin ddiffino i’th wraig hyderwyf y bydd iddi gael gŵr da a bodlonrwydd arnat”¹¹⁵.

Camgymeriad fu’r briodas o’r cychwyn cyntaf, o bosibl am fod Myrddin a Gwen mor ystyfnig a phenderfynol â’i gilydd. Diau iddo geisio’i hatal rhag canu a dawnsio’n gyhoeddus wedi iddynt briodi a ffrwyno rhywfaint ar ei phenchwibandod. Methu a wnaeth, fodd bynnag, ac aeth yntau’n fwyfwy i’w gragen. Efallai y byddai gwraig fwy ufudd a thawel wedi medru cyd-fyw’n wareiddiedig os nad yn ddedwydd â llyfrbryf mor anystyriol a hunanol â Myrddin hyd yn oed, ond nid felly Gwen. Gwir yw dweud ei bod ymhell o flaen ei hoes o ran gwerthoedd ac

ymrwymiad priodasol a chan nad oedd y naill na'r llall yn fodlon cyfarfod ei gilydd hanner ffordd, buan iawn yr aeth y briodas i drybini.

Er hynny, tra oeddynt yn byw ym Mhensingrig, Llanystumdwy, ganed iddynt fab, Owen Gough, ar Fehefin 25, 1866. Ef oedd kannwyll eu llygaid a heb os, sicrhodd ei ddyfodiad ef barhad y briodas am rai blynyddoedd. Bu'r teulu'n byw yn 11 Bryn-y-gro, Llanystumdwy am gyfnod ond bu'r tyndra anochel yn ormod yn y diwedd ac ar ôl bod yn briod am lai na deng mlynedd, penderfynodd Gwen fod yn well ganddi grafu byw ar ei phen ei hun na pharhau â'i phriodas drychinebus. Gwahanodd Myrddin a Gwen, felly, mewn cyfnod pan nad oedd cymdeithas yn gyfarwydd â'r fath weithred eithafol a dywed Dewi Williams mai "testun gwaharddedig oedd y tor-priodas"¹¹⁶ o'r cychwyn. Oherwydd ei natur ymfflamychol, mae'n debyg na feiddiai neb ynganu enw Gwen yng ngŵydd Myrddin a chan ei fod yn arddel nodweddion hen lanc beth bynnag, buan y daeth cenedlaethau iau i gamsynied na fu'n briod erioed.

Wedi'r gwahanu, symudodd Gwen ac Owen i fyw i Britannia Cottage, Llanystumdwy ac yno y treuliodd hi ei hoes faith mewn tlodi mawr. Bu farw ar Chwefror 8, 1926, yn wyth a phedwar ugain mlwydd oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Llanystumdwy yn yr un bedd â'i hannwyl Owen Gough. Yn naturiol ddigon, ymadawodd Myrddin â Llanystumdwy ar ôl y tor-priodas ac ni fu odid ddim cysylltiad rhyngddo a Gwen wedi hynny. Bu'n lletya gyda gyrrwr peiriant dyrnu o'r enw Peter Williams a'i deulu ym Mron-deg, Chwilog am gyfnod hyd nes symud i 3 Glan-y-wern, sef y bwthyn a fu'n gartref iddo am dros ddeugain mlynedd. Gweithiai yn Chwilog erbyn hynny,

hefyd, oherwydd wedi cyfnod yn Chwarel Croesor, symudodd i Efail y Pandy a osodwyd iddo gan David Jones, y perchennog, ac yno y bu hyd ei ymddeoliad.

Chwerw ac annymunol iawn fu profiadau Myrddin gyda merched ar y cyfan, felly, ac adlewyrchir hynny yn ei agwedd ragfarnllyd tuag atynt. Nid oedd yn llwyddiannus iawn yn ei berthynas â phobl yn gyffredinol, wrth gwrs, ond casâi ferched yn arbennig ac fel yr âi'n hŷn, ymorchestai mewn tynnu sylw at eu gwendidau. “Mae hen ferched y lle yma yn talu rhent am dai gan fyw yn y drysau”, meddai unwaith, gan ychwanegu'n hollwybodus “maent yn rhy ddiog a balch i fagu eu plant, ond fel gwartheg. Ac wrth roi llaeth buwch iddynt, mae'r plantos yn mynd yn lloi”¹¹⁷ Yn ôl E D Rowlands, ni châi yr un ddynes fynd i mewn i'w fwthyn ar wahân i Marged, y gymdoges a ofalai'n ffyddlon amdano ac a oedd yn berchen ar “un dafod”¹¹⁸ yn unig, yn wahanol i weddill merched Eifionydd! Ni fyddai fawr o drefn wedi bod arno hebddi hi, mae'n debyg, a diau iddo werthfawrogi ei chymwynasgarwch a'i charedigrwydd yn fawr. A siarad yn gyffredinol, fodd bynnag, siomwyd Myrddin yn enbyd gan y rhyw deg a cheisiai guddio'i ofid a'i anfodlonrwydd trwy droi ei gefn ar ferched bron yn gyfan gwbl ac ymosod yn llafar arnynt bob tro y câi'r cyfle.

Dyna'r driniaeth a roddai, hefyd, i'r carfanau eraill o'r boblogaeth a'i pechodd yn anfaddeuol a chan ei fod yn greadur mor fympwyol a diflewyn-ar-dafod, daeth llawer o dan ei lach yn ystod ei oes faith. Draenen boenus iawn yn ei ystlys fwy neu lai trwy gydol ei gyfnod o weithgarwch barddol oedd y beirniaid eisteddfodol a mynych yr achubai ar y cyfle i'w diraddio'n gyhoeddus. “Y mae diffygion ein llenyddiaeth yn ddeublyg yn eu natur”, meddai yn 1862 “diffygion o du awdwyr, a diffygion o du beirniaid a'r

pwnc y dadleuir yn ei erbyn yw, diffygion o du beirniaid, oblegyd o’u tu hwy mae mwyaf o drysgledd, mympwy, a phenchwibandod.”¹¹⁹ Credai mai “..... nonsense o’r mwyaf ydyw gadael i feirniaid o bob math, dryboli ymgeiswyr yn holl laid a llaca anwybodaeth eu tras eu hunain, fel pe tae nhwy y fath ddynion anffaeledig ond atolwg, a ydynt yn gysegredig ac “uwch y cwmp”?”¹²⁰

Rhaid cydnabod bod y mwyafrif o feirniaid y cyfnod wedi colli golwg yn llwyr ar wir farddoniaeth yn nharth arddull aruchel ac amhersonol y canu eisteddfodol ond er hynny, dylid cofio mai plant eu hoes oeddynt hwythau wedi’r cwbl. Eto, ni lwyddasant i osgoi llid ac anniddigrwydd nifer o’r beirdd mwyaf croch ym mhapurau newydd a chylchgronau’r cyfnod. Yn wir, ymddiddorai sawl bardd mewn pardduo beirniaid nad oedd yn eu plesio ac ni ellir llai na synhwyro mai eiddigedd a sarugrwydd, o bosibl, a ysgogodd y condemniadau yn hytrach na gwir anfodlonrwydd â’r beirniaid truain.

Siom ar ôl siom a ddaeth i ran Myrddin yn y prif gystadlaethau eisteddfodol a chan ei fod yn credu’n gydwybodol iddo gael cam enbyd gan sawl beirniad, aeth ati gydag arddeliad i lambastio rhai o ddynion amlycaf cymdeithas yng nghyhoeddiadau’r cyfnod. Tynnodd sylw’r genedl at yr hyn a ystyriai ef yn wendidau anfaddeuol Gwalchmai a Chaledfryn fel beirniaid, er enghraifft, ac ni ddihangodd ei arwr mawr Eben Fardd, hyd yn oed, rhag ei fflangellau didrugaredd.

Cyfansoddodd Myrddin y cywydd ‘Galwad ar y Greadigaeth i Foliannu Duw’ ar gyfer cyfarfod llenyddol a gynhaliwyd ym Mhen Llŷn ym mis Rhagfyr, 1860. Eben oedd y beirniad ac er mai

Myrddin oedd yr unig gystadleuydd, ymddengys iddo atal y wobrgan ei fod mor anfodlon ar y gwaith. “Y mae pob llinell ynddo yn gywir ar ei phen ei hun”, meddai yn ei feirniadaeth “yn gywir mewn corfaniad, ond ei fod heb un math o odliad. Fe ddylai yr awdwr blygu i ddeddfau ei athrawon, neu ynte wneyd rhywbeth o werth fel y byddo yn athraw ei hun.”¹²¹ Gan ei fod ar ffurf proestodl, dadleuai Myrddin fod y cywydd yn gwbl dderbyniol a llwyddodd i dynnu Cynddelw i mewn i’r ffræe ym mis Ionawr, 1861. “Nid wyf yn meddwl”, meddai’r bardd-feirniad wrth Myrddin, “fod y dull proestiwg o gyfansoddi Cywydd yn werth trafferthu llawer i’w ddilyn, eto mae genych “awdurdod” i wneyd hyny os mynwch”¹²² a chyda chefnogaeth sigledig o’r fath yn gynhaliath iddo a chynddeiriogrwydd yn sbardun, ceisiodd Myrddin leisio’i farn yn erbyn Eben yn rhai o bapurau newydd a chylchgronau’r cyfnod. Ni lwyddodd, fodd bynnag, oherwydd gwrthododd y golygyddion argraffu ei sylwadau deifiol am wrthrych mor deilwng ag Eben Fardd a hynny er cymaint siom i Owen ei frawd ag iddo yntau. “Credwyf fod Robert Isaac Jones [Golygydd Y Brython] yn edrych ar Eben Fardd fel bod cyssegredig yn y byd llenyddol, nad oes bosibl iddo mewn un modd wneuthur dim ag sydd yn fyr o berffeithrwydd anffaeledig”, meddai wrth Myrddin yng Ngorffennaf, 1861 “ac na ddylai neb ymagoshau ato, ond gyda’r dyben ymostyngedig o gusanu bawd ei droed.”¹²³

Gorfu i ddieter Myrddin fudferwi am y tro, felly. Eto, nid oedd creadur mor ystyfnig a phengaled ag ef am ryddhau ei ysglyfaeth ar chwarae bach a phan ddaeth y cyfle dros flwyddyn yn ddiweddarach, mynnodd godi’r grachen drachefn pan gyhoeddodd ‘Awdl Mynyddoedd Eryri’. O’r diwedd, llwyddodd i gael y gair olaf. “Gyda phob parch dyledus i Eben Vardd y dymunwn

awgrymu fod dadganiad y gŵr mawr hwnw o'i farn ar y cywydd dan sylw yn brawf diymwad nad yw yntau yn berffaith Ai tybed nas gwelodd ef y dull proestiawg o gywyddu yn ngwaith y gohenfeirdd? Pe buaswn wedi tori rheolau ein hathrawon, ai tybed mai pechod anfaddeuol fuasai tori tir newydd?"¹²⁴

Nid Eben Fardd oedd yr unig feirniad a amddifadodd Myrddin o'i wobwr yn 1860. Dri mis cyn Cyfarfod Llenyddol Pen Lley, 'roedd wedi cystadlu ar yr awdl yn Eisteddfod Blaenau Gwent ac erbyn mis Hydref, ymddengys ei fod yn disgwyl yn eiddgar bob dydd am y newydd mai ef oedd wedi cipio'r wobwr. Buan y drylliwyd ei obeithion yn llwyr, fodd bynnag, gan ymarferoldeb Owen ei frawd "..... diammheu genyf pe buasai dygwydd i ti fod yn fuddugol cawsit wybod ym mhell cyn hyn"¹²⁵.

Testun awdl yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn honno oedd 'Anian', pwnc haniaethol cwbl nodweddiadol o'r cyfnod, a chlориannwyd ymdrechion y pum ymgeisydd gan Dewi Wyn o Essyllt ac Aneurin Fardd. O dan y ffugenw Idwal Iwrch, cyflwynodd Myrddin awdl ddisgrifiadol hirfaith sy'n clodfori mawredd Duw a rhyfeddodau natur. Ym mwrllwch y geiriau ffug hynafol, y cynganeddu amheus a'r geiriogrwydd llethol, peintia gyfres o ddarluniau pur ddymunol sy'n adlewyrchu prydfferthwch natur:

Yna'n fwyn daw gwanwyn gwiw,
A mawr olud amryliw;
Ar hyn fe dderfydd y rhew,
I'r dw'r fe dodda'r durew;
Ffy yr hin erwin oeraf,
Cilia rhew rhag haul yr haf;
A daw purdda freilfa frith,
Blodeu gwyn mal blawd gwenith

126

ac sy'n rhyfeddu at wyrth y cread:

Y march ffroch dan ffroenochi
Hyd geinder brasder, a bri,
Rodia'n falch, a rhawd hwn fydd
Rymusol ar y maesydd;
A'i draed yn gwau drwy dân gwyllt,
Wrth yru mor gerth orwyllt;
Ei brangc a ysgydwa'r bryn,
A deffry gwm a dyffryn

127

Er gwyched holl greadigaethau natur, fodd bynnag, noda Myrddin
ar ddiwedd yr awdl mai dyn yw prif gampwaith y Creawdwr:

Ond Ion yn union a wnaeth – y dyn gwan
Yn brif deyrn Anian, a'i ban unbenaeth

Dyn, mae'n bendant beiriant byw;
Ymerawdwr mawr ydyw

Y mae'n wych, mor wych ei wedd!
Llafurus ei holl fawredd

128

Yn niweddglor awdl, dychwel Myrddin at ei thestun:

Un wên fwyn yw Anian fawr
At arfod ei phwynt erfawr

..... mor hyfryd yw
Cof-nodiad cyfiawn ydyw:
Pethau gynt, ar hynt yn rhes,
Ar hon y ceir eu hanes

Hyhi sy ben ac enaid
I bawb, i ddeddfau y byd

129

Ni chreodd dehongliad Myrddin o 'Anian' fawr o argraff ar y naill
feirniad na'r llall, er i Dewi Wyn o Essyllt nodi ar gychwyn ei
feirniadaeth fod yr awdl "yn un led wych"¹³⁰ sy'n cynnwys llawer
"llinell odidog o feddwl, ac amryw ddarnau cyffrous a hyawdl o
farddoniaeth"¹³¹. Nid yw Aneurin Fardd mor ganmoliaethus
"Gellid meddwl fod Idwal Iwrch yn amcanu ei oreu at ddeall ei

destyn, ond ei fod yn analluog i feistroli ei waith o ddiffyg arferiad, neu y gorchwyl yn ormod i'w alluoedd.”¹³² Gofidia'r ddau feirniad fod nifer o gynganeddion gwallus, geiriau ffug a llinellau disynnwyr yn y gerdd ac â Aneurin Fardd mor bell â nodi mai rhyw “bentyriad geiriau heb ond ychydig ystyr iddynt a geir yn yr Awdl yn gyffredinol”¹³³. Amheuant hefyd fod Myrddin yn euog o lèn-ladrad – cyhuddiad a wnaed yn erbyn Silvan Evans lawer gwaith – a thynna Dewi Wyn o Essyllt sylw at y ffaith fod nifer o anghysonderau yn y gerdd. Er gwaethaf ei sylwadau caredig ar gychwyn ei feirniadaeth, felly, nid syndod iddo'i diweddu ar nodyn llawer llai gobeithiol “..... tybiem mai diffygion mwyaf yr awdl ydynt *gyfyngder* ac arwynebolrwydd ei golygiadau. Nid ydym yn ei chael yn gyfanwaith cyflawn a gorphenedig”¹³⁴.

O ystyried na chawsant y cyfle i ymgynghori ynglŷn â'r feirniadaeth, felly, ac er gwaethaf y ffaith fod eu sylwadau ar safon y gystadleuaeth yn amrywio'n fawr, mae'r ddau feirniad yn eithaf cytûn ynglŷn ag awdl Myrddin. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i Isaied ac mae'n fwy na thebyg mai Myrddin a ddaeth yn olaf yn y gystadleuaeth. Er hynny, cyhoeddwyd y cyfan o'i awdl yn Golud yr Oes dair blynedd yn ddiweddarach yn gofeb i gyflwr truenus cystadlaethau eisteddfodol a safonau beirniadol yr oes.

Yn ôl pob golwg, ni fu Myrddin yn llwyddiannus 'chwaith gyda'i bryddest 'Yr Olygawd o Ben Careg yr Imbill' yng Nghyfarfod Pwllheli ar Hydref 1, 1857 ac fe'i cyhoeddodd yn llyfryn¹³⁵ yn ddiweddarach oherwydd “ni wnaethpwyd fawr sylw o honi ac un math o feirniadaeth arni”¹³⁶. Ymddengys nad oedd yn hyderus iawn ynglŷn â safon y gerdd, fodd bynnag, oherwydd â ati i hogi ei arfau yn y rhagair i'w amddiffyn ei hun rhag unrhyw ergydion annisgwyl. “Mae'n debygol pan ymddangoso [y

bryddest] o flaen y byd llenyddol, y bydd llawer o ymyrwyr rhodresgar a choegysmala, yn cael mwy o hyfrydwch wrth syllu ar ei gwallau nag ar ei rhagorion, fel ag y mae yn arferol o fod, yn mhlith y rhai ag sydd yn cyffesu eu bod wedi cyraedd gwybodaeth lled eang o barth manylion y Gymraeg”¹³⁷ Sicrhaodd gefnogaeth ei gyfaill Meiriadog, hefyd, a chynhwysir ei feirniadaeth gymeradwyol ef yn y rhagair ar ffurf llythyr dyddiedig Rhagfyr 24, 1857. Yn ôl y bardd o Lanfair Caereinion, mae’r bryddest “yn gyfansoddiad lled alluog; yn fwy felly pan ystyrir mai un *ieuanc* yw yr Awdwr. Y mae yn cynwys llawer iawn o dlynsi gwir awenyddol, a gellir chwanegu *gwreiddiol* hefyd”¹³⁸. Cyfeiria Meiriadog at “ei *chorfanau* ystwyth a llithrig iawn”¹³⁹ yn ogystal ond cyfaddefa “y gallasai fod yn fwy tarawiadol a chryno pe tynasid rhai manylion allan o honi¹⁴⁰ .

Canodd sawl bardd i’r olygfa o ben Carreg yr Imbill, ger Pwllheli, wrth gwrs, a phrif nodweddion pryddest Myrddin yw ei meithder a’i disgrifiadau hynod amrywiol. Llwyfan i ddychymyg byw Myrddin yw’r gerdd i bob pwrpas yn hytrach na disgrifiad o olygfa wirioneddol – ac esgus arall iddo foli Duw:

..... mae miloedd o bethau ardderchog,
 Tryloewon, porphoraidd, a swynol eu gwedd,
 Yn addurn arbenig i Gymru fawreddog,
 Ac hefyd yn orchest Creawdwr pob hedd

141

a symuda’n gyflym o’r naill olygfa i’r llall – o eangderau’r gofod a’i blanedau gwychion i ffyrnigrwydd storm enbyd ar y môr; o brydferthwch a ffrwythlondeb Meirionnydd ac Eifionydd i gadernid mawreddog mynyddoedd Arfon; o fywyd hudolus cefn gwlad a’i:

.....lân forwynion yn ymgyrchu gyda brys,
At y gwartheg i'w godreuo, i'r cae gwyrddlas pell o'u llys,
Arno maent yn gwyro'n araf, wrth y buchod tewion mawr,
I wagau eu pyrsau llawnion, gyda'u dwylaw glwys eu gwawr;
Wedi gorphen hyn o orchwyl, hwy gyd-deithiant gwm a nant,
Tua'r ffermdy yn eu holau, gan adseinio cân o'u mant

142

i brysurdeb ffwdanllyd tref Pwllheli:

Hawddamor iddi, ynndi'n wir,
Llaweroedd sy'n cael maeth –
Yn prynu, gwerthu, heb un nag,
Ar eu tafodau ffraeth;
Hyd ei heolydd tlysog cain,
Drwy'i gilydd llwybro wnant;
A'u holl feddyliau am y byd –
Fel yna hwy oll ânt

143

Gwna Myrddin ddefnydd lled bwrpasol o wahanol fesurau i
adlewyrchu natur yr amrywiol olygfeydd. Darlunia dawelwch a
llonyddwch y môr, er enghraifft:

Ei donau gleis ydynt a'u gwên yn eirianwawr,
Heb arnynt ddull gwngus, creulonder na braw;
Mae pob un o honynt yn perlawg ddysgleirio,
Fal beryl tra gwerthfawr, siriolwych, a glân
O! olwg foneddig! mae un o'r heirdd longau
Drwy'r cefnfor yn hwylio yn drefnus ei drych
At yma mae'n cyrchu yn gadarn ei moddau
Mewn agwedd ysblenydd, heb arwydd o nych

144

ond try'r dedwyddwch yn gyffro yn nannedd y storm:

Y Llong er dychrynod,
Sy'n suddo i'r gwaelod,
A'r morwyr mewn trallod
Yn hynod yn hon,
Heb iddynt un pleser,
Ond dirfawr orddwysder,
Yn nigter a hyrddder
Y werddon

145

Ceir ganddo hefyd ambell dinc telynegol sy'n codi rhywfaint ar safon y gerdd o bryd i'w gilydd:

Ffyrdd acw bum i dröau,
Yn chwareu lawer awr;
A chyda mi bob amser,
Fy *mrawd* a fyddai'n fad
Yn cadw mewn naws dyner
Holl ddefaid glân fy nhad
Cyd-dynem nythod cigfrain
O gellau yr hen Dŵr,
Aem atynt yn dra chywrain,
Mewn hoender a mawr 'stwr

146

Ar y cyfan, fodd bynnag, cwrlid o gipluniau goreiriog a gorddramatig wedi eu gwino'n anghelfydd wrth ei gilydd yw'r gerdd. Er ei fod yn rhydd o hualau'r gynghanedd, pery Myrddin yn gaeth i ofynion y gwahanol fesurau, gan lwytho'r gerdd i'w hymylon ag ansoddeiriau dianghenraid a geiriau llanw nad ydynt yn cyfrannu dim at werth celfyddydol y gwaith. Yn ychwanegol at hyn, penderfynodd Myrddin hepgor cytseiniaid dwbl o'r gerdd a hynny oherwydd na ellir "seinio dwy gydsain gyfochrog gyfanryw mewn gair gan hyny ba raid wrthynt?"¹⁴⁷. Cyhoedda'n eironig ddigon nad ydynt "namyn llanw dianghenraid"¹⁴⁸ ac â ymlaen yn dawel ei gydwybod i frychu'r gerdd â geiriau megis "penod"¹⁴⁹, "careg"¹⁵⁰, "cynes"¹⁵¹, "tonau [môr]"¹⁵² a "danedd"¹⁵³.

Er gwaethaf hyn oll, cafodd adolygydd Yr Herald Cymraeg - a llawer un arall, mae'n bur debyg – "bleser nid bychan wrth ddarllen y Bryddest"¹⁵⁴ oherwydd bod "ei chorfaniad yn llythrig, yr iaith yn gywir a choethedig, y meddylddrychau yn dlysiion a barddonol, a'r holl faterion wedi eu gosod ger bron yn drefnus a rheolaidd"¹⁵⁵!

Ym mis Awst 1861 y daeth awr dywyllaf Myrddin fel bardd. Ef oedd un o'r ddau ymgeisydd yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Orseddol Conwy y mis hwnnw a chynigiwyd gwobr o ddeg gini a medal arian am yr awdl orau ar y testun 'Mynyddoedd Eryri'. Ei wrthwynebydd, Gwilym Cowlyd, a aeth â'r dydd a chipiwyd y parch a'r anrhydedd o fod yn un o brifeirdd y genedl o dan drwyn Myrddin. 'Roedd yn gandryll. Bwriodd ei lid ar Gwalchmai, sef y beirniad a draddododd y feirniadaeth ac 'roedd am waed Gwilym Cowlyd, fel y tystia Evan Jones, un o gyfeillion y prifardd newydd. "..... gwarchod pawb", meddai hwnnw mewn llythyr llawn cynnwrf at Gwilym "y fath wyneb a fedd y creadur Myrddinaidd a chawdelaidd hwn – pe byddai'r haner pan yn agos i mi cawsai fonclust a chic am ei haerllugrwydd ai wiriondeb ydi pawb yn Porthmadog run fath a hwn dywed. Sut andros na fase Robin Isaac Siôn [Robert Isaac Jones, y fferyllydd] yn anfon tipyn o bills iddo..... neu bydd yn berygl i bobl fyw yn agos ato yn enwedig Beirdd a llenorion. Yr anwyl mawr beth pe digwyddai iddo gyfarfod Gwalchmai yn rhywle fyddai dim ond gwaed neu ffoi am dani hi. Will anwyl cymer ofal nad ei di ddim i gyffiniau Porthmadog rhag digwydd iddo fod yn angau i ti."¹⁵⁶ 'Roedd Myrddin wedi bod yn gollwr gwael erioed, wrth gwrs, ond y tro hwn, ac yntau wedi ei frifo i'r byw, mae'n amlwg iddo fynd yn llawer rhy bell.

Pur wahanol oedd adwaith Owen, brawd Myrddin, i fuddugoliaeth Gwilym Cowlyd, fodd bynnag. Arferai Owen a Gwilym ohebu â'i gilydd ynglŷn â materion llenyddol ac ymddengys bod Owen yn anfon barddoniaeth a gopiodd o hen lawysgrifau at Gwilym yn bur reolaidd. Nid syndod, felly, iddo fod gyda'r cyntaf i longyfarch Gwilym ar ei orchest a'i sicrhau ym mis Medi, 1861 mai "llawen

sonia Owen air yn y llythyr mai Myrddin oedd yr ymgeisydd aflwyddiannus yn y gystadleuaeth.

Ni ddibynnai Myrddin ar ei frawd iau nac unrhyw un arall i ymladd ei frwydrau drosto, fodd bynnag, ac wedi rhai misoedd o weithgarwch dialgar, cyhoeddodd ei ‘Awdl Mynyddoedd Eryri’ yn llyfryn¹⁵⁸ yn ystod gwanwyn 1862. Ar gychwyn y rhagair wyth tudalen hynod ddeifiol a chwerw, noda ei fod yn cyflwyno ei awdl gerbron “‘llys y werin’ - y llys uchaf a chywiraf”¹⁵⁹ oherwydd “na chafwyd beirniadaeth dryddysg a gwerthfawr”¹⁶⁰ gan feirniaid swyddogol yr Eisteddfod. Yn ei farn ef “Cynorthwyr ac nid arweinwyr ddylai beirniaid fod”¹⁶¹ a defnyddia weddill ei ragair fel llwyfan i’w dilorni hwy ac, i raddau llai, golygyddion yr oes. Er iddo honni nad ei fwriad oedd “grwgnach na beio dim o herwydd colli’r dydd yn yr Eisteddfod”¹⁶², ceir yma’r Myrddin herfeiddiol, di-dderbynwyneb yn ei ogoniant a chan iddo suddo i’r fath ddyfnderoedd, nid syndod iddo dynnu nyth cacwn i’w ben. Gresyna adolygydd Yr Herald Cymraeg, er enghraifft, iddo erioed wneud sylwadau mor “ymhongar a hunanol”¹⁶³ a rhyfyga gael ei roi ar “restr crachfeirniaid”¹⁶⁴ Myrddin trwy bwysleisio y dylai’r bardd ifanc “ymbwyllo cyn rhuthro i’r gwddf â dynion o *galibre* Gwalchmai, Eben Fardd, Nicander a Chaledfryn”¹⁶⁵. Ond gwêl Myrddin ei hun yn genhadwr daioni a cheisia ddarbwylllo’i gynulleidfa i ymuno ag ef yn ei frwydr gyfiawn yn erbyn annhegwch. Rhy fantell y beirniad ar ysgwyddau’r darllenydd cyffredin gan ei gyflyru - trwy weniaith, ffug ostyngeddwydd ac ambell fygythiad - i wyrdroi’r ddedfryd swyddogol ar ei awdl.

Wedi rhagair mor ddadleuol ac ymfflamychol, disgwylir
campwaith o awdl sy'n llawn deilyngu cadair eisteddfodol. Nis
ceir. Yn hytrach, yr hyn a gyflwynir yw clytwaith diflas a
hirwyntog dros saith can llinell o hyd sy'n gyforiog o wendidau
amlycaf Myrddin fel bardd. Cân glodydd y gwrthrych hyd
sy'rffed ar gychwyn y gerdd ond mewn modd llawer rhy
gyffredinol:

Tlws pob carn welir arnynt,
A gwell wedi'r oesau gynt,
Tlysiion drumau, parthau pur,
Hynotaf ar faes natur;
A'u lluniau mewn dull hynod,
Yn lluniau cornelau nôd;
A'u rhif yn dra afrifed,
A'u grym yn orchest i gred

166

Ambell waith, fodd bynnag, gwêl yn dda i gyfeirio'n benodol at
Eryri:

Gwemp yw'r olwg o gwmpas,
O fron i fron pob lle'n frâs

Hen Eifion a Meirionydd,
Beunyddiol yn siriol sydd

Ceir gweled hyd a lled Lleyn,
Ei moelydd a'i maen melyn;
Ymyl Mon am ael Menai,
Ei drych, ei gwenau di drai;
A Chonwy aerwy eurwedd,
Am ei hawl, sef mwy o hedd

167

Ond er tlysed ei golygfeydd, rhagoriaeth Eryri i Myrddin yw ei
hanes ac ymhyfryda'r hynafiaethydd mewn dwyn i gof wychder
yr hen arferion:

..... heirdd Ofyddion, Beirddion, pob urddau,
A glân Dderwyddon gwynion ugeiniau,
Dan rât erchion yn dwyn eu heurdorchau, -
Arian edaf – a phob addurniadau

168

a dewrder ein cyndadau:

Medd traddodiad ardderchog y tadau,
Yn Nant Ffrancon bu luddon ymladdau
Ac yno llanwodd milwyr gynlluniau,
Yn gawri beilchion gan agor bylchau;
Ac adlefynt, nes crygynt lais creigiau,
A llafar awyr gan eu banllefau:
Daiaren tyngedfenau , - oedd tiredd
Y tudwedd enillanedd ein teidiau

169

Gresyna Myrddin fod gorffennol anwadal dyn wedi diflannu am
byth ond ymhyfryda yng nghadernid di-syfl a dirgelwch Eryri -
rhodd Duw i bob cenedlaeth:

Tra tir coeth, tra byddo doethion, - a haul
Yn heulo ar wenfron;
Tra byw Rhyddid, tra Beirddion,
Hygar le fo'r fangre lon;
Ac ar ei sedd eistedda,
Ei bri hardd hyd byth barha

170

Mae'r awdl drwyddi draw yn frwydr gyson rhwng Myrddin a'r
gynghanedd ac mae'r doreth o linellau gwallus, yr hen drawiadau
a'r gwallau iaith yn brawf pendant mai'r gynghanedd a orfu
unwaith eto. Hi hefyd sydd bennaf gyfrifol am y llinellau tywyll,
aneglur a'r anghysondeb yn yr ieithwedd ffug hynafol. Yn
ychwanegol at hyn, gwna Myrddin ddefnydd pur aneffeithiol o
gyfeiriadaeth Feiblaidd yn y gerdd:

Malpai palasdai ger Palestin, - hardd
Yw'r gwyrddion goed iesin

171

ac o Chwedl Cantre'r Gwaelod:

Aruthr oedd goruthr y gerwin - orllif
Yn arllwys i'w chyffin,
Drwy byrth glew'r de-orllewin:
"Gwae y traha gwedi gwin"

172

Cyhuddid Myrddin hefyd o gyfoethogi'r gwaith â geiriau o eiddo Goronwy Owen, Eben Fardd, Dafydd Ddu Eryri ac eraill mewn ymgais ofer i godi safon y gerdd ac unwaith eto hepgorodd gytseiniaid dwbl yn llwyr. Nid syndod iddo golli'r dydd yng Nghonwy felly a rhwbiwyd yr halen yn ddyfnach i'r briw gan adolygwyr y cyfnod yn 1862. Diau iddo gael boddhad mawr o fwrw'i lid ar feirniaid a golygyddion y dydd yn y rhagair ond ni wnâi hynny iawn am siomiant aruthrol Eisteddfod Conwy. Ceisiodd amryw ei gysuro - "...cymered Myrddin galon, a dalied ati, - dichon fod cadair yn ei aros rywbryd"¹⁷³ - ond yr ergyd hon, i bob pwrpas, oedd yr hoelen olaf yn arch Myrddin fel bardd. Prin iawn fu ei gyfansoddiadau barddol am weddill y 1860au ac ni chystadlodd o gwbl mewn eisteddfodau o bwys hyd 1872, pan enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri am ei Gywydd Coffa i David Williams, Castell Deudraeth. Hon oedd ei gân fawr olaf - y pinacl i'w yrfa fel bardd eisteddfodol.

Er iddo droi ei gefn fwy neu lai yn gyfan gwbl ar farddoni o 1873 ymlaen, fodd bynnag, daliai Myrddin i ymddiddori mewn barddoniaeth trwy gydol ei oes. Ar droad yr ugeinfed ganrif, er enghraifft, bu dadlau brwd ynglŷn â chynnig Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol am naill ai awdl neu bryddest ac

ymddengys i Myrddin fod â'i fys yn y briwes. Er iddo ef ei hun lunio sawl pryddest ar gychwyn ei yrfa, ceidwadwr ydoedd yn y bôn ac 'roedd yn well ganddo lynu wrth draddodiad yn hytrach na thorri tir newydd. O'r herwydd, ni ffafriai ganu rhydd myfyriol a diwinyddol Y Bardd Newydd ac fe'i hysgogwyd gan ei gyfaill Ellis Pierce (Elis o'r Nant)¹⁷⁴ i "arwyddo gwrthdystiad yn erbyn y penrhyddid i roi [Cadair yr Eisteddfod] am gerdd lipa ddigynghanedd"¹⁷⁵. Ymunodd Myrddin yn y frwydr a chariwyd y dydd maes o law.

Arferai Myrddin lunio cerddi i gyfeillion a chydnabod o bryd i'w gilydd hefyd a hyd yn oed mor ddiweddar â degawd cyntaf y ganrif newydd, derbyniai geisiadau am englynion ac ati. Yn ogystal â hyn, mynych y gofynnwyd am ei farn ar gyfansoddiadau barddol cyfeillion dihyder ac egin feirdd llawn gobraith. Er iddo roi'r gorau i farddoni yn w'r ifanc, felly, fe'i hystyrid gan amryw yn brydydd hyd ddiwedd ei oes, ond y gwir amdani ydyw iddo gael ei drechu gan yr awen yn gynnar yn ei hanes ac yntau'n fardd cyffredin ddigon wedi'i ddal yn hualau barddonol anysbyrdoledig ei oes. Ei enw barddol yn unig a oroesodd ac aeth ei gerddi yn angof gan hyd yn oed y rhai mwyaf diwylliedig o blith y to iau er tristwch a siom i'w gyfaill mynwesol W H Roberts (Iseifion)¹⁷⁶ mewn llythyr at J H Davies¹⁷⁷ wedi marwolaeth Myrddin yn 1921. "..... gwelais fardd enwog yn gofyn a oedd Myrddin yn fardd heblaw casglwr? rhyfeddais y fath gwestiwn"¹⁷⁸.

-
- ¹ Yr Herald Cymraeg, Gorffennaf 17, 1858, t 4.
- ² *ibid.*
- ³ Parry, Thomas, Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900, 1974, Caerdydd, t 265.
- ⁴ Y Brython, 41 (1862). Llythyr at y Golygydd 'Gweddillion Barddonol', t 341. (Nid oedd y Golygydd yn cytuno'n gyfan gwbl â sylwadau Myrddin).
- ⁵ *ibid.*
- ⁶ Y Geninen, Hydref 1922, t 196.
- ⁷ Ysgrif anghyhoeddedig ar 'Myrddin Fardd'.
- ⁸ Dyfyniad o Gywydd Moliant a luniodd Myrddin i Eben Fardd ac a gyhoeddwyd yn Yr Herald Cymraeg, Mai 19, 1860, t 4. (Gweler Atodiad II, tt205-206).
- ⁹ Jones, Morgan D, 'Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a'i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg', MA Cymru (Aberystwyth), 1952, Rhif 26, t 38.
- ¹⁰ Evans, Daniel Silvan, Blodau Ieuainc, 1843, Aberystwyth, tt 10-13.
- ¹¹ *loc. cit.*, tt 69-70.
- ¹² Cwrt-mawr 1195A – cadarnhad gan Hugh Davies mai Myrddin a Gwilym Droed-ddu oedd y cyfansoddwyr.
- ¹³ 'Penillion ar farwolaeth Miss Jones, unig ferch Mr W Jones, Pandy, Llangŷan, Lleyn, gan Un a Wyr Hiraeth', yn Yr Herald Cymraeg, Awst 25, 1860, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 207-208).
- ¹⁴ Golud yr Oes, Mawrth 1863, t 234. (Gweler Atodiad II, t 227).
- ¹⁵ Yr Herald Cymraeg, Awst 24, 1861, t 4. (Gweler Atodiad II, t 211).
- ¹⁶ Y Brython, 9 (1858), t 342. (Gweler Atodiad II, tt 196-197).
- ¹⁷ Darn o 'Cywydd Ymweliad â Llanbedrog, Lleyn' yn disgrifio cynulleidfa Eglwys Llanbedrog – Y Brython, 9 (1859), tt 143-144. (Gweler Atodiad II, tt 185-191)
- ¹⁸ Jones, John (Myrddin Fardd), Pryddest yr 'Olygawd o Ben Careg yr Imbill', ger Pwllheli, 1858. Argraffwyd gan J Owen, Caernarfon, t 14.
- ¹⁹ 'Cywydd Ymweliad â Llanbedrog, Lleyn', *loc. cit.*, t 143. (Gweler Atodiad II, tt 185-191).

- ²⁰ ‘Awdl ar Anian’, Golud yr Oes, Awst 1863, t 398. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ²¹ ‘Englynion y Paun’, Yr Herald Cymraeg, Ionawr 22, 1859, t 4. (Gweler Atodiad II, t 200).
- ²² ‘Awdl Arwyrain y Ceiliog’, Yr Herald Cymraeg, Gorffennaf 9, 1859, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 201-202).
- ²³ ‘Anerchiad Y Bardd idd ei hen athraw, sef Mr H Ellis, Foel Gron, Llangian, Lleyn’, Yr Herald Cymraeg, Mai 5, 1860, t 4.
- ²⁴ Jones, John (Myrddin Fardd), Awdl Mynyddoedd Eryri, Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861. Argraffwyd gan Robert Isaac Jones, (Alltud Eifion), Tremadog, 1862, t 14.
- ²⁵ loc. cit., t 18.
- ²⁶ ‘Awdl Annerchiadol i Mr W Prisiart, Bodlondeb, Llangian, Lleyn’, Y Brython, 28 (1861), t 63.
- ²⁷ ‘Cywydd Ymweliad â Llanbedrog, Lleyn’, loc. cit., t 143. Gweler Atodiad II, tt 185-191). Y Parchedig T C Owen, offeiriad plwyf Llanbedrog yw’r ‘Caisar’ dan sylw.
- ²⁸ ‘Anerchiad y Bardd idd ei hen athraw, sef Mr H Ellis, Foel Gron, Llangian, Lleyn’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, tt 203-204).
- ²⁹ Jones, John (Myrddin Fardd), Awdl Mynyddoedd Eryri, Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861, t 24.
- ³⁰ ‘Awdl Arwyrain y Ceiliog’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, tt 201-202).
- ³¹ ‘Cywydd Ymweliad â Llanbedrog, Lleyn’, loc. cit., t 144. (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ³² ‘Yr Haf’, Y Brython, 3 (1858), t 104. (Gweler Atodiad II, t 195). Sylwer hefyd ar y gair ffug ‘ffrydi’.
- ³³ Jones, John (Myrddin Fardd), Awdl Mynyddoedd Eryri, Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861, t 15.
- ³⁴ Yr Herald Cymraeg, Gorffennaf 9, 1859, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 201-202).
- ³⁵ Y Brython, 28 (1861), t 63. (Gweler Atodiad II, tt 241-243). Er i’r Brython nodi mai Lleynwyson (un o lysenwau Owen Jones, brawd Myrddin) yw’r bardd, dywed Owen mewn llythyr dyddiedig Chwefror 14, 1861 at Myrddin “Yr ydwyf yn gweled Awdl Mr Pritchard yn cael ei phriodoli i Lleynwyson. Nis gwn pa beth oedd dy ddyben yn gwneuthur hyny yr ydwyf yn benderfynol o ysgrifenu i’r Brython i egluro ychydig ar y mater, os na bydd genyt wrthwynebiad, ac os wyt ti yn chwennychu defnyddio yr enw, rhoddaf ef i fyny i ti”. Cwrt-mawr 1176B.

Is-oruchwyliwr Stad Nanhoron oedd William Pritchard. 'Roedd yn gynghorydd sir, yn ddiakon ac yn fardd. Ymddiddorai hefyd mewn cyfarfodydd llenyddol ac ati.

- ³⁶ Golud yr Oes, Awst 1863, t 429. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ³⁷ 'Awdl Arwyrain y Ceiliog', loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, tt 201-202).
- ³⁸ Y Geninen Eisteddfodol, Awst 1915, t 53. Bu Myrddin yn fuddugol mewn eisteddfod â'r englyn hwn. (Gweler Atodiad II, t 240).
- ³⁹ 'Y Lleuad', Blodau Ieuainc, t 41.
- ⁴⁰ 'Golygfa o Deml Anian', Yr Herald Cymraeg, Mai 14, 1859, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 198-199).
- ⁴¹ Jones, John (Myrddin Fardd), Pryddest yr 'Olygawd o Ben Careg yr Imbill', ger Pwllheli, 1858, tt 11-12.
- ⁴² 'Myrddin Fardd', Y Geninen, Hydref 1922, t 197.
- ⁴³ 'Awdl ar Anian', loc. cit. t 398. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ⁴⁴ 'Ystyriaeth ar y Tywydd', Blodau Ieuainc, t 23.
- ⁴⁵ 'Ymson y Bardd', Yr Herald Cymraeg, Awst 24, 1861, t 4. (Gweler Atodiad II, t 211)
- ⁴⁶ 'Rhai o Oriau yr Hen Fyrddin' gan D C Owen, Afon-wen, Y Cymro, Medi 14, 1921, t 9.
- ⁴⁷ Evans, Robert (Cybi), John Jones (Myrddin Fardd) 1837-1921, 1945, Llandysul, t 42.
- ⁴⁸ Cybi, Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon, 1923, Llangybi, t 90.
- ⁴⁹ Llythyr J Glyn Davies at Iorwerth Peate, Taliesin, Cyfrol 25, Rhagfyr 1972, t 54.
- ⁵⁰ Cybi, Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon, op. cit., t 89.
- ⁵¹ Evans, Robert (Cybi), John Jones (Myrddin Fardd) 1837-1921, op. cit., t 39.
- ⁵² 'Rhai o Oriau yr Hen Fyrddin', loc. cit.
- ⁵³ *ibid.*
- ⁵⁴ Cwrt-mawr 1333C. Nodyn yn llawysgrifen Myrddin mewn llyfr lloffion o'r enw Hanes Eglwysi.
- ⁵⁵ 'Llythyrau y Canghellwr Silvan Evans, B.D., at Myrddin Fardd', Y Traethodydd LXVI (1911), t 32.
- ⁵⁶ Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Casgliad Cyffredinol 5048.

-
- ⁵⁷ Llythyr J Glyn Davies at Iorwerth Peate, loc. cit., t 54.
- ⁵⁸ ‘Yr Haf’ (Cymeriad Geiriol), loc. cit., t 104. (Gweler Atodiad II, t 195).
- ⁵⁹ ‘Anerchiad y Bardd idd ei hen athraw, sef Mr H Ellis, Foel Gron, Llangŷan, Lleyn’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, tt 203-204).
- ⁶⁰ *ibid.*, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 203-204).
- ⁶¹ Cwrt-mawr 1291C. Nodyn mewn llyfr lloffion.
- ⁶² Y Brython, 29 (1861), t 94. (Gweler Atodiad II, tt 212-220).
- ⁶³ Argraffwyd gan Robert Isaac Jones (Alltud Eifion), Tremadog, 1862, tt 14-15.
- ⁶⁴ Nodyn ar gychwyn ‘Englynion y Paun’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, t 200). ‘Roedd hyn oddeutu wyth mlynedd cyn marwolaeth yr hen amaethwr yn un a phedwar ugain mlwydd oed.
- ⁶⁵ Gwaith Barddonol Owain Lleyn o dan olygiad Myrddin Fardd, 1909, t vii o’r rhagymadrodd.
- ⁶⁶ Nodyn ar gychwyn ‘Englynion y Paun’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, t 200).
- ⁶⁷ ‘Englynion y Paun’, loc. cit., t 4. (Gweler Atodiad II, t 200). Mae camgymeriad ym mhaladr yr englyn cyntaf – ceir ynddo ddwy sill ar bymtheg yn lle un ar bymtheg.
- ⁶⁸ Yr Herald Cymraeg, Rhagfyr 29, 1855, t 4. (Gweler Atodiad II, t 182).
- ⁶⁹ Cwrt-mawr 1181B. Llythyr oddi wrth Y Parchedig John Daniel (Rhabanian) at Myrddin Fardd.
- ⁷⁰ Ysgrif ‘John Roberts, Llanystumdwy’ gan Myrddin Fardd, Cymru VIII, 1895, t 64.
- ⁷¹ Evans, Daniel Silvan, Blodau Ieuainc, tt 32-33.
- ⁷² Y Brython, 38 (1861), t 463. (Gweler Atodiad II, tt 221-226).
- ⁷³ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 221-226).
- ⁷⁴ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 221-226).
- ⁷⁵ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 221-226).
- ⁷⁶ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 221-226).
- ⁷⁷ Y Brython, 9 (1859), t 143. (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁷⁸ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).

-
- ⁷⁹ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸⁰ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸¹ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸² *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸³ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸⁴ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸⁵ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 185-191).
- ⁸⁶ Ysgrif anghyhoeddedig ar Myrddin Fardd.
- ⁸⁷ *ibid.*
- ⁸⁸ Yr Herald Cymraeg, Hydref 16, 1858, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 192-193).
- ⁸⁹ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 192-193).
- ⁹⁰ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 192-193).
- ⁹¹ William Parry (1836-1864), bardd ifanc a fu'n athro yn Llaniestyn, Llŷn ac yna ym Mhwllheli. Cydgyfansoddodd y 'Penillion ar farwolaeth Miss Laura Jones' gyda Myrddin.
- ⁹² 'Roedd Gwilym yn fyfyrwr yng Ngholeg Hyfforddiadol Gogledd Cymru yn yr un cyfnod ag Owen Jones.
- ⁹³ Y Cymro, Awst 1, 1860, t 4. (Gweler Atodiad II, t 209).
- ⁹⁴ 'Awdl Annerchiadol i Mr W Prisiart, Bodlondeb, Llangŷan, Lleyn', Y Brython, 28 (1861), t 63. (Gweler Atodiad II, tt 241-243).
- ⁹⁵ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 241-243).
- ⁹⁶ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 241-243).
- ⁹⁷ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 241-243).
- ⁹⁸ Englynion i'r Diweddar Barchedig John Jones, Talysarn, Y Drysorfa, Gorffennaf 1858, t 231. (Gweler Atodiad II, t 194).
- ⁹⁹ Yr Herald Cymraeg, Mai 19, 1860, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 205-206).
- ¹⁰⁰ Yr Herald Cymraeg, Hydref 10, 1857, t 4. (Gweler Atodiad II, tt 183-184).
- ¹⁰¹ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 183-184).
- ¹⁰² *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 183-184).
- ¹⁰³ M/1478/4 Archifdy Cyngor Gwynedd, Caernarfon.

-
- ¹⁰⁴ Cwrt-mawr 1190C.
- ¹⁰⁵ Cwrt-mawr 1195A.
- ¹⁰⁶ Y Brython, 29 (1861), t 96. (Gweler Atodiad II, tt 212-220).
- ¹⁰⁷ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 212-220).
- ¹⁰⁸ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 212-220).
- ¹⁰⁹ Cwrt-mawr 1195A. Yn ôl Owen Jones (Mannoethwy), mewn llythyr dyddiedig Ebrill 22, 1863, at ei frawd, eiddo Myrddin yw'r gerdd.
- ¹¹⁰ Golud yr Oes, Mawrth 1863, t 234. (Gweler Atodiad II, t 227).
- ¹¹¹ Jones, Lisi, Dwy Aelwyd, 1984, Pen-y-groes, t 46.
(Pennill a luniwyd, mae'n debyg, gan gystadleuydd na phlesiwyd mohono gan feirniadaeth o eiddo Myrddin).
- ¹¹² Cwrt-mawr 1195A.
- ¹¹³ Sylwadau llafar.
- ¹¹⁴ Cwrt-mawr 1176B.
- ¹¹⁵ *ibid.*
- ¹¹⁶ Williams, Dewi, 'Llaw Gofiannwr Llŷn ac Eifionydd' – John Jones Myrddin Fardd – darlith a draddodwyd gerbron Cymdeithas Bob Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, Awst 1987. t 22.
- ¹¹⁷ Cybi, John Jones Myrddin Fardd (1837-1921), op. cit., t 44.
- ¹¹⁸ Ysgrif anghyhoeddedig ar Myrddin Fardd.
- ¹¹⁹ Rhagair i Awdl Mynyddoedd Eryri, Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861, t 3-4.
- ¹²⁰ *ibid.*, t 4.
- ¹²¹ *ibid.*, t 7.
- ¹²² *ibid.*, t 8.
- ¹²³ Cwrt-mawr 1176B.
- ¹²⁴ Rhagair i Awdl Mynyddoedd Eryri, Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861, t 7.
- ¹²⁵ Cwrt-mawr 1176B.
- ¹²⁶ Golud yr Oes, Awst 1863, t 429. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ¹²⁷ *ibid.*, t 430. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).

-
- ¹²⁸ *ibid.* (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ¹²⁹ Golud yr Oes, Awst 1863, t 430. (Gweler Atodiad II, tt 228-239).
- ¹³⁰ Toriad papur newydd, Cwrt-mawr 1254C.
- ¹³¹ *ibid.*
- ¹³² *ibid.*
- ¹³³ *ibid.*
- ¹³⁴ *ibid.*
- ¹³⁵ Jones, John (Myrddin Fardd), Pryddest 'Yr Olygawd o Ben Careg yr Imbill', ger Pwllheli – loc. cit.
- ¹³⁶ *ibid.*
- ¹³⁷ Jones, John (Myrddin Fardd), Pryddest 'Yr Olygawd o Ben Careg yr Imbill', ger Pwllheli – tt 3-4.
- ¹³⁸ *ibid.* t 5.
- ¹³⁹ *ibid.* t 7.
- ¹⁴⁰ *ibid.* t 5.
- ¹⁴¹ *ibid.* t 9.
- ¹⁴² *ibid.* t 33.
- ¹⁴³ *ibid.* tt 25-26.
- ¹⁴⁴ *ibid.* t 13.
- ¹⁴⁵ *ibid.* t 16.
- ¹⁴⁶ *ibid.* tt 31-32.
- ¹⁴⁷ *ibid.* t 4.
- ¹⁴⁸ *ibid.*
- ¹⁴⁹ Jones, John (Myrddin Fardd), Pryddest 'Yr Olygawd o Ben Careg yr Imbill', ger Pwllheli – t 33.
- ¹⁵⁰ *ibid.* t 9.
- ¹⁵¹ *ibid.* t 28.
- ¹⁵² *ibid.* t 13.
- ¹⁵³ *ibid.* t 31.

-
- ¹⁵⁴ Mawrth 6, 1858. t 4.
- ¹⁵⁵ loc. cit.
- ¹⁵⁶ Prifysgol Cymru, Bangor. Casgliad Cyffredinol 1234.
- ¹⁵⁷ Prifysgol Cymru, Bangor. Casgliad Cyffredinol 683.
- ¹⁵⁸ Jones, John (Myrddin Fardd), Awdl Mynyddoedd Eryri. Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861.
- ¹⁵⁹ op. cit., t 3.
- ¹⁶⁰ *ibid.*
- ¹⁶¹ op. cit., t 5.
- ¹⁶² loc. cit., t 9.
- ¹⁶³ Mai 24, 1862, t 3.
- ¹⁶⁴ *ibid.*
- ¹⁶⁵ *ibid.*
- ¹⁶⁶ Jones, John (Myrddin Fardd), Awdl Mynyddoedd Eryri. Testun Eisteddfod Orseddol Conwy 1861, t 13.
- ¹⁶⁷ loc. cit., t 22.
- ¹⁶⁸ loc. cit., t 28.
- ¹⁶⁹ loc. cit., t 32.
- ¹⁷⁰ loc. cit., t 35.
- ¹⁷¹ loc. cit., t 20.
- ¹⁷² loc. cit., t 21.
- ¹⁷³ Yr Herald Cymraeg, Mai 24, 1862, t 3.
- ¹⁷⁴ Ellis Pierce (1841-1912). Awdur, gohebydd a llyfrwerthwr diwyd a brwd o blwyf Dolwyddelan. Cymerai ddiddordeb arbennig mewn hanes a hynafiaethau a gwnaeth gyfraniad sylweddol i'r Faner rhwng 1865 ac 1900. Tynnodd sawl nyth cacwn i'w ben rhwng cloriau'r wythnosolyn oherwydd iddo ysgrifennu'n ddiflewyn-ar-dafod am bynciau llosg y dydd a gorfu iddo ddianc i'r Unol Daleithiau am rai blynyddoedd ar gychwyn yr 1870au o ganlyniad i'r erledigaeth. Collodd ef a'r Faner achos enllib yn 1882 hefyd yn dilyn cyhoeddi ysgrif o'i eiddo ar 'Calwalad y Clogwyn' a llymhawyd ei adnoddau ariannol prin ymhellach. Cyfrannodd yn ddi-os at ddatblygiad y nofel Gymraeg gyda'i gwnod o ramantau a chwedlau hanesyddol megis Gruffydd ap Cynan (1885) a'i straeon am gymeriadau cefn gwlad. Gwelir ei waith hefyd yn Y Geninen, Cymru, Cyfaill yr Aelwyd a Ceinion Llenyddiaeth Gymreig.

-
- ¹⁷⁵ Cwrt-mawr 956D.
- ¹⁷⁶ William Henry Roberts (1855-1923). Hynafiaethydd hunan-ddiwylliedig a ddangosodd garedigrwydd mawr tuag at Myrddin am flynyddoedd lawer a bu'n gefn mawr iddo pan oedd wedi mynd yn ddryslyd ac anghofus ar ddiwedd ei oes. Fe'i ganed yn Llangybi yn 1855 a bu yntau'n barddoni pan oedd yn ifanc, a David Griffith (Clwydfardd) yn athro barddol iddo. 'Roedd yn ŵr hwyliog, egwyddorol ac uchel ei barch a chanddo gylch eang o gyfeillion – Eben Fardd, Nicander ac Emrys yn eu mysg. Cyfrannai i'r Drysorfa o bryd i'w gilydd ac 'roedd yn ddarllenwr mawr. Ef fu'n gyfrifol am chwalu cartref Myrddin wedi'i farwolaeth ac anfonodd bentyrtau o lyfrau a llawysgrifau o'i lyfrgell at y Prifathro J H Davies ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. 'Roedd yn awyddus i gyhoeddi casgliad o weithiau barddonol Myrddin gyda J H Davies mewn llyfr 'hanner coron' yn 1921 ond ni welodd y gyfrol olau dydd. Wedi treulio'r rhan fwyaf o'i oes yn Y Ffôr ger Pwllheli, bu farw yn 1923 – gwta ddwy flynedd ar ôl Myrddin.
- ¹⁷⁷ Gweler Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, 1953, Llundain, tt 128-129.
- ¹⁷⁸ Cwrt-mawr 932D.

PENNOD IV

HYNAFIAETHAU CYNNAR A CHYFRANIAD HYNAFIAETHOL I GYLCHGRONAU (1858-1871)

Os bardd pur ddilewyrch oedd Myrddin, disgleiriodd fel hynafiaethydd o'r cychwyn cyntaf. Collodd yr archwaeth i farddoni, i bob pwrpas, cyn y 1870au ac o'r cyfnod hwnnw ymlaen, canolbwyntiodd fwy neu lai'n gyfan gwbl ar hynafiaethau. Gwelai ei hun a chyfoedion tebyg iddo fel y ddolen gyswllt hollbwysig rhwng y gorffennol a'r dyfodol. Hwy oedd y cenhadon gwladgarol a oedd i sicrhau cof y genedl ac yn sgil hynny barhad yr iaith a hunaniaeth y Cymry. Gyda chefnogaeth Silvan, Owen ac eraill, aeth Myrddin ati'n awchus ac yn ddiffino, yn arbennig o'r 1860au ymlaen, i gasglu'r hyn a allai er budd cenedlaethau'r dyfodol. Crwydrodd a chwilotodd. Holodd a stiliodd. Tyrchodd ac ymchwiliodd. Lloffodd a chopiodd. Trwsiodd a chasglodd Dyma bererindod ei fywyd a bu'n ddiwyd am bron i ddeng mlynedd a thrigain gan gadw mewn cof yn ddi-os sylw arwyddocaol Silvan ym mis Mai 1865 iddi fod yn resyn bod "gwaith ein hen feirdd goreu yn cael ei adael i lwydo a malurio a myned i ddifancoll"¹. Diau i lymdra cyfansoddiadau beirdd a llenorion canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'i gymharu â gwycheder gweithiau'r gorffennol eu hysbarduno yn eu hymdrechion.

Ac yntau'n greadur swil a diymhongar yn y bôn, gweithiai Myrddin yn ddistaw ac yn ddiffwdan y tu ôl i'r llenni, fel petae, heb chwennych rhwysg na bri. Ar y cyfan, 'roedd yn gyndyn o dynnu sylw ato'i hun ac ar sawl achlysur, bu'n hael iawn ei gymwynas i olygyddion a llenorion, heb fynnu unrhyw gydnabyddiaeth am y cymorth amhrisiadwy a roddai iddynt. Er na nodwyd hynny, felly, cafwyd ffrwyth ei lafur o bryd i'w gilydd

mewn nifer o gyfrolau a chylchgronau'r oes - cyfrolau megis Cymru: yn Hanesyddol, Parthedegol, a Bywgraphyddol (1875) a Ceinion Llenyddiaeth Gymreig (1875) gan

Y Parchedig Owen Jones (Meudwy Môn) a chylchgronau dan olygiaeth O M Edwards yn 90au'r ganrif megis y Cymru a'r Cymru'r Plant hynod boblogaidd a'r Wales a'r Llenor llai llewyrchus. Dyma dystiolaeth o natur garedig a dirodres Myrddin ac fe'i gwelir hefyd yn ei lythyr diddyddiad at, yn fwy na thebyg, Owen Jones (Meudwy Môn) "Yr wyf yn falch i wneuthur cymwynas Fel llenorion yr ydym yn caru cynorthwyo y naill y llall. Byddaf yn ddiolchgar am gopi o'r llyfr, ond da chwi peidiwch fy nal i yn gyfrifol am ddim o'i gynnwys. Nid oes eisieu i chwi son dim am danaf fi."² Dywed

Y Parchedig John Daniel (Rhabanian) yntau "Myrddin is one who leavens society with the riches of his pen without expecting either remuneration or thanks from anybody."³ Er hyn, pan gyfeiriodd y Myrddin mympwyol, hawdd ei ddigio, at Owen Jones (Meudwy Môn) fel un "..... na ches i ddime erioed o'i hen law o, er imi ysgrifennu mwy na mwy i'w hen Geinion Llenyddiaeth a'i hen Gymru o"⁴, ai cellwair oedd ynteu a oedd y sylw yn arwydd o deimladau gwirioneddol Myrddin at rai a fanteisiai'n ormodol ar ei haelioni? Cellwair neu beidio, bu'r ddau gyfaill hynafiaethol mewn cysylltiad cyson â'i gilydd yn ystod y 1860au a'r 1870au, wedi eu dwyn ynghyd yn y lle cyntaf, mae'n debyg, gan eu brwdfrydedd tuag at hynafiaethau a'u diwydrwydd mawr. Rhannent lyfrau a llawysgrifau i hybu eu gweithgarwch ac ehangu eu cronfâu, a phrynent gan y naill a'r llall yn ôl yr angen. Ar yr olwg gyntaf, 'roedd y ddau yn bur annhebyg - gof deg ar hugain oed o Lanystumdwy a gweinidog dros ei drigain oed⁵ o Landudno a chanddo gryn brofiad fel cyfieithydd⁶, golygydd⁷ ac awdur⁸. Hawdd iawn fyddai

camsynied mai Myrddin a elwodd fwyaf o'r fath gyfeillach, a diau iddo ddysgu llawer am gyfieithu, golygu ac yn y blaen yn ystod y cyfnod hwn; ond mae'n hollol amlwg i Owen loffa'n helaeth o gronfa Myrddin a mynych y'i ceir yn swnian am gael benthycu rhyw lyfr neu lawysgrif neu'i gilydd. "Os byddwch cystal ag anfon hen lyfr achau Sion Wynn yma" meddai wrth Myrddin ym mis Mai 1867, er enghraifft "gwnaf y goreu o honno, y nos yn lle cysgu"⁹ ac yna ym mis Ionawr 1870 "..... mae yn dda gennyf gael cymaint ag a ellir o waith Sion Cent, Rhys Goch a Dafydd Nanmor, gan mai yr eiddo Beirdd o'r oes honno yr ydwyf yn baratoi i'r wasg y dyddiau hyn"¹⁰ Mynych y gofynnodd am help Myrddin gyda chopio o lawysgrifau hefyd er hwyluso ei waith cyhoeddedig ei hun ac eraill. Yn wir, ym mis Mawrth 1874 hysbysodd Myrddin ei fod yn "hyderus y gallaf roddi gwerth 15 neu 20 punt o waith yn eich ffordd i adysgrifio hen Gyfansoddiadau iddo [Dr Blackie, Cyhoeddwr]"¹¹. "Roedd deallusrwydd a gweithgarwch Myrddin wedi creu argraff arno, felly, ac mae'r ffaith iddo bwysu'n bur drwm ar ei gyfaill ifanc am gynhaliaeth hynafiaethol am bron i ugain mlynedd yn brawf anuniongyrchol o'i werthfawrogiad ohono - er prinned y diolchiadau i'r perwyl hwnnw.

Bu hynafiaethu yn ysgogiad ac yn llyffethair i Myrddin trwy gydol ei oes. Ar y naill law, bu'n fodd iddo feithrin perthnasau hynafiaethol ffyniannus â chymeriadau nodedig fel Owen Jones (Meudwy Môn) ar hyd y blynyddoedd, perthnasau heb ffiniau oedran, statws na dysg. Fe'i cyfrifid yn ffrind dibynadwy, cefnogol a hael gan lawer ac yn ôl Richard Griffith (Carneddog)¹², 'roedd yn "ymgomiwr difyr odiaeth mewn cylch cyfeillgar"¹³. Ar y llaw arall, diau yr ystyrid y llyfrbryf distaw a diserch a oedd bob amser â'i "bocedi'n llawn o hen lyfrau"¹⁴ yn

greadur od ac anodd ymwneud ag ef yn y gymdeithas ehangach¹⁵. Gallai fod yn bigog ac yn gysetlyd ar brydiau a hawdd iawn oedd ei daflu oddi ar ei echel. Dibynnai llawer ar ei hwyliau ac ar yr amgylchiadau - er enghraifft, gallai fod yn hynod groesawgar neu'n oeraidd o ddigroeso. Âi i'r drafferth o hulario'r bwrdd gyda lliain gwyn a gweini jam gwsberis cartref neu wy wedi'i ferwi i'w ymwelwyr ar rai achlysuron. Dywedai'n swta wrth eraill llai ffafriol yn ei olwg "Ista'i lawr os cei di le"¹⁶. Nid atebwyd y drws o gwbl i rai anffodusion.

Addasai ei ymddygiad, purdeb ei iaith a'i ymdriniaeth o bobl yn unol â'i barch tuag atynt a'i edmygedd ohonynt. 'Roedd ganddo barch eithriadol at ddethol hynafiaethwyr, ysgolheigion, gwŷr crefydd ac yn y blaen a chaent hwy eistedd yn ei gadair freichiau ef ei hun pan alwent heibio'i gartref. Prin oedd ei foesgarwch tuag at eraill ar brydiau, fodd bynnag, ac 'roedd hyn, yn aml, yn adlewyrchiad o brofiadau chwerw ei fywyd a'i ddaliadau di-syfl. Er enghraifft, bu'n hynod frathog ar adegau â golygyddion a chyhoeddwyr nad oeddynt yn ei blesio am ba reswm bynnag "..... fe dynnais nyth cacwn yn fy mhen unwaith" meddai W A Lewis, Golygydd Llais Rhyddid wrth y Prifathro J H Davies yn Nhachwedd 1921 "am i mi gywiro rhyw frawddeg o'i eiddo"¹⁷. Cawsai gwŷr eisteddfodol megis y beirniaid Caledfryn a Gwalchmai yr un driniaeth hallt hefyd o bryd i'w gilydd a chan iddo fod mor geidwadol, bu ysgolheigion, yn arbennig y "petha' Bangor 'na"¹⁸ ac eraill a goleddai'r orgraff newydd, o dan yr ordd ganddo droeon, gan gynnwys Syr John Morris-Jones ei hun. "Siop swindlars yr hen Golega' 'na"¹⁹ oedd yr Eisteddfod i Myrddin ac ni fu hi na'r prifysgolion at ei gilydd yn uchel eu parch ganddo trwy gydol ei oes. Nid syndod i Myrddin nodi bod "yr A.B.C. yn ddigon"²⁰ ganddo pan geisiodd y

Prifathro J H Davies ei ddarbwylllo i dderbyn gradd prifysgol yn gydnabyddiaeth am ei waith unigryw fel hynafiaethydd.

Ni lwyddodd rhai o'i gyfeillion pennaf a mwyaf parchus hyd yn oed i osgoi tafod miniog Myrddin. Fflangellwyd Y Parchedig J J Roberts (Iolo Caernarfon)²¹, er enghraifft, am fod mor esgeulus â gadael un o lyfrau Myrddin ar y trê. "Wedi ei ddwyn o 'rwyd ti'r d---!'"²² oedd ymateb diflewyn-ar-dafod Myrddin pan glywodd yr esboniad am bechod anfaddeuol y diffyg llyfr. Diau fod pawb o'i gydnabod yn ofni ei bechu nid yn unig oherwydd ei dymer ddrwg ond hefyd oherwydd un arall o'i nodweddion negyddol, sef ei dueddiad i bwdu. Fel rheol deuai at ei goed ymhen hir a hwyr wedi i'r person arall ddwyn perswâd arno i gymodi. Dyma nod Y Parchedig J Daniel (Rhabanian) mewn llythyr at Myrddin yn 1898 "..... a fedrwn ni ein dau siarad â'n gilydd os nad yw yr arferiad rhyfeddol hwn wedi rhydu yn anadferadwy rhyngom"²³. Bu'r apêl yn llwyddiannus ac adferwyd y cyfeillgarwch maith.

Dyn anodd, hawdd ei gamddeall oedd Myrddin heb os ond gwelai ei gyfeillion a'i gydnabod ymhell tu draw i hynny. Fe'i gwerthfawrogent am yr hyn ydoedd ac mae'n debyg fod sawl un ohonynt yn cytuno â'r Parchedig J Davies (Isfryn) nad oedd "yn y gwraidd yr un cas na chwerwedd yn ei galon at neb"²⁴. Parchent ei ddibynadwyedd, ei ddidwylledd a'i gymwynasgarwch a buan y doent i ymgodymu â'i wreiddioldeb, ei onestrwydd llym a'i finiogrwydd. Pylodd y gwendidau yn llewyrch ei frwdfrydedd digamsyniol a'i awch obsesiynol bron i hynafiaethu.

Ac yntau'n ymchwilydd penigamp ac yn gasglwr wrth reddf, enillodd iddo'i hun yn gynnar yn ei hanes yr enw o fod yn

hynafiaethydd gwybodus a threiddgar y gellid troi ato am gymorth a chefnogaeth hynafiaethol ddibynadwy. Un o'i nodweddion amlycaf oedd ei awydd i rannu ei loffion gwerthfawr â'i gyfoedion yn hytrach na'u cadw iddo'i hun a sicrhaodd hyn amlygrwydd cynyddol iddo ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. "..... nis gwyddys beth ddaw i'r golwg ond bod yn bwyllus a diwyd-ymchwilgar o barthed i gynnyrchion mawredd hynafiaethol ein gwlad"²⁵ meddai mewn llythyr at William Prichard yn 1860. Ni wyddai bryd hynny y byddai ei eiddgarwch yn ei gymell i loffa mewn meysydd hynafiaethol eang ac yn ei arwain at drysorau gwerthfawr o gryn bwys i Gymru'n gyffredinol ac i Sir Gaernarfon yn arbennig. Nid oedd ffrwyno ar ei chwilfrydedd o'r cychwyn cyntaf a chasglai gydag arddeliad nid yn unig lyfrau a llawysgrifau pwysig i lenyddiaeth Cymru, gan gynnwys awdlau, cywyddau, llythyrau, carolau, cerddi 'pen ffair' ac yn y blaen ond hefyd gylchgronau, arfbeisiau, achau, arysgrifiadau o gerrig beddau, hen greiriau, mapiau, enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, llynnoedd, caeau ac ati yn Llŷn ac Eifionydd a thu hwnt. Nid oedd pall arno unwaith y cychwynnodd ac 'roedd yn gasglwr dethol a chraff. Llwyddodd, er enghraifft, i gasglu a rhestru cannoedd ar gannoedd o faledi a fyddai wedi'u colli'n llwyr, mae'n debyg, oni bai am y gymwynas fawr hon o'i eiddo â hanes llenyddiaeth Gymraeg. Aeth ati hefyd i gasglu llyfrau lloffion²⁶ swmpus yn orlawn o doriadau o bapurau newydd, misolion a chylchgronau amrywiol enwadau a phleidiau. Ceid ynddynt stôr doreithiog o wahanol bynciau megis enwogion Prydain, Ewrop ac America, llên gwerin, arferion gwlad, barddoniaeth, iaith ac orgraff, hen ddywediadau; traddodiadau eglwysig, hanes yr eglwysi a'r enwadau, ofergoelion, arwyddion tywydd ac yn y blaen. Sicrhaodd Myrddin fod y rhain a miloedd eitemau eraill ei gasgliad aruthrol wedi'u storio'n drefnus ac yn

effeithiol dros y blynyddoedd a buan yr enillodd iddo'i hun y broliant fod "mwy o gywreimbethau [yn ei lyfrgell] nag sydd yn holl lyfrgelloedd Cymru gyda'u gilydd"²⁷. Nid syndod i ddegau o ysgolheigion a hynafiaethwyr gael eu hudo i gartref syml Myrddin yn Chwilog - gwŷr amlyca'r genedl rai ohonynt - a chael eu cyfareddu'n llwyr.

Dechreuodd Myrddin ei gasgliad hynod trwy grwydro milltiroedd ar filltiroedd i ffermdai, bythynnod, plasau, eglwysi, mynwentydd ac yn y blaen. Ar ei deithiau, prynai llyfrau a llawysgrifau addas, holai hen frodorion am arferion gwlad a llên gwerin, copïai o lawysgrifau prin, adysgrifennai o gofrestri plwyf a chodai arysgrifiadau o gerrig beddi. Heliai ei draed yn syth wedi iddo ennill digon o arian a phur anodd fyddai cael gafael arno wrth yr engan ar adegau o'r fath. Gydag anogaeth barhaus Silvan ac Owen ei frawd yn ystod y 1860au, mynychodd arwerthiannau llyfrau di-rif i brynu llyfrau a llawysgrifau i'r tri ohonynt, gan sefydlu cynsail i'r modd y gweithredai trwy gydol ei oes a chan fagu hyder a phrofiad fel yr ymddiddorai fwyfwy yn y maes. "Ymddengys fod arwerthiant llyfrau i fod yn Llanllyfni," meddai Owen wrtho ym Mawrth 1863 "..... y mae arnaf awydd gofyn i ti fyned yno i brynu gwerth rhyw bunt neu ddeg ar hugain i mi dyma y llyfrau a fawr hoffwyf fod yn feddiannol arnyntNewton's Philosophy, Survey of Bangor, Literature of the Cymry"²⁸. Deuai apeliadau tebyg o du Silvan. "Carwn daro wrth gopi o Waith Rhys Jones o'r Blaenau (1818) am bris rhesymol os dygwydd i chwi ddyfod ar draws cyfargraff o honno yn rhywle hoffwn i chwi ei fachu i mi"²⁹. Gwnâi Myrddin ei orau i ymateb yn gadarnhaol i'w ceisiadau hwy ac eraill gan wrthod yn lân â chymryd arian ganddynt ar sawl achlysur er gwaethaf eu protestiadau huawdl. Bu'r haelioni hwn yn nodwedd

amlwg o gymeriad Myrddin trwy gydol ei oes a cheir cyfeiriadau mynych yn y llythyrau a dderbyniodd at awydd pobl i ad-dalu naill ai dreuliau neu gymwynasau iddo. “Nis gwn sut y gallaf yn iawn gydnabod fy rhwymedigaeth i chwi. Mae pawb eraill yn caniatáu i mi dalu’r holl dreuliau ac heb rwgnach”³⁰ oedd cri rwystredig R Jenkin Jones ym Mai 1891. ‘Roedd Silvan ac Owen wedi dysgu flynyddoedd lawer ynghynt mai ofer oedd gwneud apeliadau o’r fath gan nad oedd troi ar Myrddin wedi iddo benderfynu. Nid yr arian oedd yn bwysig iddo ond y cyfle i gael gwneud cymwynas hynafiaethol. Crynhoir y meddylfryd hwn yn berffaith yn ei sylw at Silvan - “Os bydd arnoch eisiau rhywbeth a allaf, mi a’i gwnaf o ewyllys calon ond i chwi grybwyll”³¹. Dyma hanfod dull gweithredu Myrddin fel hynafiaethydd.

Ad-dalai Silvan ac Owen i Myrddin trwy brynu llyfrau a llawysgrifau iddo yntau a thrwy fod yn gefn iddo gydag amrywiol faterion hynafiaethol. Cawsai gymorth o’r fath gan Owen ym Mai 1865. “Gelli ymddibynnu ar gael Hanes Eglwysi Eifionydd yn lled fuan. Yr wyf yn bwriadu gwneyd tipyn o nodiadau ar Gywyddau Owain Gruffydd, ac wrth hynny y deawn ar draws rhywbeth a fyddai bwrpasol i ti.”³² Rhoddai Silvan yntau gyngor doeth iddo yn ôl y galw - ar beisarfau, er enghraifft, ac ar sut i fynd ati i godi arysgrifiadau o gerrig beddi. “Am y Beddlithiau” meddai wrth Myrddin yn Awst 1883 “..... Nid gwiw ceisio diwygio’r *Lladin*, os ydych wedi ei adysgrifenu yn gywir oddiar y meini, er mor wallus ydyw. Cofiwch y dylid codi yr hen goffâon hyn air a llythyren fel y maent. Byddai eu cyfnewid yn dinystrio eu gwerth. *Cofnodi* yr ydych chwi yr hyn sydd *wedi* ei gerfio ar y meini”³³. Elwodd Myrddin yn fawr hefyd ar ysgolheictod Silvan, yn arbennig yng nghyd-destun tarddiad geiriau a chyfieithu o’r *Lladin* ac ni phetrusai ynglŷn â mynd ar ei

ofyn pan oedd mewn penbleth. “Beth yn fwyaf priodol yw - “Quod tibi, hoc alteri” yn Gymraeg?”³⁴ gofynnodd i Silvan ar un achlysur ond ar y cyfan, wrth iddo fagu mwy o hyder, gyrrai ei ymdrechion ei hun at Silvan a chât naill ai sêl ei fendith arnynt - “Y mae eich cyfieithiad o feddlith yr hen esgob da yn ddifai ddigon, hyd y gwelaf fi”³⁵ - neu eglurhad clir am unrhyw amryfusedd. Gwellai Myrddin yn barhaus o ganlyniad a chawsai’r sicrwydd hollbwysig gan Silvan ei fod ar y trywydd iawn.

Wedi deng mlynedd yn gurad ym Mhlwyf Llangian, ordeiniwyd Silvan yn Rheithor Plwyf Llanymawddwy, Meirionnydd yn 1862 ond parhâi i fod â chysylltiad agos â Myrddin ac eraill o’i hen gyfeillion. Yn wir, er iddo fod mewn cylchoedd llawer mwy ysgolheigaidd a derbyn nifer o anrhydeddau yn ddiweddarach yn ei fywyd³⁶, ni throdd Silvan ei gefn ar Myrddin a bu’r ddau’n gohebu’n ddiwyd â’i gilydd ar faterion hynafiaethol am dros ddeng mlynedd ar hugain. Ymfalchiai Silvan yn natblygiad hynafiaethol Myrddin a medodd yntau’r cynhaeaf toreithiog gan droi ato’n aml am wybodaeth arbenigol am unigolion, achau teuluol, barddoniaeth, gohebiaeth lenyddol, geiriau llafar gwlad, enwau a lleoliadau daearyddol afonydd, llynnoedd, ceyrydd, amddiffynfeydd ac yn y blaen. “Chwi yw fy awdurdod i am eiriau Llein ac Eifionydd”³⁷ meddai wrth Myrddin yn Awst 1894 ac fel yr ysgolheigion eraill yr ymwnâi Myrddin â hwy, ’roedd ganddo feddwl mawr iawn ohono fel y tystia’i sylw at Myrddin yn Chwefror 1884 “Rhaid i mi adael y “Gwyliedydd” yn ei holl gysylltiadau yn eich llaw chwi; canys nis gellir yn well”³⁸.

O ganlyniad i’w ddiwydrwydd a’i frwdfrydedd diarhebol, buan iawn yr ehangodd cylch hynafiaethol Myrddin ac yn y dyddiau

cynnar yn arbennig, arferai gael croeso mawr ar aelwydydd pendefigaidd megis Madryn yn Llŷn a Pheniarth ger Tywyn ym Meirionnydd. Treuliai Myrddin ddyddiau bwy'i gilydd yn eu llyfrgelloedd nodedig yn copïo'n llafurus o'r hen lawysgrifau. Arferai godi'n gynnar iawn i fanteisio ar y distawrwydd a gweithiai'n ddi-baid drwy'r dydd cyn noswyllo'n gynnar. Câi ei drin fel aelod o'r teulu yn ystod arosiadau o'r fath a derbyniodd bob cefnogaeth a nawdd gan y gwerthfawrogid ei fod yn achub hen destunau gwerthfawr rhag diflannu am byth.

Ystyriai Myrddin ei hun yn gyfaill agos i Syr Thomas Love Jones Parry (Elphin ap Gwyddno)³⁹, Madryn ac 'roedd ganddo feddwl mawr ohono fel bonheddwr dysgedig ac ustus heddwch. 'Roedd Syr Thomas yn hynafiaethydd craff ac yn wladgarwr ei hun a gwnaeth sawl cyfraniad i'r Archaeologia Cambrensis ar faterion yn ymwneud â Llŷn. Ef hefyd oedd awdur The Legend of the Lady's Elbow (1845), ffantasi alegoriol wedi'i lleoli ym Madryn. 'Roedd ei dad, Syr Love Jones Parry⁴⁰, a oedd yn gyfaill i Eben Fardd a Siôn Wyn o Eifion, yn gymwynaswr mawr ac yn noddwr hael a pharhaodd Syr Thomas â'r un traddodiad i bob pwrpas. Elwodd Myrddin yn fawr ar y sefyllfa hon a chyfoethogodd ei lyfrgell ei hun yn aruthrol o ganlyniad i'w weithgarwch ym Madryn a chefnogaeth ddiffuant Syr Thomas.

Un arall o gyfeillion mawr Myrddin oedd William W E Wynne⁴¹, Peniarth, hanesydd, hynafiaethydd ac achyddwr hynod gymwynasgar ac effeithiol a allai, oherwydd ei amgylchiadau breintiedig, neilltuo llawer iawn o'i amser i'w ymchwiliadau hynafiaethol. Caniataodd yntau i Myrddin ymweld â'i lyfrgell gyfoethog droeon i gopïo llawysgrifau pwysig megis y rhai a etifeddwyd o Hengwrt yn 1859 wedi marwolaeth

Syr Robert Vaughan⁴². Weithiau, arhosai Myrddin gydag ef am sawl wythnos ar y tro a bu'n hynod gefnogol iddo am flynyddoedd maith. Fel Syr Thomas Love Jones Parry, 'roedd yn noddwr o fath i Myrddin a chawsai ei drin gyda'r parch mwyaf gan y gof o Chwilog. Hawdd y gellir dychmygu'r ddau yn gwirioni ar ddeunydd hynafiaethol ym Mheniarth ac arferent roi benthyg llyfrau a llawysgrifau allweddol i'w gilydd i hwyluso unrhyw waith ymchwil a oedd ar y gweill. 'Roedd gan W W E Wynne ddiddordeb arbennig mewn hel achau hen deuluoedd Llŷn a Meirionnydd a rhoddai Myrddin gymorth anhepgor iddo gyda'r gwaith chwilota. "I searched the Registers of Dolbenmaen, Penmorfa, Ynyscynhaiarn, Criccieth, Llanystumdwy, Llanarmon, Llangybi, Abererch, Llannor and Dyneio, but all in vain"⁴³. Rhannai yntau ei ddarganfyddiadau â Myrddin gan roi gwybodaeth werthfawr iddo am deuluoedd nodedig yr ardal megis y Nanneys⁴⁴. Ac yntau'n wŵr gwybodus a galluog, rhoddai Myrddin ar ben y ffordd, hefyd, ynglŷn â chywirdeb ffeithiau mewn achau a llawysgrifau a diau i arweiniad ymarferol o'r fath fod yn ddefnyddiol iawn i Myrddin ar gychwyn ei yrfa hynafiaethol. Nid syndod fod Myrddin yn ei hanner addoli a sicrhodd le amlwg i lun mawr ohono yn ei dŷ.

Galwai W W E Wynne yn aml heibio'i gyfaill hynafiaethol Edward Breese pan oedd ym Mhorthmadog ac yn ei swyddfa ef yn y dref y gadawai lyfrau, llawysgrifau ac ati i Myrddin pan oedd angen. Ganed Edward Breese⁴⁵, un o gyfeillion Eben Fardd, yng Nghaerfyrddin yn yr un flwyddyn â Myrddin, yn fab i John Breese, gweinidog gyda'r Annibynwyr a Margaret, chwaer yr Aelod Seneddol David Williams, Castell Deudraeth. Astudiodd y gyfraith o dan David Williams a bu'n gyfreithiwr

uchel ei barch ym Mhorthmadog am flynyddoedd lawer, yn bennaeth ar bractis Mri. Breese, Jones a Casson. 'Roedd yn wŷr bonheddig, craff a llengar – a chwbl ddirodres a diymhongar fel ei gyfaill Silvan Evans ac eraill o gydnabod Myrddin. Llyfrau oedd ei bethau – rhai hen a newydd – a Myrddin yn anad neb arall a'i helpodd i sefydlu un o'r llyfrgelloedd preifat mwyaf a hynotaf yng Nghymru ar y pryd. Cyfoethogent ei gilydd yn ddi-os ac arferent fynd i arwerthiannau llyfrau di-rif gan gael trefn ar y pryniannau ac ymchwilio i gynnwys llyfrau a llawysgrifau ym Mhorthmadog cyn oriau agor y swyddfa! Dyma sut y treuliai Edward Breese ei amser hamdden prin ac enillodd iddo'i hun yr enw o fod yn hanesydd, hynafiaethydd a llenor safonol. Credai Myrddin mai ef oedd yr hynafiaethydd mwyaf diwyd a gyfarfu erioed. 'Roedd o gyffelyb anian i Myrddin, wrth gwrs, ac er na pherthynent hwythau i'r un haen o gymdeithas, buont yn gyfeillion mynwesol trwy gydol eu hoes.

Y cyfaill hynafiaethol a ymdebygai fwyaf i Myrddin o ran statws cymdeithasol a chefnidir addysgol oedd Richard Lloyd, y crydd o Lanystumdwy a'r gŵr a ddaeth yn adnabyddus ar ddiwedd ei oes fel ewythr David Lloyd George, Prif Weinidog Prydain rhwng 1916 ac 1922. 'Roedd yn gymeriad annwyl a chanddo bersonoliaeth fawr ac fel Edward Breese, bu'n gyfaill hynod glòs a thriw i Myrddin trwy gydol ei oes faith. Fe'i ganed yn 1834 ac er prinned ei addysg, datblygodd i fod yn llenor da, yn bregethwr huawdl ac yn fardd. Nid oedd yn hoff o dynnu sylw ato'i hun, fodd bynnag, er gwaethaf ei ffraethineb a'i dynnu coes di-baid, ac ni chystadlodd mewn eisteddfodau na chyhoeddi unrhyw waith. Fel Myrddin, awchai am wybodaeth ac 'roedd yn ddarllenwr heb ei ail. Ymddiddorai yntau mewn hynafiaethau a dywedodd Myrddin iddo ymhyfrydu "mewn turio i gloddfâu cyfoethog

hanes, gan feistrolï a chrynhoi ffeithiau”⁴⁶. Gweithiai’n fanwl, yn gywir ac yn bwylllog a rhoddodd lawer iawn o gymorth nid yn unig i Myrddin ond hefyd i Silvan gyda’u gwaith hynafiaethol. Yn ôl William George, “Syniai Myrddin yn uchel am farn a gwybodaeth Richard Lloyd a chafodd lawer o help a chefnogaeth ganddo ynglŷn â’r cwbl o’i weithiau cyhoeddiedig”⁴⁷.

Ymddengys mai Richard Lloyd, er enghraifft, oedd yn gyfrifol am lawer iawn o’r Nodiadau yn Adgof Uwch Anghof a gyhoeddodd Myrddin yn 1883. Heb os, derbyniodd gyngor ac arweiniad cadarn gan Richard Lloyd am flynyddoedd maith - nid yn unig ar waith ymchwil, gloywi iaith, tarddiad geiriau ac yn y blaen ond hefyd ar brisio llawysgrifau ar gyfer eu gwerthu. Cafodd gyfle euraid i ad-dalu’r ddyled yn 1879.

Newidiwyd bywyd y Richard Lloyd di-briod dros nos yn 1864 pan adawyd ei chwaer, Elizabeth George, yn weddw yn ardal Hwlfordd a chanddi ddau o blant mân ac un arall ar y ffordd. Bywyd o galedi a thlodi fyddai wedi’u hwynebu yn y De heb benteulu ac ni allai’r Richard Lloyd cymwynasgar a thosturiol oddef hynny. Symudodd y teulu bach i’w gartref yn ‘Highgate’, Llanystumdwy cyn gynted ag oedd modd ac yno cawsant ganddo’r nodded a’r fagwraeth gorau posibl. Diau iddo yntau elwa ar y sefyllfa druenus - llenwyd ei fywyd ac etifeddodd y doreth fawr o lyfrau a berthynai i’w frawd-yng-nghyfraith.

’Roedd Richard Lloyd yn fawr ei ofal o’r tri phlentyn ac arno eisiau’r gorau iddynt mewn bywyd. Ei ddymuniad pennaf oedd i David, y plentyn canol, gael bod yn dwrnai ac ’roedd cyfaill iddo o Griecieth wedi ceisio cael lle i’r bachgen yn swyddfa Breese, Jones a Casson ym Mhorthmadog ar ei ran ar sawl achlysur ond yn ofer. Wedi’i siomi, trodd Richard Lloyd at Myrddin am

gymorth a chytunodd yntau i fynd i'r afael â'r dasg anodd o geisio darbwyllo Edward Breese y byddai'n werth iddo brentisio'r bachgen egniol a direidus o Lanystumdwy. Fel ffafr i Myrddin – prawf mawr o'i barch tuag ato – cydsyniodd Edward Breese yn syth a chychwynnodd 'Dafydd' ar ei yrfa gyfreithiol ym Mhorthmadog. Nid ymffrostiai Myrddin o gwbl ynglŷn â'i orchest, wrth gwrs, ond mae'n sicr iddo fod yn falch iawn o fod wedi cael gwneud cymwynas mor fawr â Richard Lloyd a gosod ei nai ar sylfeini cadarn ar gychwyn ei yrfa ddisglair.

Myrddin oedd un o arwyr ieuenctid David Lloyd George yn ôl pob tebyg, a diau iddo barhau i fod â meddwl mawr ohono wedi iddo chwarae rhan mor allweddol yn sicrhau ei swydd gyntaf iddo. Bu cysylltiad rhwng David Lloyd George a Myrddin am flynyddoedd lawer wedyn ac yn llety'r gof yn Chwilog y cawsai'r darpar Brif Weinidog ei frecwast ar fore ei briodas ym Mhencaenewydd yn Ionawr 1888.

Parhaodd cyfeillgarwch Myrddin a Richard Lloyd hyd farwolaeth y crydd yn 1917 ac yn ôl Elis Gwyn Jones “roedd [Myrddin] yn addoli Richard Lloyd”⁴⁸ a bu'n edmygydd mawr ohono ar hyd ei fywyd.

Un o ffrindiau bore oes Richard Lloyd yn Llanystumdwy oedd Evan Evans a aned yn 1849. Wedi cyfnod fel athro, penderfynodd gymryd urddau eglwysig a bu'n gurad ym Metws-y-coed a Phentraeth cyn cael ei benodi'n Ficer Betws-y-coed yn 1884. Wedi saith mlynedd yno, symudodd i Lansadwrn ble y bu'n rheithor am bedair blynedd ar hugain. 'Roedd yn wŷr tyner, diymhongar a hynod weithgar a chanddo ddiddordeb mawr mewn hynafiaethau a llenyddiaeth.

Yn llenor dawnus ei hun, lluniodd nifer mawr o erthyglau hynafiaethol yn Gymraeg a Saesneg ac 'roedd yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethol Cymru.

Mae'n debyg i Evan Evans a Myrddin ddod i adnabod ei gilydd trwy Richard Lloyd a buont yn helpu'r naill a'r llall gyda'u hymchwiliadau hynafiaethol am tua deugain mlynedd. Cyfnewidient lyfrau a llawysgrifau a helpent ei gilydd gydag achau, cofnodion, rhestri enwau deiliaid swyddi eglwysig, tarddiad geiriau ac yn y blaen. Trafodent hefyd hen greiriau megis bwyceill, morthwylion, platiau pres eglwysig a bwcedi dal mawn, gan roi sylw arbennig i'r hyn y tybient oedd eu gwerth. Arferiad arall ganddynt oedd anfon rhestri at ei gilydd yn nodi pa lyfrau y dymument eu cael o arwerthiannau lleol. 'Roedd gan y ddau hynafiaethydd feddwl mawr o'i gilydd a chyfeiria Evan Evans fwy nag unwaith yn ei lythyrau at ei fodlonrwydd i dalu treuliau teithio ei gyfaill i'w alluogi i fynychu cyfarfodydd hynafiaethol ac yn y blaen mewn gwahanol ardaloedd. Bu perthynas lwyddiannus a pharchus rhyngddynt dros amser maith a cheir adlewyrchiad o'u hagosatrwydd yng ngeiriau Evan Evans at Myrddin ar Noswyl Nadolig 1894. "Bydd yn dda gennyf eich gweled er mwyn yr hen amser gynt - crwydrasom lawer gyda'n gilydd."⁴⁹

Daeth Myrddin yn rhan o rwydwaith hynafiaethol llewyrchus yn gynnar yn ei hanes, felly, ac ni allai fod wedi cael cychwyn gwell. Fe'i hysbrydolwyd ac fe'i cyfoethogwyd gan gylch o gyfeillion hynod a bwriodd ei hun i'w canol gyda'i benderfyniad a'i sêl arferol. Grymusodd yn eu mysg gan fwydo ar gryfderau pob un ohonynt a buan y daeth yntau yn hynafiaethydd hyderus ac uchel ei barch na bu pall ar ei ddiwydrwydd. ".....Nis gelli di adael dy

grafangau yn llonydd”⁵⁰ meddai Owen wrth ei frawd brwdfrydig yn Hydref 1863 ac yn wir, henaint yn unig a ddaeth â bwrlwm hynafiaethol Myrddin i ben.

Ond ’roedd Owen yn un da i siarad gan y bu yntau’n hynod weithgar a chynhyrchiol yn ystod ei oes fer a gwnaeth y ddau frawd gyfraniad hynafiaethol pwysig i gyfrwng cyfathrebu newydd a chyffrous y daeth ei fentergarwch i’w anterth yn neugain mlynedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y wasg gyfnodol Gymraeg.

’Roedd y wasg yn gyffredinol newydd gael ei rhyddhau o hualau’r trethiant uchel ar hysbysebu, papur a chyhoeddi a oedd wedi bod mewn grym er 1797 a gwelwyd twf syfrdanol yng nghylchrediad cylchgronau a newyddiaduron Cymraeg o tua 1856 hyd ddiwedd y ganrif yn rhannol o ganlyniad i hyn. Ffactor arall a gyfrifai am y ffyniant oedd y cynnydd enfawr yn niferoedd y darllenwyr uniaith Gymraeg, cynhaeaf toreithiog Ysgolion Sul a Chyfarfodydd Llenyddol yr enwadau anghydfurfiol a oedd wedi datblygu yn sgil y Diwygiad Methodistaidd. ’Roedd gan Gymru bellach genhedlaeth o ddarllenwyr brwdfrydig a chraff a oedd, er tlotted eu haddysg ffurfiol, yn farus am wybodaeth am hanes, llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg, crefydd, materion cyfoes gwladol a chydwladol, gwleidyddiaeth, hanesion rhyfeloedd, anturiaethau ac yn y blaen. Bachent ar bob cyfle i ehangu gorwelion eu haddysg ac yn ôl Yr Athro Griffith John Williams “Yr oedd y cylchgronau [enwadol] yn elfen bwysig yn y datblygiad addysgol hwn”⁵¹.

Parhâi mân uchelwyr ac offeiriaid eglwysig hwythau i hyrwyddo a chodi statws y Gymraeg trwy gynnal dosbarthiadau llenyddol,

eisteddfodau ac ati yn y gwahanol ardaloedd. Ystyriai'r offeiriaid, yn arbennig, eu hunain mewn cyfnod o argyfwng; ymboenent am lenyddiaeth a hynafiaethau Cymru, am Seisnigrwydd yr esgobion ac am golli tir i Ymneilltuaeth. Sbardunwyd "y cenedlaetholwyr diwylliannol"⁵² hyn o'r herwydd i gynhyrchu llyfrynnau, cylchgronau a newyddiaduron gan ychwanegu at gnwd aruthrol cyfnodolion Cymraeg y dydd. O fewn eu cloriau hwy, cafwyd cwricwlwm cyfoethog cyraeddadwy am bris rhesymol a mawr fu'r galw amdanynt ar hyd a lled Cymru am ddegawdau gan unigolion rhagweithiol a oedd yn dyheu am gael gwared ar lyffetheiriau anwybodaeth a chaledi beunyddiol. Gwelent werth ac achubiaeth yn yr addysg a gynigiai'r wasg iddynt ac 'roeddynt i'w hedmygu'n fawr am wario eu henillion prin nid yn unig ar y cyfnodolion ond hefyd, yn aml, ar lyfrau addysgiadol a gostiai ffortiwn iddynt o ystyried llymder eu hamgylchiadau. Dyma dystiolaeth sicr yn ôl Aled Gruffydd Jones o "gyflwr hunanhyderus diwylliant y genedl"⁵³. Nid cyfrwng a berthynai'n gyfan gwbl i'r offeiriadaeth oedd y wasg bellach. Gwaniodd ei gafael ar gyhoeddiadau llenyddol fel y sugnwyd ei nerth gan rym ysgubol ymneilltuaeth ac erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'roedd y wasg gyfnodol Gymraeg wedi dod yn eiddo'r bobl. Daeth mwy o gydraddoldeb a chynhwysedd yn sgil y poblogeiddio a chwaraeodd y wasg gyfnodol ran amlwg iawn fel gwarchodwr cenedligrwydd am weddill y ganrif a thu hwnt. "Yr oedd ysgrifennu ar ran y lliaws [wedi dod] yn elfen bwysig a diamheuol o ddiwylliant Cymraeg"⁵⁴ y dydd ac nid oedd prinder o gyfranwyr. Yn ogystal â'r gwŷr eglwysig, ceid bellach lu o arweinwyr Anghyddfurfiol a gwleidyddion a gyfrannai'n gyson i'r cyhoeddiadau cyfnodol Cymraeg "i roi cyhoeddusrwydd i achos neu bleidio rhinweddau carfan neu fudiad arbennig"⁵⁵. Dyma gyfle euraid hefyd i

newyddiadurwyr, gwŷr llên, haneswyr, hynafiaethwyr,
naturaethwyr ac yn y blaen rannu gwybodaeth gyda'r gynulleidfa
eang o ddarllenwyr eiddgar - a bwriodd nifer o ohebwyd eu
prentisiaeth yn y modd hwn gan ddysgu oddi wrth ei gilydd a dod
i amlygrwydd mewn amrywiol gymunedau ar hyd a lled Cymru.
Yn eu mysg yr oedd Myrddin ac Owen - ac yn hyn o beth eto,
hwyluswyd eu ffordd gan Daniel Silvan Evans.

Ym mis Tachwedd 1858, cyhoeddwyd y cylchgrawn 'eglwysig'
Y Brython am y tro cyntaf gan Robert Isaac Jones
(Alltud Eifion)⁵⁶ yn ei argraffdy y tu cefn i'w siop fferyllydd yn
Nhremadog. Ac yntau newydd gwblhau ail gyfrol
An English and Welsh Dictionary, cytunodd Silvan i fod yn gyd-
olygydd y cylchgrawn ac ymgwymerodd â'r gwaith tan 1860.
Cylch gorchwyl yr wythnosolyn⁵⁷ arbennig hwn oedd
llynyddiaeth, hynafiaethau a llên gwerin – llwyfan berffaith i'r
ddau hynafiaethydd ifanc ac 'roeddynt yn gefnogwyr brwd i'r
fenter o'r cychwyn. "..... mawr iawn yw'r clod sy ddyledus i
chwi am eich gwasanaeth anghydmorol i lenyddiaeth ein gwlad",
broliai Owen olygydd Y Brython yn gyhoeddus "trwy ddwyn
allan o encudd tywyllwch gynnwysiad hen ysgriflyfrau melynddu,
carpiog, a phydredig ein teios myglyd, a'u hachub rhag
anocheladwy rwth difancoll"⁵⁸, a mynych y galwai ar
berchenogion llawysgrifau hynafol i anfon cynnyrch i'w
gyhoeddi yn y cylchgrawn newydd. Aethai ef a Myrddin ati'n
syth wrth gwrs ac yn rhifyn 4 (Tachwedd 1858)⁵⁹, ceir llythyr gan
Owen, dan y llysenw Cian, ynglŷn â'i ymchwiliadau i un o feini
Eglwys Llangian. Y mis dilynol, ceir cyfraniad amserol o
gronfa⁶⁰ Myrddin, sef 'Englynion y Credo' gan Twm Pedrog
(1798) yn rhifyn 7⁶¹. Ac eithrio ambell gerdd o eiddo Myrddin a
ymddangosodd o 1855 ymlaen, ni chyfrannodd y ddau frawd i

gylchgronau cyn hyn ond daethant yn fwyfwy hyderus a buont yn ddiwyd iawn rhwng cloriau'r Brython, yn arbennig yn ystod 1860 ac 1861, pan oedd Myrddin yn Rhos-lan ac Owen yn Llanfair Caereinion.

Rhwng 1858 ac 1861, cyhoeddwyd dros ugain o lythyrau Owen yn Y Brython o dan ei wahanol lysenwau. Mae natur amrywiol ac ehangder eu cynnwys - un funud byddai'n ymdrin â Samuel Johnson a'r nesaf byddai ynghanol gohebu cywrain Goronwy Owen a Morrisiaid Môn - yn brawf o'i fwriad ef a'i gyd-ohebwyd i gofnodi'r hyn a allent o'r gorffennol ar gyfer eu cyfoedion a chenedlaethau i ddod. Anogent ei gilydd yn eu llythyrau cyhoeddedig - yn union fel y gwnaent yn eu gohebiaeth o ddydd i ddydd - gan geisio neu ddarparu gwybodaeth hynafiaethol yn ôl y galw. Gofyn Owen, er enghraifft, am fanylion pellach am y maen ym Maes y Bedd, Trawsfynydd (Bedd Porius)⁶² a phwysa ar gof cenedl trwy holi am hanes Bedd Robin Hwd yn Sir Ddinbych⁶³. Rhy yntau yn ei dro wybodaeth ddiddorol am bynciau mor amrywiol â hynafiaethau Aberdaron⁶⁴, cadair goch Biwmares⁶⁵ a breninbren y Ganllwyd⁶⁶. Dibynnai'r pynciau i raddau helaeth ar geisiadau gan ddarllenwyr Y Brython. Arferai wneud defnydd pur gyson o straeon llafar gwlad ac o bryd i'w gilydd, cynhwysai farddoniaeth berthnasol megis englyn gan Wiliam Phylip ar y gadair goch. Mae'n amlwg hefyd ei fod yn gyfarwydd iawn â chylchgronau megis Y Traethodydd a'r Gwylidydd a lloffodd ohonynt hwnt ac yma i gyfoethogi ei gyfraniadau i'r Brython. Yn aml, gwelir ffrwyth gwaith ymchwil cynhwysfawr yn llythyrau Owen i'r Brython ac mae ei ymdriniaeth fanwl o rydau Afon Menai a'u cysylltiadau hanesyddol, chwedlonol a barddonol yn enghraifft dda o hyn⁶⁷. Gwnâi'n siŵr ei fod wedi darllen yn bwrpasol am bynciau

penodol a chyfeiriai yn ei lythyrau at ffynonellau allweddol megis Britannia gan Camden, Topography of Wales gan Lewis a Life of Johnson gan Boswell.

O bryd i'w gilydd, ceid anghytundeb rhwng gohebwy'r Y Brython a'i gilydd a hynny ar faterion yn ymwneud â'r beirdd gan mwyaf. Nid oedd Owen yn eithriad yn hyn o beth ac anghytunodd droeon ag un gohebydd yn arbennig, sef Wmffra Dafydd o Ffestiniog, ar bwyntiau megis awduraeth Cywydd y Methiant⁶⁸, dyddiad marw Huw Llwyd⁶⁹ a swydd Siôn Tudur yn Esgobaeth Llanelwy⁷⁰ a dyddiad ei farwolaeth yntau. Amheuai Owen gywirdeb Wmffra Dafydd ar adegau ac nid oedd yn fyr o dynnu sylw at hynny. "Y mae i mi air eto ag *Wmffra Dafydd* Ond dyddorol iawn fydd gan ddarllenwyr y BRYTHON gael gwybod i ba fesur y mae ei ymchwiliadau clodwiw i hanes yr hen Lwydiaid o Gynfal wedi llwyddo"⁷¹. Ceir yma elfen o gystadleuaeth ac o dynnu ar Wmffra Dafydd ond diau fod y ddau'n deall ac yn parchu ei gilydd yn y bôn a hwythau'n rhannu'r un sêl i achub deunydd hynafiaethol rhag diflannu am byth⁷². Mewn gwirionedd, 'roedd Owen yn awyddus i gydweithio â hynafiaethwyr fel Wmffra Dafydd. Gwnaeth sawl apêl iddynt gyfrannu o'u casgliadau o ymrysonau'r beirdd i'r Brython a chynigiodd weithio ochr yn ochr â rhai ohonynt ar fersiwn mwy cyflawn o'r cywyddau ymryson rhwng Siôn Tudur a Siôn Phylip. Cynigiodd hefyd awdlau a chywyddau beirdd megis Tudur Aled a Gwerfyl Mechain o'i lawysgrifau ar gyfer Y Brython.

Cyfrannodd Owen ambell erthygl megis 'Yr Ysgwyddog'⁷³ a'r 'Tylwyth Teg'⁷⁴ i 'Gyfras Llen y Werin' Y Brython. Ond canolbwyntiai'n bennaf ar faterion barddonol a llenyddol. Anfonodd nifer o gerddi o ysgriflyfrau i'r cylchgronau a oedd,

mae'n debyg, yn adlewyrchu natur ei gasgliad. 'Roedd llawer ohonynt – a ymddangosai'n aml o dan y teitl 'Darnau Diawduriaeth'⁷⁵ - yn eithaf cyffredin o ran crefft ar y cyfan ond yn eu mysg, ceid ambell em megis y 'Cywydd i Sion Hob' gan Sion Prys⁷⁶ a chywydd Iolo Goch i'r Llong⁷⁷. At ei gilydd, 'roedd y cerddi a anfonodd Owen i'r Brython yn fwy dethol a safonol na'r rhai a gyfrannwyd gan Myrddin a lluniodd sawl erthygl ddiddorol megis 'Ymryson y Beirdd' yn cynnwys gwaith crefftus un o Feirdd yr Uchelwyr⁷⁸. Cymerai Owen gryn ddiddordeb ym mywydau'r beirdd a 'sgrifennai'n ddifyr ac yn hyderus am unigolion hynod megis Siôn Phylip gan fod yn ddigon siŵr o'i bethau i anghytuno â neb llai nag Eben Fardd ar faterion megis achau ac amgylchiadau teuluol y bardd-amaethwr o Fochres⁷⁹.

Nid oedd Owen a Myrddin yn gwbl gytûn rhwng cloriau'r Brython bob amser 'chwaith megis yn achos cerdd o waith Dewi Wyn o Eifion. Er cryn siom i Owen, 'roedd Myrddin wedi achub y blaen arno trwy gyhoeddi yn y cylchgrawn 'Cywydd am Fawredd Iehofa'⁸⁰ gan y bardd o Lanystumdwy a chodwyd ei wrychyn o'r herwydd. Mewn erthygl yn ei arddull hynafol a blodeuog arferol⁸¹, cyfeiria Owen at ei fwriad gwreiddiol ei hun i gyhoeddi'r gerdd a mynega ei syndod fod Siôn Wyn o Eifion wedi clodfori'r cywydd gan fynd ymlaen i amlygu gwendidau'r bardd ifanc. Ond nid dyna'r diwedd arni a gorlifodd miniogrwydd Owen i lythyr at Myrddin yn Hydref 1860. "Daeth y Brython" meddai "..... Y mae hwnyna llawn cystal a'r rhai blaenorol er bod Cronfa MF wedi ei dyhysbyddu o bob peth o werth"⁸².

Ymatebodd Myrddin yn ei dro trwy nodi “Ni synnwn i ddim mymryn nad yw *Mannoethwy* gwedi methu ei nôd (eithr yn hollol ddiarwybod iddo ei hun) pan y dywed “Dyma y Cywydd a welodd y diweddar Sion Wyn o Eifion, am yr hwn y dywedai ei fod yn *rheolaidd a champus*”⁸³ ac â ymlaen i ddadlau - ar dir pur sigledig mae'n rhaid cyfaddef - mai at ‘Cywydd Cenfigen a Chelwydd’ o waith Dewi y cyfeiriai Siôn Wyn. Manteisia Owen ar ddiffyg pendantrwydd ei frawd⁸⁴, fodd bynnag, ac er iddo ymddiheuro am yr hyn a ystyriai'n fyrbwylltra cynamserol ar y mater, daw i gasgliad terfynol mewn llythyr pellach⁸⁵, wedi pwysu a mesur popeth, ei fod yn gywir wedi'r cwbl.

Er na fu Myrddin yn llythyru mor gyson ag Owen â'r Brython rhwng 1858 ac 1862, cyfrannodd yn bur helaeth i'r cylchgrawn yn ystod y cyfnod hwn ar y cyfan ac fe'i croesawai fel “udgorn adgyfodiad [i lawysgrifau o'r gorffennol]”⁸⁶. Nid oedd wedi'i blesio lawn cymaint ag Alltud Eifion ei hun, fodd bynnag, a cheir cyfeiriad ato fel “almanac yr amser gynt, ychydig o wir, a llawer o gelwydd” yn un o lawysgrifau Myrddin⁸⁷. Yn ôl Elis Gwyn Jones, cenfigen a barodd i Myrddin adweithio yn y fath fodd i Alltud Eifion oherwydd iddo ymwneud cymaint â Daniel Silvan Evans ar y pryd. Cenfigen neu beidio, cefnogodd Myrddin olygyddion Y Brython trwy gydol oes y cylchgrawn a chafodd y darllenwyr flasu ei gasgliad cynnar yn rheolaidd, yn arbennig o 1860 ymlaen. Gweithiau (anghyflawn ar brydiau) o lawysgrifau beirdd a gyfrannwyd ganddo gan mwyaf⁸⁸, yn awdlau, yn gywyddau ac yn englynion, a gellid dadlau iddynt fod yn ddrych o gronfa newydd ar ei phrifiant. Ceir cnwd o weithiau lled gyffredin beirdd lleol fel Twm Pedrog⁸⁹, Owen Gruffydd⁹⁰ a Dewi Wyn o Eifion⁹¹, er enghraifft, ac ambell gerdd ddisglair

yma ac acw yn eu plith megis ‘Cywydd i Ferch’ gan Syr Dafydd Llwyd⁹² ac ‘Ymddiddan rhwng yr Angau ag un o’i Wyr Llys’ gan Ieuan Brydydd Hir⁹³.

Mae’n amlwg, felly, i Myrddin roi cryn sylw i weithiau beirdd Llŷn ac Eifionydd yn ystod ei gyfnod cynnar fel casglwr, ac er eu bod yn amrywio o ran eu gallu, eu pynciau a’u cyfnodau, ei flaenoriaeth oedd achub hynny a allai o’u gwaith. Ymarferion cynganeddol yn llawn o linellau disynnwyr a geiriau di-sail a geid yn aml gan rai o’r beirdd hyn yn hytrach na barddoniaeth greffus, a chyfrannt at byluni barddonol ddiwedd y ddeunawfed ganrif a degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cerdd yn y categori hwn yw ‘Cywydd y Farn Fawr’⁹⁴ gan Dewi Wyn o Eifion ac nid ymddengys i Myrddin gloriannu rhyw lawer ar weithiau beirdd fel Dewi. Fel y rhelyw o’i gyfoedion, fe’u derbyniodd yn llawen a di-gwestiwn fel campweithiau - ac ’roeddynt yn ddefnyddiol i olygyddion Y Brython gan eu bod yn gynrychiolaeth deg o gynnyrch lleol. Mewn cyfresi fel ‘Blodau’r Beirdd’ a ‘Ceinion y Cynoesau’, ’roedd Myrddin am rannu amrywiaeth ei gronfa â darllenwyr Y Brython a’i brif nod oedd cyflwyno iddynt ei hoff feirdd yn canu am bynciau oesol a apeliai’n bersonol ato megis natur, serch, crefydd a breuder einioes dyn. Ni fu safon y gwaith erioed yn un o’i brif ystyriaethau a bu’n hyrwyddwr brwd o’r cyfnod cynnar hwn ymlaen o feirdd ei fro. Byrlymai yn ôl ei arfer yn 1861 “Y mae gennyf luaws o Awdlau, Cywyddau, Englynion, Caniadau rhyddion a Thraethodau o eiddo Dewi [Wyn o Eifion], heb erioed eu hargraffu; ond cânt ymddangos ger bron y cyhoedd o dipyn i beth”⁹⁵. Ond taflwyd dŵr oer ar ei fwriadau yn fuan iawn oherwydd “fod cryn genfigen mewn rhai dynionach o herwydd fy mod yn feddiannol ar ysgrifau Dewi Wyn”⁹⁶ a phwdodd. Ni

chafwyd gwaith Dewi Wyn o Eifion o gronfa Myrddin yn Y Brython wedi hynny. 'Roedd y sylfeini wedi'u gosod, fodd bynnag, a bu ei gyfraniadau cynnar i'r Brython yng nghyd-destun Twm Pedrog, Dewi Wyn o Eifion ac Owen Gruffydd yn arbennig yn seiliau amlwg i'r gwaith pwysig a wnaeth ar y beirdd hyn yn ddiweddarach yn ei oes, gwaith a gyhaeddodd ei benllanw ar gychwyn yr ugeinfed ganrif gyda chyhoeddi'r cyfrolau Dewi Wyn o Eifion & (1902)⁹⁷ a Cynfeirdd Lley 1500-1800 (1905)⁹⁸ gan Myrddin a Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy (1904)⁹⁹ gan Owen M Edwards¹⁰⁰. Dro ar ôl tro yn y ddwy gyfrol gyntaf, er enghraifft, deuir ar draws cerddi o waith Twm Pedrog, megis 'Awdl i MWP (BB) ac AF' a 'Cywydd i'r Onen wrth yr Ardd Wair', a gyhoeddwyd yn Y Brython ddeugain mlynedd ynghynt. Ar y cyfan, prin iawn oedd y troednodiadau eglurhaol a gynhwysai'r Myrddin ifanc gyda chyfansoddiadau'r beirdd o'i gronfa yn Y Brython - arwydd sicr o'i ddiffyg gwybodaeth a'i ddiffyg hyder - ond ac yntau wedi magu oes o brofiad, ceir ymdriniaeth bur ddeheuig ganddo o'r un cerddi yn y cyfrolau. Llaw Myrddin sydd y tu ôl i Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy hefyd a dywed O M Edwards yn y Rhagymadrodd "Am y cwbl sydd yn y gyfrol, a llawer ychwaneg, yr wyf yn ddyledus i lafur cariad diymhongar a gwerthfawr Myrddin Fardd. Efe yw bywgraffydd Owen Gruffydd a chasglydd ei waith, ac iddo ef y mae Cymru i ddiolch am sicrhau sylw i fardd na ddylid ei lwyr anghofio"¹⁰¹. 'Roedd Myrddin ei hun wedi bwriadu cyhoeddi cyfrol ar Owen Gruffydd a lluniodd erthygl fanwl ar y bardd a gyhoeddwyd gan O M Edwards yn Y Llenor ym mis Ebrill 1895¹⁰² fel paratoad ar gyfer y dasg. Ond ni lwyddodd i ddenu cefnogaeth ariannol ddigonol ar gyfer y fenter a gorfu iddo drosglwyddo'r awenau'n gyfan gwbl i O M Edwards - heb

elwa'n ariannol ond gyda'r sierwydd y byddai'r gwaith yn gweld golau dydd o'r diwedd.

Os bu 'Cronfa Myrddin Fardd' yn llewyrchus trwy gydol oes Y Brython, tenau iawn o ran nifer oedd y llythyrau o'i eiddo a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn – yn arbennig felly o'i gymharu â chyfraniad Owen ei frawd. Prin saith o lythyrau Myrddin at y Golygydd a ymddangosodd rhwng 1858 ac 1862 ac 'roeddynt bron yn ddieithriad yn ymwneud â byd y beirdd. Ymdrinia Myrddin, yn ei arddull ffug hynafol a llawn gorchest arferol, ag agweddau ar waith a bywyd Dafydd Ddu Eryri a Dewi Wyn o Eifion, er enghraifft, gan atodi gohebiaeth rhyngddynt yn trin a thrafod materion megis mesurau caeth barddoniaeth Dosbarth Morgannwg¹⁰³ a phryniant llyfrau gramadeg prin¹⁰⁴. Ceir yma gipolwg defnyddiol ar berthynas y ddau fardd ar gychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil ymdrechion cynnar Myrddin i ddod â'r gorffennol i amlygrwydd.

Mewn llythyr arall a gyhoeddwyd yn 1861¹⁰⁵, prysura Myrddin i gywiro Talhaiarn¹⁰⁶ ynglŷn ag union leoliad y Betws Fawr a'r Gaerwen, sef tyddynnod Robert ap Gwilym Ddu a Dewi Wyn ac yn ei ddull dihafal ei hun cynigia darddiadau posibl i'r ddau enw. Awgryma fod un o dri esboniad posibl i'r gair 'betws' - sef yn gyntaf ei fod yn fan canolig rhwng dyffryn ac ardal fynyddig, yn ail ei fod yn llecyn ac arno goed bedw gynt â 'bedw-faes' yn cael ei lygru i 'betws' ac yn drydydd ei fod yn deillio o'r gair Lladin 'abbattis' gan fod eglwysi a elwid yn 'Betws' yn perthyn i fynachlog yn y blynyddoedd a fu. Ffafia Myrddin y trydydd posibilrwydd. Dros hanner canrif yn ddiweddarach yn ei lyfr Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon¹⁰⁷, ychwanega at y dryswch¹⁰⁸ a chymer gam gwag trwy ddyfalu mai'r gair Saesneg 'dale' yw'r

elfen ‘bet’ yn ‘betws’ ac mai’r gair Saesneg ‘outlet’ yw’r elfen ‘tws’ - prawf pendant y gallai’r gof di-ddysg, llawn dychymyg, fod yn blentyn digamsyniol ei oes¹⁰⁹ gan nad oeddid fawr callach am ystyron llawer o enwau lleoedd bryd hynny. Nid yn annisgwyl, beirniada Myrddin ffermwr y Betws Fawr yn hallt yn y llythyr am iddo gael gwared â’r olion hynafiaethol ar y tir cyn symud ymlaen i gynnig yr esboniad bod Gaerwen yn deillio o ‘Caer’ yn golygu ‘clawdd’, ‘mur’ neu ‘amddiffynfa’ a ‘Gwen’ o ‘Gw’ ac ‘ên’ yn golygu ‘glaschwerthin’! Newidiodd ei feddwl yn ddiweddarach ynglŷn â’r esboniad hwn, fodd bynnag, gan ei fod yn nodi yn Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon mai ystyr Gaerwen yw mur gwyngalchog neu Gaer fendigaid¹¹⁰. Ar ddiwedd y llythyr cyn cloi gyda dau englyn o waith Dewi Wyn o Eifion, caiff lawer gwell hwyl ar bortreadu cymeriad Dewi Wyn ac ar gofnodi atgofion plentyndod William Jones¹¹¹ o’r bardd yn rhoi bechgyn direidus yn eu lle yng Ngefail Rhos-lan.

Mae Myrddin yn ei elfen hefyd mewn llythyr¹¹² at ei arwr Eben Fardd ac fe â ati’n sebonllyd ac yn “hynod wasaidd”¹¹³ yn ôl Owen ei frawd i gymell y prifardd i gyhoeddi ‘Cywydd Marwnad Rhisiart Huws Cefn Llanfair’ (1618) gan Siôn Phylip yn y cylchgrawn. Ac yntau â chryn ddiddordeb yn y Phylipiaid fel y gwelwyd eisoes, mae’r llythyr yn llawn brwdfrydedd gŵr ifanc wedi gwirioni ar farddoniaeth hynafol ac mae’n tincian o’r dilêit na cholodd Myrddin mohono ar hyd ei fywyd.

Unwaith yn unig y rhoddodd Myrddin heibio faterion barddonol yn ei lythyrau at Y Brython pan drodd ei olygon at olrhain tarddiad rhai enwau yn Llŷn mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Owain Lleyrn yn y cylchgrawn ddeufis ynghynt¹¹⁴. Yn y

llythyr¹¹⁵, synhwyrir anfodlonrwydd Myrddin â chyfraniad Owain dan y pennawd ‘Cwmmwd Lley’n’ a cheisia wneud iawn am yr hyn a ystyriai ef yn wendidau trwy gynnig ei ychwanegiadau a’i esboniadau ei hun. Tyn sylw, er enghraifft, at y ffaith na chrybwyllwyd Cwmmwd [sic] Tindywydd¹¹⁶ ar dir Coch y Moel¹¹⁷ gan y bardd ac â ati i addysgu’r darllynydd trwy ailadrodd chwedl am dref yno’n mynd ar dân oherwydd bod ei thrigolion dan felltith prydydd y buont mor ffôl â gwrthod llety iddo. I gyfoethogi’r llythyr, dyfynna englyn (o waith Ieuan Lley’n) yn amlinellu’r melltithio¹¹⁸. Hefyd, cerydda Myrddin Owain Lley’n a gwybodusion eraill megis Peter Bailey Williams¹¹⁹ am i bob un ohonynt “d[d]ilyn ei chwaeth ei hun”¹²⁰ a pheidio â chytuno ar un tarddiad i enw megis ‘Yr Eifl’ gan beri dryswch o’r herwydd. Noda iddynt gynnig lluosogiad o ‘gafl’¹²¹ fel un esboniad posibl i’r enw ac amrywiad ar ‘ufel’¹²² fel un arall. Casâi yntau’r fath ansicrwydd ac ysai yn y dyddiau cynnar hynny hyd yn oed am well cyd-ddealltwriaeth ac arweiniad ym maes safoni enwau lleoedd. Nis cawsai ar y cyfan, fodd bynnag, a pharhau i grafangu’n ddigyfeiriad yn y niwl a wnaeth, yn bennaf am nad oedd ganddo’r cefndir ysgolheigaidd i olrhain tarddiad geiriau a chynnig neu gadarnhau esboniadau clir iddynt. Yn y llythyr, ni chytuna Myrddin ’chwaith ag esboniad Owain Lley’n ar yr elfen ‘Bridin’ yn yr enw Maes Bridin ac fe’i cyhudda o orfodi’i chwiw bersonol ar ddarllenwyr Y Brython ac ymddwyn fel pe bai’n oracl hollwybodus ar y mater. Wedi i hwnnw nodi mai ‘Brydin’ yw’r sillafiad cywir gan ei fod yn credu nad oes y fath air Cymraeg â ‘bridin’, geilw ar Owain i brofi hynny ac â ymlaen i ddatgan iddo ddod i’r casgliad mai llygriad o ‘brydin’ yw ‘bridin’ o bori yng ngeiriadur Thomas Richards, ac er ei fod ymhell o fod yn sicr o’r union darddiad, cynigia sawl esboniad ar y gair¹²³. Ymhell cyn dyddiau Syr Ifor Williams¹²⁴ a

ffrwyth ei lafur mawr yn y maes, 'roedd Myrddin yr un mor euog ag Owain Lleyrn a'i gyfoedion o daflu pob esboniad posibl i'r pair, felly, nes creu yn aml gawl amhosibl i'w dreulio. Unwaith eto, 'roedd yn gaeth i'w amgylchiadau ac er gwaethaf y pleser mawr a gâi o ymhél ag enwau lleoedd, fe'i rhwystrwyd rhag gwneud cyfraniad arwyddocaol a dibynadwy i'r maes.

Pur nodweddiadol o genhadaeth Myrddin i bontio rhwng y gorffennol a'r presennol yn y cyfnod hwn hefyd yw 'Achau Teulu Nanhoron'¹²⁵ sef, mae'n debyg, yr enghraifft gyntaf gyhoeddedig o ymdrechion Myrddin i olrhain achau teuluoedd pendefig lleol. Gwelir yma ffrwyth ei ymchwil ac ymdrinia'n ddestlus â llinellau ach dwy ochr y teulu. Byddai gweithgaredd o'r fath gan Myrddin wedi plesio teulu Nanhoron a'u tebyg, wrth gwrs, ac wedi deillio, o bosibl, o gais comisiynol yn y lle cyntaf a fyddai wedi bod yn broffidiol i'r heliwr achau.

Troedio ei hoff lwybrau hynafiaethol a llenyddol a wnaeth Myrddin, yn naturiol ddigon felly, rhwng cloriau'r Brython - ac eithrio unwaith. Yn 1861, cyhoeddwyd yn y cylchgrawn ddarn cwbl wahanol i'w gyfraniadau arferol dan y teitl 'Dylanwad Dyn'. Traethawd¹²⁶ gwyddonol cynhwysfawr a geir yma mewn gwirionedd, sy'n ymwneud â phynciau mawr oesol megis lle a swyddogaeth dyn ar y ddaear a'i ddylanwad - er gwell ac er gwaeth - ar bopeth yn y greadigaeth oherwydd ei allu i ymresymu ac i drosglwyddo gwybodaeth o un genhedlaeth i'r llall trwy gyfrwng unigryw iaith. Mae'n gyfanwaith meistrolgar a strwythuredig, wedi'i saernio gan ddadleuwr hyderus a gwybodus mewn arddull flodeuog ac ymffrostgar sy'n adlewyrchu arferion llenyddol yr oes. Llwydda i brofi ei bwynt neu i gryfhau ei ddadl dro ar ôl tro trwy baentio cyfres o ddarluniau trawiadol megis yn

ei ddisgrifiad o ragoriaeth dyn: “Y mae ef yn gallu pwysu a mesur y ddaiar; dosbarthu a rhifo y sêr. Gall esgyn yn ei awyren trwy eang fro asur, nes bydd y cymylau dan wadnau ei draed meistrolgar.”¹²⁷ Gellir dadlau bod Myrddin wedi llunio’r traethawd ar gyfer rhyw eisteddfod neu’i gilydd - yn arbennig o ystyried iddo gael ei gyflwyno dan ffugenw¹²⁸ - ond gan nad yw’r pwnc, y cynnwys (megis cyfeiriadau at wyddoniaeth gymdeithasol)¹²⁹ na’r mynegiant yn nodweddiadol ohono, tybed a gafodd ei demtio i ‘fenthycu’ o waith arall a lithro i ddyfnderoedd llên-ladrad - arferiad pur gyffredin a lled dderbyniol mewn oes o safonau slac? Digon posibl, o ystyried popeth.

Bu Myrddin, ond nid Owen, yn bur driw hefyd i’r Herald Cymraeg tua’r un cyfnod a rhwng 1858 ac 1861, rhoddodd yr wythnosolyn¹³⁰ a gyhoeddodd nifer o’i gerddi cynnar¹³¹, gyfle i’r gohebydd ifanc ddefnyddio ei ddarllenwyr a hynny bron yn ddieithriad gyda materion barddol. Ystyrid yr Herald Cymraeg, a ddeuai o stabl Anghydfurfiol Ryddfrydol solet James Rees¹³², yn gyhoeddiad safonol ac arwyddocaol o’r cychwyn ac yn ôl R Maldwyn Thomas, ef oedd “coron gyrfa faith”¹³³ y gŵr busnes llwyddiannus o Gaernarfon. Ei olygydd cyntaf oedd James Evans a hyd yn oed mor gynnar â Chwefror 1858, ’roedd ei gylchrediad wythnosol yn 10,500 a’i gylch darllenwyr, yn naturiol ddigon, yn llawer mwy. Sefyllfa berffaith i roi hwb mawr i enwogrwydd Myrddin a’i debyg ar aelwydydd Cymraeg eu hiaith a’u poblogeiddio ymhell cyn dyfodiad cyfryngau cyhoeddusrwydd grymus y radio a’r teledu.

Ac yntau’n llawn hyfdra a hyder llencyndod, nid oedd Myrddin ei hun yn fyr o hyrwyddo lle gwelai’r angen ’chwaith ac yn ei ysgrif

gyntaf¹³⁴ yn Yr Herald Cymraeg, clodfora, mewn ieithwedd flodeuog a hynafol, arwahanrwydd a goruchafiaeth y bardd mewn cymdeithas. Cyfeiria at ei ddyfeisgarwch a'i chwaeth a gresyna iddo gael ei gamddeall am iddo fynnu torri ei gŵys ei hun. Mae'n ofid iddo na wêl pobl anwybodus - y dysgedig¹³⁵ a'r diddysg fel ei gilydd - na chreffft na gorchest barddoniaeth a'u bod yn credu ei bod "fel edafedd gwawn yn nhes Gorphenaf, yn brydferth iawn - ond yn annichonadwy"¹³⁶. Tania Myrddin sawl bwled at yr 'anwybodusion' hyn a dyna brif bwrpas yr ysgrif mewn gwirionedd - adwaith ydyw i'w deimladau rhwystredig ei hun. Pwysleisia y genir bardd ac mai ef yn unig sy'n deall dirgelion yr awen. Dywed y dylid gosod y bardd ar yr un lefel â'r athronydd oherwydd ei allu meddyliol er bod cryn wahaniaeth rhyngddynt yn y bôn gan y cred Myrddin na chofleidir anian mewn modd mor danbaid yng ngwaith yr athronydd. Cynhwysa nifer o linellau natur i ddangos y tanbeidrwydd ond ymarferion cynganeddol cyffredin ddigon ydynt i bob pwrpas¹³⁷ megis:

Duryn fflam y daran fflwch

y gellid eu defnyddio fel arf i wrthbrofi'r holl ysgrif!

Erbyn Awst 1860¹³⁸, 'roedd Myrddin ar drywydd cwbl wahanol. Bellach, datganai fod rhwydd hynt i unrhyw un farddoni fel ag y dymument, waeth beth fo'u gafael ar yr awen anhydrin. Gwelai werth hynafiaethol i weithiau holl feirdd Llŷn, erbyn hyn, waeth beth fo'u safon, ac, yn w'r ifanc 23 oed, adnabu'r angen i gofnodi eu traddodiadau llafar a'r atgofion amdanynt. Y bwriad, meddai, oedd cychwyn â Saceus, Bryn-y-pwll ".....Hen gawrfil o ddyn esgyrnog ofnadwy"¹³⁹, a phaentiodd bortread difyr o hen gymeriad lliwgar - a phrydydd go wael - er pleser mawr, fe dybir, i ddarllenwyr Yr Herald Cymraeg. Defnyddia arddull fywiog,

naturiol y storiwr wedi'i chyfoethogi gan ymadroddion llafar megis 'yn dinben strellach' a 'yr hen greadur' ac mae'r holl ddarn yn union fel tâp sain ar bapur.

Rhy'r un ymdriniaeth ysgafn i William Croom¹⁴⁰ ym Myfyrdod Prydyddawl II¹⁴¹ a difyrra'r darllenwyr y tro hwn â straeon hwyliog - i gyd am fwyd fel mae'n digwydd - yn seiliedig ar gampau geiriol yr hen ŵr a'i gydnabod megis y stori amdano'n datgan wrth wraig fferm ei fod yn mwynhau llymru a phennog ac iddi hithau ei gangymryd, a meddwl ei fod yn eu bwyta gyda'i gilydd. Cofnodir rhai o gerddi caeth a rhydd William Croom ar y diwedd, hefyd, ond yng ngeiriau Myrddin "..... nid oes fawr o hynodrwydd yn perthyn iddynt"¹⁴².

Cyhoeddwyd pedwar llythyr o eiddo Myrddin yn Yr Herald Cymraeg rhwng 1860 ac 1861. Llythyr byr, ffurfiol at Eben Fardd yw'r cyntaf¹⁴³ yn seboni'n ddychrynlyd yn ôl ei arfer gyda'r "Pencerdd enwogfawr"¹⁴⁴ ac yn gofyn yn ddigywilydd am arweiniad ar y cywydd am hanes Rhys Llwyd ap Rhys ap Riccart ac eraill yn teithio i Ynys Enlli yn 1460 i gael maddeuant gan yr abad am eu pechodau. Er i Myrddin gynnwys englyn purion ar ddiwedd y llythyr yn erfyn ar i Eben ymateb i'w gais, cyfaddefa Eben yn rhifyn dilynol y papur¹⁴⁵ na ŵyr fawr ddim am y cywydd ac o'r herwydd

..... Drwg yw'm sŵn, na feddwn fwy
I'w roi o 'mhcyn i'r Maccwy.¹⁴⁶

Ceir llythyr byrlymus, amleiriog dan y ffugenw 'Myrddin Farfdrwch', yn rhifyn Awst 25, 1860 o'r Herald Cymraeg hefyd a dyma'r unig gyfraniad gan Myrddin i'r papur nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â barddoniaeth. Llythyr at William Prichard, Bodlondeb, Llangian ydyw yn

cwestiynu'n ddiflewyn-ar-dafod ei gyfeiriad at union leoliad daearyddol 'Pen Lleyn'. Anghytundeb lled hwyliog sydd yma, o bosibl, gyda'r Myrddin ifanc, ffraeth yn herio ac yn tynnu coes. O dipyn i beth, llusgwyd eraill megis Hywel Ddu a Hugh Davies, Llangŷan i'r 'sgarmes eiriol a bu'n ffrwtian yn Yr Herald Cymraeg am beth amser. Wedi'i gynddeiriogi gan William am iddo'i alw'n "hogyn difarf"¹⁴⁷, â Myrddin ati gydag arddeliad i geisio gwrthbrofi diffiniad is-oruchwyliwr Stad Nanhoron o 'Ben Lleyn' gan gryfhau ei ddadl trwy gyfeirio at enghreifftiau niferus a wnaed o'r elfen 'Pen' mewn enwau lleoedd yn rhannau Celtaidd Gwledydd Prydain. Tynn y Myrddin dienwad y llythyr at ei derfyn ar nodyn nodweddiadol goeglyd "..... braidd na feddyliwyf" meddai "mai Trefnyddion Calфинаidd Lleyn a ffurfiasant y cyfryw enw, er mwyn cyfleustra gyda'u cyfarfodydd Ysgolion Sabbathol"¹⁴⁸. Daeth yr 'ymryson' i ben ymhen y rhawg, fodd bynnag, ac o fewn ychydig fisoedd, lluniodd Myrddin awdl i'w "Gyfaill gwiwfad"¹⁴⁹. Ai i selio'u cyfeillgarwch ynteu i ffalsio? Ychydig o'r ddau o bosibl!

Yn anuniongyrchol, mae gan William Prichard gysylltiad â llythyr a anfonodd Myrddin at olygydd Yr Herald Cymraeg ym mis Gorffennaf 1861¹⁵⁰ hefyd. Yn y llythyr hwn, ceir enghraifft brin iawn o edmygedd Myrddin o'r rhyw deg a'i fyrdwn yw hybu llenyddiaeth a barddoniaeth gan ferched. Dywed ei fod yn dilyn Eben Fardd yn hyn o beth a chynhwysa 'Pennillion i'r Wennol' gan Miss H Prichard, Bodlondeb, Llangŷan ar ddiwedd y llythyr. Bu'r gerdd hon yn fuddugol yng Nghyfarfod Llenyddol Pen Lleyn y Nadolig cynt, wedi'i gosod ar y brig, o bosibl, gan Eben Fardd ei hun. Chwaer ddibriod William Prichard oedd Hannah ac o ystyried bod Myrddin yn chwilio am wraig yn y cyfnod hwn, nid syndod iddo dalu llawer o sylw i chwaer gŵr o

gryn statws cymdeithasol a ymddiddorai yn yr un pethau ag yntau. Er gwaethaf ei ddiddordeb yn Hannah, fodd bynnag, ac er iddo gyflwyno awdl i'w brawd, ni ddatblygodd perthynas glòs rhwng y pâr ifanc a throdd Myrddin ei olygon carwriaethol tua Llanystumdwy maes o law.

Llythyr ac atodiad yn dwyn y teitl 'Mangofion Barddonol'¹⁵¹ at olygydd Yr Herald Cymraeg oedd cyfraniad tebygol olaf Myrddin i'r papur. Ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd 16, 1861 a bwriad Myrddin y tro hwn oedd dwyn i sylw'r darllenwyr gasgliad o englynion ysgafn Cymraeg a Saesneg eithaf di-nod a gyfansoddwyd yn wythdegau'r ddeunawfed ganrif gan feirdd megis Walter Davies (Gwallter Mechain), Henry Humphreys, Rees Llwyd a Thomas Jones. Teimlai Myrddin fod cyfansoddiadau o'r fath yn eu diwyg gwreiddiol, er nad yn weithiau pwysig, yn llawn deilyngu sylw ei gyfoedion. Pwysleisiai, fodd bynnag, nad oedd yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw amryfusedd a geid ynddynt. Ef aeth ati i'w categoreiddio, mae'n debyg, ac mae eu natur ysgafn o bosibl yn adlewyrchu cyfnod hwyliog a diofal yn ei hanes yntau.

Ym Mehefin 1862, derbyniodd Myrddin lythyr o gryn bwys gan Hugh Humphreys¹⁵² o Gaernarfon yn ei hysbysu ei fod "yn bwriadu dwyn allan gyhoeddiad misol addurnedig â Darluniau dan yr enw "Golud yr Oes. Cyhoeddiad Misol Cenedlaethol er cefnogi Llenyddiaeth, Cerddoriaeth, Celfyddyd, Addysg, Crefydd a Gwladgarwch"¹⁵³. Dywed wrth Myrddin ei fod "eisoës wedi cael addewidion gan amrai o brif lenorion ein gwlad, y bydd iddynt gymorthwyo yn yr anturiaeth trwy ysgrifennu iddo"¹⁵⁴ a chan osod Myrddin yntau yn yr uchelfannau, gofyn iddo am "yr anrhydedd o ychwanegu eich enw chwithau at y rhestr"¹⁵⁵. Go

brin y gallai Myrddin wrthod gwahoddiad mor ffafriol ac mor amserol¹⁵⁶ a phan ymddangosodd rhifyn cyntaf y misolyn arloesol¹⁵⁷ ym mis Medi 1862, rhoddwyd lle amlwg ynddo i golofn o'r enw 'O Gronfa Myrddin Fardd'. Dyma felly ddilyniant i'r golofn o'r un enw a oedd wedi'i chyhoeddi'n gyson yn Y Brython er Rhagfyr 1858 ac a ddaeth i ben, yn ddiddorol ddigon, pan wawriodd Golud yr Oes a hudo Myrddin i Fecca newydd Caernarfon.

Ni bu pall ar boblogrwydd y golofn ddifyr yn y cylchgrawn newydd ac ymddangosodd yn gyson ynddo hyd y rhifyn olaf yn Rhagfyr 1864. Gwyddys fod Myrddin yn berchen ar ysgriflyfrau Dafydd Ddu Eryri¹⁵⁸ a thybir iddo bwysu'n drwm ar gasgliad o'r fath wrth baratoi'r golofn gan ei bod yn ymwneud yn helaeth naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r athro-fardd o'r Waunfawr yn Arfon. O ganlyniad, rhy Myrddin y cyfle dros gyfnod o ddwy flynedd i ddarllenwyr Golud yr Oes ddysgu llawer am un o feirdd mwyaf dylanwadol Cymru ym mlynnyddoedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i gydnabod. Gwir na ddidolodd y llythyrau mewn trefn gronolegol na hyd yn oed osod y pynciau arwyddocaol mewn trefn resymegol ond er hynny, gellir llwyr gytuno ag Owen ei frawd iddynt fod "mor werthfawr"¹⁵⁹ yn y cylchgrawn. Fel yn y casgliad o lythyrau a gyhoeddwyd gan Myrddin yn Adgof Uwch Anghof ugain mlynedd yn ddiweddarach, cyflwynant bortread crwn a diddorol o fardd safonol, athro dysgedig, llythyrwr sgilgar a hyfforddwr medrus ar genhedlaeth o feirdd¹⁶⁰ a gynhyrchai waith cywir, clir a thraddodiadol fel yntau. Gwelir hwnt ac yma yn y golofn fod Dafydd Ddu yn gefnogwr selog o'r mesurau caeth gan ei fod yn credu'n gryf eu bod yn gwarchod purdeb yr iaith Gymraeg. Teimlai y gellid canu'n synhwyrol ar bob un o'r

pedwar mesur ar hugain ac 'roedd yn ddiffriol o unrhyw fardd a oedd am lacio gafael arnynt. Tybiai hefyd nad dysg yn unig a wnâi fardd ac nad oedd modd 'chwaith i ddynion gwamal fod yn feirdd crefftus. Cyfeiriai droeon at anghyffredinedd yr "awen"¹⁶¹ nefolaidd ac at ddawn oruwchnaturiol y bardd¹⁶² - dadl a atgyfodwyd gan Myrddin yn ei ysgrif ar 'Y Bardd'¹⁶³ y cyfeiriwyd ati eisoes.

Manteisiai Dafydd Ddu ar bob cyfle i roi ei 'gywion' ar ben y ffordd a dygodd colofn Myrddin amrywiol 'wersi' o'i eiddo i olau dydd gan addysgu darllenwyr Golud yr Oes hwythau yn eu tro. Yn 'Athrawiaeth y Gorphwysiadau'¹⁶⁴, er enghraifft, ceir arweiniad manwl a chlr ganddo ar sut y dylid mynd ati i atalnodi'n bwrpasol. Yna, try'n athro Hanes gan ganolbwyntio ar wŷr adnabyddus ardal Harlech megis Phylipiaid Ardudwy, Edmwnd Prys ac Ellis Wynne cyn adrodd yn wybodus am y gwarchae hir ar Gastell Harlech yn ystod y Rhyfel Cartref yn y bymthegfed ganrif¹⁶⁵. Ond y gymwynas fwyaf o ddigon a wnaed gan Myrddin rhwng cloriau Golud yr Oes oedd rhoi cipolwg buddiol i'r darllenwyr ar sut y cyfathrebai Dafydd Ddu â beirdd eraill ei gylch gan roi iddynt gyfarwyddyd cadarn ar faterion barddol megis defnyddioldeb y pedwar mesur ar hugain a'r cynganeddion, creu cyffelybiaethau a llunio marwnadau. Arferai bwyso a mesur eu hymdrechion hwythau hefyd a gwnâi hynny mewn modd adeiladol a chefnogol ar y cyfan – er i ambell sylw deifiol a cherydd am ddiotalwch lithro o'i bin ysgrifennu – gan eu cyfeirio at enghreifftiau canmoladwy a ffynonellau defnyddiol i'w cynorthwyo i wella'u crefft. Fe'u cymhellai wedyn i rannu'r genadwri â'u cyd-feirdd ac felly ledaenu'r 'wers' o un i un¹⁶⁶.

Gan y canolbwyntia colofn Myrddin bron yn gyfan gwbl ar flynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, deuir yn gyfarwydd hefyd â dirywiad Dafydd Ddu yn ei berthynas â'r Gwyneddigion¹⁶⁷ a'i ddadrithiad llwyr â Iolo Morganwg¹⁶⁸ a'i ffantasiau.

Wrth i'w wybodaeth hynafiaethol ehangu, cynhwysai Myrddin nodiadau esboniadol ar ddiwedd y llythyrau i gyfoethogi'r golofn a digwyddai hynny fwyfwy o 1863 ymlaen. Ar ddiwedd un llythyr¹⁶⁹ o eiddo Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn, er enghraifft, gwelodd yn dda i gynnwys ffeithiau defnyddiol am naw o bobl ac un adeilad a ychwanegodd yn ddi-os at ddealltwriaeth ac felly werthfawrogiad y darlennydd o'r gwaith. Ni wnâi unrhyw ymgais, fodd bynnag, i egluro cynnwys a chyfeiriadaeth cerddi a ymddangosai yn y golofn o bryd i'w gilydd megis 'Cywydd Marwnad Sion Wilym'¹⁷⁰ gan Twm Pedrog ac at ei gilydd, nid âi i'r drafferth o gynnwys unrhyw nodiadau eglurhaol am y beirdd eu hunain. Ond go brin yr amharodd hyn ar fwyniant darllenwyr y golofn a chawsant gipolwg diddorol drwodd a thro ar weithgareddau dau gylch allweddol – ond pur wahanol – a ffynnai tua 1800, sef y rhwydwaith o feirdd sicr eu crefft ond prin eu gorchestion barddol a drigai gan mwyaf yn Arfon a Llŷn a diwygwyr brwdfrydig ond cyfeiliornus Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain a ddefnyddiodd fân eisteddfodau Gogledd Cymru fel llwyfan i daenu eu safbwyntiau radicalaidd. Pendilia'r golofn yn ôl ac ymlaen o Ogledd Cymru i Lundain – o lythyr¹⁷¹ gan Gutyn Peris¹⁷² yn crybwyll cywydd yn hel atgofion am blentyndod yn Llanberis, er enghraifft, at 'Cywydd y Tlws Arian' gan Edward Charles¹⁷³ - yn glytwaith lliwgar o fywyd barddonol y Cymry ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dim ond pedwar llythyr byr a anfonodd Myrddin at Golud yr Oes - dau yn 1862 a dau yn 1864 - ac atododd farddoniaeth wrth bob un. Wedi dymuno'n dda i'r cylchgrawn yn yr hinsawdd gystadleuol a oedd ohoni ac erfyn ar Hugh Humphreys, y golygydd, i fod "yn ddiwyro dros eich iaith, eich gwlad, a'ch cenedl fel gwir Gymro-garwr"¹⁷⁴ yn nyddiau cynnar y cylchgrawn, cyflwynodd 'Cywydd Marwnad i Rhys Jones o'r Blaenau' gan Dewi Wyn o Eifion i'r darllenwyr - cerdd burion ar y cyfan yn null Beirdd yr Uchelwyr y mygwyd ei heglurder gan y gynghanedd ar brydiau, er bod ynddi rai llinellau da megis "Mewn bedd mae mawredd Meirion".¹⁷⁵

I gyd-fynd â'i ail lythyr¹⁷⁶, ceir gan Myrddin wyth o "fân gynhyrchion myfyriol"¹⁷⁷ amrywiol feirdd - Eben Fardd, Dafydd Ddu Eryri, Siôn Llein a William Elias yn eu plith. Credai Myrddin na roddai'r beirdd, nac yn sicr ysgolheigion y cyfnod, sylw dyledus i gerddi o'r fath ond o ystyried cwpledi megis

Perl enaid, pair lawenydd
Llosg y rhwym - â'r llesg yn rhydd

a

Pe darfyddai pwr feddiant,
Dwyn golud y byd i bant

o eiddo Siôn Llein, teimlir nad yw'r rhelyw ohonynt fawr gwell nag ymarferion cynganeddol.

Parhau â'r 'manion' a wna Myrddin yn ei lythyr olaf at olygydd Golud yr Oes¹⁷⁸ - cwta ddwy frawddeg i gyflwyno cân rydd 'Mangofion am Chwilog, Eifionydd' gan

“yr anfarwol Eben Fardd”¹⁷⁹. Gyda’i blas lleol a’i thinc gorfelys, afraid dweud nad yw’n un o gerddi mawr Eben ond ceir ynddi gyfeiriadau neilltuol at Siôn Wyn o Eifion¹⁸⁰ a’i deulu – rheswm digonol i Myrddin ei dwyn gerbron darllenwyr y cylchgrawn, wrth gwrs.

Llythyr cryno at Owen Williams¹⁸¹, Waunfawr ym Medi 1864 yw un o gyfraniadau olaf Myrddin i Golud yr Oes. Ar gychwyn y llythyr, cyfeiria at feddiant ffodus Owen o waith Twm Pedrog megis ei ‘Awdl ar Amaethyddiaeth’ a’i “[C]ywydd Marwnad [i] ryw foneddiges o Feirionydd”¹⁸². Gwelir bod Myrddin yn gyfarwydd â’r awdl farwnad gan ei fod yn adnabod llinellau ohoni a gynhwysodd Owen Williams mewn cofiant i wraig arall o’r enw Jane¹⁸³ a ymddangosodd yn rhifyn Awst 1826 o’r Eurgrawn Wesleyaidd. Byrdwn y llythyr yw cael Owen i gydsynio i gyhoeddi’r cerddi yn Golud yr Oes a chynnwys nid yn unig nodiadau eglurhaol arnynt ond hefyd ddarn am Twm Pedrog – ychwanegiadau yr oedd ei gyfraniadau ef ei hun yn amddifad ohonynt yn aml! Beth bynnag am hynny, ceir casgliad teilwng o waith Twm Pedrog gan Myrddin ar ddiwedd Cynfeirdd Lley 1500-1800 (1905)¹⁸⁴ – gyda’r ddwy gerdd dan sylw yn eu mysg – ffrwyth y cydweithio, o bosibl, a fu rhwng y ddau hynafiaethydd diwyd ym mlynnyddoedd olaf Owen.

Yn nyddiau duon afiechyd, ddwywaith yn unig y cyfrannodd Owen, brawd Myrddin, i Golud yr Oes – llythyr at y golygydd yn 1863¹⁸⁵ ac erthygl ar ‘Tarddiad Hynod Rhai Geiriau Cymraeg’ yn 1864¹⁸⁶. ’Roedd y diwedd eisoes ar y gorwel a thra ffynnai Myrddin, nychai Owen, yn arbennig o ganol 1863 ymlaen. Yn groes i gyngor meddygol, ’roedd wedi mynnu symud i ardal y Barbican yn Llundain ddydd Llun Y Pasg y flwyddyn honno gan

letya yn 12 Bridgewater Square. Gweithiai bellach fel clerc mewn warws dillad yn y ddinas am gyflog bychan o bum swllt ar hugain yr wythnos. “Lle difyr yw Llundain”, meddai wrth Myrddin ar Ebrill 22, 1863 “ac y mae yn ymddangos i mi yn lle iach ond rhaid i mi fod ar fy ngwylidwriaeth yn barhaus rhag cael fy llithio i ddrygioni”¹⁸⁷. Er na allai ddygymod â chyflog mor isel o gymharu â chynt, swniai’n bur galonnog dri mis yn ddiweddarach hefyd gan ei fod mewn “lle tra dymunol y gwaith yn ysgafn, pawb yn garedig”¹⁸⁸ a gorfoleddai ei fod “yn gwella yn barhaus”¹⁸⁹. ’Roedd Elizabeth Hughes hithau yr un mor gadarnhaol a chredai y câi Owen “well iechyd yn Llundain nag yn y wlad”¹⁹⁰.

Yn y cyfnod gobeithiol hwn, anfonodd y llythyr at olygydd Golud yr Oes yn canmol cyfrannwr o’r enw Cyffin am fynd ati i gyhoeddi rhestrau o gyfansoddiadau’r beirdd Cymraeg yn y cylchgrawn i sicrhau bod cofnod ohonynt ar gof a chadw i genedlaethau’r dyfodol. Noda, fodd bynnag, nad yw’r rhestr o waith Owen Gruffydd o Lanystumdwy yn gyflawn gan ei bod yn hepgor deg o gerddi o Lawysgrif Rhif I¹⁹¹ yr oedd ef yn berchen arni a chan fod ganddo feddwl mawr o’r bardd, credai y byddai paratoi “cyhoeddiad di-dor a rheolaidd [o’i waith], gyda nodiadau eglurhaol, yn wasanaeth mawrwerth i lenyddiaeth ein gwlad; yn neillduol yr hyn a berthyna i Leyn ac Eifionydd”¹⁹². Cynigia roi benthyg y llawysgrif i hynafiaethydd addas er mwyn iddo wneud cyfiawnder â’r dasg a chyhoeddi gwaith cywir a safonol yn y cylchgrawn o fis i fis.

Er iddo ddatgan ddiwedd Hydref 1863 “Yr ydwyf fi wedi rhoddi y cardiau yn y to er ys tro parth pob peth Cymreig. Y byd sydd mewn golwg yn awr. Rhaid gadael llenyddiaeth or naill du”¹⁹³,

cyfrannodd Owen i'r wasg gyfnodol Gymraeg am y tro olaf yn 1864. Mewn erthygl ar darddiad rhai geiriau Cymraeg, clodfora'n gyntaf "..... ein hen iaith odidog [o ran] ei hynafiaeth, ei tharddiad, a'i bonedd"¹⁹⁴ ac yna, rhy sylw i darddiadau geiriau a gasglodd neu ar brydiau a lyncodd o hen lyfrau heb, fe dybir, gwestiynu llawer ar eu cywirdeb na'u dilysrwydd. Mae rhai - megis 'meddwi' (yfed diod wedi'i wneud o fedd), ac 'adeilad' (rhywbeth wedi'i eilio neu ei blethu'n glòs o wiail) - yn o agos at eu lle tra bo eraill - megis 'tref' (o 'tyr ef' - tir yn cael ei dorri yn rhannau) a 'bwngler' (o 'bôn y glêr', sef y mwyaf anfedrus o feirdd) yn rhamantu'n arw a heb fod yn rhoi ystyriaeth o gwbl i ddyllanwad ieithoedd megis Lladin a Saesneg ar y Gymraeg. Heb unrhyw amheuaeth, o gornel yr hanesydd yr ymladdwyd yr ornest arbennig hon, a lloriwyd yr etymolegydd gwantan fwy neu lai o'r cychwyn cyntaf.

Dirywiodd cyflwr iechyd Owen yn gyson o'r cyfnod hwn ymlaen ac er iddo wadu ei fod mor wael, gofidiai Elizabeth yn fawr amdano. Cysylltodd â Myrddin ym Mai 1865 i fynegi'i phryder. "[Owen] is far from being well", meddai " he does not take proper care of himself, he looks very pale, I think he reads too much"¹⁹⁵. Erbyn yr hydref, 'roedd craffanc y diciâu wedi cydio'n dynn ynddo a soniai Elizabeth am ei fwriad i symud i lety mewn ardal fwy gwledig i geisio gwellhad¹⁹⁶. Ymddengys i Myrddin gefnogi'r syniad ac fe'i tafodwyd gan Owen am ei drafferth. "..... nid gwiw son am ddyfod i'r wlad; ac am ymadael â Llundain ni byddai hynny ond ymadael â'r lle goraf ar les fy iechyd. Yr wyf fi yn siarad yn brofiadol cofia, tra nad oes gennyti ond sylfaenu haeriadau a bygythion ar wag ddychymygon a chred wrachaid"¹⁹⁷. Llechai anobaith llwyr y tu ôl i'r ystyfnigrwydd a'r miniogrwydd - yn ogystal â'r awydd i gelu difrifoldeb y

sefyllfa oddi wrth ei rieni a gweddill y teulu. Brwydrodd am rai wythnosau wedyn ond ar gyngor y meddyg, ac yn groes i ddymuniad y teulu, symudodd at Elizabeth i Dafarn y Cross Foxes yn Llanfair Caereinion yn Ionawr 1866. Ei fwriad oedd teithio i gartref ei rieni wedi iddo gryfhau. Ond ni wellodd.

Bu farw ym mlodau'i ddyddiau ar Chwefror 7 1866¹⁹⁸ a daeth torf fawr ynghyd i'w angladd anrhydeddus yn Eglwys Llanfair Caereinion¹⁹⁹ dridiau'n ddiweddarach. Llifai'r teyrngedau o bob cyfeiriad, cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo mewn eglwys yn Llundain a chasglwyd arian i gael gwobr goffa iddo yn un o eisteddfodau Llanfair Caereinion. Bu llawer yn galaru ar ei ôl. Ond yr oedd Myrddin wedi colli'i gyfaill pennaf a Chymru wedi'i hamddifadu o hynafiaethydd dygn, llawn addewid a fyddai, mae'n debyg, wedi datblygu i fod yn un arall o'i chymwynaswyr mawr. Llymhawyd bywyd Myrddin dros nos – a chyfoethogwyd ei lyfrgell. Etifeddodd y casgliad hynod²⁰⁰ o farddoniaeth, rhyddiaith, achyddiaeth ac yn y blaen a loffwyd yn ffyddlon gan Owen am flynyddoedd ac fe'i maethwyd ymhellach fel hynafiaethydd.

Wedi marwolaeth Owen, anfonodd Myrddin lythyr byr at olygydd Yr Haul²⁰¹ yn dwyn y teitl 'Gweddillion y Diweddar Owen Jones (Mannoethwy)' ac a ragarweiniai erthygl o eiddo Owen ar 'Enwogion Cymru'. Yn ôl Myrddin, bwriad Owen oedd "gweled [yr erthygl] yn argraffedig yn yr HAUL; ond bu farw cyn cyrhaedd yr amcan"²⁰² a gobeithiai y câi ei frawd "yr anrhydedd o lefaru ynddo [Yr Haul] eto"²⁰³, er ei gladdu"²⁰⁴. Cydsyniodd David Owen (Brutus)²⁰⁵ a chlywyd llais Owen o'r tu hwnt i'r bedd yn taranu am ddiffyg safonau ac esgeulustod tîm golygyddol y Geiriadur Bywgraffyddol²⁰⁶. Mewn erthygl ysgolheigaidd a

hynafol ei harddull, beirniada dîm y geiriadur ar lawer cyfrif. Synna, er enghraifft, gyn lleied o sylw a roddid i offeiriaid a chymwynaswyr Cymraeg yr Eglwys Wladol yng Nghymru a thu hwnt ac nid yn annisgwyl, cyhudda'r tîm o gofleidio ymneilltuaeth ar draul eglwysyddiaeth waeth pa mor denau'r deunydd crai. Geilw am well dealltwriaeth a mwy o barch o du'r ymneilltuwyr i hybu cydbwysedd a thegwch yn y cyhoeddiad cenedlaethol arfaethedig. Ceir amryw bechodau eraill ym marn Owen. Felly prysura i amlygu anhrefnusrwydd, anghyflawnder a llaerwydd arwynebol rhan gyntaf y gwaith ynghyd â'r blerwch o ran cywirdeb, dyddiadau, oedran a thras rhai o'r unigolion adnabyddus yr ymdrinnir â hwy a dwrdia'r tîm am fod yn euog o fodloni ar ddefnyddio ffynonellau gwallus o'r gorffennol gan anwybyddu gwaith ymchwil diweddar, mwy dibynadwy. Yn wir, ni all oddef y fath "[l]anastr"²⁰⁷ gan ei fod yn ei "[g]ynhyrfu i roddi diofryd ar y pwyllgor golygyddol na byddo iddynt feichio y derbynwyr â'r fath dryblith poenydfawr mwy"²⁰⁸. Ar ddiwedd yr erthygl, cyfeiria Owen at ei fwriad i baratoi rhestr o'r unigolion hynny a hepgorwyd o'r gwaith, i ymddangos yn y rhifyn dilynol o'r Haul ynghyd â nodiadau defnyddiol amdanynt. Ond ni chafodd fyw i gyflawni'r dasg.

Cyfrannodd Myrddin ei hun yn gymharol gyson i'r Haul rhwng 1866 ac 1871, yn fwyaf arbennig i golofn hynafiaethol 'Congl y Cywrain'. Rhy sylw yn ei gyfraniadau cyntaf²⁰⁹ i deulu Corsygedol, Dyffryn Ardudwy a chyflwynna fwy neu lai yn ei chrynswth lawysgrif yn dyddio o 1770 o waith William Fychan, perchennog y plasty ar y pryd. Ac yntau'n edmygydd mawr o Robert Vaughan, Hengwrt ac yn llwyr ymddiried yn ei gywirdeb a'i drylwyredd, seiliodd William y gwaith yn helaeth ar ymchwiliadau Vaughan, gan ganolbwyntio ar linell wrywaidd yr

achyddiaeth o Osbwrn Wyddel²¹⁰ hyd Evan Fychan, ei frawd, ac yntau - dau hen lanc dros eu canol oed y credai y deuent â'r llinach i ben cyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Edrydd William hanes ei deulu grymus²¹¹ mewn arddull glir a safonol ac fe'i dewiswyd gan Myrddin i'w gyhoeddi yn Yr Haul nid yn unig oherwydd hynny ond hefyd am iddo gynnwys ynddo wybodaeth ddiddorol am unigolion lliwgar megis

Gruffydd Fychan ab Gruffydd ab Einion²¹² o'r bymthegfed ganrif, Gruffydd Fychan²¹³ o'r unfed ganrif ar bymtheg a William Fychan²¹⁴ o'r ail ganrif ar bymtheg yn ogystal â manylion am newidiadau arwyddocaol i'r plasty dros y canrifoedd. Heb os, 'roedd gan Myrddin lygad am stori ddifyr a gwyddai beth fyddai'n plesio'i wahanol gynulleidfaoedd.

'Roedd ei erthygl ar 'Wehelyth yr Archddiacon Prys etc'²¹⁵, yn hollol gydnaws â chwaeth a diddordeb darllenwyr Yr Haul a phwysodd yn drwm y tro hwn ar lawysgrif Owen Gruffydd, Llanystumdwy. Credai mai ef oedd "achyddwr goreu yn ei ddydd"²¹⁶ a chando "well sail o ymddiried na neb awduron diweddar"²¹⁷. Ar gychwyn yr erthygl, ceir 'Achau Tyddyn Du Maentwrog' o waith Owen Gruffydd ac ymdrinnir yn ddeheuig ag Edmwnd Prys²¹⁸, Catrin ei wraig (a hanai o linach teulu Corsygedol) a'u tri mab, sef Ffowc, Morgan ac Edmwnd. Yna â Myrddin ymlaen yn hyderus i dynnu sylw at amryfusedd y diweddar Eben Fardd mewn dau gyhoeddiad²¹⁹ ynglŷn ag un o ddisgynyddion yr archddiacon ac amlyga ansicrwydd ac anghytundeb ymysg y gwybodusion ynglŷn â'r disgynydd hwn a hefyd ynglŷn â chysylltiad cyntaf Edmwnd Prys â'r Gerddibluog yn Nyffryn Ardudwy. Mae Myrddin ei hun yn eithaf sicr mai trwy Morgan, ei ail fab, y daeth Edmwnd Prys yn gysylltiedig â'r

Gerddibluog ond er hynny ac mewn enghraifft ardderchog o sut yr hybrid cydweithio rhwng hynafiaethwyr yng nghylchgronau'r oes, gofyn i'w 'frodyr' roi goleuni iddo ar "unrhyw amryfusedd a welir yn ein sylwadau, os gwneir hynny mewn ysbryd addfwynder".²²⁰

Ymwnâ gweddill yr erthygl yn bennaf â chyfeiriadau at gysylltiadau teuluol rhwng y Prysiaid a Wynniaid a Salsbriaid Lleweni a Llanrwt²²¹ a cheir disgrifiadau buddiol o arbeisiau'r Salsbriaid a'r archddiacon. Dywed Myrddin ar y diwedd iddo fynd ar drywydd man claddu Edmwnd Prys wedi i Robert Vaughan ac ambell un arall nodi mai ym Maentwrog y'i rhoddwyd i orffwys. Ond yn ofer. Fe'i hysbyswyd gan Ficer Llanystumdwy nad âi Cofrestr Eglwys Maentwrog yn ôl ymhellach na thua 1670 ac ymddengys iddo roi'r gorau i'w ymchwiliadau am y tro beth bynnag.

Ceir cyfres o nodiadau defnyddiol am gyndadau Edmwnd Prys a'u harbeisiau yn atodiad i'r erthygl ac mae'n amlwg i Myrddin fod yn lloffa yn y *Brutiau* ac yn *Nhrioedd Ynys Prydain* i'w paratoi. Trodd hefyd at Hanes y Pedwar Cefnwydd Gwynedd²²² a'r Cambrian Journal²²³ am arweiniad a diddorol sylwi iddo drawsblannu paragraff²²⁴ cynhwysfawr am Osbwrn Wyddel gan Robert Vaughan fwy neu lai yn ei grynsyth heb newid – ac yn fwy arwyddocaol, heb gydnabod awduraeth – yr un gair!

Un gerdd yn unig a gyfrannodd Myrddin i'w 'Congl y Cywrain' yn Yr Haul – yn goron ar ei holl gyfraniadau barddonol i gyfnodolion y cyfnod. Mae gwaith Siôn Tudur²²⁵ 'I ofyn llwyth o Lechau o Chwarel Cae Hir, gan Rowland Thomas, LL.D., Deon Bangor'²²⁶, fel y gellir disgwyl, yn gywydd gofyn

cywrain a chreffus sy'n llawn cynildeb a dyfalu dyfeisgar a pherthyna'n ddi-os i gynghrair uwch o ganu nag yr ymdrinnid ag ef yn arferol gan Myrddin²²⁷. Ceir cyfeiriadau celfydd ynddo at dras a dysg Rowland Thomas sydd, yn eu tro, yn amlygu deallusrwydd Siôn Tudur a'i afael gadarn ar achyddiaeth a hanes Cymru. Dyma'r math o farddoniaeth o radd uchel a âi â bryd Owen Jones (Mannoethwy) a hawdd tybio mai rhan ydoedd o'i etifeddiaeth i Myrddin yn 1866.

Yn rhifyn XIV o'r Haul yn 1870, cyhoeddodd Myrddin ei fwriad i anfon llythyrau nifer o wŷr amlwg megis Alun²²⁸, Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd a Tegid at y cylchgrawn yn fisol gan y byddent "yn egluro llawer o bethau mewn cysylltiad â'n llenyddiaeth, &c"²²⁹. Ond dim ond swp o lythyrau Alun – naw i gyd – a gyhoeddwyd yn 'Congl y Cywrain' yn ystod 1870 ac 1871. Gorfu i'r gweddill aros hyd 1883 pan ymddangosasant yng nghasgliad Myrddin o 'Llythyrau Lluaws o Brif Enwogion Cymru Hen a Diweddar' rhwng cloriau ei lyfr hynod boblogaidd Adgof Uwch Anghof²³⁰.

Gohebiaeth Saesneg oddi wrth Alun at y Parchedigion Thomas Richards (Aberriw)²³¹, Lewis Richards (Rhuddlan)²³² ei frawd a John Hamer (Bugeildy, Sir Faesyfed)²³³ o 1824 hyd 1826 a geir yng ngholofn Myrddin a chawn ein tywys ynddi i fyd llengar a defosiynol y bardd o'r Wyddgrug. Yn y llythyr cyntaf²³⁴, down i adnabod y gŵr ifanc sensitif, prin ei addysg, sy'n llawer gwell ganddo fod ynghanol elfennau natur Aberriw²³⁵ nag yng nghwmni ei gyfeillion swnllyd yn Yr Wyddgrug a'i tynnai oddi ar ei echel, ac oddi wrth ei waith, yn fynych. "Visits and chitchat in henge [sic] the mind", meddai wrth Thomas Richards "and destroy the relishes of study"²³⁶.

Rhannwn ei ofnau a'i betruster ar drothwy ei dymor cyntaf yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen²³⁷ a gallwn gydymdeimlo'n llwyr ag ef pan ddywed "From what I have seen of Oxford, I tremble at the thought of it. I wish the University of Berriew had the power of conferring degrees"²³⁸.

Cawn flas ar ei ddyddiau cyntaf yn Rhydychen yn ei ail lythyr at Thomas Richards²³⁹ a rhy inni giplun gwerthfawr iawn o drefniadaeth, cymdeithas a chwricwlwm Coleg yr Iesu yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Brolia gymwynasgarwch a chefnogaeth y tiwtoriaid a disgrifia'u hymdrechion i leddfu ei gyni ariannol²⁴⁰ a'i helpu i setlo yn y coleg. Profwn hynt a helynt y darpar offeiriad preifat, hynod grefyddol yn y llythyrau a rhyfeddwn at ei ddycnwch a'i ddisgyblaeth lem. Ni allai fforddio llaesu dwylo a chan dynnu sylw mynych at ei ddiwydrwydd, brwydrodd i gadw'i drwyn ar y maen trwy gydol ei ddyddiau coleg. O bryd i'w gilydd, cyfeiria'n onest at ei gynnydd. "These numerous engagements [y dyletswyddau i gyllido'i astudiaethau yn y coleg] have retarded my studies considerably," meddai wrth Thomas Richards ym Mehefin 1825²⁴¹. "In Latin I have acquired a little confidence; but [John] Hamer outstrips me in Greek; yet my progress seems to satisfy the tutors. My themes and translations now and then elicit a compliment"²⁴² a synhwyrwn ynddo anfodlonrwydd y perffeithydd. Ond er gwaethaf ei brysurdeb mawr, daliai i gyfansoddi a barddoni rhywfaint at bwrpas cyhoeddi a chystadlu tra oedd yn y coleg. Bu'n llwyddiannus droeon²⁴³ ond cawsai ei siomi ambell waith. "..... before I left Berriew", meddai yn Rhagfyr 1824 "I had offered to Mr [Robert] Saunderson [argraffydd cyfnodolion eglwysig] a copyright of a short poem, which had long lain at the Gwyllydydd Office, that he might, if he

wished, publish it separately. The writing of it had cost me many a tear”²⁴⁴ a hola Thomas Richards yn bryderus am hynt y gerdd.

Ysgrifenna Alun mewn arddull syml a chlr a dengys y llythyrau ei feistrolaeth lwyr ar y Saesneg gan eu bod – ac eithrio ambell gamsillafiad – yn hynod gywir eu mynegiant. Mae naws delynegol²⁴⁵ hyfryd i rai ohonynt mewn manau ac er na chyflwynwyd hwy mewn trefn hollol gronolegol yn Yr Haul, boed Myrddin i’w feio am hynny neu beidio, diau hefyd i’w cyfeiriadau difyr a’u disgrifiadau effeithiol apelio at ddarllenwyr y cylchgrawn a’u cymell i edrych ymlaen at rannu mwy o brofiadau Alun yn Rhydychen mewn llythyrau dilynol. A llwyddodd Myrddin yn ei fwriad clodwiw i ddwyn y dyn gerbron ei gynulleidfa er mwyn creu gwell ymwybyddiaeth ohono a hybu gwell dealltwriaeth o’i waith.

Elfennau daearyddol a deilyngodd sylw Myrddin yn nau o’i gyfraniadau olaf i’r Haul yn ystod y cyfnod hwn, sef afonydd Sir Gaernarfon²⁴⁶ a therfynau plwyf Llanystumdwy²⁴⁷. Daw’r olaf o lyfrgell Myrddin ac nid ei waith gwreiddiol ef yw’r rhestr ddestlus a chynhwysfawr o dros gant o afonydd Sir Gaernarfon ’chwaith²⁴⁸. Cyflwynir y rhestr yn nhrefn yr wyddor ac yn ogystal â bod yn gofnod daearyddol da o darddiadau, llif ac aberoedd afonydd y sir, mae iddi hefyd werth llenyddol a hanesyddol gan y sonnir am rai o’r afonydd mewn cyd-destunau barddonol a chyfreithiol. Er enghraifft, dyfynnir rhan o gywydd Robert ap Gwilym Ddu i afon Dwyfach a chynhwysir esboniad ar darddiad yr enw Afon Wefus, sef enw arall gan y brodorion ar ‘Afon Rhyd Beirion’ yn ardal Clynnog, o *Freiniau Gwŷr Arfon*²⁴⁹. At hyn, ceir cyfeiriadau etymolegol yn y rhestr megis yr un a ymdrinia â tharddiadau posibl yr enw

‘Conwy’. Fodd bynnag, rhy’r awdur sylw anghybwys i’r gwahanol afonydd - prin yr enwir Afon Goch, Llanberis, er enghraifft, tra caiff Aber Rheon ymdriniaeth hael - anghydbwysedd sy’n arwydd, wrth gwrs, o’i wybodaeth, neu weithiau o’i ddiffyg gwybodaeth, amdanynt ac o’u harwyddocâd hwythau. Ond mae’n amlwg na welai Myrddin yr angen i newid dim ar y cynnwys.

Amlinelliad o ffiniau plwyf Llanystumdwy a geir yn ‘Terfynau Plwyf Llanystumdwy’, ffrwyth ymchwil daearyddol manwl a gofalus yn deillio o bosibl o gychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyflwynir y ffeithiau mewn arddull rwydd a Chymraeg clir a chywir a thrwy eu cyhoeddi, llwyddodd Myrddin i bontio’r amserau unwaith eto a rhoi lle amlwg i waith hanfodol o’r gorffennol ar lwyfannau’r presennol a’r dyfodol.

’Roedd Myrddin wedi hen ennill ei blwyf fel cyfrannwr toreithiog a phoblogaidd i rai o brif gylchgronau’r oes ac odid ei fod yn cael ei gyfrif yn un o golofnwyr mwyaf adnabyddus y wasg Gymraeg ar y pryd²⁵⁰. Ond daeth y cyfan i ben rhwng 1871 ac 1883 ac ni chyfrannodd fawr ddim i’r wasg gyfnodol mewn pennod go anghyffredin yn ei hanes. Dyma, wrth gwrs, gyfnod ei helyntion priodasol a arweiniodd at y tor-priodas, ac er iddo barhau i farddoni tipyn a chystadlu mewn eisteddfodau²⁵¹, diflannodd o amlygrwydd cenedlaethol rhwng cloriau’r cyfnodolion am rai blynyddoedd²⁵². Ciliodd i hafan ei lyfrgell, i’w gysuro gan yr hynafiaethau a fu’n foddion cymaint o ddiddordeb a phleser iddo trwy gydol ei oes.

O hyn allan, gallai “Ysgolhaig yr Efail”²⁵³ gysegru ei holl fywyd i’w waith hynafiaethol a theilyngu ei le ymhlith cymwynaswyr

nodedig yr oes a ymdrechai'n ddi-baid i sicrhau goroesiad iaith a llenyddiaeth Cymru. A chan adeiladu ar y sylfeini cadarn a gododd mor ddiwyd iddo'i hun dros gyfnod o chwarter canrif, symudodd ymlaen yn 1878 i wynebu her newydd fel awdur y gyfrol Bywyd a Gwaith Ieuan Lleyn²⁵⁴, sef y cyntaf²⁵⁵ o'r llyfrau hynafiaethol o'i eiddo a ddaeth yn boblogaidd ymysg darllenwyr brwd y cyfnod ac sydd erbyn hyn wedi hen ennill eu plwyf fel cyfeirlyfrau hynod ddefnyddiol a chynhwysfawr – os nad hollol ddibynadwy bob amser – ar silffoedd llyfrau ysgolheigion a chwilotwyr dyfal yr unfed ganrif ar hugain.

Ond er gwaethaf ei gyfraniad pwysig, prin fu ei wobwr yn ystod ei oes²⁵⁶, mewn gwirionedd, a gresynai J H Davies nad “yw y genhedlaeth hon wedi deall a gwerthfawrogi eich llafur cariad, ac ymroad di-dor, i achub rhag colled a distryw gywrein-waith yr hen brydyddion. Byddaf yn meddwl am danoch fel un sydd wedi ennill cadair yn mhlith y rhai fu yn gwasanaethu llenyddiaeth Cymru - John Jones Gellilyfdy, Robert Vaughan Hengwrt, William Morris Cefnybraich, Moses Williams, Ieuan Brydydd Hir, Dafydd Ellis a chwithau”²⁵⁷. Teyrnged aruthrol yw hon i'r gof diymhongar o Chwilog a'i “esgus lafur llenyddol”²⁵⁸ i'w wlad.

-
- ¹ 'Llythyrau Y Canghellwr Silvan Evans, B.D., at Myrddin Fardd', Y Traethodydd LXVI, 1911, t 30.
- ² Cwrt-mawr 1322C.
- ³ 'Myrddin Vardd', Wales III, 1896, t 308.
- ⁴ Cybi, John Jones (Myrddin Fardd) 1837-1921, 1945, Llandysul, t 33.
- ⁵ Fe'i ganed yn 1806 yn Llanfihangel Ysceifiog, Môn.
- ⁶ Cyfieithodd doreth o destunau crefyddol rhwng tua 1837 ac 1867.
- ⁷ Ef oedd golygydd Cymreig J Blackie a'i Feibion.
- ⁸ Yn ogystal â'i gyfrolau ar Cymru: yn Hanesyddol. Parthedegol a Bywgrahyddol a'i Ceinion Llenyddiaeth Gymreig, ef oedd yn gyfrifol am Y Testament Cyfeiriadol, Cofiant Robert Williams Lerpwl a Cofiant Daniel Rowlands. Cyfrannodd hefyd at y Gwyddoniadur Cymreig a'r Geiriadur(on) Bywgrahyddol heb sôn am baratoi llw o erthyglau ar gyfer cylchgronau'r cyfnod.
- ⁹ Y Traethodydd LXII, 1907, t 376.
- ¹⁰ loc. cit., t 378.
- ¹¹ loc. cit., t 382.
- ¹² Hynafiaethydd, bardd gwlad, llenor a gohebydd a ffermiai yn ardal Nanmor, ac a oedd dros bum mlynedd ar hugain yn iau na Myrddin.
- ¹³ 'Manion o'r Mynydd', Yr Herald Cymraeg, Ebrill 15 1919, t 2.
- ¹⁴ Edwards, O M, Cymru IV, 1893, t 213.
- ¹⁵ Go brin yr helpodd digwyddiadau anffodus – ond cwbl nodweddiadol – megis yr achlysur y deuyd ar ei draws mewn mynwent yn Llŷn un min nos yn codi arysgrifiad o garreg fedd mewn golau kannwyll a'r darganfyddwr druan yn carlamu oddi yno yn ei ddychryn yn credu bod Dydd y Farn ar ei warthaf a'r meirw wedi dechrau atgyfodi!
- ¹⁶ Casgliad XD/36/68/2, Archifdy Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Darlith Mudiad Addysg y Gweithwyr gan William Hughes, Rhos-lan.
- ¹⁷ Cwrt-mawr 932D.
- ¹⁸ Casgliad XD/36/68/2, Archifdy Cyngor Gwynedd, Caernarfon. op. cit.
- ¹⁹ Evans, R (Cybi), Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon, 1923, cyhoeddedig gan yr awdur, t 89.
- ²⁰ op. cit., t 25.

-
- ²¹ John John Roberts (1840-1914). Gweinidog gyda'r Methodistiaid. Fel Myrddin, bu'n chwarelwr yn Nyffryn Nantlle pan oedd yn ŵr ifanc. Prifardd coronog yn perthyn i'r Ysgol Newydd ac awdur nifer o lyfrau amrywiol gan gynnwys Cofiant Dr. Owen Thomas, Lerpwl.
- ²² op. cit., t 38.
- ²³ Cwrt-mawr 1181B.
- ²⁴ Y Geninen, Hydref 1922, t 197.
- ²⁵ Yr Herald Cymraeg, Awst 25 1860, t 1.
- ²⁶ 'Roedd dros gant o'r rhain i gyd a rhoddodd Myrddin enwau i nifer ohonynt, er enghraifft 'Manion Barddonol', 'Drib-drab I', 'Blwch Llenyddol' a 'Mymrynu Llên'. Rhwymwyd a rhifwyd nifer mawr ohonynt a cheid trawsgyfeiriadau ynddynt sy'n brawf o fanyldeb a gofal Myrddin. Enghreifftiau nodweddiadol o'r llyfrau hyn yw 'Hanes Eglwysi' (Cwrt-mawr 1333C) sydd â manylion am wahanol eglwysi yn Llŷn ac Eifionydd a lluniau ohonynt, hanes y degwm, yr ywen, seintiau'r eglwys ac yn y blaen a 'Tipyn o Bobpeth' (Cwrt-mawr 1206C) sy'n cynnwys darnau am 'Ffeiriau a Phorthmyn', 'Beirdd Talcen Slip', 'Handel', 'Amgueddfa Caerdydd', 'Llywelyn ein Llyw Olaf', 'Hanes y Bedyddwyr yng Nghymru', 'Marwolaeth Arglwyddes Llanofer' ac yn ddi-ddorol ddigon 'Amryfusedd Beirniadol Gwilym Cowlyd' ac 'Ysgariadau Priodasol mewn Gwahanol Wledydd'!
- ²⁷ Casgliad Coleg Prifysgol Gogledd Cymru 5048. Darn o'r Cymro, Medi 1 1892.
- ²⁸ Cwrt-mawr 1195A.
- ²⁹ art. cit., Y Traethodydd LXVI, 1911, t 33.
- ³⁰ Cwrt-mawr 1174B.
- ³¹ Cwrt-mawr 863B.
- ³² Cwrt-mawr 1195A.
- ³³ art. cit., Y Traethodydd LXVI, 1911, t 108.
- ³⁴ Cwrt-mawr 863B.
- ³⁵ art. cit., Y Traethodydd LXVI, 1911, t 110.
- ³⁶ Ef oedd athro cyntaf Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Rhoddwyd canoniaeth anrhydeddus iddo yn 1888, cafodd Brebendiaeth Llanfair yn 1891 ac fe'i penodwyd yn Ganghellor Bangor yn 1895 cyn cael ei wneud yn gaplan Esgob Bangor bedair blynedd yn ddiweddarach. Yn 1897, daeth yn Gymrawd Ymchwil Coleg yr Iesu, Rhydychen ac ef oedd y cyntaf i dderbyn gradd anrhydeddus D Litt Prifysgol Cymru yn 1901, ddwy flynedd cyn ei farwolaeth yn bump a phedwar ugain mlwydd oed.

-
- ³⁷ art. cit., Y Traethodydd LXVI, 1911, t 179.
- ³⁸ loc. cit., t 113.
- ³⁹ 'Roedd ef a Myrddin fwy neu lai yr un oed. Fe'i ganed yn Llanbedrog yn Ionawr 1832 a bu farw yn Rhagfyr 1891.
- ⁴⁰ Syr Love Jones Parry (1781-1853). Uchelwr trwsogl ei Gymraeg a fu'n rhaglaw gadfridog yn y fyddin ac yn Aelod Seneddol dros Horsham (1806 ac 1807) a thros fwrdeistrefi Arfon rhwng 1835 ac 1837. 'Roedd hefyd yn ynad heddwch a bu'n is-raglaw dros Sir Gaernarfon ac yn uchel sirydd Môn. Cefnogai'r Eisteddfod Genedlaethol gyda brwdfrydedd mawr. *Byrfodd o Enwogion Sir Gaernarfon gan Myrddin Fardd, 1922, tt 289-291.*
- ⁴¹ William W E Wynne (1801-1880). Wedi'i addysgu yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, bu'n Aelod Seneddol Sir Feirionnydd rhwng 1852 ac 1865 ac fe'i gwnaed yn uchel sirydd yn 1867. Bu hefyd yn ddirprwy raglaw y sir ac yn ynad heddwch. Fe'i penodwyd yn Gwnstabl Castell Harlech yn 1874. Daeth yn Gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr (FSA) yn 1852 a bu'n un o'r ysgrifenyddion yng Ngogledd Cymru. Cyfrannodd at weithiau hynafiaethol megis The Record of Caernarvon gan Syr Henry Ellis (1838), Heraldic Visitations of Lewis Dwnn a olygwyd gan Syr Samwel Rush Meyrick (1846), Kalendars of Gwynedd gan Edward Breese (1873) a Hanes Teulu'r Gwydir a gyhoeddwyd gan Askew Roberts (1878). Cyhoeddwyd llawer o'i waith hefyd yn yr Archaeologia Cambrensis gan gynnwys catalog cynhwysfawr o'i gasgliad ym Mheniarth. *Byrfodd o Adgof Uwch Anghof gan Myrddin Fardd, 1883, tt 343-344.*
- ⁴² Syr Robert Vaughan (1592-1667). Uchelwr o'r Wengraig, plwyf Dolgellau, a pherchennog llyfrgell ragorol Hengwrt ble y cedwid rhai o lawysgrifau a llyfrau gwerthfawrocaf yr iaith Gymraeg megis Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Gwyn Rhydderch a Llyfr Ancirin. Prif faes ymchwil ei ddiwydrwydd anhygoel oedd hanes cynnar Cymru ac 'roedd yn achyddwr ac yn hynafiaethydd penigamp. Copïai lawysgrifau'n gywrain a gohebai'n gyson ar faterion hynafiaethol ag arbenigwyr eraill megis Dr John Davies, Mallwyd a John Jones, Gellilyfdy. Cyhoeddodd ei unig lyfryn, sef British Antiquities Revised, yn 1662.
- ⁴³ Llythyr oddi wrth Myrddin Fardd at W W E Wynne, Peniarth, Gorffennaf 8, 1878. Cwrt-mawr 1322C.
- ⁴⁴ Boneddigion a thirfeddianwyr o'r Gwynfryn, plwyf Llanystumdwy, Eifionydd. 'Roedd Owen Jones Ellis Nanney (1790-1870), er enghraifft, yn uwchgaptyn yn y fyddin ac yn ynad heddwch. *Byrfodd o Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon gan Cybi, 1923, t 40.*
- ⁴⁵ Olynodd David Williams, Castell Deudraeth, fel Ynad Heddwch Meirionnydd a bu'n ysgrifennydd i Arglwydd Raglaw y sir, i ynadon dosbarth Porthmadog ac i ynadon dosbarth Penrhyndeudraeth. 'Roedd yntau'n Gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr (FSA) ac ef oedd awdur y cyfeirlyfr Kalendars of Gwynedd (1873), gwaith manwl o werth achyddol mawr yn ymdrin ag Arglwyddi Cymru rhwng 1478 ac 1689, Arglwyddi Rhaglaw Môn, Caernarfon a Meirionnydd ac yn y blaen.

Byrfodd o Enwogion Sir Gaernarfon gan Myrddin Fardd, 1922, tt 7-9. Bu farw ar Fawrth 10 1881.

- ⁴⁶ Jones, John (Myrddin Fardd), Enwogion Sir Gaernarfon, 1922, s.l., t 250.
- ⁴⁷ Richard Lloyd, Cricieth, 1934, Caerdydd, t 64.
- ⁴⁸ Sylwadau llafar mewn sgwrs a gynhaliwyd ganol y 1980au.
- ⁴⁹ Cwrt-mawr 1186B.
- ⁵⁰ Cwrt-mawr 1176B.
- ⁵¹ Y Wasg Gymraeg Ddoe a Heddiw, Y Bala, 1970, Anerchiad i Gymdeithas y Cymmrodorion (Caerdydd), 1953, t 15.
- ⁵² Jones, Bedwyr Lewis, 'Yr Offeiriad Llengar', Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Gol. Dyfnallt Morgan), 1968, Llandybie, t 52.
- ⁵³ 'Y Wasg Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', Cof Cenedl III – Ysgrifau ar Hanes Cymru (Gol. Geraint H Jenkins), 1988, Llandysul, t 95.
- ⁵⁴ *ibid.*
- ⁵⁵ *ibid.*
- ⁵⁶ Robert Isaac Jones (1815-1905). Fferyllydd, llenor ac argraffydd diwyd o Bentrefelin, ger Cricieth. Trodd ei gefn ar Fethodistiaeth ac ymuno â'r eglwys pan oedd yn ŵr ifanc. Cyhoeddodd a golygodd gyfrolau megis Gwaith Barddonol Siôn Wyn o Eifion (1861), Cyff Beuno gan Eben Fardd (1863) a Cell Meudwy gan Ellis Owen (1877) a'r cylchgrawn misol eglwysig Baner y Groes. 'Roedd yn eisteddfodwr brwd a chafodd ei urddo'n fardd yn Eisteddfod Biwmares yn 1832 er mai pur symbol oedd ei gynnyrch barddol. Cyfrannodd yn helaeth i'r Haul, Y Llan, a Cymru (O M Edwards).
- ⁵⁷ Fe'i cyhoeddwyd yn fisol o ddechrau 1859 hyd iddo ddod i ben yn 1863.
- ⁵⁸ Y Brython, 27 (1861), t 33.
- ⁵⁹ Y Brython, 4 (1858), t 144.
- ⁶⁰ Dyma, hyd y gwyddys, yr enghraifft gyhoeddedig gyntaf yng nghylchgronau'r cyfnod o ddeunydd llenyddol hynafol o lyfrgell Myrddin.
- ⁶¹ Y Brython, 7 (1858), tt 265-266.
- ⁶² Y Brython, 23 (1860), t 395.
- ⁶³ Y Brython, 24 (1860), t 435.
- ⁶⁴ Cyfeiriad at Ffynnon Fair, Eglwys Fair, Maen Melyn, Ogof Fair ac yn y blaen yn Y Brython, 23 (1860), tt 394-395.

-
- ⁶⁵ Cadair a ddefnyddid i drochi merched a oedd wedi siarad yn anweddu.
Y Brython, 25 (1860), t 464.
- ⁶⁶ Derwen fawr a ddadwreiddiwyd. Y Brython, 33 (1861), t 275.
- ⁶⁷ ‘Rhydau a Phorthfaoedd Môn’, Y Brython, 29 (1861), tt 115-116 –
cyfeiriadau at y Rhufeiniaid, Edward I, y Brenin Arthur, cewri o Arfon ac
yn y blaen.
- ⁶⁸ Dadleuai Owen fod Wmffra Dafydd wedi gwneud cam â
Ieuan Brydydd Hir trwy awgrymu nad ef oedd awdur y cywydd.
Y Brython, 28 (1861), t 76.
- ⁶⁹ Y Brython, 29 (1861), t 114.
- ⁷⁰ Yn wahanol i Wmffra Dafydd, credai Owen na fu Siôn Tudur yn ficer yn
Llanelwy ac na fu farw nos Sul neu nos Lun Y Pasg 1600 fel y nodwyd
gan Wmffra. Dyfynna Owen o waith Siôn Tudur ac eraill i gefnogi’i
sylwadau. Y Brython, 36 (1861), t 398.
- ⁷¹ Y Brython, 29 (1861), t 114.
- ⁷² Syrthiodd Wmffra Dafydd ar ei fai yn ddiweddarach ynglŷn â dyddiad
marwolaeth Siôn Tudur mewn llythyr at Owen yn Y Brython, 37 (1861),
t 433.
- ⁷³ Llên gwerin bur ddifyr, yn cynnwys dyfyniad helaeth o eiddo
Gerallt Gymro, am gredoau’r Cymry ynglŷn â phwerau dewiniaethol
asgwrn yr ysgwydd a’r arferion a ddeilliai o hynny yn
Y Brython, 25 (1860), tt 458-459.
- ⁷⁴ Chwedl a gofnodwyd gan Gerallt Gymro sy’n unol â thraddodiad straeon
tylwyth teg – bachgen yn croesi i fyd lledrithiol y tylwyth teg ac oherwydd
iddo geisio dwyn pelen o aur oddi wrthynt ar gais ei fam a’i chludo i fyd y
meidrol, yn cael ei wahardd rhag dychwelyd am byth. Dadleua Owen ar
ddiwedd y chwedl fod iaith y tylwyth teg yn seiliedig ar y Gymraeg yn
hytrach na’r Roeg. Y Brython, 28 (1861), t 70.
- ⁷⁵ Cafodd Owen ei gyhuddo gan rai o ohebwyrr eraill Y Brython o gyflwyno
cerddi a gyhoeddwyd eisoes yn y Flores Poetarum Britannicorum ac, yn
wir, yn Y Brython ei hun gan Cadifor.
- ⁷⁶ Y Brython, 25 (1860), t 447.
- ⁷⁷ loc. cit. t 454.
- ⁷⁸ Ymdriniaeth o berthnasau’r beirdd â’i gilydd a’r modd y’u hadlewyrchid yn
eu cerddi megis yn y ‘Cywydd i Ateb i Lywelyn ab Gutyn’ gan
Guto’r Glyn.
- ⁷⁹ Rhan o ‘Gyffres Enwogion Cymru’, Y Brython, 34 (1861), tt 297-299.
- ⁸⁰ Y Brython, 21 (1860), tt 336-338.
- ⁸¹ ‘Gwaith Anghyhoeddedig Dewi Wyn’, Y Brython, 23 (1860), tt 371-372.

-
- ⁸² Cwrt-mawr 1195A.
- ⁸³ Llythyr yn Y Brython, 25 (1860), tt 461-462.
- ⁸⁴ Ni chymerodd Myrddin ac Owen arnynt o gwbl yn Y Brython eu bod yn frodyr a hyd y gwyddys, ni cheir yr un cyfeiriad yn y cylchgrawn at y ffaith eu bod yn perthyn i'w gilydd.
- ⁸⁵ Y Brython, 29 (1861), tt 33-35.
- ⁸⁶ Y Brython, 31 (1861), t 196.
- ⁸⁷ Cwrt-mawr 932D.
- ⁸⁸ Ar wahân i:
- ‘Llythyrau Serch’, ymarfer rhyddieithol yn llawn o eiriau cyfansawdd ac ansoddeiriau gan Siôn Tudur – Y Brython, 22 (1860), tt 345-346.
- Llythyr dyddiedig Mehefin 1804 gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn yn dadlau nad yw sain y gynghanedd wedi trechu synnwyr yng ngweithiau'r cyfan o feirdd Arfon, ac yn mynnu bod beirdd safonol i'w cael o hyd – Y Brython, 39 (1862), tt 206-207.
- ‘Gweledigaeth y Bardd’ o ysgrif Sion Lleyrn – ymdriniaeth ffantasiol yn null y Bardd Cwsg o'r dirywiad yn safonau ac arferion barddoni'r dydd a chynghorion ar eu hadfer i'w hysblander gwreiddiol - Y Brython, 41 (1862), tt 350-352.
- ⁸⁹ Thomas Williams o Lanbedrog (1774-1814). Bardd ac arlunydd a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes ar y môr. Gwasanaethodd am flynyddoedd lawer ar y llong ryfel yr ‘Amethyst’ gan gymryd rhan yn rhai o frwydrau ffyrnig y cyfnod yn erbyn llynges Napoleon cyn dychwelyd i'w fro enedigol i gadw ysgol ddyddiol. Ond roedd yn enaid aflonydd a hiraethai am y môr ac a esgeulusai ei waith. Bu farw dan amgylchiadau anarferol tra oedd yn cerdded y bryniau pan oedd yn ddeugain oed – o ganlyniad i ffit yn ôl adroddiadau'r wasg ond o dan ddylanwad alcohol ar lafar gwlad. Canai'n bennaf i natur a serch ac fel y mwyafrif o feirdd gwlad, lluniodd amryw o gerddi marwnad i gyfoedion.
- ⁹⁰ Owen Gruffydd (1643-1730). Gwehydd a bardd a oedd yn fab gordderch i offeiriad yn ôl traddodiad lleol. Treuliodd ei oes faith a llwm yn Llanystumdwy. Cymerai ddiddordeb arbennig yn achau teuluoedd pendifigaidd Llŷn, Eifionydd, Meirionnydd ac Arfon, gan gyfansoddi toreth o gywyddau marwnad, cerddi moliant, caneuon priodas ac yn y blaen iddynt. Fel arall, canai'n bennaf am grefydd, henaint a gorthrymderau'r dydd.
- ⁹¹ David Owen (1784-1841), un arall o feibion Llanystumdwy. Ffermwr, bardd a llythyrwr brwd. Enillodd nifer o wobrau eisteddfodol pan oedd yn ŵr ifanc ac fe'i clodforwyd yn ei oes ei hun wedi i'w awdl i ‘Elusengarwch’ ddod ag ef i amlygrwydd yn 1819. Ond – ac eithrio rhai englynion creffus megis ei gadwyn o englynion i Bont Menai – nid oes fawr o gamp ar ei amrywiol gyfansoddiadau mewn gwirionedd. Er hynny,

bu'n gryn ddylanwad ar feirdd y cyfnod a chyhoeddwyd casgliad o'i farddoniaeth yn y gyfrol Blodau Arfon flwyddyn wedi'i farwolaeth. Dioddefodd afiechyd ac iselder ysbryd dybryd ar ddiwedd ei oes.

- ⁹² Dafydd Llwyd o Fathafarn (c 1480). Un o brif feirdd cywrain cyfnod yr uchelwyr a oedd hefyd yn ysgolhaig ac o dras pendefigaidd ei hun.
- ⁹³ Evan Evans (1731-88). Ieuan Fardd, offeiriad o ardal Lledrod, Ceredigion. Ysgolhaig disglair a phwysig a oedd yn hyddysg mewn llenyddiaeth a'r ieithoedd clasurol ac a oedd â chryn ddealltwriaeth o farddoniaeth Gymraeg megis gwaith Aneirin a'r Gogynfeirdd. Lluniai awdlau yn null Beirdd yr Uchelwyr ac 'roedd ei farddoniaeth yn safonol ac yn grefftus. Ei englynion trawiadol i adfeilion llys Ifor Hael yw ei waith mwyaf adnabyddus.
- ⁹⁴ Y Brython, 37 (1861), tt 428-429.
- ⁹⁵ loc. cit., t 428.
- ⁹⁶ Y Brython, 38 (1861), t 454.
- ⁹⁷ Argraffwyr Hughes a'i Fab, Wrecsam.
- ⁹⁸ Argraffydd Richard Jones, Pwllheli.
- ⁹⁹ Argraffwyr R E Jones a'i Frodyr, Conwy.
- ¹⁰⁰ Gweler Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, 1953, Llundain, tt 179-180.
- 'Roedd O M Edwards yn un o fyfyrwyr Daniel Silvan Evans yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth yn yr 1880au a Silvan, mae'n debyg, a'i cyflwynodd i Myrddin. Bu Myrddin yn gefn mawr iddo yn ei ymchwiliadau ar gyfer llunio erthyglau i'w cyhoeddi yn Cymru, Y Llenor a Wales a rhoddodd yntau hwb ymlaen i Myrddin gyda chyhoeddi Dewi Wyn o Eifion &, a oedd yn seiliedig ar erthyglau i'r Cymru, Y Llenor a'r Traethodydd, pan oedd yn eithaf du arno am nawdd tanysgrifwyr i fwrw'r maen i'r wal.
- ¹⁰¹ Edwards, O M, Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy, 1904, Llanuwchllyn, tt 5-6.
- ¹⁰² Llyfr II, tt 51-66.
- ¹⁰³ Y Brython, 28 (1861), tt 74-75.
- ¹⁰⁴ Y Brython, 30 (1861), t 152.
- ¹⁰⁵ Y Brython, 31 neu 32 (1861), tt 234-235.
- ¹⁰⁶ John Jones (1810-1870). Pensaer a bardd o Lanfair Talhaearn, Sir Ddinbych.
- ¹⁰⁷ Cyhoeddwyd yn 1913 gan Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf), Swyddfa 'Cymru', Caernarfon.

- ¹⁰⁸ Jones, John (Myrddin Fardd), Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes, 1913, Caernarfon, t 178.
- ¹⁰⁹ Llwytha Myrddin esboniadau pellach ar y gair 'Bettws' ar dudalen 239 yn yr un llyfr gan gyfeirio at y gair Sacsonaidd 'bed hus' ('bead house'), y gair Cymraeg 'yspytty' a'r gair Lladin 'Beatus' ('bendigaid' neu 'dedwydd') fel tarddiadau eraill posibl iddo. Nid oes ganddo fawr o glem p'run yw'r esboniad cywir mewn gwirionedd – picil y bu ynddi droeon yn ystod ei fywyd.
- ¹¹⁰ Jones, John (Myrddin Fardd), Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes, 1913, Caernarfon, t 183.
- ¹¹¹ Landlord Myrddin yn Rhos-lan yn 1861.
- ¹¹² Y Brython, 35 (1861), t 356.
- ¹¹³ Cwrt-mawr 1195A – llythyr dyddiedig Hydref 22, 1861.
- ¹¹⁴ Y Brython, 21 (1860), t 275.
- ¹¹⁵ Y Brython, 22 (1860), tt 352-353.
- ¹¹⁶ Ymdrinia Myrddin â'r enw Tindywydd neu Dindowydd dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach yn ei Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon, (t 57). Noda fod y blaenddodiad 'tin' yn golygu 'caer' neu 'amddiffynfa' ac esbonia mai 'lle amddiffynnol yn ymyl coed' neu 'lle diddos' a olygir os Tindywydd sy'n gywir. Fodd bynnag, cynigia Myrddin 'lle â tho gwŷdd' fel esboniad i Dindowydd. Ni ŵyr, felly, pa darddiad sydd agosaf ati.
- ¹¹⁷ Ceir un esboniad diddorol iawn ar yr enw hwn gan Myrddin yn Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon (tt 56-57) sy'n enghraifft ardderchog o'r gwaith amhrisiadwy a wnaeth yn cofnodi straeon llafar gwlad. Tardda'r enw, o bosibl, yn ôl yr hyn a ddywed ef, o arferiad honedig arglwydd y faenol ble y lleolid fferm Coch y Moel ym mhlwyf Bryncroes o fwydo troseddwy'r â photes 'Coch yr wden', sef cawl hynod ddiiflas a di-flas a wneid o gig gafr wedi'i gochi ac ychydig o fara haidd. Bwydlen berffaith yn ddi-os i ychwanegu at boendod dirdynol y 'Feg fawr' neu anesmwythyd y cyffion! Â Myrddin ymlaen i gynnig 'tir coch llwm' fel esboniad arall, llawer llai lliwgar, ar yr enw.
- ¹¹⁸ Dinas sy fry ar y fron, - ac ynni
 Gannoedd o drigolion;
 I'r ulw'hyll yr elo hon,
 A diango dy Engion.
- Y Brython, 22 (1860), t 352.
- ¹¹⁹ Peter Bailey Williams (1763-1836). Clerigwr, llenor a chyfieithydd a fu'n ffigwr cyhoeddus amlwg yn Arfon. 'Roedd yn gyfeillgar â Dafydd Ddu Eryri a beirdd lleol eraill, a noddai eu gweithiau. Ymddiddorai hefyd mewn llawysgrifau gan eu cyhoeddi yng nghylchgronau a newyddiaduron y cyfnod. Ef oedd awdur The Tourist's Guide through the County of Caernarvon (1821).

-
- ¹²⁰ Y Brython, 22 (1860), t 352.
- ¹²¹ Fforch. (Cyflwynir y lluosogiad ar ffurf fenywaidd unigol).
- ¹²² Tân neu wreichionen. Deilliai hyn o'r arferiad o gynnau tân ar ben y mynydd ar adegau penodol. Erbyn 1913 a'i Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon, 'roedd Myrddin wedi diystyru'r esboniad hwn (gweler t 224).
- ¹²³ Noda, er enghraifft, y gallai darddu o 'brid', sef gwreiddyn 'briduw', hen derm cyfreithiol am sicrwydd, ernes neu fath o lw. Ar y llaw arall, cred y gallai'r enw ddod o 'bri' a 'duw' gan gyfleu 'clod Duw' neu o 'bri' a 'din'(as) gan gyfleu anrhydedd dinas, sef yr ystyr mwyaf tebygol ym marn sigledig Myrddin.
- Mae Myrddin yr un mor ansicr o'r tarddiad ar dudalennau 68-69 o Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon a chyflwynna fwy neu lai yr un esboniadau gydag un ychwanegiad i gymhlethu pethau ymhellach. Erbyn 1913, cred y gallasai 'bridin' darddu o 'brud' ac 'yn' a bod yr enw 'Maen Bridin' felly'n disgrifio man ble yr arferai'r hen frudwyr, neu swynyddion, ymarfer eu sgiliau swyno.
- ¹²⁴ Gweler Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970, 1997, Llundain, tt 235-237.
- ¹²⁵ Y Brython, 32 (1861), t 248.
- ¹²⁶ Y Brython, 36 (1861), tt 364-368 a 37 (1861), tt 404-407.
- ¹²⁷ Y Brython, 37 (1861), t 407.
- ¹²⁸ Dewisodd Myrddin y ffugenw Groegaidd Talanton sy'n golygu 'tafolydd'. Deuai'r enw o'r Testament Newydd ac 'roedd yn berthnasol iawn o ystyried yr holl bwysa a mesur a wnaed yn y traethawd. Nid oedd yn gydnaws, fodd bynnag, â ffugenwau eraill Myrddin a oedd bob amser yn enwau Cymraeg.
- ¹²⁹ 'Roedd ymwneud â phynciau o'r fath yn eithaf ffasiynol ym Mhrydain ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ffafiwyd ymarferoldeb gwyddoniaeth gan lawer a difriwyd creadigrwydd breuddwydiol y bardd ac yn 1862, hwyluswyd lledaeniad meddylfryd o'r fath yng Nghymru pan sefydlodd Hugh Owen y 'Social Science Section' yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon i drafod, trwy gyfrwng y Saesneg, agweddau ar fywyd Cymru megis crefydd, addysg, diwydiant ac yn y blaen. Cefnogwyd y datblygiad hwn gan lawer, Eben Fardd yn eu mys.
- ¹³⁰ Ymddangosodd y rhifyn ceiniog cyntaf o'r newyddiadur ym mis Mai 1855.
- ¹³¹ Argraffwyd tua dwsin o gerddi Myrddin yn y papur rhwng 1855 ac 1861.
- ¹³² James Rees (1803-1880). Argraffydd a chyhoeddwr. Ef oedd cyhoeddwr y Carnarvon and Denbigh Herald a'r Herald Cymraeg hyd 1871 a bu'n ffigwr amlwg yn nhref Caernarfon am ddegawdau.
- ¹³³ Thomas, R Maldwyn, 'Y Wasg Gyfnodol yn Nhref Caernarfon hyd 1875, Gyda Sylw Arbennig i Argraffwyr a Chyhoeddwyr', MA Cymru (Bangor), 1978, Rhif 78:97, t 182.

-
- ¹³⁴ Gorffennaf 17, 1858, t 4.
- ¹³⁵ Diddorol gweld i wŷr dysg fod o dan y lach gan Myrddin hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn.
- ¹³⁶ Dyfyniad gan athro adnabyddus (nas enwir gan Myrddin), t 4.
- ¹³⁷ Gwnaeth ddefnydd o rai o'r llinellau hyn yn ei farddoniaeth ddiweddarach. Er enghraifft, rhoddodd y llinell 'Creigiau mawr caerogwyrth' ar ei newydd wedd – 'Creigiau erfawr caerogwyrth' – yn 'Awdl Mynyddoedd Eryri' (1861), t 16.
- ¹³⁸ 'Myfyrdod Prydyddawl' Yr Herald Cymraeg, t 1.
- ¹³⁹ loc. cit. - Awst 25, 1860.
- ¹⁴⁰ William Croom (bu farw 1823). Llinwr o Fedyddiwr prin ei addysg o blwyf Llaniestyn, neu o bosibl plwyf Llangian, a oedd, yn ôl Myrddin, yn "..... ddarllenwr mawr, yn ddysgwyr rhagorol ac yn fardd neu brydydd lled dda, mewn arddull werinaidd" [Enwogion Sir Gaernarfon, t 16].
- ¹⁴¹ Yr Herald Cymraeg, Medi 29 1860, t 1.
- ¹⁴² Myfyrdod Prydyddawl II, Yr Herald Cymraeg, Medi 29 1860, t 1.
- ¹⁴³ Yr Herald Cymraeg, Ebrill 28 1860, t 3.
- ¹⁴⁴ loc. cit.
- ¹⁴⁵ Yr Herald Cymraeg, Mai 5 1860, t 4.
- ¹⁴⁶ loc. cit.
- ¹⁴⁷ Yr Herald Cymraeg, Awst 25 1860, t 1.
- ¹⁴⁸ loc. cit.
- ¹⁴⁹ 'Awdl Annerchiadol i Mr W Prisiart, Bodlondeb, Llangian, Lley'n', Y Brython, 28 (1861), t 63.
- ¹⁵⁰ Ymddangosodd yn Yr Herald Cymraeg ar Orffennaf 20 1861, t 4.
- ¹⁵¹ Yr Herald Cymraeg, Tachwedd 16 1861, t 4.
- ¹⁵² Hugh Humphreys (1817-1896). Argraffydd, cyhoeddwr a golygydd llyfrau a chylchgronau, a ddaeth yn un o wŷr busnes amlycaf y dref yn ei ddydd oherwydd ei fentergarwch a'i ddiwydrwydd anhygoel.
- Cyhoeddodd gyfresi o lyfrau ceiniog misol ac wythnosol poblogaidd tu hwnt – yn arbennig rhwng 1870 ac 1880 – ar bynciau diddorol ac addysgiadol megis Pedr Fawr, y Pla Du, Tân Mawr Llundain, llongdrylliadau ac yn y blaen. Ymdriniai'n rheolaidd hefyd â materion amrywiol yn ymwneud â natur, dacaryddiaeth, gwyddoniaeth a menter. Sicrhaodd hyn oll iddo farchnad eang a chryn ganmoliaeth – er iddo gael

ei gyhuddo gan amryw (a Myrddin yn eu plith) o ymyrryd â geiriad gweithiau awduron ac o beidio ag anelu bob amser at y safonau argraffu uchaf.

- ¹⁵³ Y Traethodydd LXIX, 1914, t 373.
- ¹⁵⁴ *ibid.*
- ¹⁵⁵ *ibid.*
- ¹⁵⁶ Bellach, 'roedd Y Brython yn ei fisoedd olaf a Silvan Evans wedi hen ildio i bwysau esgobion Eglwys Loegr ar iddo roi'r gorau i'w gyd-olygiaeth. Daethai cyfraniadau Myrddin i'r Herald Cymraeg hefyd i ben rai misoedd ynghynt.
- ¹⁵⁷ Ystyrir Golud yr Oes yn un o gyfnodolion Cymraeg mwyaf uchelgeisiol yr oes o ran ei ddiben, ei gynnwys a'i dechnegau argraffu. Prif bwrpas y cylchgrawn oedd ymdrin â llên, cerdd, celfyddyd, hanes, hynafiaethau, crefydd, antur ac yn y blaen gan wneud hynny mewn modd hollol gyffredinol heb arlliw o na phlaid nac enwad. Arbrofwyd â'r technegau diweddaraf megis maenargraffu ac ysgythru oddi ar blatiau dur a chopr a gwnaed defnydd helaeth hefyd o ffotograffiaeth i wella a bywiogi diwyg y cyfnodolyn.
- ¹⁵⁸ David Thomas (1759-1822) a brentisiwyd yn wehydd fel ei dad. Cadwai ysgol yn Llanddeiniolen a bu'n addysgu hefyd mewn nifer o bentrefi eraill yn Arfon, Eifionydd a Môn. Bu'n ddiwyd am flynyddoedd lawer ac ar wahân i farddoni, golygodd a chydolygodd gyfnodolion a chyfrolau megis Trysorfa Gwybodaeth neu Eurgrawn Cymraeg (1807) a Y Diddanwch Teuluaidd (1817). Ef hefyd oedd yn gyfrifol am Corph y Gaingc (1810) ac am Arddwriaeth Ymarferol (1815), cyfieithiad o draethodau Saesneg. Lluniodd yn ogystal nifer o ysgrifau a thraethodau a ymddangosodd yng nghyhoeddiadau'r dydd.
- ¹⁵⁹ Cwrt-mawr 1195A. At ei gilydd, nid oedd Owen wedi'i blesio â Golud yr Oes.
- ¹⁶⁰ Yn eu mysg, yr oedd Griffith Williams (Gutyn Peris), John Roberts (Siôn Lleyrn) a William Ellis Jones (Cawrdaf).
- ¹⁶¹ 'Ystyriaethau ar Brydyddiaeth Gymraeg a'i Pherthynasau', Golud yr Oes I, 1862, t 119.
- ¹⁶² *loc. cit.*, t 122.
- ¹⁶³ Yr Herald Cymraeg, Gorffennaf 17, 1858, t 4.
- ¹⁶⁴ Golud yr Oes I, 1863, tt 245-246.
- ¹⁶⁵ Mewn llythyr dyddiedig Hydref 23 1804 at Richard Roberts y Telynor [Dall] yn Golud yr Oes II, 1864, tt 76-77.
- ¹⁶⁶ Gwelir y rhwydwaith hyfforddiant effeithiol hwn ar waith hefyd mewn llythyr llawn anogaeth oddi wrth Robert ap Gwilym Ddu* at Siôn Lleyrn ble yr ymdrinnir yn deg ac yn fanwl fesul pwynt ag englynion o eiddo Siôn.

Tynnir sylw at gryfderau a gwendidau'r gwaith a chynigir gwelliannau yn ôl yr angen. Dyma sylwadau gwerthfawr iawn i fardd llai creffnus fel Siôn a gwerthfawrogai Myrddin yntau eu pwysigrwydd trwy eu cynnwys yn ei golofn. [Golud yr Oes II, 1864, t 118.]

* Robert Williams (1766-1850). Amaethwr a bardd o blwyf Llanystumdwy. 'Roedd ganddo gryn ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg, diwinyddiaeth, hynafiaethau ac yn y blaen ac ymgasglai nifer o Gymry diwylliedig yn ei gartref i drafod materion o'r fath. Arferai hefyd ohebu â Dafydd Ddu Eryri ar faterion barddol. Bardd crefyddol o hen draddodiad y canu caeth clasurol ydoedd yn bennaf a lluniodd rai o gerddi mawr y genedl, yn eu mysg englynion ac awdlau celfyddydol berffaith ac emynau creffnus, telynegol eu naws megis 'Mae'r gwaed a redodd ar y groes'.

- ¹⁶⁷ Bu wrthi'n ddiwyd yn hyrwyddo gwaith y gymdeithas yng Nghymru am flynyddoedd lawer, er enghraifft trwy drefnu eisteddfodau a gwerthu llyfrau ar ei rhan. Er hynny, nid oedd wedi bod yn hollol gytún â'r Gwyneddigion bob amser a bu dadl rhyngddo ac Owen Jones (Owain Myfyr) am gynghanedd benrhydd a ddefnyddiwyd yn yr eisteddfodau yn 1790. Parodd yr anghytundeb iddo ddatgan "nid oedd, ac nid oes, yr wyf yn ofni, ond ychydig, os neb yn iawn, yn mhlith y Gwyneddigion, yn dyall barddoniaeth yn ei pherffeithrwydd" mewn llythyr at Siôn Lleyrn yn Awst 1804. (Golud yr Oes II, 1864, t 29).
- ¹⁶⁸ Erbyn Tachwedd 1805 (Golud yr Oes II, 1864, t 251), 'roedd wedi dechrau amau bod Iolo Morganwg yn rhaffu celwyddau am fesurau Morgannwg - nad oedd erioed wedi bod o'u plaid beth bynnag - a chyhuddai William Owen Pughe o fod "mor egwan a choelio pob peth a ddywedo [Iolo]".
- ¹⁶⁹ Golud yr Oes II, 1864, t 251.
- ¹⁷⁰ A gyhoeddwyd (gydag un troednodyn) dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach yn Cynfeirdd Lleyrn 1500-1800, 1905, tt 250-251.
- ¹⁷¹ Golud yr Oes II, 1864, t 223.
- ¹⁷² Griffith Williams (1769-1838). Chwarelwr o'r Waunfawr a ddysgodd reolau barddoniaeth dan adain Abraham Williams (Bardd Du Eryri). Cyhoeddai ei gerddi niferus, cywyddau a chaneuon yn bennaf, yng nghyfnodolion y dydd a dygwyd allan lyfr o'i weithiau, sef Ffrwyth Awen, yn 1816.
- ¹⁷³ Edward Charles (1757-1828). Llenor ffraeth a mân fardd a ddefnyddiai'r llysenw 'Siamas Wynedd'. Gweithiai fel dilledydd yn Llundain ac etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion yn 1790. Bu'n ysgrifennydd y Gymdeithas yn 1796 ac yn 'fardd' iddi yn 1800 ac 1810 er nad oedd ganddo fawr o grap ar y grefft. Ymddiddorai mewn hanes a hynafiaethau a gwnaeth y gymwynas o grynhoi casgliad o lythyrau yn ymwneud â hanes Cymry Llundain a'u cymdeithasau.
- ¹⁷⁴ Golud yr Oes I, 1862, t 16.
- ¹⁷⁵ loc. cit.

¹⁷⁶ Golud yr Oes I, 1862, t 91.

¹⁷⁷ loc. cit.

Cynhwyswyd englyn William Elias ar gladdedigaeth Owen Gruffydd yn Rhagymadrodd Owen M Edwards i Gwaith Owen Gruffydd yn 1904 (t 5).

¹⁷⁸ Rhif II, 1864, t 180.

¹⁷⁹ loc. cit.

¹⁸⁰ John Thomas, 'y bardd gorweddog' (1786-1859). 'Roedd yn nai i John Roberts (Siôn Lleyrn) ac aeth i ysgol Isaac Morris, athro Eben Fardd a Dewi Wyn o Eifion. Ac yntau'n hynod lengar, mwynhâi ddarllen llyfrau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac ymwelai llu o wŷr dysgedig â'i gartref. Cyfansoddai awdlau, emynau ac yn y blaen.

¹⁸¹ Owain Gwyrfaï (1789-1874). Llenor, hynafiaethydd a bardd. Yn gowper wrth ei alwedigaeth, 'roedd yn un o ddisgyblion Dafydd Ddu Eryri a thrigai yn ei hen gartref. Bu'n ddiwyd iawn ar hyd ei oes a chyhoeddwyd llawer o'i waith megis y gyfrol drwchus ar hanes bywyd Peter Williams, yr esboniwr yn 1817. Dechreuodd ar Geirlyfr Cymraeg o Wybodaeth Gyffredinol yn 1830 ac yna Deg Erledigaeth dan Rufain Baganaid (1847). Bu'n gysylltiedig hefyd â'r cylchgrawn byrhoedlog Y Drysorfa Hynafiaethol.

¹⁸² Camgymeriad Myrddin oedd y cyfeiriad at gywydd marwnad. Awdl farwnad a luniodd Twm Pedrog i'r wraig, sef Mrs Jane Thomas, gweddw Gruffydd Tomas o Faentwrog.

¹⁸³ Jane Ellis, gwraig Ebenezer Ellis, Conwy.

¹⁸⁴ tt 226-256.

¹⁸⁵ Golud yr Oes I, t 202.

¹⁸⁶ Golud yr Oes II, tt 97-98.

¹⁸⁷ Cwrt-mawr 1195A.

¹⁸⁸ Cwrt-mawr 5960C.

¹⁸⁹ loc. cit.

¹⁹⁰ Cwrt-mawr 1176B.

¹⁹¹ Fe'i hetifeddwyd gan Myrddin yn ddiweddarach.

¹⁹² Golud yr Oes I, 1863, t 202.

¹⁹³ Cwrt-mawr 1176B.

¹⁹⁴ Golud yr Oes II, 1864, t 97.

-
- ¹⁹⁵ Cwrt-mawr 1176B.
- ¹⁹⁶ Mewn llythyr at Myrddin – dyddiedig Hydref 25 1865. Cwrt-mawr 1195A.
- ¹⁹⁷ Llythyr dyddiedig Tachwedd 15, 1865 o 2 Barbara Street, Westbourne Road, Barnsbury, Llundain. Cwrt-mawr 1195A. Erbyn y mis Rhagfyr, 'roedd wedi symud drachefn – y tro hwn i Bangor House, Shoe Lane, Holborn.
- ¹⁹⁸ 'Roedd yn 27 oed.
- ¹⁹⁹ Fe'i claddwyd ym mynwent yr eglwys.
- ²⁰⁰ Gweler, er enghraifft, y llyfrau rhwymedig trwchus yn Cwrt-mawr (400B, 401B a 515B) sydd â channoedd o gywyddau, marwnadau, carolau, awdlau, englynion, llythyrau ac yn y blaen yn llawysgrifen Owen.
- ²⁰¹ Cylchgrawn misol a sefydlwyd yn 1835 gan yr argraffwyr D R ac W Rees o Lanymddyfri yn benodol at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru. Materion eglwysig a chrefyddol oedd ei brif gylch gorchwyl er yr ymdrinnid ynddo â hynafiaethau, llenyddiaeth, enwau lleoedd ac ati o bryd i'w gilydd. Fe'i golygydd gan David Owen (Brutus) - gweler 205 isod - rhwng 1835 ac 1866 a chan William Spurrell, yr argraffydd a'r cyhoeddwr o Gaerfyrddin, o 1857 ymlaen. Daeth Spurrell, a oedd yn un o gyfeillion Daniel Silvan Evans, yn berchennog y cylchgrawn yn 1857 hefyd.
- ²⁰² Rhif X, 1866, t 208.
- ²⁰³ Yn naturiol ddigon o ystyried ei gefndir eglwysig, bu Owen yn ohebydd i'r Haul ar sawl achlysur.
- ²⁰⁴ loc. cit.
- ²⁰⁵ David Owen (1795-1866). Golygydd a llenor medrus. Gorfuo iddo adael gweinidogaeth gyda'r Bedyddwyr dan gwmwl yn gynnar yn ei hanes a bu'n athro ysgol mewn sawl man yng Nghymru cyn cychwyn ar yrfa liwgar a stormus fel golygydd. Ysgrifennodd nifer mawr o lyfrau ar themâu diwinyddol megis Daearyddiaeth Ysgrythurol (1835) a Christmasia (1840) a bu'n ffyddlon iawn i'r eglwys am flynyddoedd lawer. Gwnaeth ei gyfraniad mwyaf i ryddiaith Gymraeg fel dychanwr miniog a llym a sicrhodd ei arddull hwyliog mewn gweithiau fel Wil Brydydd y Coed, gyda'i ymdriniaeth ddidrugaredd o bregethwyr ymneilltuol gwaethaf y cyfnod, boblogrwydd mawr iddo yn ei ddydd.
- ²⁰⁶ Prif olygydd y geiriadur oedd Josiah Thomas Jones (1799-1873), cyhoeddwr a gweinidog gyda'r Annibynwyr. Ef gychwynnodd y Merthyr and Cardiff Chronicle, Yr Odydd Cymraeg, y Gwron Cymreig, Y Gweithiwr a'r Aberdare Times. Bu'n gysylltiedig hefyd â newyddiaduron megis Y Seren Ogleddol.
- Y Geiriadur Bywgraffyddol oedd ei waith mwyaf adnabyddus ac er nad oedd y gyfrol gyntaf a gyhoeddwyd yn 1867 na'r ail (a ymddangosodd yn 1870) heb eu gwendidau, 'roeddynt yn werthfawr iawn i ymchwilwyr gan

iddo roi sylw ynddynt i unigolion llai adnabyddus na fyddent, fel arall, wedi teilyngu cofiant.

²⁰⁷ Yr Haul X, 1866, t 269.

²⁰⁸ loc. cit., t 270.

²⁰⁹ Yr Haul X, 1866, tt 343-346 a'r Haul XI, 1867, tt 88-90.

²¹⁰ Uchelwr o Iwerddon a ddaethai i Gymru yn chwarter cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg i ganlyn Llywelyn Fawr.

²¹¹ Fe'i cysylltwyd trwy briodas â theuluoedd pendefigaidd Clenennau, Glynllifon, Hengwrt, Nannau, Madryn, Plas Hen ac eraill gan sicrhau etifeddiaeth gadarn. Priododd Gruffydd ab Einion, un o'r tylwyth, nith i Owain Glyndŵr ei hun yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

²¹² Un o gefnogwyr Iarll Richmond (Harri VII yn ddiweddarach) a fu'n rhan o warchae Castell Harlech gan lwyddo gydag eraill i amddiffyn y castell rhag Edward IV. Cyfeirir yn y gwaith at y ffaith bod Harri wedi gorfod cuddio mewn cell yng Nghorsygedol cyn ffoi i Ffrainc yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

²¹³ Yn dilyn anghytundeb rhyngddo a'i rieni wrth iddynt drefnu'i briodas, dihangodd i briodi a bu ef a'i wraig newydd yn cuddio mewn hen dŷ ar dir Corsygedol am rai wythnosau yn ddiarwybod i'w deulu cyn symud i ffermdy Corsygedol Uchaf. Effeithiodd y ffræ deuluol yn arw arno ac aeth i ddyledion mawr o ganlyniad i'w segura a'i ddiota mewn cwmni drwg. Wedi marwolaeth ei dad, fodd bynnag, daeth at ei goed a bu'n fonheddwr parchus a synhwyrol am weddill ei oes.

²¹⁴ Aelod Seneddol dros Sir Feirionnydd a oedd mor dew, yn ôl pob sôn, nes gorfod agor dorau mawr yn Nhŷ'r Cyffredin yn un swydd ar ei gyfer ef. Yr unig adeg yr agorid y dorau hyn fel rheol oedd pan wysid yr aelodau i ymddangos gerbron y brenin yn Nhŷ'r Arglwyddi gan Swyddog y Wialen Ddu. Aeth ei dewdra'n drech nag ef yn y diwedd a threfnodd lawdriniaeth yng Nghorsygedol gan feddygon o Lundain i gael gwared â'r braster. Bu farw o waedlif rai dyddiau'n ddiweddarach yn ddeg ar hugain oed.

²¹⁵ Yr Haul XIII, 1869, tt 309-311.

²¹⁶ loc. cit., t 309.

²¹⁷ *ibid.*

²¹⁸ Gweler Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, 1953, Llundain, tt 757-758.

²¹⁹ Ymddengys i Eben nodi yn Y Brython fod gan Edmwnd Prys fab o'r enw Edmwnd yn ficer yng Nghlynnog ond cyfeirid ato fel wŷr i'r archddiacon yng Nghyff Beuno.

²²⁰ Yr Haul XIII, 1869, t 310.

-
- ²²¹ Atgyfnerthir yr honiadau trwy gynnwys dau gywydd i William Wynn, Maesyneuadd (diwedd yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif), y naill yn gywydd priodas iddo gan Owen Gruffydd, Llanystumdwy a'r llall yn gywydd marwnad gan Robert ap Gwilym Ddu. Nodir yn y naill gywydd a'r llall fod William yn hanu o linach Edmwnd Prys.
- ²²² Gan Lewis Morris (1701-1765), un o Forrisiaid Môn.
- ²²³ Cyhoeddiad cenedlaethol a ymddangosodd am y tro cyntaf yn 1854 dan nawdd y Cambrian Institute, Llundain. Fe'i golygwyd gan John Williams (Ab Ithel) a rhoddai sylw i hen lenyddiaeth y Cymry ac agweddau eraill ar Gymru megis ei hanes, ei daearyddiaeth, ei hachyddiaeth a'i hieithyddiaeth. Daeth i ben yn 1864 wedi marwolaeth Ab Ithel.
- ²²⁴ O dudalen 343 o'r Haul X, 'Hanes Byr o Deulu Cors y Gedol'.
- ²²⁵ Siôn Tudur (bu farw 1602). Bonheddwr o'r Wigfair, Llanelwy a oedd yn un o brif feirdd cyfnod olaf Beirdd yr Uchelwyr. Fe'i hyfforddwyd gan Gruffudd Hiraethog a chanai yn y mesurau rhyddion yn ogystal ag yn y mesurau caeth ac yn unol â'r traddodiad barddol, lluniodd nifer helaeth o gerddi mawl a cherddi marwnad. Ond nid ofnai 'chwaith ddychanu'r uchelwyr a chyd-feirdd gwenieithus o bryd i'w gilydd, yn herald i'r newid a oedd ar droed yn niwylliant y beirdd. Ceir ffraethineb, doniolwch a bywiogrwydd yn ei waith ac mae diffuantrwydd ei ffydd Gristnogol yn amlwg yn ei gerddi crefyddol. Ymrysonai'n gyson â beirdd megis Siôn Phylip o Fochres.
- ²²⁶ Yr Haul XIII, 1869, t 367.
- ²²⁷ Eithriad arall prin, er enghraifft, yw'r em 'Awdl y Gwanwyn' o waith Dafydd ab Edmwnd* a gyhoeddodd yn Taliesin, II, MDCCCLX-LXI, tt 101-106.
- * Uchelwr o Hanmer a ganai tua chanol y bymthegfed ganrif ac a oedd yn un o brif feirdd cyfnod Beirdd yr Uchelwyr. Chwaraeodd ran amlwg yn ad-drefniad y mesurau Cerdd Dafod yn Eisteddfod Caerfyrddin a gynhaliwyd tua 1450 ac adlewyrchir adolygiad y gelfyddyd yn saerniaeth yr awdl dan sylw a newydd-deb rhai o'i mesurau.
- ²²⁸ John Blackwell (1797-1840). Offeiriad a bardd. Enillodd sawl cystadleuaeth yn yr Eisteddfod am ei farddoniaeth a'i ryddiaith. Cipiodd y wobr, er enghraifft, am ei awdl 'Maes Garmon' yn Eisteddfod Yr Wyddgrug yn 1823. Llythyrarai hefyd â chylchgrawn eglwysig Y Gwylidydd tua'r un pryd.
- Fe'i hurddwyd yn Gurad Treffynnon yn 1829 ac yn Rheithor Maenordeifi bedair blynedd yn ddiweddarach. Golygodd Y Cylchgrawn rhwng 1834 ac 1835.
- Mae'n fwyaf adnabyddus am ei gerddi rhydd swynol, llawn teimlad megis 'Cân Gwraig y Pysgotwr', 'Cathl i'r Eos' a 'Rhywun'. 'Roedd eu sylmder melodaidd a'u heglurder coeth yn gyferbyniad llwyr i drymder rhodresgar awdlau'r cyfnod ac mae iddynt arwyddocâd arbennig gan mai hwy a

arweiniodd y ffordd at y canu telynegol.

²²⁹ t 26.

²³⁰ Argraffwyd a chyhoeddwyd ym Mhen-y-groes gan G Lewis.

²³¹ Thomas Richards (1785-1855). Clerigwr ac athro. Yn fab i Thomas Richards, Ficer Darowen, ger Machynlleth, ac wedi'i urddo'n offeiriad yn 1811, aeth i Goleg yr Iesu Rhydychen ond gadawodd cyn cymryd ei radd. Trodd wedyn at gadw ysgol yn Aberriw, Sir Drefaldwyn a bu'n gurad Trefaldwyn yn ystod yr un cyfnod. 'Roedd yn gefnogol i'r diwylliant Cymreig a hyrwyddai gyhoeddi cylchgronau Cymraeg y dydd.

²³² Lewis Richards (1799-1860). Clerigwr ac un arall o feibion Thomas Richards, Ficer Darowen. Wedi graddio yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen yn 1824, daliodd nifer o swyddi eglwysig. Fe'i penodwyd yn gurad yn Rhuddlan yn 1826 ac yn ficer yn Llanerfyl yn 1837 lle y gwasanaethodd am dros ugain mlynedd.

²³³ Cyd-fyfyriwr ag Alun yn Rhydychen.

²³⁴ Yr Haul XIV, 1870, tt 26-27.

²³⁵ Fe'i haddysgwyd yno rhwng Ionawr a Rhagfyr 1824 gan y Parchedig Thomas Richards i'w baratoi at fynd i brifysgol.

²³⁶ Yr Haul XIV, 1870, t 27.

²³⁷ Bu'n fyfyriwr yn y coleg rhwng 1824 ac 1828.

²³⁸ Yr Haul XIV, 1870, t 27.

²³⁹ Yr Haul XIV, 1870, tt 91-92.

²⁴⁰ Codwyd arian i dalu am ei addysg brifysgol gan fonheddwyr ac offeiriaid. Er iddo gyflawni mân swyddi megis gweithio ym mwtri'r coleg, 'roedd hi'n fain iawn arno yn ystod y blynyddoedd dan sylw yn gyffredinol ac yn arbennig felly pan gâi broblemau gyda thanysgrifiadau noddwyr ac anhawster i sicrhau arian trwy ennill ysgoloriaethau a thiwora. Cyfeiria'n fynych yn y llythyrau at fwrn ei amgylchiadau prin.

²⁴¹ Yr Haul XIV, 1870, t 187.

²⁴² loc. cit.

²⁴³ Enillodd wobwr am ei farwnad i'r Esgob Heber yn Eisteddfod Dinbych 1828, er enghraifft.

²⁴⁴ Yr Haul XIV, 1870, t 92.

²⁴⁵ Er enghraifft, mewn llythyr at Thomas Richards ym mis Gorffennaf 1824 noda'n hiraethus "..... I would prefer the ploughboy's rustic carol, mocked by the Vaynor woodlarks, to the softest melodies of the Powys Eisteddfod; and I would rather sit upon one of the verdant precipices of Cefn yr Allt, to watch the sun's adieu, than be dazzled by the splendour of epicureanism on

the most superb sofa in Northumberland House” Yr Haul XIV, 1870, t 27.

²⁴⁶ ‘Afonydd Sir Gaernarfon’ (rhan o gyfres ‘Afonydd Cymru’), Yr Haul XIV, 1870, tt 343-345.

²⁴⁷ ‘Terfynau Plwyf Llanystumdwy’, Yr Haul XV, 1871, t 435.

²⁴⁸ Ar wahân i un nodyn llenyddol ar dudalen 343 yn cyfeirio at y ffaith mai Afon Berach oedd yr enw a roddid ar Afon Erch gan Lewys Dwnn, yr achyddwr a’r bardd o Sir Drefaldwyn a ffynnai tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

²⁴⁹ Siarter o’r chweched ganrif gan y Tywysog Rhun ab Maelgwyn Gwynedd.

²⁵⁰ Enillodd y poblogrwydd hwn lu o edmygwyr iddo ac fe’i bombardiwyd â gohebiaeth o bob cwr o Gymru yn ogystal ag o Gaer, Lerpwl, Manceinion a Llundain. Ambell dro, brolient gyfraniad gwerthfawr Myrddin i ryw gylchgrawn neu’i gilydd ond, ar y cyfan, eu prif fyrddwn oedd troi at Myrddin am gymorth o ran cael hyd i lyfrau, llawysgrifau a lluniau; gwerthuso llyfrau a llawysgrifau; golygu/cywiro/tafoli rhyddiaith a barddoniaeth; hel achau; egluro tarddiad geiriau; cyfieithu ac yn y blaen. Ymroes Myrddin yn egniol i’r fath dasgau, wrth gwrs - weithiau am dâl, mae’n debyg, ond gan amlaf fel ffafr i’r ymofynnydd. Fe’i hystyrid yn awdurdod mewn sawl maes a llwyr werthfawrogid ei gymwynasgarwch di-ben-draw fel y tystia’r doreth o llythrau diolch a dderbyniodd yn gyson am ddegawdau lawer.

²⁵¹ Enillodd y wobwr am draethawd ar ‘Enwogion Sir Gaernarfon’ yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1877 a oedd yn gysail i’w gyfraniadau i’r cylchgrawn Llais Rhyddid rhwng 1914 ac 1920 ac i’w gyfrol swmpus Enwogion Sir Gaernarfon a gyhoeddwyd yn 1922, flwyddyn wedi’i farwolaeth.

²⁵² Ailafaelodd yn yr awenau yn rhifyn cyntaf cylchgrawn llenyddol Y Geninen yn 1883 a difyrrodd ei darllenwyr yn rheolaidd hyd 1907 gydag achau teuluoedd adnabyddus Gogledd Cymru, darnau o hen almanaciau, llythrau, cerddi anghyhoeddedig ac ambell erthygl hynafiaethol o’i gronfa.

Yn Y Traethodydd yntau rhwng 1886 ac 1913, cyhoeddodd draethawd ar ‘Y Cymdeithasau Llenyddol Hen a Diweddar’ (a baratowyd yn wreiddiol, mae’n debyg, ar gyfer cystadleuaeth) a chofrestr gynhwysfawr o bwys yn dwyn y teitl ‘Hen Gerddi y Cymry’ ac ynddi dros chwe chant o gyfeiriadau at doreth o gerddi amrywiol a luniwyd rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cyhoeddwyd llythrau a barddoniaeth o’i gronfa yn Cymru hefyd tua 1895 ynghyd ag erthyglau o’i eiddo ar unigolion ac adeiladau arwyddocaol megis John Roberts (1810-1884), yr arlunydd o Lanystumdwy a Chapel Galltgoed yn Eifionydd.

Bellach, roedd yn cyfansoddi erthyglau mwy swmpus ar gyfer y cylchgronau a Dewi Wyn o Eifion, Owen Gruffydd, Llanystumdwy a J H Hughes (Ieuan o Leyn) a gawsai ei sylw yng nghylchgrawn

llynyddol O M Edwards Y Llenor rhwng 1895 ac 1897. Cyfrannodd yn helaeth i Llais Rhyddid hefyd rhwng 1914 ac 1920 ac yn ogystal â'r 'Enwogion Sir Gaernarfon', anfonodd o'i gronfa gasgliad o lythyrau Morris Williams (Nicander) at Eben Fardd i'w cyhoeddi rhwng cloriau'r cylchgrawn.

²⁵³ Cwrt-mawr 1187B – disgrifiad J Glyn Davies, Lerpwl o Myrddin mewn llythyr ato ar Dachwedd 7, 1909.

²⁵⁴ Argraffwyd gan Richard Jones, Pwllheli.

²⁵⁵ Cyhoeddwyd naw llyfr arall o'i waith rhwng 1883 ac 1922, sef:

Adgof Uwch Anghof (1883)

Dewi Wyn o Eifion & (1902).

Gleanings from God's Acre (1903). Argraffwyd gan Richard Jones, Pwllheli.

Cynfeirdd Lleyrn 1500-1800 (1905).

Gwerin-Eiriau Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes (1907). Argraffwyd gan Richard Jones, Pwllheli.

Llên Gwerin Sir Gaernarfon (1908). Cyhoeddwyd gan

Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), Swyddfa 'Cymru', Caernarfon.

Gwaith Barddonol Owain Lleyrn (1909). Argraffwyd gan Richard Jones, Pwllheli.

Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes (1913).

Enwogion Sir Gaernarfon (1922). Cyhoeddwyd yng Nghaernarfon.

'Roedd felly naill ai'n agosáu at neu ynghanol ei saithdegau pan ymgymerodd â'r dasg o lunio bron y cyfan ohonynt.

²⁵⁶ Yn dilyn ymdrechion gwŷr dylanwadol fel David Lloyd George, John Rhŷs, O M Edwards a J H Davies, dyfarnwyd iddo bensiwn o ddeg swllt yr wythnos o bwrs y Trysorlys ym mis Gorffennaf 1903 am ei gyflawniadau ym maes llenyddiaeth.

²⁵⁷ Cwrt-mawr 1180C. Llythyr dyddiedig Mai 9, 1920 at Myrddin.


²⁵⁸ Cwrt-mawr 14157B. Geiriau Myrddin mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr 31 1902 at R Jenkin Jones, Aberdâr.

ATODIAD I


**FFOTOGRAFFAU AC
ARLUNWAITH**



Ffotograff o Ann Owen, mam Myrddin Fardd.
Fe'i tynnwyd, mae'n debyg, gan John Thomas, Lerpwl, tua 1885



Ffotograff o Ann Owen, mam Myrddin Fardd,
ac un o chwiorydd Myrddin o flaen eu bwthyn
(Tan-y-ffordd ar gyrion pentref Mynytho, Llŷn).
Fe'i tynnwyd, mae'n debyg, gan John Thomas, Lerpwl, tua 1885



Enghreifftiau o waith cywrain John Jones, y gof,
gyda'i nadroedd



..... a’i anifeiliaid mytholegol







FIGURE 11.11.1

FIGURE 11.11.2


VFA AB CYNDELW




LLYWARCH AP BRAN




NEFYDD HARDD




MAELOG CRWM




TŶWY SŌG
O WAIN GWYNEDD




GWEIRYDD AP BRISGOCH




MARCHIYDD AB CYMAN




ELMIN TROED DU




COLLWYI AP TAIIGNO



HIEDD MOLWYNNIŌG



BRAINT HIR





..... â'i bocedi'n llawn o hen lyfrau



3 Glan-y-wern, Chwilog.
Cartref Myrddin Fardd am dros ddeugain mlynedd

ATODIAD II

**CASGLIAD O FARDDONIAETH
MYRDDIN FARDD
A YMDDANGOSODD
MEWN CYLCHGRONAU A
PHAPURAU NEWYDD**

CYWYDD I'R HAUL

Ha gawr uwch ben goruwch byd,
Gwawl nef a daear hefyd'
Cawr enwog cu eurianwych,
Cawr y wen hardd wybren wych,
Cawr fflwch a harddwch addien
Y sêr glân sy'n uchder nen;
Cawr wyt haul ac araul wres
O euraidd liwiau eres
Ac agwrdd uwch twrdd pob tôn
Croch agwrdd y crych eigion,
Yn ymlwybro rhodio'n rhydd
Yn entrych nen ysplenydd
A'th wên glau yn gwau o gylch
Y byd godidog ogylch;
Gwenu'r wyt ar y gwenydd
Ac ar hadau blodau blydd;
Gwenu'n bur er cysur cain
O odrau dorau'r dwyrain,
Grymus wyt, hoenus huan,
Bywyd dydd a bod o dân;
Hyf addurn byd a'i gyfoeth,
Ei wisg deg a'i wasgod goeth.

Yr Herald Cymraeg, Rhagfyr 1855

PENNILLION

A gyfansoddwyd i Gryddion Dinbych, oblegid eu hymdrech am ychwaneg o gyflog, a'u llwyddiant yn hyny.

Chwychwi feib hawddgar Dinbych,
Yn fawrion ac yn fân,
Oherwydd eich gwroldeb
Cewch hirfaith enw glân,
Fe fydd eich doeth amcanion
Yn arddull teg i'n gwlad,
Ac hefyd er llawenydd –
I chwithau yn llesad.

Pa reswm i ddyn weithio
Am ryw oferedd bach,
Os bydd e'n grefftwr medrus,
Yn hoenus ac yn iach?
Mae'n resyn na f'ai cyfraith
I atal yr hyll nod,
Gan ranu'n well yr arian
Sydd yn y byd yn bod.

Edrychwch ar y cryddion,
Dan wresog hinon haf,
Mewn poen yn tynu'r edaf,
Ar hyd eu breichiau braf;
Ac wed'yn pan daw oerni
Y gauaf gerwin hwyr,
Eilwaith mwy ymboenant
Oblegid rhewi'r cŵyr.

Nid gwŷr wnant godi'n goreu
Yw'r cryddion mawr eu dawn,
Ond gweithiant wrth ganwyllau
I gyd yn hwyrol iawn:
Er hyny ni chânt gyflog,
Heb sefyll o un fryd
Yn erbyn meistriaid creulawn
Sy'n ymladd am y byd.

Efelly, gwell yw sefyll,
Fel cryddion Dinbych draw,
Hwy gawsant eu dymuniad,
Er goddef rhêg a braw:
O! fechgyn ieuainc Cymru,
Rho'wch ambell araith lefn,
Ac yna cewch bleserau,
A chanmil harddarch trefn.

Yr Herald Cymraeg, Hydref 1857

**CYWYDD YMWELIAD A LLANBEDROG, LLEYN,
ALBAN HEFIN, B. A. 1858.**

*“Be it a weakness, it deserves some praise,
We love the play-place of our early days;
The scene is touching and the heart is stone
That feels not at the sight, and feels at none,
The wall on which we tried our graving skill,
The very name we carved subsisting still;
The bench on which we sat when deep employ’d,
Though mangled, hack’d, and hew’d, not yet destroy’d*

.....
*This fond attachment to the well-known place,
Whence first we started our life’s long race,
Maintains its hold with such unfailing sway,
We feel it, e’en in age, and at our latest day.”*

“Hiraeth heddyw yw’r arwr,
Egyr y gân o gwr i gwr.”

LLANBEDROG, enwog annedd,
Llon wyd oll, llawen dy wedd,
Yn sefyll, er gwyll a gwawl
Mewn hynod le dymunawl;
Ac, O! diymwad, bid gwych
Yr anwyl fro dirionwch.

Heibio’r Llan sy ddyddaned,
Dwr glân dros raian a red;
Ac wrth hon yn dirion deg
Dilledir y coed lliwdeg,
Gan ryfedd-waith perffaith pur
Hynotwch eiddo natur.
Llyna nhw yn llawn o nerth
Parod-fyw eu had prydferth,
Gormod ynt mewn grym, o daw
Y rhifyddwr i’w feiddiaw:
Ceisio’u rhif a seinio’u swm
A ddyry a fodd rheswm.

Yma adar cerddgar coed
Eu mwyn-gerdd rônt o’r mân-goed;
A’i chyrddiad ag iach irddail,
Lafar dôn wrth lyfrau dail.
Yn gysson eon ydd ânt,
A melus fry y molant;

Gan amlhau eu pynciau per
Yn ogoniant i'n Gwiw-Ner;
Uwch dychryn a dyffryn dir,
A'r deildai heirdd a'r doldir,
Chwardd y gog enwog heini,
Yn ei braint, tra'n llawn ei bri:
Yntau'r balch y gwalch di gwyn,
Cwyd ei lais o'r cauadlwyn,
Nes bo yn adseinio 'i sain
Y ceryg ateb cywrain.
O! mae'n dirf i'm nwydau i,
Yn wir, pe baent aneiri',
Gael yma olygfa lwys
Pur odiaeth ail Paradwys:
Dygaraf y deg oror,
Fan hydrin ym min y môr.

Hi yr Eglwys bur hyglood
Welaf yn eithaf ei nod;
Budd o'i hoes gaf i'm boddhau,
O foethus hynafiaethau.
Hael nodau olion ydynt
O rwysg hil yr oesau gynt;
Pethau cu yn poethi cân
Barddon-aer buraidd anian.
Cywrain ynt, eu caru wnafl,
Da ydynt, O! dywedaf –
Ac hefyd *doeth* yw cyfarch
Noddau pur sy'n haeddu parch,
O'r hen Eglwys hylwys hon,
Sy gudeg rhwng cysgodion.
Delw iawn yw, deil in' ol
Hyn fu waith henafiaethol,
Yn lled ddiffael trwy gael gwir
Yn fuddiawl o canfyddir,
Ond nid i'm gŵydd herwydd hyn
O nodded, heb ddim naddyn,
Bu arni ball a barn byd,
Ac ail foddion celfyddyd.

I mewn i'r Llan, man mwyniant,
Lle bu ffydd a chynnydd chwant,
Trwy fy Nuw, troaf yn awr
Heb fod am drafod ryfawr.
Dyma le gaf yn deml gu
I urddasol braidd Iesu;
Od oes modd dewis ei maint,
Mae'n hynod iawn mewn henaint,
Ac yn drefnus, foethus, fel

Y cywraint feini cwrel.
Achau'r meirwon (mawr son sydd)
A roed hyd ei pharwydydd:
Hwythau'n llun brychion brau,
Llaweroedd is ei lloriau.
O! i cholofnau, golau gynt;
Odiaeth o greithiog ydynt
Pa rad gaf eu pryd a'u gwedd?
Digon – nid ydynt degwedd:
Profwyd myrdd mai'r pryfed mân,
Yn fywiog ac yn fuan,
Iddynt ddeuynt yn ddi os,
A'u dygynt i gyd agos:
Yn rhodau hael mewn rhawd hir
Eu holion yma welir;
A gwel gwych mai gwael yw gwedd
Cu estyll meinciau eistedd;
A'r hen lofft a fu'n hoffder,
Uwch y dda fedyddfa der:
I hogiau gwâr lliwgar llon,
Gwŷr ifainc a gwryfon,
Pan yn eu emyna mawl
Ar g'oedd i'r Duw tragwyddawl.

Wel, boed i fil – boed a fo,
Awn atynt – ni gawn eto
Yma wŷr rai mwya'r oes,
Yn anwyl iawn mewn einioes.
Canant heddyw fawl Cu-Ner,
Chwarddant, ymbynciant yn ber,
Mal dwsmel yn drybelid.
Heb arwydd briw na lliw llid.
O! f'enaidd dyma fwyniant,
Clywed meibion gwynion gant,
O un lef yn dolefain
Wrth naturiol siriol sain;
Da fawl rônt mewn dull di fai
Mawl iesin fal mêl osai;
Eryrog wiw arwyrain
Beunydd i gyd rhydd y rhai'n;
Melus iawn gwnânt yma eiliaw,
A llyfr bob un yn eu llaw.

Yn y ddiell Babell ber,
Mewn undeb a mwyn iawnder,
Cysur yw Caisar Owain¹
O'i wir fynwes gynhes gain,
A deddyw, mae'n llyw y Llan,
Wr hyglood a rhywioglan –

Yn fugail mwyn heb gwyn gaeth,
A thrwyadl ei athrawiaeth:
Eto gwyl – ond at y gwan
O'i lys araul – le seirian
Ei gais teg fydd megys tad
A'i gerydd o wir gariad.
Da waith hynod, doethineb
Geir o'i nod goreu o neb –
Mewn mantell wech, wech o wawl,
Laes, deneu, liw sidanawl
Dwe'yd ei wers a wna'r Person,
O naws deg gynhes ei dôn,
Am wir go'l Anfeidrol Fod
Y dyn bychan dan bechod –
Am ei drin, a'i ystum drom,
A'i draserch ar bren drosom.

Af i'r fynwent fawr fwynwedd,
Lletty'r meirwon, waelion wedd;
Lle mae tlawd a brawd ger bron
Cu a hoff yn y cyffion,
O wŷdd byd i gyd yn gaeth
Ar wely llwm marwolaeth,
Heb deg wên ac heb enau
Pob corffyn sy briddyn brau;
A du ddarbo i'w dderbyn
O! Duw! mor rhyfedd yw dyn.
Dyma fedd, diammheu fod
Eglwyswr hyglyw isod
Yma'n gorwedd mewn gweryd
Yn wyw fab, ond gwyn ei fyd;
Iohn Cyffin, ² o hael linach,
Ydyw'n wir, yn dwyn ei ach
O foneddion gwychion gynt,
Eu haneddau cain oeddynt,
Peter Wiliams ³ i'w amser
A weithiai'n hawdd dan nawdd Ner,
Hoff un – e fu'n ddiffynydd
I wres ffawd y gras o ffydd,
A diau'n dad mad a mwyn
Hefyd yn ddoethawr hyfwyn
Cyn myn'd i'r bedd ddyfr-fedd du,
(Och alaeth, i ymchwalu;)
Gwr iached oedd goruwch dyn,
O'i ysgol pan wnai esgyn,
A'i wisg deg yn wasgod iawn
(Gyhoeddwr diddrwg hyddawn,)
Heb gyfryw unrhyw anrhefn
Mal napcyn gwyn am ei gefn.

Yn bur gu drwy Gymru gain,
Llym arwr uwch llu mirain;

Hir dalm fu Gruffydd Salmon⁴
Mal ar waith yn moli'r Ion;
Ond O! yn awr, dyna ef,
Mae'n addoer, trwm in' addef,
Yn âr gwyll y lletty llwch
O'r goleu mewn dirgelwch: -
Eto'i waith, ei waith o'i ol
Ennilodd iddo'n hollol
Uchel glod, syndod fydd son
Am dano tra grym dynion,
Pregethwr per ac ieithydd,
Rhesymwr, olrheiniwr rhydd,
Oedd Gruffydd, gwr a hoffid
Yn llwyr heb gynhen na llid;
Areithiwr am wyrthiau oedd,
Boddiai'n iawn y byddinoedd.
Diodid mai da ydoedd,
Paul yr ail, ein piler oedd.

Man yma, mewn dalfa den
A oedd ddewr⁵ sy ddaiaren
Di oferedd, da'i fwriad
O'i synwyr caed llwyr wellâd
Ni wn am nemor o neb
Iawn-daith yn mhob uniondeb,
A dreuliodd oes heb groes gred
Dan awyr fwy diniwed;
Heb ystŵr, heddychwr hael,
Rywfodd, na fawr ymrafael,
Na chwith dro ei glod ni chyll
Safed, fe ddylai sefyll.
Hyf wladwr, er cofleidio,
Gwythi'n braint ac iaith ein bro,
Ydoedd ynad tra chadarn
O iawn bwyll i weini barn;
A theg i bawb – gwell na thâd
Dilys i lawer deiliad –
Rhad i'r drefn – trwy law Duw Rhi
Anwyl, a phob Daioni,
Mawl y por a gano'r gwynt,
A holed byd ei helynt.

Gwae'n hanwyl fro gynhenid
Am y praidd oedd emau prid;
Oll yn wiw mewn llawen wedd,
Drwy gariad hael drugaredd;

Ynddi'n g'oedd rhyw filoedd fu
Yn llemain ac yn llamu
O naws dda ryw ddyddiau'n ol,
Arosent yn hir oesol;
Ond O! hil eu nodau hwy;
In' ydynt annirnadwy
Mewn beddau gant, siomiant sydd
O'u gweled draws eu gilydd; -
Da chwi, oer lu, dowch i'r lan
Oll, oll, O! deuwch allan,
Heb ddrwg chwant o bant y bedd
I rodio mewn anrhydedd; -
O'ch adwyth, dewch a chodwch
Yn bur hy, o'ch lletty llwch,
I fyr ennyd gyfrinach,
Am uchel ac isel ach,
Eto'n iach yn llu di nam
Ebrwydd deffrwch, had Abr'am,
Adgofiwch o'r llwch y lles
Caffael rhyw faint o'ch cyffes;
Ef allai i'r gyfeillach
Yn y byd am ronyn bach
Roi i'r diafl ryw fawr aflwydd
Er da'r Mesia a'i swydd.
Gan hyny'n gain (wahanawl)
I weini'n hyf yn ein hawl
Dychwelwch i adchwilio -
Eto, wych braidd, tua'ch bro,
Er gweled ei dirgelion
Ar y sydd o'r feroes hon.
Ust! ddyn, mae'n dilyn o dol
Yn ddiau angau ingol;
Am hyn cofia, briddyn brau,
Y dwthwn byddi dithau
Yn y bedd o swm y byd,
Adref yma cei'th edryd.
Wel, wel, yn awr mi welaf
Uno â chwi mwy ni chaf,
Hyd â'r y ddaiar hardd hon
A! beth yw'm holl obeithion;
A gawn ni'ng nghyd ganu'n iach;
O! frodyr yn hyfrydach,
Mewn mawr hedd y gorweddaf
Gyda chwi trwy ged o chaf,
O'r golwg, hoff drigolion,
Eto, ryw sut clywir son.
Af yn awr i fyw yn wyl,
Nesaf i gadw noswyl;
Chwithau oll cysgwch weithian

CYWYDD Y CHWAIN

Cysoddwyd y cywydd canlynol mewn ffermdy nid nepbell o Ddolgellau herwydd i'r bardd gael ei aflonyddu gan chwain, a hyny yr unig noswaith y bu yno.

Chwain, chwain nid wyf yn chwenych
Bod yma dan arwa' nych.
P'le'r ydwyf? pa lwyr adwyth
Weithiai lanc at y fath lwyth?
A fu gweis yn fyw o'u gwaeth,
Neu deulu mewn bodolaeth?
Naddo 'rioed mor gynddeiriog,
A'u crefft megys mater crog.
Mal y brain ar ymyl brig,
Ysgrydau gwasgaredig;
Ynt i'm corff am ei orphen
I'r byw, yn gynar o'i ben.
O!'r anwyl, er mor weiniaid,
Egar a blin gyr y blaid.
Bawb yn wyllt – myn'd bob yn ail,
I 'nghosi dan fy nghesail:
Yn benrhydd gwneud pob anrhefn
Hyd fy nghoes ac hyd fy nghefn,
Nes troi 'ngwedd yma, deddyw,
Yn wael wedd, ond adwedd yw.
Och! w'r y tŷ; chware teg
Rhag chwain a'u rhwyg ychwaneg:
Mi a'u gwnaf o fy 'stafell,
Yn hysbys â bŷs i bell,
Am eu bod (syndod fydd son)
Fileiniaid oll mor flinion.
Pwy byth wêd pa bethau ynt?
Pa reidiau? pwy ryw ydynt?
Hwnt â'r gweilch, y maent rhy gas
Yn genfaint dan y gynfas.
Er rhoi llam, a cheisio gwamal
Hela dig rwy'n ffaelu dal.
Rhagddwy'n llym trwy rym yr ânt –
Ffei! ffei! er gwawd a fföant:
Nid o'u cell fawr yn mhellach,
Pan eu b'ont am dipyn bach.

Sil y fost gwnewch ymostwng
Neu y bardd, digardd a dwng, -
Ewch i dd---, gadewch i ddyn,
Ar unwaith, gysgu ronyn.

Yr Herald Cymraeg, Awst 1858

**ENGLYNION I'R DIWEDDAR BARCH. JOHN JONES,
TALYSARN.**

Llawn o ddeall yn ddiwyd, - diodid,
Ydoedd Jones trwy'i fywyd;
Ymsafodd mewn moes hefyd,
A chyflawn barch o flaen byd.

Oedd oludawg dda wyliedydd, - nwyfus
A nefol Dduwinydd;
Gwrês a ffawd y grâs o ffydd
A fu'n gryf yn ei grefydd.

Ynad call o enaid cu, - prif was oedd,
Prawf saint y Duw Iesu;
Canwyll lân – cynnullai lu
Goroediog i'w gwaredu.

Bu wir nawdd i bob rhinweddion – parawd,
Yn peri gorchestion;
Dewr chwyfiai drwy uchafion
Wrth agor iaith gywir Iôn.

Drwy Anwn ei daranau – a siglent –
Ys eglur feddyliau;
Caid dammegion mawrion mau
Urddunol o'i fawr ddoniau.

Myg ffrydiau amgyffredion, - ei lwybraidd
Oleubryd fyfyrion;
Oedd haelwyl i dduwiolion
Anhafal îs y nef lôn.

Ei firain glod anfarwawl, - a'i goethaidd
Bregethau effeithiawl;
Goronid gan gywreinion
Uchelion gwynion y gwawl.

Ennynai o'i fewn anian fyw – gyrchai
A gorchest uchelryw;
Mad un oedd, ond mud iawn yw,
A chuddiawl mewn llwch heddyw.

Y Drysorfa, Gorffennaf 1858

YR HAF
(Cymeriad Geiriol)

Mor dda yw'r haf, mor ddiën, - mor siriol,
Mor seirian yw'r heulwen;
Mor ewybr mae yr wybren,
Mor derydd beunydd uwch ben.

Mor geinion y mae'r eginau, - mor hardd,
Mor wyrdd yw eu lliwiau;
Mor odiaeth mae yr ydau,
Mor wâr, mor gynnar yn gwau.

Mor lân yw'r adar amryliw, - mor glau,
Mor glir ac ereswiw;
Mor llon eu gemau eurlliw,
Mor gun yw eu llun a'u lliw.

Mor llawnion y mae'r llwyni, - mor loew,
Mor lawen yw'r ffrydi;
Mor hylàn yw'r môr heli;
Mor dyner yw Ner i ni.

Y Brython, 1858*

* Ail-argraffiad o'r cyfnodolyn – ni nodwyd y misoedd

Y BARD D AR Y MOR

Y nos oedd deg, a gwên yr haul
Yn araul drwy'r gorllewin;
Pob peth yn llon, yn rhy ddi lyth
I'w ddeall byth i ddewin.

Dros Ddyffryn maith y cogau gynt,
I'n helynt mordeithiasom;
Neu Gantre'r Gwaelod, fangre dlos,
Heb aros ni dreiddiasom.

Yr oedd yr hin ym min yr hwyr,
Fel pe mewn llwyr lonyddiad;
Ond cododd tymmestl gref ar fyr,
Annifyr fu'i chynnyddiad.

Y môr a gaid â'i ddrych yn drwm,
Yn drathrwm O! mor arw
Gerwinol oedd yr adeg hon,
Gan ofn 'rown bron â marw.

Y tonau wnaent o'n hamgylch ni
Gyfodi ac ymhyrddu,
A'r pysg ddiengent hwnt ar led,
Wrth glywed y tabyrddu.

Ymguddient hwy, llusernau'r nen,
Uwch llen o dew gymylau;
Ymfolltai'r mellt mewn dirfawr rym
Yn gyflym in hymylau.

Ymrwygai'r môr, ymsiglai'r cwch,
Er elwch uwch y dyfnder;
Tabwrdd ystorm oedd yn dra chwim,
Heb ddim i'w weled [sic] mewn llyfnder.

Adseiniai'r nant a'r uchel fryn
Pryd hyn eu cerddi'n wychion,
Y corwynt troellog pan yn gwau,
Âi drwy y creigiau crychion.

Er hyn i gyd, ni gawsom lan
Le gwiwlan i ymddanu,
Do, do, yn ddiddos mewn cwch bach
Yn iach, a thestyn canu.

Y Brython, 1858*

* Ail-argraffiad o'r cyfnodolyn – ni nodwyd y misoedd

GOLYGFA O DEML ANIAN

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Y gwrymiawg fôr sy' ddwfn a gwyrdd,
A'i safnau yn dafodau fyrdd:
Fe geir ei wel'd mewn llawer trefn,
A'r llongau'n dawnsio ar ei gefn, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Drwy'r meith afonydd (eiddo'r Ior),
Tryliwiog emau sydd yn stôr;
Ac anifeiriol hegiol bysg
Yn ymddifyru yn eu mysg, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Y dyffryn hoff a'r faenol werdd,
Trigfanau dysg – anwylion cerdd;
O! mor ddeniadol ynt i gyd,
Dan feillion braith a lawnt yn nghyd, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Rhyw addurniadau'n meddu swyn
Sydd acw'n gogoneddu'r llwyn,
Nes hudo'r adar pêr mewn chwa
I gathlu'n hoenus – hwn sy' dda, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Yr oesol greig anferthol sydd,
Fel yn ymgrogi nos a dydd;
A'r bryniau erfawr, er mor erch,
Yn denu'n rhwydd bob dynol serch –
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Mynyddau cribog, enwog iawn,
O amgylch ogylch ini gawn;
A glân reiadrau'n treiglo'n gerth
I lawr dros eu llechweddau serth, –
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Yr awyr gron, fel gwyrddlas flwch,
Sy' nawdd i ni – yn berffaith fflwch;
Rhydd wynt sisialog ar bob llaw,
A gloewon ddagrau gwllith a gwllaw, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Mae'r olwg oll yn hardd; -
Yr haul tanbeidiol a'r sêr cain,
Sy'n datgan mawredd Duw heb sain;
O! drefniant doeth, - mor deg yw gwawr
Llusernau y ffurfafen fawr, -
Mae'r olwg oll yn hardd!

Yr Herald Cymraeg, Mai 1859

ENGLYNION Y PAUN

Dydd Llun, y 3ydd o'r mis hwn, aethum i ymweled a'r athrylithgar Owen Owens, ysw., Bodnithoedd. Modd bynag, wrth i mi ddyfod oddiwrtho, canfyddais ger Nanhoron, Baun, a chysoddais iddo yr hyn a ganlyn:-

Mor gêd, pwy sydd weledig? – a phinagl aur,
A phen glas nodedig;
Y Paun yw'r gwalch balch ei big,
Un addas pur foneddig.

Y mae ryw olwg amryliw – geinffel
Trwy'i gynffon delediw;
Gwmwys un – gemau sy' wiw,
Yw cynllun ei blyf canlliw.

Mewn dullwedd mwyn a dillyn – yn wisgi
Myn ysgwyd ei edyn;
Mae'n bor gwych uwch marmor gwyn,
Mil harddach nag aur melyn.

Dy waneg a adwaenais, - wyd liwfrith
Dy lifrai a hoffais;
Baun cun, a'th gael ddymunais
At les byw, y tlws ei bais.

Yr Herald Cymraeg, Ionawr 1859

AWDL ARWYRAIN Y CEILIOG

Mab yr iâr, cynar y cân, - y bore
Yn beraidd ei gyngan;
O gern ei glwyd mae'i gorn glân
Fal ergyd o fol organ.

O!r ceiliog lliwgar celfydd, - praff ydyw,
Proffwydwr boreuddydd;
Oes blaenor mwy ysblenydd
Ei lân, na dewin y dydd?

Rhydd fawl ebrwyddawl er bri – drwy hofflef,
Yn draphlith o yni;
Mewn ystŵr a mawrwri,
A'i nwyd yn orchest ini.

Wâs anwyl, brwd y seinia,
O'n clyw, nid encilio wna
I'w noddfeydd a'r cludfeydd clau,
Ar adeg hel yr ydau;
Ond myn wledd, – mae'n rhyfedd ryw,
A llywiawdwr llu ydyw,
O'i gaban i'r ysgubawr
Mae'n frenin y fyddin fawr;
Ac eurdda bwnc, a'r gerdd o'i ben,
Yn gywir serchog awen.

Wrth wel'd ei bryd ar hawddfyd orweddfa,
Mwy o lawenydd ynwyf ymlona,
Hyf yw ei ystum – mwyfwy ymfostia –
Ac o'i ddigrifwch bywiog ddygrafa:
I ddyn, efe sy dda, - uwch perlau têg,
Neu euraidd iawndeg emau'r ddwy India.

Tra meillion dillynion llawr,
Yn syflyd ar ein saflawr;
Tal ymsytha, rhodia'n rhydd,
I'w gweled gŵr bwy-gilydd;
Ac ieir mal yn ei ganlyn
Drwy'r holl ffyrdd mewn gwyrdd a gwyn.

Ar amserau,
Trwy iawnderau,
Try yn dirion;
Hyd gyweiriau,
Glwys gadeiriau,
Glas-goed irion.

Am noddfa, mwy o nawddfyd, - e gyrcha
Mewn gorchest dra hyfryd;
A rhywfodd fe'i ceir hefyd,
Awr ac awr yn gawr i gyd.

Mae'i nôd yn hynod o hardd, - ac yntau
Yn gantor mwyneiddgerdd,
Uwch llawer hîl a mil myrdd.

Trig yr edyn tra gwiw radol,
Ys, yn dadol was nodedig;
A'i sain wed'yn yn swyniadol,
Un bwriadol, yn buredig;
Mae'n brofiadol yn wastadol,
A chwiliadol, ucheledig;
Pur serchiadol, yw'r deniadol,
Yma'n wladol, mae'n weledig.

Falch bendefig a brig braint,
A goreu walch, sy gywraint;
Tardd o hono'n ddigon têt
Emau, o liwiau lawer,
Mal enfys fawr geinfawr gu,
Yn dinam ordywynu;
A ser llon asur eu lliw,
O lewyrch claer, amryliw;
Neu nôs, - blodionos ei blu,
Oll i gyd sy'n llygadu;
A'i gern, a'i grîb, yn fflam goch,
A'i dagell megys dugoch;
A phob cell o'i fantell fyg,
Yn goronbleth gywreimblyg.

Yr Herald Cymraeg, Gorffennaf 1859

ANERCHIAD

Y Bardd idd ei hen athraw, sef Mr. H. Ellis, Foel Gron, Llangian, Lleyn.

Ba fodd, nis gwn i ba faint – i'w adrodd
Am wrhydri cywraint
Y brwd Elis, - mae'n llawn braint,
A gwir hyfryd ragorfraint.

Llawer mor ddwl a lloiau, - yn y byd
Sy'n byw hir flyneddau,
Ydd ynt, fel pe yn ddiau
Mewn cwd yn mynu eu cau.

Dwyn y gweiniaid dan gynen – a mwgwd,
Wna magwyr cenfigen;
Enill y byd o'r naill ben,
A chwyno i esgor chwanen

Ydd Elis nis gwna ddilyn – y cyfra!,
Bydd cofrwydd o'i derfyn;
O! gwyddom fod y gwiwddyn
Yn fur da – efe yw'r dyn.

Mae'n dad i dalent llawer plentyn – gwael,
Ond gwych iawn ei goryn;
Pyla! yntau y plentyn
Bychan, llad, mae'n dad y dyn!

Mawr ethawl Omeriaethydd, - ydyw ef,
Ac od naturiaethydd,
Rhesymwr a rhifwr rhydd,
A thra enwog athronydd.

Er syndod a chlod, uchel wyr – gwympant
Wrth ei gampau pybyr;
Dengys lwybrau llongau llyr,
Gan wybod eigion ebyr.

E dremia draw yn llawen, - ar harddwch,
Ar urddiant pob elfen,
Ar dir, ar wellt, ar fellten,
Ar niwl a gwychder y nen.

Gwyr am oror dor y daran, - chwedi
Gwarcheidwad y trydan: -
Gwythenawg wythi anian
O'r tud mwll i'r tywod mân.

Nifer ffyrdd gwyneb Neifion, - e nodi,
Planedau Caer Gwydion,
Y ser eres a'r Orion,
Drwy gylch hanfodiad yr Ion.

Hanbo chwai a henbych well, - i Elis,
Am oleu mor ddiell;
Bu'n addysgu llu o bell, -
Dwyn y byd o dan badell.

Bloeddier, rho'ed llawer llu, - wys bereiddfawr,
Nes bo'r Wyddfa'n crynu,
I wr call – henafgwr cu,
Ac amrant llygad Cymru.

Yr Herald Cymraeg, Mai 1860

AT EBEN VARDD

GAREDIG SYR, - Derbyniwch fy niolchgarwch gwresocaf am eich eglurhad ar yr hen Gywydd yr appeliais atoch yn ei gylch, ac am eich dull diymffrost a difympwy, gwylaidd, ac anmhenderfynol gyda'r cyfryw: eisieu gweled rhagor yn dilyn yr un llwybr a chwi y sydd; nid o ran henafiaeth yn gymaint, feallai; eithr o ran pethau ereill yn hytrach. Yr wyf sicr fy mod gwedi llefaru fy nheimpladau yn onest, ac na'm cyhuddir o weniaith ychwaith.

Diolch yt, EBEN dawel;
Dedwydd wyt, deued a ddel;
Yn llonwar un llawn o ras,
Yn eryrog arwrwas;
Hoenus iawn a hynaws wyt,
Caredig, cywir ydwyt;
A chenytt wych hynod hawl,
Ffordd union a phur ddyawl,
Ffordd i drin talent plentyn,
Ffordd deg i gyffwrdd â dyn;
Ffordd lwyfaidd, a ffordd lesol,
Heb waith ffug, neu bethau ffol
Ffordd gwir brofiad – treiddiad trwy
Rhyw nodion annimadwy
I gyfundraeth gyfiawndrefn, -
A ffordd i droi ffyrdd i drefn;
O gaeth orchudd anfuddiawl,
A'th gred yn gweled y gwawl.

Hefyd uchel yw'th helynt,
Yn elfenau'r gemau gynt;
Adwaen y teidiau'r ydwyt,
A'u byd hen, llwyr wybod wyt,
Gwyddost am heirdd agweddion,
O'r oesau oedd i'r oes hon,
A gwyddost bob egwyddor
Fu ar fyd o fôr i fôr,
Ti gefaist hynt a gafael
Ar ddefnion henafion hael,
Megys o lyfr, gloewlyfr glân,
Y wythenawg faith anian;
A chael a wnaethost bob chwedl,
A gynnwys cof y genedl;
O deithi syml doeth yw son
I'r hybarch ddiarebion;
Hanes hen Gymru hynod,
Ei chlwyf, ei gogan a'i chlod;
Hanes ei dewrion heini,

A sut llawn ei chestyll hi;
Hanes y beirdd a hunodd,
Eu deall mawr – dull eu modd;
Arwydd y Meini Hirion, -
Y Grwth – rheolau'r Ford Gron –
Graddau eu llu goraddien,
Doethder eu lleufer a'u llên;
Ac a'th wedd yn ail i gall
Dderwydd o'r oesoedd arall.

Urddedig brif-fardd ydwyt
Ac anadl iaith cenedl wyt;
Bardd o wybodau nid bas,
Harddwr y beirdd a'u hurddas;
Brig a bôn ac eigion cerdd,
Od bynciwr – tad y bencerdd;
Bardd uwch beirddion cryfion cred,
Am wau emynau mwyned;
Bardd i wlad uwch beirdd o wledd,
Ar chwyl mewn arucheled;
Bardd hyfedr pur ddiledryw,
A'th awen yn fellten fyw;
Heb ffug, neu seithug sothach,
Cred yn rhin Caridwen wrach!

Yr Herald Cymraeg, Mai 1860

PENILLION

Ar farwolaeth Miss Jones, unig ferch Mr. W. Jones, Pandy,
Llangian, Lleyn

Laura, mewn harddwch bob llwchyn, - ddeffry
O ddiffrwyth oer ddyffryn;
Dring i'r ne', drwy'r gwagle gwyn,
O'r dulawr at aur delyn.

Pan roddes oedran goron
Ar ei deniadol wawr,
Ei thegwch a ddiflanodd
Yn mhen ryw enyd awr;
Ond herwydd ei golygiad,
Ei throediad ar y ddol,
Ei chorff a'i henaid hawddgar,
Bydd galar hir o'i hol.

Diangaist ymaith, Laura,
Gadewaist fyd o boen;
Ni roddaist fawr o rybudd –
Diangaist at yr Oen;
Os cefaist drwm gystuddiau
A thipyn bach o fraw,
Cei fythol bwys gogoniant
Am hyny'r ochor draw.

Pan oeddit ti yn marw –
Yn ffoi o'r ddaear ddu,
Ca'dd plentyn bach ar hyny
Ei eni acw fry:
Dy ysbryd noeth, anfarwol,
Y feinir wylaidd, wen,
Mae'n ddiau oedd y plentyn
A aned uwch y llen.

Am dano'n bur anwylaidd
Ymaflai angel glân,
I'w ddangos idd ei frodyr,
A dyrchai'r nefol gân.
Llawenai, a dywedai,
“Wel dyma blentyn llad,
Mae'n hynod ogoneddus,
Mae'n debyg iawn i'w Dad.”

Darfyddodd byth dy ofid,
Do, do, yr eneth gu,
Dy alar dry'n llawenydd,
Yn y Gaersalem fry:
Cei ganu mewn dedwyddwch,
Dedwyddwch uwch y llawr,
A nofio mewn gorfoledd
O flaen yr orsedd fawr.

Os oedd dy gân mor felus
Rhwng muriau Capel Nant,
Beth yw ei mwynder heddyw
Wrth daro'r nefol dant?
Bydd wych! boed i'th rieni
Ro'i heibio wyllo'n hwy
Cewch eto gydgyfarfod,
Na raid ymado mwy.

Yr Herald Cymraeg, Awst 1860

ENGLYNION
COFIANT AT GWILYM DROED-DDU

Gwilym, fardd edmyg hardd-ddyn, - y cyfaill
Cofiwyf at dy gorphyn;
Buost gawr goruwch llawr Llŷn,
Ein gadael gwnaethost gwedyn.

Ceinfeirdd o hyd sy'n cwynfan – nad yw'th farf
‘Neud i'th fost, ond bechan;
Y gwas ni chei byth gusan,
Neu drin merch hefo drain mân.

Y Cymro, Awst 1860

ANERCHIAD BARDDONOL
A draddodwyd yn Nghyfarfod Llenyddol Criccieth,
ddydd Llun y Sulgwyn

Pob ysmic heddyw yn Nghricciaeth,
Yn dda fo, ac yn ddi fêth;
Dymunaf gydâ mwyniant,
Iwch lenorion, swynion sant;
Ar wir drylen daflen dysg
Ymladdwch am oleuddysg;
Na hidiwch grach na bach bwt
O loesgrefft ambell lasgrwt;
Llenwyr llac, ail i gacwn,
Neu big aderyn y bwn;
Bach o gyrff, prin baich i gi,
Gwyr annoeth yn gwirioni;
Tra gwneir pill, a sill, a sôn,
Felly byddoch gyfeillion.

Yr Herald Cymraeg, Mehefin 1861

YMSON Y BARDD

Mae'r greadigaeth drwyddi'n llawn
O dystion i'r anfeidrol Dduw;
Mae'r haul, mae'r lloer, yn fyw a'i ddawn,
A hwy'r planedau o bob rhyw;
A'r ser – os ynt i'r haul yn blant,
Y maent yn ddoeth, yn deg eu gwawr,
Yn dawnsio clodydd fel myrdd cant,
Gan lesmair at y Duwdod mawr.

Mae yntau'r môr yn ol ei drefn,
Yn murmur Duwdod wrtho'i hun;
A bythol ar ei wastad gefn,
Yn dangos Duw yn mhob rhyw lun:
Fe gwyd ei freichiau fry yn hyf, -
Ymddyrrha'r un dragwyddol gerdd;
A phoera'n chwyrn, yn wyllt, a chryf,
I wyneb creigiau daear werdd.

Mae'r tân, a'r tir, a'r gwynt yn fyw,
A hwythau'r creig a'r gwylltedd llwm,
Yn cyd roi'r teyrned o flaen Duw –
Hyawdledd dardd o fryn a chwm; -
Mae gwersi ar y blodeu mân,
Ac addysg gan y dail i gyd;
Llefarant oll – maent ar wahan,
Yn datgan Duw! o hyd, o hyd!

Mae'r anifeiliaid oll ac oll
Yn ei warantu'n gadarn sail,
Gan chwyddo'i glodydd heb ddim coll,
Yn gydgor llawn rifiedi'r dail:
Ond p'le mae dyn, greadur hardd,
Heb floeddio mawl i'r Duw sy dda?
O! deffro ddyn! – dy delyn chwardd! –
Prysura fod eneidol, gwna!

Yr Herald Cymraeg, Awst 1861

RHIANGERDD

CYFLWYNEDIG I RIANOD GLAN CYMRU

“Nodiad cylch cariad calch caerydd – yw Gwenn,
Ne ganniad ysblenydd;
Ne’r manod gwyn eiry mynydd;
Ne ffres win yn ei ffrîw sydd.”

IORAETH HEN a’i cânt.

DYWEDIR, gwneir, fod Rhian,
Yn harddach nag yw dyn;
Mae hyna’n dilyn anian,
Ac wrthi saif yng nglŷn:
Hen Adda ga’dd ei lunio,
O bridd fe’i gwnaed yn llon;
Rhoed dwyfol urddas arno,
Ac iddo’r ddaiar hon.

Daeth Efa deg o hono,
Yn llaw’r Anfeidrol Un;
O’r priddyn ‘nol pureiddio,
Cywyched oedd ei llun!
Ond eto, er holl swyniant,
Ei merched uchel fryd;
Mewn natur ac urdduniant,
Nid cydradd ynt i gyd.

Mae rhagor rhwng seren a seren
Mewn dullwedd, gogoniant, a maint;
Mae rhagor rhwng meinwen a meinwen
Mewn gosgedd; (ond rhyfedd yw’r fraint):
Ac hefyd, mae dirfawr ragoriaeth,
Rhwng dynion a dynion mewn serch,
Fel yna drwy rëol *amrywiaeth*,
Diandlawd yw moliant *pob* merch.

Olrheinir yr unrhyw linellau
Yn nhrefn cyfansoddiad pob peth;
O *achos* i *effaith* yn ddiau –
Mae hyna’n brydferthwch di feth;
Mae *achos* yn geinder hanfodol,
A’i ansawdd yn hyfryd ac erch;
Ceir anian mewn undeb deniadol, -
A’i phlant yn ymgyfarch mewn serch.

Cawn effaith *carwriaeth* i'n synu,
Cyd-rhwng ein hen ddaiar â'r nen;
Mae bodau y ddaiar yn gwenu,
Ar fodau y nefoedd uwch ben:
Mae'r ser ar lu'r ddaiar yn wincio,
Mewn gwely o glaer awyr las;
Gan geisio'n feunyddiol eu swyno,
A'u hudo o'u tyner le bras.

Y lleuad, mae'n hynod ysmala,
Wrth syllu i lawr ar y môr;
Tra yntau fel pe mewn ymdrechfa
Am iddi gil-agor ei dôr;
Gael iddo ddod ati i garu,
O herwydd ei bod hi mor dlos;
Ymunant – aiff hithau i gyssgu,
Ar fânblu obenydd y nos.

Y mae hoffder at ei eppil,
Oes, ym mynwes pobpeth byw,
Sef o ddyn hyd at y bwystfil
Gwael distadlaf yn ei ryw;
Mae'n egwyddor drwy y crêad
Yn hiliogaeth anian fawr;
Dyma gronfa gref, neu darddiad
Holl serchiadau teulu'r llawr.

Idd y rheol hon mae eithriad –
Eithriad trosiad rheol yw:
Od oes bodau byw heb *gariad*,
Nid ynt oll ond pethau gwyw;
Y maent fel gwrthdychau marwol,
Yn werth dim o fewn y byd,
Er hynyna gwnant y *rheol*,
Yn fil harddach yn ei phryd.

Er fod *cariad* mewn gwylltffilod,
Cariad cryf mal ffrydlif tren;
Nid yw'n gudd, - na chwaith mor hynod –
Cariad dyn – mae hwn dan len;
Yn y naill ceir *greddf* yn unig,
Yn rhoi'r teimlad brwd yn un;
Ond mewn dyn ceir yn seliedig
Reddf a rheswm yn gytun.

Y dyffryn gwastadlyfn a'i laswellt melfedog,
Y meusydd tawelgain a'r gerddi godidog,
Y dolydd äangfraith dan garped meillionog,

Yn gwenu'n ddiledryw a'u cnydau'n doreithiog;
Y cymoedd briallawg a'r bryniau coronog,
Lle tyfa perllysiau yn llwyni ardderchog,
Y serthion fynyddau a'r creigiau mysyglog,
Y nentydd tra'n siarad ar wely gwlybyrog,
Y llynoedd castaliaidd a'r nwyfre gyfliwiog,
Gyd-unant i ddangos *serchowgrwydd* dihalog,
Mewn difyr olynïad, mewn cymmysg ddillynliw,
A pherffaith raddoliaeth o oliw i oliw;
Mal peithlen brydferthwedd heb iddi gynhebyg,
Yn taro'r edrychydd i eigion per-lewyg.
O! olwg ysblenydd! mae *cariad* yn gerfiol
Ar fanau rhamantlyd yn elfen anfarwol!
Mae *cariad* yn sylwedd nas gellir ei ganfod,
Ei *effaith* yn unig wir ddengys ei hanfod.
Pan brancia y corwynt fel cadfarch gornwyfus,
O'i loches, a'i ffrwyn ar ei wâr yn arswydus;
Pan fathra y goedwig, pan rwyga'r uchelfryn,
Wrth ruthro bendraphen fel hwrdd yn ei erbyn;
Pan gyffry y weilgi ymdorchog ei gwysi,
Bydd *cariad* yn chware – yn difyr ymloni!
Pan dreiddia y fellten nes gwneuthur taranau,
Bydd *cariad* yn hoenus yn dangos ei gampau;
Pan luchia y cwmwl â'i fwng mawr gorhydrin
Y mân-wlaw i'r ddaiar, bydd *cariad* yn chwerthin!
Ond weithiau tyr allan o'i ddyfnaf ddirgelwch, -
Yn benaf, yn llygaid fy Rhian mae'i harddwch.

Fy Rhian sydd yn hardd; -
Un hynod lân yw'r ddyndan ddoeth,
Hi ddeil ymuniad, *cariad* coeth,
A'i bardd o hyd – mae llawn o wres
Yn lleuad wâr mal ceinlliw tês,
Fy Rhian sydd yn hardd!

Fy Rhian sydd yn hardd; -
Gwell yw ei chariad hi na gwin,
O'i mant anadla serch a rhin,
Pwy feia ddyn o berffaith nwyd,
Am foli'r fun lygeid-fain lwyd!
Fy Rhian sydd yn hardd!

Fy Rhian sydd yn hardd; -
Ei gruddiau, maent yn cynnwys swyn,
Hawddgarwch gwiw a gwenau mwyn;
Mae'n lwysach na'r flodeufa dlos,
O flaen ei thegwch gwrida'r rhos,
Fy Rhian sydd yn hardd!

Fy NON, fy Non, fy Rhian wèn anwylaf,
 Fy nghariad fad, fy lili hoff brydferthaf,
 Rho'wn law mewn llaw, a chalon bur wrth galon,
 A byddwn unllaw, uniaith, ac yn unfon;
 Gwna ataf droi, ac â gwynebpryd siriawl,
 O! moes im' gusan y fanon wech fwynawl;
 Brysia ferch, brysia, gwisg uniawn diriondeb,
 A thyred i'm gwasgu, - myg im' yw d'ardeb! –
 Mae'th wallt modrwyog o gain liw melynaur,
 Fe droella'r awel ei lywethau rhuddaur;
 Gwynllaeth dy wedd, a'th fronau fel cwpanau,
 Tynrwch saif o gylch dy heirdd arleisiau;
 Tra'n iach dy feingorff, dy drem fydd aruchel,
 A'th deg ysgogiad, fel ysgogiad angel.
 Wel dyna berl, prif harddwch yr holl ddaiar,
 O! urddasoled yw ei hagwedd hygar;
 Mae'n uchel ei bri – yn brydferth fel marmor,
 Mewn gwisg o borphor neu *scarlad dieisor*,
 Braidd un ffunud a'r haul ar fachludiad,
 Neu'r lloer ar ei chodiad – dyna'i gwelediad! –
 Hi'm d'rysodd trwy draserch, luned mor firain,
 Awn ar ei hol dros drumau seithfryn Rhufain.

Fy Rhian, 'nawr ei gweled 'r wyf,
 Fan acw megys dan ei chlwyf,
 Yn eistedd mewn unigedd llwyr,
 Yn bur ostegol fin yr hwyr;
 Gan dremio'n ddyfal tua thraw,
 A chynnal pwys ei phen â'i llaw;
 Ac ymglymu, hon â fÿn
 Yng ngwreiddiau fy serchiadau'n dÿn,
 Mae'm calon ynnddi, - feinir hardd,
 Mae gwrid ei grudd fel rhosyn gardd!
 Ac O! hawddgared yw ei phryd,
 Yn fyw gan wenau glwys i gyd!
 Mor ysgafn sang, o'r braidd na âd
 Ei thraed y ddaiar a'i holl râd;
 Mae'i gwyneb yn dysgleirio gan
 Ogoniant cariad ym mhob rhan
 O'i henaidd; nerth serchowgrwydd cryf
 Sy'n dawnsio yn ei llygaid hyf,
 Ni ddeil fawr dristwch, eto os
 Ymdreigla tynged galar dros
 Ei phen, daw'r dagrau hi â'i bÿs
 A'u teifl hwy ymaith gyda brys!
 Fel *Gwener* gynt, ar gwmwl gwych,
 Yn eistedd, ac yn eglur ddrych
 O bob rhyw ddymunoldeb mawr,
 A phob hyfrydwch; - mae ei gwawr,

Fel gwawr y bore pan bydd,
Yn esgor ar oleuni dydd.
Gosgorddlu o obeithion ânt
O'i blaen, a cheisio'i hudo wnant,
I ddod i'w cwmni, nwyfus lu,
Yn addurn i'w trigfanle cu.
Y fun nid â, - ond nerthoedd swyn,
Ymdonant hyd ei gwyneb mwyn;
Un ddull a'r llÿn yn donau mân,
Pan chwyth yr awel iddo'i chân;
Tra mae dysgwylion tyner gant,
A dymuniadau gylch ei mant,
Yn chware fel y rhilion glân,
Wrth effaith ei chuddiedig dân.

Dan gysgod cref dderwen ar gopa rhyw *fanc*,
Mae'r wryf mewn pryder yn dysgwyl y llanc;
Wnaeth ammod seliedig, neu oed gyd â hi,
Gan addo'i chyfarfod, mewn rhwydd-deb a gwi;
A hyny cygynted â chodiad y lloer,
Ond eto nis deuodd – mae'r hin yn lled oer;
A hithau'r ol casglu y blodau chweg faeth,
A'u gwneyd yn flodeuglwm i'w dewis ddyn ffraeth;
Ac yna iawn blethu y glaswellt tra'n îr
Yn fflangell fwyn iddo am aros mor hir,
A cheisio tryrifo llu'r wybren bob un,
A chanu pennillion i loni ei hun,
A thybio pob trystiad yn drystiad ei droed
Ac mai efe ydyw pob cysgod drwy'r coed;
O'r diwedd och'neidio ar ambell i dro,
A gofyn, ai hynod anffyddlon yw fo;
Pan dorai ei ammod, a gadael ei Non,
Gan hired i ddysgwyl nes brydio ei bron?
A chredu ar unwaith yr hen gynghor gynt,
Nad oes goel ar feibion ddim mwy nag ar wynt!

Ond ust! gwahanol drwst sy'n bod,
I drwst a fu o'r blaen – mae'n dod;
Mae yn ei hymyl – am ei llaw
Ymafla – hi a'i ceidw draw,
Nes iddo ddweyd pa fun a'i troes,
A pha sawl cusan iddi roes;
Gan edliw anwadalwch dwys,
A'i alw, braidd, yn elyn mwys:
Heb chwilio'r amryfusedd llwyr,
Wnai dyner galon fel y cwyr;
Tra'r ymddiheura yntau'n daer,
Yng ngwyneb yr angyles glaer,
Nas gwnaeth ymdroi – mae'i rudd yn wleib,

Wrth wirio'n frwd nas gwelodd neb;
Ond ar hynyna, dyna'r ferch,
Yn gwenu'n falch – mae'n llawn o serch!
Boddhad eistedda ar ei gwedd,
A'i gwefus ddeisyf gusan heddi;
A'i llygaid yn chwerthin ar bob amrywiadau,
Mewn triphlyg brydferthwch a theg ysgogiadau.

Ac yna'r ddau iesin a gyd-ymeisteddent,
Yn foch-goch a minfin, a'u harddull yn lân,
A chyd ymgofleident, - mewn rhinwedd rhagorent –
Mor bur eu ffyddlondeb – ymhoffent mewn cân;
Eu serchlawn deimladau a'u melus gusanau,
Hydrwyddynt gymmysgent – o'ent hollol gytûn;
Ac eithaf dihalog – wel dyna ddelweddau
Y llencyn hawddgarol, a'r swynol deg fun;
Yr hon fydd ar brydiau yn hynod ddigyffro
Heb feddwl am unpeth, o'r braidd, er mor hardd;
Dro arall i'w gweled llawn cariad yn pefrio,
Pryd hyna'i llawenydd a nawf ac a chwardd.

NON llafarai: beth oedd arni?
A fu hon ryw faint yn fud?
Do, hi gollodd ei pharabliad,
Gwisgodd nodwedd Gwlad yr Hud.
Gan ddipter diniwed,
Gostegai'r ferch wen,
Rhag edrych dim arnaf,
Hi droai ei phen.

NON llafarai: sain hyfrydawl
Dreiddiai odd ei genau gwiw;
Hwnw'n llawn hyawdledd bywiog,
Yn dwyn sylw engyl gliw,
Ger llaw yr ymsafai –
Amneidiai yn iawn;
Hi roddai arwyddion
O nerthoedd ei dawn.

NON llafarai: gwenai wed'yn
Mewn mŷg urddas yn y fan;
Yna chwarddai yn serchiadol,
Cwpan hawddfyd ga'dd i'w rhan,
Ei llygaid ymwawrient –
Ymsaethent yn fawr,
Goruwch idd y crinllys,
A'r llyisiau pêr sawr.

NON llafarai: pur ddeniadol,
Oedd ei swm trwy lys y dail:
Yn cyfateb idd ei meingorff,
Gwisgi, hoffus, a di ail.
Ni cheid ei chyffelyb,
Rhwng awyr a nen;
Mwy cryf nac ei glendid,
Oedd synwyr ei phen.

NON llafarai: mor gyssonol
Oedd ei haraith hirfaith hi;
Gwir ogoniant ei chyfarch-air
Ni lysg tân – ni sawdd y lli'.
Nid oes a'm cysura,
O fewn yr holl fyd;
Ond hi yr anwylaf,
Dirionaf ei phryd.

NON llafarai: hi'm iachaodd,
Rho'es diriondeb ar fy nhrem;
Galwai arnaf – hi'm gwahoddai
At y deildy harddliw gem.
Y fenyw brydweddol,
Canmolaf dy fin;
Mae genyt air melus,
A gwefus fel gwin.

Glwys yw gwedd y ser uwch ben,
Gwawr huan a'i belydron;
Glwys yw'r lās awyraidd nen,
Tra heb gymylau duon;
Glwys a mwyn yw cefn y môr,
Tra'r gwynt yn sio'n egwan;
Eto glwysach na'r holl gôr,
I mi yw gwên fy Rhian.

Glwys i gyd yw'r gwanwyn glâs,
Mewn dillad llawn llawenydd;
Glwys yw'r afon glaeaf iâs,
A glwys yw gwisg y mynydd;
Glwys dros ben yw'r llawrwydd taen,
A glwys y lawnt agored;
Hynod lwys yw'r wllithog waen
Ond glwysach fy hardd luned.

Glwys yw gwel' d y tyrau bân
Mewn arwisg fraith ysblenydd;
Glwys yw'r dail a'r blodeu – pan
Yn gwychu llydain wledydd;
Glwys yw'r gwenyn man lle tardd
Y breilw haf, gleinemog;
Ond mil glwysach gan y bardd,
Ei Rian lân ardderchog.

Glwys yw'r adar pêr eu maws,
Tra'n plethu mwyn ganeuon;
Glwys yw'r wyn diniwed nawws,
Yn sangu'r dolydd gwyrddion;
Glwys yw pob anifail mwy,
O gylch yr holl bedryfan;
Canmil glwysach na hwynt hwy,
Pe baent yn un, yw'm Rhian.

Ynddi hi yr ysgrifena,
Cariad ei dynerwch mwyn;
Ynddi hi yr ymsymmuda
Gwylder gyda'r penaf swyn.
Mae'r feinir mor fywiog a chwim ei dychymyg,
Hi weithia'n ei gobaith rai pethau annhebyg.

Ynddi hi y gwelir prudd-der,
Yn ei holl dirionaf bryd,
Dyma'r gwrthddrych dania duedd,
Enaid yr edrychydd mud:
Mae'i dullwedd gosgeiddig yn hynod delediw,
Cynnwysa amrylais, amrylun, amryliw.

Edrych ar ei haeliau hawddgar,
Tecach ynt nag wybren wen;
Edrych ar oleuni'i llygaid,
Haul gwybodaeth sydd uwch ben;
O hona mae'r deall, y golwg, a'r galon,
Trwy undeb a threfniant yn arllwys eu swynion.

Pe cawn i fy meddiant bob math o drysorau,
Ni pheidiwn a'u rhoddi yn anrheg i'm Non;
Rho'wn iddi sidanau a phob addurniadau,
Er mwyn ei difyru a'i gwneuthur yn llon;
Dymunwn roi iddi iach win breninesau,
Mewn llestryn telediw o wydryn teg waith;
Balm hyfryd arialwch a roddwn ar droau,
Heb edrych dim arno, na'i arbed ychwaith;
O herwydd mae hona i'm bryd fel fy hunan –

Mae'n gartref mwynderau – ymsugna bob heddi;
Wel ynddi yn ddiau, prydferthwch holl anian,
A gyd gyfarfyddant – ant megys i wledd.

Yn enw'r tad rwy'n *glaf* o serch,
Y gynnil ferch ganolfain;
Mae'n eulun hoff, yn hynod dlos,
O'i hachos rwy'n trwm ochain;
Nis gall fy nhirion galon gu,
Ddigaru'r lodes gywrain.

Mae'n oll a luniais yn fy nhyb,
Cyfetyb fy holl ddyben;
Drwy nghwsg mi fyddaf yn rhoi cŵyn,
Gan siarad a'r fwyn feinwen;
Ond O! na chawn, na chawn i'm rhan,
Y ddynan liwus lawen.

Yn awr, O! dywed Rian glau,
A gawn ein dau briodi;
Mae'th fardd bron marw, ydyw'n wir,
O eisiau dy hir gwmni;
Os byth gwneir hyna, cawn bob tro,
Gofleidio'n gydwedd gwedi.

Fy Rhian lân, ddihalog ferch,
Uchelfryd, llawnserch, haelfron;
Dy gynnes fawl anfarwawl fydd,
Tra mynydd, tra môr Neifion;
Mor frwd – mor gryf dy swynol aidd,
Angyles gwraidd fy nghalon.

Y Brython, Mawrth 1861

GWLAD FY NGENEDIGAETH

Oedd yma gynt Dderwyddon,
Yn llawn dyfnderion dysg;
A Beirddion ac Ofyddion –
Gwŷr mawrion yn eu mysg:
O! greirfa'r heirdd wroniaid,
Fu gynt yn enwog rês;
Ni cheir yn awr Frythoniaid!
Fawr iawn o'u tanbaid wrês.

Nis gwyddys p'le mae 'u beddau,
Cyd-wastad y'nt a'r llawr;
Mab anghof, poerodd diau,
Ar lech eu hanes mawr;
Eu henwau ymaith rhwbiodd,
A llawes ei hug bwyr,
Ac amser, hwn bwytaodd,
Eu llaw-ysgrifau'n llwyr.

Meddylwyf am eu gwisgoedd,
A gwddfdorch aur pob Dryw;
Dangosiad o swydd ydoedd,
A phurdeb uchel ryw:
Dan dderi teg henafol,
Areithient yn y llwyn; -
Ar feini mawr deniadol –
Mae ynddynt eto swyn.

Wel oes, mae *swyn* anfarwol,
Yn *enwau*'r pethau gynt;
Hen awdwyr fu hynodol,
Fe'u cofir tra fo gwynt;
Nid ydoes gan farwolaeth,
Awdurdod arnynt hwy,
Maent wedi teimlo alaeth,
Nis gallant farw mwy.

Rhaid fod fy ngwlad yn llawn o swyn
Fe fagwyd ynddi lawer mwyn;
Cyfeillach felys yma ga,
Rhyw luaws mawr, am hyn mae'n dda.

Hoff gan y llygad wel'd y dydd,
Hoff iawn gan gaeth yw myn'd yn rhydd:
I minau, er fy holl drahâ,
Gwlad Lleyrn mae'n wir, sy hynod dda.

Gwlad yw Lleyrn fawr iawn ei braint,
Oedd yn gartrefle cedyrn Saint,
Ac yn fam beirdd – ymddyrrchu wna, -
Wymporion hon oll oeddynt dda.

Gwlad Wiliam ⁽¹⁾ gynt, gwlad Lewys ⁽²⁾ lân,
Gwlad Huw ⁽³⁾ a Thrygarn ⁽⁴⁾ – gwlad y gan,
Gwlad Gruff ab Crach ⁽⁵⁾ – fy enyn wna,
I fwyn syganu – O! mae'n dda!

Gwlad hen fonachwyr ydoedd hon,
A gwlad y mêl – daeth gwin o'i bron;
I ddyn llawn pwyll rhoi mwyniant wna –
Rhaid cofio Lleyrn, oedd gynt mor dda.

Fe'i gwelwyd gynt yn hardd ei llun,
Yn gwisgo'i hun â doniau;
A'i llygaid pefr yn danbaid lon,
Yn toddi bron cariadau;
Ond ei llenyddiaeth wedi hyn,
Fu'n warth am lawer oes;
A'r olwg arni oedd yn syn,
Ail morwyn dlawd a chroes!
Och byth! o'r gwyll ddaeth ar ei rhan,
Achosodd iddi fyn'd yn wân;
Fel Sipsi ddrwg i ddarllen coel,
Dan goediach hyll, neu furddyn moel:
Hi gerdda lwybrau'r Tylwyth Teg, ⁽⁶⁾
A chanai "Hob y Deri;" ⁽⁷⁾
Fel hen ferchetos llawn o freg,
Wrth hel chwedleuon digri'.

Yn awr mae'r tywyllwch o'r bron wedi cilio,
Neu braidd wedi marw – fe'i teflir i dranc;
Mae gwawr yr hen oesau, a gwawr y bresennol,
Yn cyd-ymgyfarfod mal gwryf a llanc.
Mor siriol y dawnsiant – mae'r nain yn ymuno
A'i hwyres foneddig, dawelgain ei gwedd;
Ei merch sydd ar astell – daeth diwrnod ei hangladd
A gwarchod pawb rhagddi, mae'n awr yn ein bedd!
Dyfrifwch, hyfrydwch, tawelwch deyrnasant,
O'r herwydd dros doraeth a harddwch ein gwlad,
Nes peri esmwythder i'r galon derfysglyd,
Tangnefedd ac iechyd a dirfawr lesäd.

Clywch sain Haleliwia – nid chwedlau o’r aelwyd,
Goruwch y danteithfwyd – wrth eirias o dân,
Mae rhai yn myfyrio, a rhai yn ymgomio –
Tra ereill yn pyncio y garol a’r gân.

Rhydd hedydd gân wrth borth y nen,
A’r haul i’w feirch rydd ddwr;
O’r gwllith a dardd i gwppan wen,
Blodeuyn bach y tŵr;
Ymsua’r awel drwy yr ardd,
Gan ysgwyd deiliach mân;
Tithau tyr’ d ferch Tydain hardd!
I’w plith, y lwysaf, cân;
O cân! O cân! y feinir cân!

Yr ieuanc chwardd am gwymp yr hen, -
Bid nychdod cwyn y claf;
Pan draithir gweddi heb wag lôn,
O honi balch fydd Naf: -
Am freintio’i wlad crechwenai’r bardd –
Mae’i enaid braidd ar dân;
Wel yuddo’n [sic] awr ferch Tydain hardd!
Yn frwd, yn hynaws, cân;
O cân! O cân! y feinir cân!

Tra rhed yr haul mal priod Wr,
Ei yrfa uwch ein tir;
Tra hallta’r môr ei wyrddlas ddwr,
Tra llif afonydd clir:
Tra byddo mynydd, - tra bo gardd,
Yn dwyn boglynau glân,
O! dal dy ffordd ferch tydain hardd!
Ac enyn wladol gân;
O cân! O cân! y feinir cân!

Fy ngwlad! O! fy ngwlad, mi a’th welaf,
A’th wisgoedd yn henaidd eu pryd,
Dy demlau a’th dyrau rhagoraf,
Y maent yn malurio yng nghyd!
Dy gaerau – dy gylchau derwyddol, -
Cromlechau a meini dy hedd,
Symmudwyd o’u lleoedd cyssegrol,
Gan ddwylaw y taeog ei wedd.

Dy drefydd a fuont fawreddig,
Yn gedym, yn drefnus ei drych;
Mae gweled eu llun adfeiliedig,
Yn uchel ddyddordeb i’r gwych:
Memrynau y teilwng ddefodau,

Mawr feddwl o honynt y sydd;
Ac hefyd am drefn ein prif dadau, -
Eu rhwysg yn anafwrol a fydd.

Mae ynot rinweddol ffynnonau,
Sef Dwrdda a hen Ffynnon Saint;
Cefnllaethfan ac Eiliw heirdd fanau,
A Heudod a Garmon fawr faint;
Yn aros er bri i'n llenyddiaeth,
Yng ngwyneb dryghinoedd pob oes;
Rhag anghof a choll ein henafiaeth,
A'n dynion aruchel eu moes.

Carneddau saif yn urdd,
Dan glog o eiddew gwyrdd,
Y maent yn brid:
Pob dôl, pob nant, a llyn,
A chwm, a chraig, a bryn,
A brofant fod cyn hyn,
Rhyw nawdd a llid.

Hen Faen yr Allor gynt, ⁽⁸⁾
Mae fel yn wawd i'r gwynt,
Os bu yn goeth;
Fe gollodd ei holl fraint,
Ei flaenor, a'i holl saint;
Nas gwyddys byth ba faint
O ddynion doeth.

Do, collwyd dewrion dysg,
Diweddar iawn o'n mysg;
Maent ar wahan, -
Aeth Dic ⁽⁹⁾ i ffwrdd o'r byd,
A Phedrog ⁽¹⁰⁾ i'w fedd gryd,
A Robyn ⁽¹¹⁾ uchel fryd,
Ac Ieuan ⁽¹²⁾ lân.

Hyfrydaf fan ar lawr y byd,
Yw gwlad fy nghartref i;
Mi roddais arni'm serch a'm bryd,
Pa wlad sydd uwch ei bri?
Chwareais hyd-ddi lawer camp,
Mewn myfyr difyr dwys -
Deng mlynedd mewn deng munud aeth,
Drwy'r troion glewion glwys.

Gyd â'm cyfeillion ieuainc gynt,
 Chwareuais lawer tro;
 Am wyllion blin neu Dylwyth Teg,
 Yn datgan ho! ho! ho!
 Ysbrydion yr hen oesau fu,
 Yn ddrychiolaethau rhith;
 A ofnem weled yn y nos,
 Yn fodau yn ein plith.

Ail fyw fy oes ddymunwn gael,
 A'i byw yn llawer gwell;
 A rhodio Lleyn o ben i ben,
 A'i chwilio bob rhyw gell –
 O ffrydiau gwyllt Caswenan, ⁽¹³⁾ hyd
 Hen afon Aber Erch;
 Gan olrhain gwaith enwogion dysg,
 Mae hyny'n tynu'm serch.

NODIADAU

- (1) Wiliam Lleyn, oedd fardd ac offeiriad o blwyf Llangian. Blodeuodd o 1530 hyd 1569. Graddiwyd ef yn Bencerdd Cerdd Dafawd yn Eisteddfod Caerwys, yr hon a gynnaliwyd drwy awdurdod oddi wrth y Frenines Elisabeth ar y 26ain o fis Mai, 1568. Efe a ennillodd y gadair yn yr Eisteddfod hono, am yr awdl oreu i'r Eos. Claddwyd ef yng Nghroesyswallt.
- (2) Lewys Daron. Blodeuodd o 1580 i 1620.
- (3) Huw ab Rhisiart ab Dafydd o Gefn Llanfair. Blodeuodd o 1540 i 1580. Yr oedd yn un o'r boneddion a fuont yng ngharchar, yn Llundain, o achos Fforest y Wyddfa.
- (4) Huw Trygam. Blodeuodd o 1570 i 1600.
- (5) I. Gruff. ab Crach o Leyn.
- (6) Y cylch-loerenau gwyrddleision a welir mewn amryw barthau ar faesydd gwelltog neu adladdoedd, yn fwyaf neillduol ym misoedd yr Hydref, ac a elwir "Cylchau y Tylwyth Teg."
- (7) Cân am gael yr hob (mochyn) pasgedig â mës y derw o tan dô.
- (8) Saif ar lan môr Llanbedrog, gyferbyn a Chrugan.
- (9) Dic Aberdaron.
- (10) Twm Pedrog. Bardd o Lanbedrog, ac ysgolor pur dda. Claddwyd ef yng Ngheidio.
- (11) Robert Jones, (Robyn Goch,) a anwyd yn y flwyddyn 1808, ym mhlwyf Llanengan. Yn y flwyddyn 1834, priodwyd ef gyd â Miss Margred Gruffydd, merch Mr. W. Gruffydd, o Fodwrdda. Bu farw yr 8fed o Chwefror, 1850 a chladdwyd ef ym mynwent *Necropolis*, yn Lerpwll. Dyma ei feddagraff: -

Er yma y' mro ammharch, - daw Iesu,
Dywysog i'w gyfarch;
A Robert yn wŵr hybarch,
Gôd o rych a gâd yr arch.

(12) Ieuan Lleyrn.

(13) Y mae traethell dywodawg yn y môr o tua milltir i'r gorllewin-dde-orllewin i Ynys Enlli; am yr hon y dywedir ddarfod i long a elwid Gwenan, o eiddo y Brenin Arthur, ddryllio arni; ac oddi ar yr achlysur hwnw y gelwid y fan "Gorffrydiau Caswenan;" a Robyn Leiaf, bardd ac achydd enwog, yn byw tua'r flwyddyn 1450, a ganai i'r lle fel y canlyn: -

Os anhawdd, ar Gaswenan,
Droi ar lif o'r dwr i'r làn,
Anhaws na myned yno
Troi bun o'r natur y bo.

Y Brython, Rhagfyr 1861

PENILLION I'R NOS

Buddugol yn Nghystadleuaeth Bont Fechan, Llanystumdwy, Dydd Llun Y Pasg, 1862

Wele'r huan yn machludo,
Rhwng yr awyr a'r môr mawr;
Gwrida fel pe'n cael ei wasgu
Rhwng y ddau wrth fyn'd i lawr:
Dyna arwydd fod tywyllwch
Yn sarugawl wrth y dydd;
Gormes-deym y nos sy'n gwgu,
Rhwymau Orion roes yn rhydd.

Mae planhigion fel yn gwywo,
Blodau siriol yn pruddâu;
A rhosynau yn penwyo,
Fel gan dristwch yn ymgau;
Caiff dystawrwydd y freniniaeth:
Ond chwyth gwynt, a rhed y ffos;
Nis gwna'r gwynt na'r dwfr farweiddio
Tan lywodraeth drom y nos.

Gyneu'r ydoedd goleuadau,
Tai o amgylch fel sêr man,
Yn tryfritho gwyneb daear,
Yr oedd trefydd fel ar dân;
Mawr gydymhladd â'r teym gwyllaidd
Gan ei saethu o'r ddau tu,
Wnaeth y ddaear, wnaeth y wybren,
A'r nos aeth yn fwyfwy du.

Diffodd wnaeth y goleu isod,
Rhoes y byd ei eirf i lawr,
Nid oes dim ond llu y nefoedd
Frwydra gyda'r gwyll yn awr;
O! mae prudd-der drwy holl anian,
Tristwch orwedd ar ei gwedd;
Yn lle goleu pur ddeniadol,
Mae tywyllwch fel y bedd.

Golud yr Oes, Mawrth 1863

AWDL AR ANIAN

Testyn Eisteddfod Blaenau Gwent, 1860

Ti, O! ANIAN, wyt hynod – arglwyddes
Ryglyddawl mewn hanfod,
Yn gyru'n iawn gywir nôd
Gwir odidawg o'r Duwdod.

Un yw hon anwahanawl, - ar yrfa
O'r arfaeth drag'wyddawl
Aeres hyfedr, - medr bob mawl,
Yn wastad a gorchestawl.

Nid ydoes man trigianol – heb arwedd,
Yn burion ei rheol;
Mewn cynllun mae mor unol,
Na cheir un peth bach ar ol.

Rhyfedd yw ei hedd o hyd, - mor eang
Ei hamrywiaeth hefyd;
Mae'n gref – mae'n ben bob enyd,
Pob llin byw, pob lle'n y byd.

Nid ellir nodi allan – ei holl nawd,
Gallu Naf yw'n mhobman;
Rho'i prawf glwys o'r Peryf glân,
Yn enwog, mae hen Anian.

Cyn rhoddi'r môr rhwng cedyrn ddorau,
Cylchoedd i diroedd a dyfnderau;
Treuliad rhwysgawl, marwawl dymorau,
Na rheol ar wahanol haenau;
Hynt i fydoedd, helynt i fodau,
Llawn gogoniant mewn nwyfiant nefau;
Gwiw reddyf pob graddau – oedd Anian lwys,
Draw rhwng y da-rwys drwy'r eangderau.

Cyn creu na dechreu un dim,
Deddestl, ar seiliau dyddim:
Y Duwdod mewn hynod hedd,
Wnai astud gadarn eistedd:

Un tras oedd yn teyrnasu – trwy'r cyfwng,
O flaen gollwng nawd hyflon i'w gallu.

Ac yna “BYDDED”ga’dd drwydded i dreiddiaw,
Heb unrhyw luddiant, a bu yn hir lwyddaw –
Ein Duw a roddodd gyflawnder o’i eiddaw,
Ar leni uwch addurn, a’r hwyl yn chwyddaw;
Hithau Natur bur heb wyraw – safai’n deg
Ar y fawr adeg gywreindeg, i wrandaw.

O! newidiad ofnadwy!
Odd ei mud alluoedd mwy;
Ymlonai, molai Anian,
Dduwies fawr, orlwysfawr, lân;
Wrth ddarbod rhyw hynod hedd,
A mirain reidiau mawredd;
Y dydd pan ei bedyddiwyd
A da lef gan y Duw lwyd;
Tra’i rhediant drwy nwyfiant nawd,
At asio y bydysawd,
A’i hoenfawr berffaith hanfod
Yn mhob rhyw, yn byw a bod; -
Mae’n îs nag un lle isod,
Ac uwch i rimp cwch y rhod; -
Drwy’r dyfnion fawrion foroedd,
A’r holl fyd i gyd ar g’oedd,
Hyd geurydd tragwydd gwawl,
Neu rhyw fân annherfynawl.

Aeth ar led i ymweled â miloedd,
Y dirifedi dyrau o fydoedd,
Uwch a glywid, ac ardderchog leoedd,
Yn nghadeiriad yr hen eangderoedd,
Gan garu pawb o’r lluoedd, - ymwibiai,
Teithiai, a chwalai trwy’r holl ucheledd,
Er gweled maint dirgeloedd – plant yr Iôn,
Yn eu gorwychion lwysion lysoedd.

Hi siglodd gryd pob byd bân
Yn hoenus iawn ei hunan;
Cydiodd, mal p’ai mewn cadach,
Yn mhob rhan, fel baban bach,
Eu hysgwyd nhwy’n esgud wnaeth,
A’u chwifio at uwchafiaeth;
Ac er clod, hwynt priododd,
A byth, mae’n gyfan o’i bodd.
Ganwyd dydd newydd, yn awr
Rhed ei yrfa, rhod erfawr,
Gyda’r haul araul euriad,
Fab myg, mae’n debyg i’w dad;
Ail i follt ufel fellten

Ydyw'r da, fe nofia'r nen;
Ond er maint ei fraint a'i fri,
Yr haul sydd yn rheoli;
Llywydd yw ar oll a ddaeth
I fwyndrefn ei gyfundraeth,
O fydoedd nen ysblenydd, -
Y fo yn eu sugno sydd:
A thrwy gyflym rym yr ânt,
Wrth harddwch a gwrth-hyrddiant;
Rhwng y ddau dyniadau'n wir,
Trwy wagle, chwyrn eu treiglir;
Gyda nerth a phrydferthwch,
Yn fflam o ddelweddion fflwch,
Drwy y nef pelydru wnant,
O'u cadwyni cydunant;
Ysplander eu ceinder cu,
Ogylch sy'n tywynygu.

Afon o fywyd dylifai'n fuan,
Estynai, lledai tros y byd llydan,
Wrth enwog fawrnerth Anian, - pawb yn d'od,
Neb un i'w ganfod mewn poen i gwynfan.

Anian a brawf, yn un bri,
Fod treiddiawl fywyd trwyddi;
O allu'n Pôr! mor llawn! Pwy
Edwyn ei rhwysg ofnadwy?
O'r afrifed blanedau,
Hyd y mymryn bryfyn brau:
Mae'n hoffus ei mwyn effaith,
A chywrain iawn ei chwyrn waith;
Drwy wybren ffurfafen fawr,
Yr Elfed anfeidrolfawr;
Lle mae'r sêr mewn clirder clau
Yn eu tesog forteisiau;
Yn lluo ar gyson gylch,
Trwy argae tô'r awyrgylch;
A'u llewych yn llewych llawg,
Mad lewych symudliwiawg;
Yn ysgrifen felltenawl,
Yn lleni gwych, yn llawn gwawl.

Y ddaear isod yn rhôd anrhydedd,
Ddaeth yn drefnus o ddirus gynddaredd;
A gwiw iawn helynt, a g'ai yn haeledd,
A naw mwy golud a llawn ymgeledd;
Ofnadwy fu ei nodwedd – heb ddeddfau,
Mewn gwrdd annhrefnau, rhaiadrau hydrwedd.
Yr holl elfenau wrth didau y Duwdod,

Y glynau oedd iesin a'r glenydd isod,
Afrifed rywiau a haenau pur hynod,
Aent idd eu seddau a'u camau er cymod:
O'r cynddim llaith i faith fod, - y rhoed pob rhan
O gorau Anian, pob un i'w gyweirmod.

Daear a nef cyd-daro wnant, - lleni
Holl anian gyffyrddant;
Ei gogonedd gwiw ganant,
A bywyd teg yn mhob tant.

Y môr a'i donau mawrwyllt,
Cynhyrfus, gwgus, a gwyllt,
Roed mewn clau wregysau gant,
Ac yn addwyn gweinyddant;
Er rhuo a llwybro'r llaith,
Trostynt ni ddaw mewn trystwaith;
Ond fe red ar led i'r lan
Wrth unig wir nerth Anian;
Diau yn ol myned wna –
I bant oror pentyra.
A er lles yn wiw i'r llall,
Yn orwyllt o'r lan arall:
Rhyfedd, rhyfedd, mawr hefyd,
Ydyw trefn Duw Tri o hyd!
Dyna'r lloer yn denu'r llif,
A'r haul yn sugno'r hylif:
Mewn purder a gwycheder, gan
Goroni'r hawddgar Anian.

Gwelaf rhydd Anian gilwg,
A than ei gwaith wên a gwg;
Llusg y naill oddiwrth y llall,
A theyr un wrth arall;
Tyfiant, a phorthiant, a phwys,
Ac anadl, hi a'u cynwys
Er mwyniant; gyr o'i mynwes
Aer a thwym, eiry a thês,
A haf a gauaf o gylch
Yn nygiad blwyddyn ogylch.

Hi rydd yn haelwych roddion ehelaeth,
Odd ei rhyglyddawl fwynaid arglwyddiaeth;
Tirion yw holl naturiaeth, - yn ei lle,
Pob bryn a thyle, pob rhan a thalaeth.

Du fanau dyrys y dyfnderau,
A mawr dynwydd y môr a'i donau;
Creigydd, moelydd, c'uwch a'r cymylau,

Lluaws trylon o geimion gymau;
A rheol fanol yr elfenau;
Daear seirian, a'i byw drysorau;
A phurlwys aur a pherlau, - y drigfan
A wnaeth Anian yn iawn wythenau.

Abwydyn, llwchyn o'r llawr, - eurdyfiad
A'r deifion angenfawr: -
Is y cyd-fod cysgodfawr,
Cadwyn hon a'u ceidw'n awr.

Dwg wair gwlyddaidd ar hyd y gweirgloddiau,
Planwydd tirlion hyd wychron syth ochrau;
A grawn olewaidd âg eirian liwiau,
Perllanoedd aeron, gleinion foglynau,
A thew gynyrch mewn llenyrch a lleiniau,
Pob mompionog resinog rosynau
Ganddi noddir, achlesir gwych lysiau
Yn loyw wydrog dan haul belydrau;
Od yw y rheol priodi rhywiau!
O ddi-brinion dda geinion eginau:
Coroni pob cŵr o'n pau - y mae hi,
Gwna yn foneddig ein hen fynyddau.

O'i llawenydd pur y llona, - rhandir
Tiriondeb wna'n dden-gar;
O! mor iach, ac mor llachar,
Yw bwrdd llawn y briddell âr.

Gardd, cae, maes, a'u llaes bawr llon,
A'u glwys fantelli gleision,
Ynt fel harddlen drylen draw,
O duedd yn blodeuaw;
A'r bryniau, hwythau o hyd
Tyfant mewn gorchest hefyd.
Tra gwyntoedd, gwllithoedd, a gwllaw,
Drwyddynt yn araf dreiddiau,
Ac anian yn eu hanerch,
Yn llawn o swyn dilyn serch;
Nes lloni y pabi pur,
Hynotwych babi natur,
A'r mynydd ban er mwyniant,
Uwch ceinion purion y pant;
Nes amlhau'r trysorau sydd
Ar y gwylltion grog ellydd;
A lleshau, tewhau'r tywyn,
A glas fynydd-dir y glyn.

Gwiw rif o goed talgryfion, - a lluniaidd,
Sy'n llenwi'r gwaelodion;
Llyisiau o bob lliwiau llon,
Gannoedd mewn dillad gwynion.

Dan wlith-berlau, crwybrau crog,
Y boregwaith barugog;
Eurddyrchant yn ardderchog – îs blodau,
Ryw ddysglau gwyrdd osglog.

Talgreigiau tylau geirw agwedd, - hyglogd
Heirdd binaglau mawredd;
O! gwenant mewn gogonedd –
Eirian ynt, ac nid 'run wedd!
A'u maith rwysg yma a thraw,
Mewn nwyfiant yn ymnofiaw;
Ond ca'dd yr oll, yr oll ran
O rinwedd ystôr anian;
Yn hon ddeil fawrbwys glwysglod,
Amrywion bywion mewn bod:
Dir o'i bodd gordoa'r byd,
A'i gyson ddeddfau; gesyd
Un i yru un arall;
Cywir yw y naill i'r llall.

Ei newidiadau, fanon odidog,
Ddengys addawd ei hymrawd amrywiog,
Yn ewybr ogylch y banau brigog,
A'r trumau lluniaidd a'r tir meillionog,
Neu war y crebach fryniau oer cribog,
A manau crogwylt y meini creigiog;
Oll i gyd, maent hwy'n llygadog, - hawddgar
O wyrdd a llasar, heirdd a lluosog.

Mae'i holl ddarpariaeth a'i ffaeth effeithiawl,
Llanw ei bonedd a'i gallu unbenawl,
Ië, tirionwch ei ffyrdd terwynawl,
Mur ei chyduniad mawr a chadwynawl,
Yn nghyd a thlysni, teithi ystwythawl,
Ei gwe dirionwedd, a'i rhwysg daranawl;
Yn arwyddion mawreddawl – o'i hamcan,
Hen ffrwd anian, mae'n lles cyffredinawl.

Mae'i gwawr ddien drwy eithaf wybrenydd,
Heibio y golwg o gwr bwygilydd;
Dros wyrddion fryniau, dros heirdd iawn fronydd,
O amryw luniau mewn mawr lawenydd;
Dduwies enwog oludog pob gwledydd,

Ei dwylaw gura – mor wych yw’r dolydd;
Ac O! melused sawr y camlesydd,
I bereiddio awelon boreuddydd:
Y tryloywon afonydd, - er rhiwiau,
Ni safant hwythau fel llynau’n llonydd,

Wrth ymdreiglaw draw dyruant, - a’u swm
Adseinia drwy’r ceunant;
A sain a etyb eu si –
Am yr heli ymroliant.

Nodwedd o gyfnewidiad – yw cwlwm
Calon y bedysod;
Ceir anian lawn fel mewn llawn llid,
Yn dangos rhyw chwerw dynged.

Y trydan i’w hynt reda
Ar egni erch, dyrwygo wna;
Yn ddibris ac yn ddybryd,
Drwy ryfedd berfedd y byd;
Pan bo yn ei gyffro gwyllt,
A’i wrhydri rhaiadrwyllt;
Bron dyrysu, llethu’r llawr,
Gan dwrf ac yni dirfawr;
Syndod! y mae fel bod byw,
Odiaeth fab anian ydyw.

Dua’r awyr gan dywydd,
Yn ara’ deg, ar haner dydd;
Pob elfen drwy nen a nant,
O amgylch ogylch wgant,
Yn erchyll rhwng gwyll a gwawl,
Trwy oror tir awyrawl.

Aruthr ewybrawl goelcerth yw’r wybron,
Gan fellt ufelawg llymawg a llymion;
Canaid folltau taranau terwynion,
Yn ymsaethu nes chwalu’r uchelion;
Effeithiau oer a phoethion – acw sydd,
Llu hynawd beunydd yn llawn dybenion.

Enynu yr un enyd, - yn dwrwf,
Wna’r daran ddychrynlyd!
Rhyfedd yw ei rhuthr hefyd,
Cryn ranau o barthau byd.

Gwefrwyd, ffrochwyd yn ffrychwyllt
Holl anian â gwefrdan gwyllt;
Cenllysg yn gymysg âg iâ,

Mal arian ymleuera;
Cenllysg yn derfysg dirfawr,
Ddaw ar led y ddaear lawr,
O borth yr eangder ban,
Neu deryll borth y daran;
Porth nefolion fawrion fellt,
Tywynfa borth y tanfellt;
Lle chwardd gwynt mewn hynt drwy'r nen,
Ar abraid gylchau'r wybren;
Nes bo'r llawg derfysgawg fôr
Digofus yn dygyfor,
Mal llynclyn diderfyn du,
O'i fewn gan droi i fynu,
Gydag anferth ryferthwy,
A'i ewyn mor wÿn a'r wÿ.

Ar ol t'wllwch, mwllwch mawr,
Cryglef yn trystio creiglawr,
I ffwrdd y cwmwl a ffy,
Daw hinon wedi hyny,
O gerbyd tanllyd y tes,
A'i euraid fywyd eres;
O gerbyd a gwynfyd gwawr,
Y syw daenlen sidanlawr;
O enwog flaenor anian,
Tarddell dydd trwy ddull o dân.

Wedi gwridog wawr odiaeth,
Nos i nen dynesu wnaeth;
Uchel luaws ni chlywir,
Nos sy'n toi mynwes ein tir.
Purliw sêr mal perlau sydd,
Ar y llyn oer a llonydd.
Llariaidd wrid y lloer ddi wres,
Biau'r nen fel brenines;
Llon ei chym a llun ei chant,
O'i nefol uchel nwyfiant,
Troellog â trwy wyll, i gol
Ei nod, i'w lle newidiol;
Yna'n ol i nen eilwaith,
I'w llys wedi dilys daith:
Os b'ai lawn loer ysblenydd,
Hi lunia deg eulun dydd;
Ac ar ein nwyd gyr hon ol,
Un ydyw ddylanwadol;
Dyna'i threfn, da iawn ei thraidd,
Leuad fisol lwyd faswaidd.

Drosom cawn eto drysawr,
O fewn i wisg fwyn y wawr;
Chwal y tarth, pan ddychwel tês,
I'w borth canaid, barth cynes.
O'r dwyrain, oror derydd,
Mae'r gwas tân yn datgan dydd;
A'r nos os ca'dd deymasu,
Heb ofn bâr y ddaear ddu,
Pan y tyr gwawl, clirwawl clau,
Teyrn eidiawg tad diwrnodau,
Gyda pharch hi gwyd ei phen,
A heda nerth ei haden,
Odd y nen yn ddisgynol,
Chwai y gwna farchog yn ol;
Ffy heibio hwnt i'w phabell,
I bwynt ei gorllewin bell.

Tymorau rhwydd y flwyddyn, - sy hoffus,
Effaith iachus anian;
Mawrhydi, mêr ei haden,
Bur a hardd, yw pob ryw hin.

Y gauaf oernawsaf hir ei noson,
Ceir haul y nefau a'i wenau'n weinion;
A sal wg dros ei olygon, - dagrau
Ar ei wiw ruddiau, garw arwyddion.

I'w beddau aeth blodau blydd,
Gogoniant gwig a gwaenydd;
Mae'r maesydd clir heb irwellt,
A'u gwawr fel rhyw fythod gwellt!
Pibonwy yw pob anedd,
Dan oer glog, anwydog wedd.

O! arswydol dro sydyn, - daear deg,
Dan draed y mae'n ddychryn!
Ei thir a welir yn wÿn,
Gan îa ac eira gorwyn.

Yna'n fwyn daw gwanwyn gwiw,
A mawr olud amryliw;
Ar hyn fe dderfydd y rhew,
I'r dw'r fe dodda'r durew;
Ffy yr hin erwin oeraf,
Cilia rhew rhag haul yr haf;
A daw purdda freilfa frith,
Blodeu gwyn mal blawd gwenith:
Ceir gwynebpryd hyfryd haf,

A llonwych doraeth llawnaf,
Aeron ar y gwyrddion goed,
Goleu wisgoedd i'r glasgoed;
A ffynon o ddaioni,
Yn fflam gref o nef i ni.

Y dirif greaduriaid – yn lluaws
O'r llew hyd y piwiaid;
Difyrus yw'r hoenus haid,
A nwyfus hwythau'r nofiaid.

Mae'r heigiau yn gwau ar g'oedd,
Yn dewfrith yn y dyfroedd,
Pob rhyw a gradd o naddynt,
Gemog ac ardderchog y'nt,
Drwy dyfnfor, erchyll orawr,
O'r sîl hyd y morfil mawr.

Yr eigion a ddyrwygant,
Hynod o groes-ymgroes ânt,
A berthawl yr ymborthant, - mewn dwfr glas,
Cain addas cynyddant.

Ar chwaliad, o'r uchelion, - môr-franod,
A gwylanod gleinion,
A welir acw'n wiwlon,
Hyd ymgyrch a dyrch y dôn.

Maent mewn llwydd a dedwyddyd, - ac anian
Yn cynal eu bywyd,
A gwaith eu teimlad i gyd,
A'u rhyfedd arfer hefyd.

Pob hedyn, pob pryfyn praff,
Yn eurgryf sy tan argraff
Eneiniol ddwyfron anian,
A chwsg yr awel a'i chân,
Ac adar yr holl goedwig,
Eiliant eu cerdd drwy'r werdd wig:
Eiliant gadwyngerdd gerddgar,
Rai mwynion, gwylltion, a gwâr;
Dan garu, diau'n gywrain,
A than gyd-ymblethu'n gain:
Dwyreant uwch daearen,
Ehedant, nofiant y nen;
A diball drwy eu gallu,
Syth i'r llawr ymsaetha'r llu.

Pyngcia pob edn mor llednais, - o'u calon,
Mwynlon yw eu meinlais;
Arab oslef, gwir bwyslais,
Fyn y llu ar drefn eu llais.

Didaw eilwaith ar hyd y dolau,
Clywir brefiad, dwnad eidionau;
Miloedd sydd yn amlhau, - ceir ar bob twyn
Ddefaid addfwyn, ac ŵyn ugeiniau:
Ac ar serth lethrau bryniau garbron,
A gweledig barthau'r gwaelodion,
'Chwanegir gwych enwogion, - mor hynod!
Y milod, rai cymig a moelion.

Ymlwybro, prifio mae'r praidd, - gan enwog
Anianol fyw'n buraidd,
Oll yn wych, ac mewn llawn aidd,
Yn pori'r meillion peraidd.

Y march ffroch dan ffroenochi,
Hyd geinder, brasder, a bri,
Rodia'n falch, a rhawd hwn fydd
Rymusol ar y maesydd;
A'i draed yn gwau drwy dân gwyllt,
Wrth yru mor gerth orwyllt;
Ei brangc a ysgydwa'r bryn,
A deffry gwm a dyffryn;
I lawr plyga'i wddf di lys,
Breinfawr, fel bwa'r enfys:
Mae'n urdduniant, briant bro,
Mor esgaidd mae'n ymrwysgo.

Gydag urddas llawn traserch,
A champau mesurau serch;
Lluon, aml, ceinion, mil cant,
O'u mawredd a gymharant;
Mewn awyr deg, mewn oer don,
Llawr ogylch, a lle'r eigion;
Pob byw ddrych, fo gwych, a gâr,
A dwg amod i'w gymhar;
Anrhydedd nwyd a'u deddyw,
Pob cymhar a gâr ei gyw;
Ond nis mag bran, bilan byr,
Ar orallt, gyda'r eryr;
Na milod glân y moelydd,
Lle byddo llew, rhwthlew rhydd:

Nid oes dim o'r byd nad â,
Neud i enill nôd anian;
Er maint eu gradd rhaid addef,
Iawn fraint pob un yw ei fref.

Eto mae'n eglur ar glawr naturiaeth,
Pybyr a hygyrch yw pob rhywogaeth;
A'i dilwgr elwig yn dal gwrolaeth,
A'u hamledd wedyn yn symledd odiaeth;
Ond Ion yn union a wnaeth – y dyn gwan,
Yn brif deym Anian, a'i ban unbenaeth:
Stramwaith yw yn llawn *amrywiaeth*, - dywed
Am hydred a lledred ei llywodraeth.

Dyn, mae'n bendant beiriant byw;
Ymerawdwr mawr ydyw;
A'i byngcio'n ffrydio mor ffraeth,
Wir degwch creadigaeth;
Y mae'n wych, mor wych ei wedd!
Llafurus ei holl fawredd:
I'w uthr le fe ddaeth i'r lan,
O lwynau siriol anian;
A hwn beunydd bydd yn bod
Ar edyn ei fyfyrdod;
Yn mhob oes, nid oes a all
Ar y ddaear ei ddeall:
O! geinion roed ar gynydd, - drwy bob man,
Yn hen deml anian; dyma lawenydd.

Un wên fwyn yw Anian fawr
At arfod ei phwynt erfawr;
O'i chain werth, cynyrchu wna,
Ar ei chynyrch crechwena:
Eto i gyd, mor hyfryd yw,
Cof-nodiad cyfiawn ydyw:
Pethau gynt, ar hynt, yn rhes,
Ar hon y ceir eu hanes.

Tra iesin ydyw trysor,
Ac uniawn bwngc anian bur:
Hyhi sy ben ac enaid,
I bawb, i ddeddfau y byd.

Golud yr Oes, Awst 1863

Y BERDONEG

(Salem, Porth Madog, 1864 – Byrfyfyr)

Y BERDONEG, os egwan, - ddena bawb

At ddawn ei byw gyngan;

A thyn o wythi Anian

Nodau gwir enaid y gân.

Y Geninen Eisteddfodol, Awst 1915

AWDL ANNERCHIADOL

I MR. W. PRISIART, BODLONDEB, LLANGIAN, LLEYN.

HAWDD genyf heddyw ganu,
Mae'm calon wrth galon gu;
Eu teimlad yn fad a fydd
O galon at eu gilydd;
A'r awen, mae'n llawenu,
Heibio teifl ei gwefr, bob tu;
Ond er tânei hanian hi,
A glân lygaid goleuni;
Os canaf o naws cynnen,
Afaeth a gaf fyth o'i gwên;
O naws cynnen os canaf,
Fyth o'i gwên afaeth a gaf; -
Wrth ganu, mae canu caeth
Yn deilwng o'r frawdoliaeth;
Efelly, ac felly fydd,
O, canaf gân er cynnydd;
I Wiliam, fardd dinam da,
O deg irdwf, hâd gwyrda.

Bu gwŷr mawr goruwch llawr Lleyn,
Ddewis beirdd o weis y bôn;
Llyna 'i rhwysg, mor llawn ei rhîn;
Goludog yw, "gwlad y gân."

Athrofa dawn a thref dysg,
A gwreiddiol fangre addysg
Ydyw Lleyn, - ceir fod ei llawr,
Fel dwyfol ardd flodeufawr: -
Cododd dysgleirdeb cudeg,
O'r euraid iach oror deg.

Yma'n dirion caid mwynderau; - gwŷr braint
Ger bron ein cromlechau,
Mal côrau mewn lliwiau llon,
Yn heirddion dan eu hurddau.

Hen archdderwydd dedwydd godidog,
Wir addysgwr, O! mor ddiysgog
Y traethai hedd tra bonedd banog
Ger ei wyneb mewn dull gorenwog;
Fe dröai ei fodrwyog – glaerwyn wallt,
Hardd y glanwallt, iraidd a gleiniog.

O! Dduw Dad! p'le mae'n hen dadau? – meddwl
Am aidd eu meddyliau,
Wna i brydydd clodrydd clau,
O'i deg-rudd, dywallt dagrau.

Wiliam anwyll! c'od dy hwyliau, – i roi
Maith restr o'u trefnau;
Rhy frwd yw fy natur frau
I gyrhaeddyd i'w graddau.

Gwr o waed awengar wyt,
Erioed awengar ydwyd;
Gwr enwog o wir anian,
Neu fedr coeth i fydru can:
Effaith hon â pheth hunan,
Gyr ein dysg segur yn dân; -
A bai bardd yw'r bai o'i bod
Dduwies bur, ar ddisberod;
Ys da ei gwedd nis dwg hi
Leianog orchuddleni;
Ond dwg reiol fywiol faeth
Ar fwrdd hen gwir farddoniaeth,
Yn ail i deg hylaw dôn
Y nwyfus *Wyn o Eifion*,
Mewn dihafarch barch yn bod,
Cynghanedd, cangau hynod.

Anghofia, gwna fy nghyfaill,
Feib afrwydd, - boed llwydd i'r llall; -
Ffei rigymwyr, a gwŷr gau,
Cryg wŷr sy'n hacru geiriau,
Dwp dep dap, wrth grap gropian
Hyd grimogau coesau cân; -
Ond am eu dawn cânt lawn lôg, -
Y ffwl rydd barch i ffolog.

Chware “ffon ddwybig” nid hyn sy ddigon,
Na gwneyd cywyddau nac awdlau cydlon,
Na chwilio'n lleufer i hen arferion,
Arddun drawddysg ein beirdd a'n derwyddon;
Gawr geirwych, goreu gwron; - heb gael plaid
Dethol henuriaid, doethwiw lenorion,

Llenor yw hwn yn tynu
Gwreiddiau enaid canaid cu;
Byw bywyd teg o bob tu – yw ei reddf,
A'i gynneddf at ganu.

Trwyadl fab tra hyawdl fo,
Ei feddwl yn fawr fyddo;
Ior â'i law a'i arlywio, - Gymro mwyn,
Naf addwyn a foddio.

Gyfaill gwiwfad
E gaiff goffad.

Be dâl undyn Lanc Bodlondeb, - a gudd
Haul gwiwdda doethineb?
Gloewa 'th fin – gwisg ffraethineb, -
Dos gyfuwch neu 'n uwch nâ neb;
Fel *Hywel ab Gwyddeles*,
Gwyn ab Nudd a Lludd ab Lles:
Mewn bri mal 'r hen gawri gynt,
Gwyr Rhyddid hygar oeddynt: -
Tyr'd am wledd hoga 'th gleddyf,
Cura 'r holl goncwerwyr hyf;
Nâ'd i silod, ffregod ffraeth,
Na chwiwgwn dy farchogaeth;
A thrwy 'th fod yn hynod, heb
Draith anaf o druthineb
Boed it' yn rhwydd bob llwyddiant,
Einioes der mal syber sant,
Cyfiawnbarch, cof eonber,
A rhad nawdd mawrhydi Ner.

LLEYNWYSON ai cânt
Y Brython, Chwefror 1861

ATODIAD III

**RHESTR O ERTHYGLAU A
LLYTHYRAU
MYRDDIN FARDD
A YMDDANGOSODD
MEWN CYLCHGRONAU A
PHAPURAU NEWYDD**

Brython (Y)

Cyfrol	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl/Llythyr
Medi	1860	352-353	<i>Llythyr – Cwmmwd Lleyrn</i>
IV	1861	74	<i>Llythyr - Y Beirdd Dafydd Ddu a Dewi Wyn</i>
IV	1861	152	<i>Llythyr - Y Beirdd Dafydd Ddu a Dewi Wyn</i>
IV	1861	234-235	<i>Llythyr - Y Du a'r Gwyn</i>
IV	1861	248	<i>Achau Teulu Nanhoron</i>
IV	1861	356	<i>Llythyr - Siôn Phylip</i>
IV	1861	364-368	<i>Dylanwad Dyn</i>
IV	1861	404-407	<i>Dylanwad Dyn (parhad)</i>
V	1862	341	<i>Llythyr – Gweddillion Barddonol</i>

Cymru

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
8	1895	63-65	<i>John Roberts, Llanystumdwy</i>
8	1895	111-113	<i>John Jones (Iolo Eifion)</i>
XI	1896	229-231	<i>Capel Galltgoed</i>

Genedl (Y)

Erthyglau wythnosol yn ystod 1912 ac 1913

Geninen (Y)

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
I	1883	55-59	Erthygl - <i>Gwyndaf Eryri</i>
	1883	238	Llythyr – <i>Robyn Ddu Eifionydd</i>
II	1884	80	Llythyr – ymdriniaeth o'r enwau <i>Eifion, Lleyn</i> ac yn y blaen
IV	1886	209	<i>Man Amrywion</i> – nodyn ar Tudur ap Grono ap Ednyfed
VII	1889	59-60	Nodyn ynglŷn â <i>Seren Gomer</i>
VIII	1890	132-138	Erthygl - <i>Bardd Treflys</i>

Golud yr Oes

Rhifyn	Dyddiad	Rhif Tudalen	Pwnc y Llythyr
II	1864	296	<i>Llythyr ynglŷn â Twm Pedrog</i>

Haul (Yr)

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
X	1866	343-346	<i>Hanes Byr o Deulu Cors y Gedol</i>
XI	1867	88-90	<i>Hanes Byr o Deulu Cors y Gedol (parhad)</i>
XIII	1869	309-311	<i>Gwehelyth yr Archddiacon Prys &c</i>

Herald Cymraeg (Yr)

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl/ Pwnc y Llythyr
Gorffennaf 17	1858	4	<i>Y Bardd</i>
Ebrill 28	1860	3	Bardd y cywydd yn adrodd hanes Rhys Llwyd ap Rhys ap Riccart ac eraill yn hwylio i Ynys Enlli
Awst 25	1860	1	Eglurhad ar yr enw <i>Pen Lley</i>
Awst 25	1860	1	<i>Myfyrdod Prydyddawl</i>
Medi 29	1860	1	<i>Myfyrdod Prydyddawl II</i>

Llais Rhyddid

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
XIII	1914	155-166 216-228	<i>Enwogion Sir Gaernarfon</i>
XIV	1915	44-56 76-88 160-172 208-220	<i>Enwogion Sir Gaernarfon</i>
XV	1916	44-56 104-116 160-172 212-224	<i>Enwogion Sir Gaernarfon</i>
XVI	1917	44-56 100-112 152-164 204-216	<i>Enwogion Sir Gaernarfon</i>

Llais Rhyddid

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
XVI	1917	88-96	<i>Yr Hen Chwedl am Benelin y Foneddige</i> (cyfieithiad o <i>The Legend of the Lady's Elbow</i> gan Syr Thomas Love Jones Parry (Elphin ap Gwyddno))

Argraffwyd rhannau dilynol *Enwogion Sir Gaernarfon* yn gyson yn y cylchgrawn rhwng 1918 a mis Tachwedd 1920

Llenor (Y)

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
I	1895	51-64	<i>Ieuan o Leyn</i>
II	1895	51-66	<i>Owen Gruffydd, Llanystumdwy</i>
V	1896	49-60	<i>Dewi Wyn o Eifion</i>
VI	1896	17-40	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)
VII	1896	63-85	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)
VIII	1896	43-56	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)
X	1897	17-32	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)
XII	1897	33-66	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)
XII	1897	67-96	<i>Dewi Wyn o Eifion</i> (parhad)

Traethodydd (Y)

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
XLI	1886	33-51	<i>Y Cymdeithasau Llenyddol Hen a Diweddar</i>
XLI	1886	211-225	<i>Hen Gerddi y Cymry</i>
XLI	1887	270-283	<i>Hen Gerddi y Cymry II</i>
XLI	1887	415-429	<i>Hen Gerddi y Cymry III</i>
XLII	1887	118-127	<i>Hen Gerddi y Cymry IV</i>
XLIII	1888	215-222	<i>Hen Gerddi y Cymry V</i>
XLIII	1888	427-434	<i>Hen Gerddi y Cymry VI</i>
XLVI	1891	142-148	<i>Hen Gerddi y Cymry VII</i>
XLVI	1891	388-396	<i>Hen Gerddi y Cymry VIII</i>
XLVIII	1892	152-159	<i>Hen Gerddi y Cymry IX</i>
XLVIII	1892	459-464	<i>Hen Gerddi y Cymry X</i>
LII	1897	139-150	<i>Wiliam Lleyrn</i>

Traethodydd (Y) - parhad

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl yr Erthygl
Gorffennaf	1905	251-256	<i>Papyrau Coch y Moel</i>
Medi	1905	321-330	<i>Papyrau Coch y Moel (parhad)</i>
LXI	1906	386-392	<i>Owain Lleyrn</i>

ATODIAD IV

**RHESTR O WEITHIAU
O GRONFA MYRDDIN FARDD
A YMDDANGOSODD MEWN
CYLCHGRONAU A
PHAPURAU NEWYDD**

<u>Brython (Y)</u>			
Cyfrol/Rhif	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
II (7)	1858	265-266	<i>Englynion y Credo</i> gan Twm Pedrog
III (21)	1860	307	<i>Cyngor Sion Lleyn i Twm Pedrog ac Atebiad gan Twm Pedrog</i>
III (21)	1860	336-338	<i>Cywydd am Fawredd Iehofa</i> gan Dewi Wyn o Eifion
III (22)	1860	345-346	<i>Llythyr Serch o Ysgriflyfr Siôn Tudur</i>
III (24)	1860	412	<i>Cowydd Marwnad i Guto'r Glyn</i> gan Llywelyn ap Gytyn
III (25)	1860	453-454	<i>Man Gofion - Sion Mowddwy, Galw Ynys Fon yn Anglesea, Beirdd Morganwg, Y Mil Marciau, "Da yw'r Maen gyda'r Efengyl", Achau Methlem, Achau Carreg, Achau Llangwnadl, Achau Tregeirn ac yn y blaen</i>
III (25)	1860	461-462	<i>Llythyr a chywydd ynglŷn â Dewi Wyn o Eifion</i>
IV (27)	1861	28-29	<i>Awdl i M.W.P. (B.B.) ac A.F.</i> gan Twm Pedrog
IV (28)	1861	69	<i>Englynion mewn Perthynas i Ddioddefaint ein Iachawdwr</i> gan Dewi Wyn o Eifion
IV (29)	1861	93	<i>Cywydd Duchan i'r Dabler, neu Gwyddbwill</i> gan Morys ab Ieuan ab Einion o Leyn

<u>Brython (Y) – parhad</u>			
Cyfrol/Rhif	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
IV (31)	1861	196	<i>Ceinion y Cynoesau; Cywydd i Ferch gan Syr Dafydd Llwyd</i>
IV (35)	1861	340-341	<i>Blodau'r Beirdd – Cywydd Marwnad R. Edwards, Ysw., Nanhoron gan Owen Gruffydd, Llanystumdwy</i>
IV (38)	1861	454-457	<i>Blodau'r Beirdd – Cywydd i'r Milgi gan Dewi Wyn o Eifion, Cywydd i'r Ugeinmil Saint a aethant i Enlli gan Tomos Gelli, Cywydd i'r Haul gan Siôn Powel, Ymddiddan rhwng yr Angau ag un o'i wyr llys ... gan Ifan Brydydd Hir</i>
IV (38)	1861	468	<i>Englynion – Y Bardd wedi colli ei Gariad, Medi 25, 1797 gan Twm Pedrog</i>
V (39)	1862	52	<i>Cywydd i'r Onen wrth yr Ardd Wair gan Twm Pedrog</i>
V (39)	1862	204-205	<i>Marwnad Owen Gruffydd gan Michael Prisiart</i>
V (39)	1862	206-207	<i>Llythyr Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn</i>
V (40)	1862	215	<i>Beddargraff Michael o Fon</i>
V (41)	1862	329-331	<i>Awdl Rhinwedd gan Ieuan Lleyrn</i>
V (41)	1862	350-352	<i>Gweledigaeth y Bardd – o ysgrif Siôn Lleyrn</i>

<u>Cymru</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
VII	1894	84	<i>Englynion David Williams Castell Deudraeth gan Owain Williams</i>
XIV	1898	26-27	<i>Awdl i William Lloyd Caldecot Llanbedrog gan Dafydd Jones, Treborth</i>
XXIV	1902	51-54	<i>Llythyrau Gwilym Hiraethog at Eben Fardd</i>

<u>Geninen (Y)</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
I	1883	68-70	<i>Hanes y Waunfawr, a'i Hynodion Mewnol a Chylchynol gan Owen Williams</i>
I	1883	155	<i>Gwehelyth Prifon – amrywiol achau</i>
I	1883	233	<i>Gwehelyth Prifon – amrywiol achau</i>
I	1883	315	<i>Gwehelyth Prifon– amrywiol achau</i>
II	1884	153-154	<i>Gwehelyth Prifon – amrywiol achau</i>
III	1885	157-158	<i>Gwehelyth Prifon – amrywiol achau</i>
V	1887	283	<i>Gwehelyth Prifon – amrywiol achau</i>
VI	1888	201-202	<i>Lloffion o Hen Almanaciau</i>
VI	1888	69-70	<i>Awdl Anghyhoeddedig gan Eben Fardd (heb destun)</i>

<u>Geninen (Y) – parhad</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
XVII	1899	71	<i>Gweddillion Llenyddol – Englynion gan Rys Morgan o Almanac John Jones, Philomath</i>
XVIII	1900	143	<i>Gweddillion Llenyddol – Cywydd i Beuno Sant, yn Nghelynog gan Syr John Leiaf</i>
XIX	1901	87	Llythyrau gan Nicander at Ellis Owen
XXV	1907	215	<i>Gwehelyth Prifon – Achau Iestyn ab Gwrgan</i>

<u>Golud yr Oes</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
I	1862	16-17	<i>Cywydd Marwnad Rhys Jones o'r Blaenau gan Dewi Wyn o Eifion</i>
I	1862	91	Amrywiol gerddi gan Eben Fardd, Owen Gruffydd, Dafydd Ddu Eryri, Siôn Lleyrn a Richard Philip
I	1862	118-123	<i>Ystyriaethau ar Brydyddiaeth Gymraeg a'i Pherthynasau gan Peblig (Dafydd Ddu Eryri)</i>
I	1862	133-134	<i>Cywydd Marwnad Sion Wilym gan Twm Pedrog</i>
I	1863	195-196	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
I	1863	245-246	<i>Athrawiaeth y Gorphwysiadau gan Dafydd Ddu Eryri</i>
I	1863	300-301	Llythyr Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn

Golud yr Oes – parhad

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
I	1863	512-513	Llythyr Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	13	<i>Englynion ar Gymeryd Cadair y Gwyneddigion</i> gan Twm Pedrog
II	1864	29	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	49-50	<i>Cywydd y Thws Arian</i> gan Edward Charles
II	1864	76-77	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Richard Roberts y Telynor
II	1864	118	Llythyr gan Robert ap Gwilym Ddu at Siôn Lleyrn
II	1864	160-161	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	179	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	180	<i>Mangofion am Chwilog, Eifionydd</i> gan Cybi o Eifion (Eben Fardd)
II	1864	222-223	Llythyr gan Gutyn Peris at Siôn Lleyrn
II	1864	224	<i>Penillion i Anerch Cymdeithas y Cymreigyddion yn Llundain</i> gan Edward Charles
II	1864	251	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	271-272	Llythyr gan Thomas Roberts at Siôn Lleyrn
II	1864	290-291	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	341	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn
II	1864	367-368	Llythyr gan Dafydd Ddu Eryri at Siôn Lleyrn

<u>Haul (Yr)</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
X	1869	367	<i>Congl y Cywrain – Cywydd I ofyn llwyth o Lechau o Chwarel y Cae Hir, gan Rowland Thomas, L.L.D., Deon Bangor gan Siôn Tudur</i>
XIV	1870	26-27	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at Thomas Richards</i>
XIV	1870	91-92	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at Thomas Richards</i>
XIV	1870	157-158	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at John Hamer</i>
XIV	1870	186-187	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at Thomas Richards</i>
XIV	1870	219-220	<i>Congl y Cywrain – Llythyrau gan John Blackwell (Alun) at John Hamer a Lewis Richards</i>
XIV	1870	283-285	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at Lewis Richards</i>
XIV	1870	343	<i>Rhestr – Afonydd Sir Gaernarfon</i>
XIV	1870	375	<i>Congl y Cywrain – Llythyrau gan John Blackwell (Alun) at Thomas a Lewis Richards</i>
XV	1871	113-114	<i>Congl y Cywrain – Llythyr gan John Blackwell (Alun) at Lewis Richards</i>
XV	1871	392-393	<i>Congl y Cywrain – Llythyrau gan John Blackwell (Alun) at Thomas a Lewis Richards</i>

<u>Haul (Yr) - parhad</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
108	1893	371-372	<i>Hen Garolau</i> gan Hugh Jones, Maesglasau; Edward Samuel a William Hope

<u>Llais Rhyddid</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
XIII	1914	41-48	Llythyrau ynglŷn ag Abraham Williams o'r Cwmglas
XIII	1914	110-116	<i>Llythyrau Hen Lenorion</i> – Gutyn Peris at Robert ap Gwilym Ddu, Siôn Dwyfor at Gwyndaf Eryri
XIII	1914	167-177	Llythyrau am Goronwy Owen
XIV	1915	111	<i>Yr Allor Deuhuaidd</i> gan R G Thomas
XV	1916	148	<i>Englyn i Englyn</i> gan R G Thomas
XVI	1917	133-135	Llythyr gan Meiriadog ynghylch Dic Aberdaron
XVII	1918	38-42	Hen Gywyddau
XVII	1918	131-134	<i>Hen Lythyr Dyddorol</i> – John Jones, Pen-y-bont, Llangian at William Jones, Brynhyfryd, Pwllheli
XVIII	1919	17-21	<i>Hen Lythyrau</i> – llythyrau Nicander at Eben Fardd
XVIII	1919	65-69	<i>Hen Lythyrau</i> – llythyr gan Nicander at Eben Fardd a llythyr gan Gwallter Mechain at Dewi Wyn o Eifion

<u>Llais Rhyddid - parhad</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
XVIII	1919	166-170	<i>Hen Lythyrau – llythyr dienw at Eben Fardd a llythyrau Nicander at Eben Fardd</i>
XIX	1920	22-25	<i>Hen Lythyrau</i>
XIX	1920	76-83	<i>Hen Lythyrau – llythyrau Nicander at Eben Fardd</i>

<u>Taliesin</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
II	1860-61	101-106	<i>Awdl y Gwanwyn gan Dafydd ab Edmwnd</i>

<u>Traethodydd (Y)</u>			
Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
LXI	1906	309-317	<i>Llythyrau Llenorion (gyda nodiadau gan Myrddin Fardd) John Thomas at Hugh ap Hugh, Gutyn Peris at Robert ab Gwilym Ddu, Eryron Gwyllt Walia at Dewi Wyn o Eifion, Dafydd Jones (Caernarfon) at Eben Fardd</i>
LXV	1910	363-371	<i>Beirniadaethau Llenyddol Eben Fardd</i>

Traethodydd (Y) - parhad

Rhifyn	Dyddiad	Rhifau Tudalennau	Teitl y Cyfraniad
LXV	1910	410-418	<i>Beirniadaethau Llenyddol Eben Fardd</i>
LXVIII	1913	187-188	<i>Llythyrau Llenorion – Eben Fardd at Siôn Wyn o Eifion</i>
LXVIII	1913	318-319	<i>Llythyrau Llenorion – Dr Lewis Edwards at dderbynnnydd anhysbys</i>

LLYFRYDDIAETH

LLYFRAU

Y Bywgraffiadur Cymreig, 1953, (Golygyddion Syr John Edward Lloyd ac R T Jenkins), Llundain.

Cof Cenedl III –Ysgrifau ar Hanes Cymru, 1988, (Gol. Geraint H Jenkins), Llandysul.

Edwards, Owen M (1904) Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy, Llanuwchllyn.

Evans, D Silvan (1843) Blodau Ieuainc, Aberystwyth.

Evans, Robert (Cybi) (1923) Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon, Llanybi.

Evans, Robert (Cybi) (1945) John Jones (Myrddin Fardd) 1837-1921, Llandysul.

George, William (1934) Richard Lloyd Cricieth, Caerdydd.

Gwaith Barddonol Owain Lleyn, 1909, (Golygydd Myrddin Fardd), Pwllheli.

Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, 1968, (Gol. Dyfnallt Morgan), Llandybie.

Jones, J T (Y Parchedig) (1867) Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru, Aberdar.

Jones, John (Myrddin Fardd) (1883) Adgof Uwch Anghof, Pen-y-groes.

Jones, John (Myrddin Fardd) (1862) Awdl Mynyddoedd Eryri. Argraffwyd gan Robert Isaac Jones, (Alltud Eifion), Tremadog.

Jones John (Myrddin Fardd) (1905) Cynfeirdd Lleyn 1500-1800, Pwllheli.

Jones, John (Myrddin Fardd) (1913) Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon, Caernarfon.

Jones, John (Myrddin Fardd) (1922) Enwogion Sir Gaernarfon, s.l.

Jones, John (Myrddin Fardd) (1858) Pryddest yr ‘Olygawd o Ben Careg yr Imbill’, ger Pwllheli. Argraffwyd gan J Owen, Caernarfon.

Jones, Lisi (1984) Dwy Aelwyd, Pen-y-groes.

Jones, Owen (1870) Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru, Lerpwl.

The Life and Opinions of Robert Roberts, 1923, (Gol J H Davies), Caerdydd.

Parry, Thomas (1974) Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900, Caerdydd.

Williams, E Namora (1985) Carneddog a'i Deulu, Dinbych.

Williams, J O (Pedrog) (1932) Stori 'Mywyd, Lerpwl.

DARLITHOEDD/ANERCHIADAU

Williams, Dewi 'Llawn Gofiannwr Llŷn ac Eifionydd' – John Jones Myrddin Fardd – darlith a draddodwyd gerbron Cymdeithas Bob Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, Awst 1987.

Williams, Griffith John Y Wasg Gymraeg Ddoe a Heddiw, Y Bala, 1970, Anerchiad i Gymdeithas y Cymmrodorion (Caerdydd), 1953.

CYFNODOLION/CYLCHGRONAU

Brython (Y)

Y Brython 3, 1858

Y Brython 9, 1858

Y Brython 9, 1859 (9 oedd y rhif a nodwyd)

Y Brython 21, 1860

Y Brython 22, 1860

Y Brython 23, 1860

Y Brython 24, 1860

Y Brython 25, 1860

Y Brython 27, 1861

Y Brython 28, 1861

Y Brython 29, 1861

Y Brython 30, 1861

Y Brython 31, 1861

Y Brython 32, 1861

Y Brython 33, 1861

Y Brython 34, 1861

Y Brython 35, 1861

Y Brython 36, 1861

Y Brython 37, 1861

Y Brython 38, 1861

Y Brython 39, 1862
Y Brython 41, 1862.

Cymru

Cymru III, 1892
Cymru IV, 1893
Cymru VIII, 1895.

Drysorfa (Y)

Y Drysorfa, Gorffennaf 1858.

Geninen (Y)

Y Geninen Eisteddfodol, Awst 1915
Y Geninen, Hydref 1922.

Golud yr Oes

Golud yr Oes I, 1862
Golud yr Oes I, 1863 (I oedd y rhif a nodwyd)
Golud yr Oes II, 1864.

Haul (Yr)

Yr Haul X, 1866
Yr Haul XI, 1867
Yr Haul XIII, 1869
Yr Haul XIV, 1870
Yr Haul XV, 1871
Yr Haul XXIV, 1922.

Llenor (Y)

Y Llenor, Llyfr II, Ebrill 1895, tt 51-66.

Taliesin

Taliesin, II, MDCCCLX-LXI
Taliesin, Cyfrol 25, Rhagfyr 1972.

Traethodydd (Y)

Y Traethodydd XLI, 1886
Y Traethodydd LXII, 1907
Y Traethodydd LXVI, 1911
Y Traethodydd LXIX, 1914.

Wales

Wales III, 1896.

LLAWYSGRIFAU

Casgliad Archifdy Cyngor Gwynedd, Caernarfon

M/1478/4, XD/36/68/2.

Casgliad Cwrt-mawr, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

400B, 401B, 515B, 573B, 719B, 863B, 892B, 932D, 938C,
956D, 1039B, 1137D, 1174B, 1176B, 1179C, 1180C, 1181B,
1186B, 1187B, 1190C, 1195A, 1210E, 1242E, 1254C, 1291C,
1305B, 1308B, 1322C, 1333C, 5960C.

Casgliad Cyffredinol, Coleg Prifysgol Cymru, Bangor

683, 1234, 5048, 15718.

Casgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

14157B.